

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod Cyffredinol

Blynyddol:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad:

Dydd Mercher 12 Mehefin 2024

Amser:

10.00 y.b.

Man Cyfarfod:

Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y
Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser
cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cyngorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes,

June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,

John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

Brian Angell, Sarah Hattle, Tim Jones,

Naomi Luhde – Thompson, Delyth Lloyd, Swydd Wag.

1. **Cadeirydd**
Ethol Cadeirydd yr Awdurdod tan y cyfarfod blynyddol nesaf.
2. **Is-Gadeirydd**
Ethol Is-Gadeirydd yr Awdurdod tan y cyfarfod blynyddol nesaf.
3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
4. **Diweddariad Corfforaethol**
Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.
5. **Hawli i'r Cyhoedd Holi**
Mae'r Awdurdod wedi neilltuo hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ar wahân i geisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

Rhaid cyflwyno cwestiynau yn ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod.
6. **Datgan Budd**
Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiannau gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.
7. **Aelodaeth o'r Awdurdod** 4 - 5
Cofnodi aelodaeth yr Awdurdod yn ffurfiol. (Copi yma)
8. **Cofnodion yr Awdurdod** 6 - 11
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod yr Awdurdod hwn a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024, ei lofnodi fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn materion yn codi, er gwybodaeth.
9. **Log Gweithredu** 12 - 13
Cyflwyno'r Log Gweithredu er gwybodaeth ac i benderfynu arno. (Copi yma)
10. **Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** 14 - 40
Derbyn adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Copi yma)
11. **Datganiad Cyfrifon 2021/22** 41 - 177
Cyflwyno datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22.
 - a) Cyflwyno Datganiadau Ariannol 2021/22 (Prif Swyddog Cyllid). (Copïau yma)
 - b) Cyflwyno Adroddiad ISA 260 – Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (Archwiliad Cymru). (Copi yma)
 - c) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ar ran yr Awdurdod mewn cysylltiad â chymeradwyo datganiadau ariannol statudol yr Awdurdod (Atodiad 1 o Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru).

12.	Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithio Grwpiau a Chynrychiolaeth Allanol Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)	178 - 181
13.	Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau. (Copi yma)	182 - 184
14.	Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)	185 - 220
15.	Rhaglen Waith Corfforaethol 2023/24 Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)	221 - 266
16.	Strategaeth Garbon Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir. (Copi yma)	267 - 295
17.	Presenoldeb Aelodau Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)	296 - 298
18.	Safonau'r Gymraeg Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)	299 - 312
19.	Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Eryri 2023 Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau. (Copi yma)	313 - 384
20.	Adroddiad Gweithgor Cyflwyno adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024. (Copi yma)	385 - 387
21.	Cyfarfodydd Sefydliadau eraill Derbyn adroddiadau llafar ac ysgrifenedig gan Aelodau ar unrhyw gyfarfodydd diweddar y maent wedi mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.	
22.	Cyflwyno'r cofnodion canlynol er gwybodaeth (1) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024. (Copi yma)	388 - 394
	(2) Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2024. (Copi yma)	395 - 397

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	12 Mehefin 2024
TEITL	AELODAETH O'R AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Prif Weithredwr
PWRPAS	Er gwybodaeth

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, ac mae 9 o'r rhai hyn yn cael eu penodi gan Gyngor Gwynedd, 3 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a 6 gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Aelodaeth fel a ganlyn:-

9 Aelod a benodwyd gan Gyngor Gwynedd

1. Cyngorydd Elwyn Edwards Cyngorydd.ElwynEdwards@eryri.llyw.cymru
2. Cyngorydd Annwen Hughes Cyngorydd.AnnwenHughes@eryri.llyw.cymru
3. Cyngorydd Louise Hughes Cyngorydd.LouiseHughes@eryri.llyw.cymru
4. Cyngorydd June Jones Cyngorydd.JuneJones@eryri.llyw.cymru
5. Cyngorydd Edgar Wyn Owen Cyngorydd.EdgarOwen@eryri.llyw.cymru
6. Cyngorydd Elfed Powell Roberts Cyngorydd.ElfedRoberts@eryri.llyw.cymru
7. Cyngorydd John Pughe Roberts Cyngorydd.JohnPugheRoberts@eryri.llyw.cymru
8. Cyngorydd Meryl Roberts Cyngorydd.MerylRoberts@eryri.llyw.cymru
9. Cyngorydd Einir Wyn Williams Cyngorydd.EinirWynWilliams@eryri.llyw.cymru

3 Aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Conwy

10. Cyngorydd Ifor Glyn Lloyd Cyngorydd.IforGlynLloyd@eryri.llyw.cymru
11. Cyngorydd Jo Nuttall Cyngorydd.JoNuttall@eryri.llyw.cymru
12. Cyngorydd Dilwyn Owain Roberts Cyngorydd.DilwynOwainRoberts@eryri.llyw.cymru

6 Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

13. Mr. Brian Angell Brian.Angell@eryri.llyw.cymru
14. Mrs. Sarah Hattle Sarah.Hattle@eryri.llyw.cymru
15. Mr. Tim Jones Tim.Jones@eryri.llyw.cymru
16. Ms. Naomi Luhde-Thompson Naomi.Luhde-Thompson@eryri.llyw.cymru
17. Ms. Delyth Lloyd Delyth.Lloyd@eryri.llyw.cymru
18. Swydd Wag

Manylion Cyswllt y Wefan

Byddai swyddogion yn ddiolchgar pe gallech roi caniatâd i'ch enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt dewisol, a chyfeiriad e-bost corfforaethol gael eu gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 24 EBRILL 2024**

Mr. Tim Jones (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, June Jones, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng. Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angel, Delyth Lloyd;

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, Nia Murray, Angela Jones, Siwan Lyall, Anwen Gaffey.

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Louise Hughes; Sarah Hattle, Naomi Luhde-Thompson.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y bydd hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach. Yn amodol ar ganlyniad Eitem 16, ni fydd Eitem 17 yn cael ei recordio na'i we-ddarlledu.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- (1) adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfodydd a fynychodd ers i'r Awdurdod gwrdd yn flaenorol:-
 - 16.04.2024 - roedd y Cadeirydd a'r Tîm Rheoli wedi cyfarfod â Victoria Bond-Rees, Cyfarwyddwr Cymru newydd y CLA, lle'r oedd trafodaethau wedi canolbwyntio ar y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.
 - 25.03.2024 – yn dilyn cais, roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod â Mr. Sean Taylor o Zipworld i drafod ei gynlluniau a'i ddyheadau ar gyfer y dyfodol ar gyfer safle Surf Snowdonia a'r unedau gwyliau newydd ym Metws y Coed. Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi bod yn llawn gwybodaeth a nododd effaith economaidd gadarnhaol y busnes ar yr ardal. Roedd wedi dweud yn glir wrth Mr. Taylor na fyddai unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio.
 - 22.03.2024 - roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi mynychu Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru i drafod agweddau o Gynllun Trafnidiaeth Gynaliadwy Gogledd Cymru.
 - 6/7.06.2024 - bydd y Cadeirydd yn mynychu Fforwm Cadeiryddion Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y DU yn Loch Lomond.
- (2) Nododd yr aelodau bod Eryri wedi cael Pasg prysur gyda llawer o'r hen broblemau parcio anghyfreithlon a pheryglus ac ymwelwyr heb gyfarpar ar y mynyddoedd. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r staff ac eraill am reoli'r sefyllfa mor effeithiol. Roedd yn arbennig o braf gweld cymaint o gefnogaeth gan y cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol o ran y modd yr ymdriniwyd â'r materion hyn ac roedd erthygl gadarnhaol hefyd yn North Wales Live ar eu profiad wrth ddefnyddio'r Sherpa.

- (3) diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a fynychodd y Diwrnod Datblygu Aelodau diweddar a oedd wedi bod yn addysgiadol a diddorol, a diolchodd hefyd i'r staff am y trefniadau.
- (4) diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd wedi mynychu'r tri sesiwn hyfforddi, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer holl aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru. Y pynciau dan sylw oedd Llywodraethu, Amrywiaeth, a'r argyfyngau Natur a Charbon a oedd i gyd yn berthnasol iawn, ac roedd y Cadeirydd yn gobeithio bod yr Aelodau wedi teimlo bod y sesiynau'n ddefnyddiol. Cadarnhaodd y byddai sesiynau pellach yn ystod y flwyddyn i ddod ac anogwyd yr Aelodau i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r sesiynau hyn yn eu darparu ar gyfer dysgu a thrafod materion gyda chydweithwyr.
- (5) gyda thristwch mynegodd y Cadeirydd, ynghyd â chyd-feirniad arall, eu bod wedi cytuno i beidio â dyfarnu Ysgoloriaeth Geraint George eleni gan na chyrhaeddwyd y safon. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau annog cyfranogiad os oeddent yn gwybod am unrhyw ymgeiswyr ar gyfer y dyfodol.
- (6) roedd y broses o benodi Aelod i swydd wag yr Awdurdod ar ran Llywodraeth Cymru wedi'i dechrau, a phe bai'r Aelodau'n gwybod am unrhyw ymgeiswyr addas dylent eu hannog i wneud cais drwy'r broses penodiadau cyhoeddus pan gyhoeddir yr hysbyseb.
- (7) cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr Awdurdod bellach wedi derbyn llythyr ymddiswyddiad ffurfiol y Prif Weithredwr yn cadarnhau y byddai'n gadael yr Awdurdod ar 30 Mehefin 2024. Dywedodd y Cadeirydd y bydd gan yr Aelodau ddigon o gyfle i ddiolch i'r Prif Weithredwr am ei gyfnod hir o wasanaeth gwerthfawr, a'i bod yn bwysig yn awr sicrhau bod ei etifeddiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella trwy fynd ati i recriwtio olynnydd cyn gynted â phosibl.

2. Diweddariad Corfforaethol

Derbyniwyd – Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y canlynol:-

- cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr ymateb i'r ymgynghoriad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i gyflwyno ar y cyd gan yr wyth Tirwedd Dynodedig yng Nghymru.
- bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn camu i'r adwy i ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru dros y ddwy flynedd nesaf, a bydd Eryri wedyn yn cymryd yr awenau yn 2026.
- bydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn derbyn diweddariad anffurfiol ar ddiwedd cyfarfod heddiw gyda'r bwriad o wahodd yr holl Aelodau i fynychu cyfarfod nesaf y Bwrdd ar ddiwedd cyfarfod blynyddol yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024.
- dywedodd y Prif Weithredwr fod adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi y diwrnod canlynol ac y byddai'n cael ei gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024 a bydd yr Aelodau'n gallu herio ei ganfyddiadau bryd hynny.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd Cyfrifon Terfynol 2021/22 yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod yn dilyn oedi a oedd wedi codi yn sgil y prisiad asedau diweddar. Cynghorodd y Prif Swyddog Cyllid fod Archwilio Cymru yn gwbl ymwybodol o hyn ac yn deall bod yr Awdurdod wedi cael anawsterau.
- atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod y cyllid ar gyfer Ysgoloriaeth Geraint George i fod i ddod i ben yn y flwyddyn neu ddwy nesaf a'i fod yn fater y gallai'r Awdurdod ddymuno ei drafod ymhellach.

3. Hawl i'r Cyhoedd Holi

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Datganodd Mr. G. Iwan Jones a Mr. Jonathan Cawley ddiddordeb yn eitemau 16 ac 17 ar y Rhaglen ac aethant allan o'r cyfarfod tra roedd y materion hyn yn cael eu trafod.

5 **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror a 6 Mawrth 2024 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnodion cywir.

6. **Materion er gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

Cofnodion yr Awdurdod 7 Chwefror 2024

Eitem 3 (4) – Diweddariad Corfforaethol

- mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Prif Weithredwr fod rhai mân faterion technegol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy o hyd yn yr ystafell gynadledda sydd wedi cael ei huwchraddio, ond yn gyffredinol, roedd acwsteg yr ystafell wedi gwella'n sylweddol.

7. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chamau i'w gweithredu.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu.

8. **(Drafft) Rhaglen Waith Gorfforaethol 2024/25**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i Aelodau drafod a mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) fel dogfen waith ar gyfer 2024/25.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) a rhoddodd fanylion pellach am fformat yr adroddiad. Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r ychwanegiad o 'CW6 – Cydbwysu Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod' a oedd yn cynnwys 3 cham gweithredu penodol.

Yn codi wedi hynny, gofynnodd yr Aelodau am y gwelliannau a ganlyn:-

- MPA 2.2 – Ymateb i Heriau Newid Hinsawdd (tudalen 17)
I gael gwared ar y cromfachau a'i gynnwys yn yr adroddiad Saesneg. Hefyd, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Is-grŵp Asedau yn cyfarfod ym mis Gorffennaf 2024.
- CC 2.2 – Cefnogi Pobl Ifanc (tudalen 24)
Dylai'r amserlen ar gyfer cwblhau ddarllen Chwefror 2025 yn yr adroddiadau Cymraeg a Saesneg.
- CC1, 2, 4 – Cymunedau Cadarn (tudalen 28)
Nododd yr Aelodau fod yr Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r holl gymdeithasau tai, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- CW 2.1 – Datblygu a Hyrwyddo Arfer Gorau (tudalen 31)
Dylai'r amserlen ar gyfer cwblhau ddarllen Mawrth 2025 yn yr Adroddiadau Cymraeg a Saesneg.

PENDERFYNWYD

1. nodi'r adroddiad.

2. yn ddarostyngedig i'r newidiadau a amlinellwyd, mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) yn ffurfiol fel dogfen waith ar gyfer 2024-25.

9. **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

10. **Datganiad Sefyllfa Hamdden Awyr Agored 2024-2025**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Llesiant i gyflwyno'r ddogfen derfynol i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau yr adroddiad yn absenoldeb y Rheolwr Mynediad a Lles, nad oedd wedi gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod yr adroddiad, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, bellach wedi'i ail-frandio fel Datganiad Sefyllfa yn hytrach na Strategaeth. Nododd yr Aelodau hefyd fod y ddogfen yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r Awdurdod weithio gyda'i bartneriaid a rheoli newidiadau yn y gyfraith yn y dyfodol megis mynediad at ddŵr, hawliau tramwy cyhoeddus ac ati. Dywedodd y Rheolwr Partneriaethau fod y Datganiad Sefyllfa yn is-ddogfen o Gynllun Eryri a bydd ar gael ar wefan yr Awdurdod fel dogfen gyfeirio ddefnyddiol ar gyfer staff yr Awdurdod a'r cyhoedd.

Yn codi wedi hynny, croesawodd yr Aelodau'r adroddiad a'r Datganiad Sefyllfa Hamdden Awyr Agored sy'n dod â phopeth at ei gilydd ac yn darparu'r negeseuon allweddol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y Datganiad Sefyllfa Hamdden Awyr Agored 2024-25 (Atodiad 1) fel y'i cyflwynwyd.

11. Cynadleddau a Seminarau
(1) **Cynhadledd y Parciau Cenedlaethol 2024 : 75 mlynedd o Dirweddau i Bawb**

Cyflwynwyd – Rhaglen ddrafft y Gynhadledd Parciau Cenedlaethol a gynhelir gan Barc Cenedlaethol Northumberland yng Ngwesty Crowne Plaza, Newcastle: Dydd Mawrth 24 ain i Ddydd Iau 26 ain Medi 2024.

Adroddwyd – Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn arferol anfon pedwar cynrychiolydd, gan gynnwys y Cadeirydd, i'r Gynhadledd.

**PENDERFYNWYD anfon pedwar cynrychiolydd i'r Gynhadledd, gan gynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Prif Weithredwr. Enwebwyd yr aelodau canlynol hefyd i fod yn bresennol:-
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd neu Delyth Lloyd, yn dibynnu ar eu hargaeledd.
(Aelod Wrth Gefn – Cynghorydd Meryl Roberts).**

(2) **Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru 2024**

Derbyniwyd – Nodyn i'w roi yn y dyddiadur a gwahoddiad i bob aelod fynychu Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru 2024, a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 6 / 7 Tachwedd 2024 yng Ngwesty'r Giltar, Dinbych-y-pysgod.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

12. **Adroddiadau Gweithgorau Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 24 Ionawr a 6 Mawrth 2024.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.

13. **Calendr Cyfarfodydd**

Cyflwynwyd – Amserlen o gyfarfodydd am y cyfnod 2024/2025.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Calendr Cyfarfodydd a nododd yr Aelodau pa mor ddefnyddiol oedd cael y dyddiadau ymhell ymlaen llaw.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r amserlen ar gyfer 2024/25 fel y'i cyflwynwyd.

14. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Cyflwynwyd – Adroddiadau llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau yr oedd Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Cyng. Elfed Powell Roberts - Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd

- Roedd safle Trawsfynydd bellach yn cael ei reoli gan y Gwasanaethau Adfer Niwclear.
- roedd y ffocws wedi symud i safle Niwclear Yr Wylfa, ac roedd yn teimlo bod safle Trawsfynydd bellach yn eilradd.
- o ran datgomisiynu, roedd y toeau ar safle Trawsfynydd i fod i gael eu symud yn fuan.
- mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y bont droed.

PENDERFYNWYD diolch i'r Cyngorydd Roberts a nodi'r adroddiad.

15. **Cofnodion**

Cyflwynwyd - Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023, er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.

16. **Strwythur Tîm Rheoli Dros Dro – Addasu i Opsiwn C**

Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau.
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i eithrio'r adroddiad dilynol.

PENDERFYNWYD eithrio'r adroddiad “Strwythur Tîm Rheoli Dros Dro – Addasu i Opsiwn C” rhag cael ei ddatgelu am y rhesymau a amlinellwyd.

17. **Strwythur Tîm Rheoli Dros Dro – Addasu i Opsiwn C**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i roi trefniadau i'r Awdurdod yr argymhellir eu rhoi ar waith ar gyfer strwythur dros dro ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli (Opsiw C) i hwyluso'r cyfnod pontio i strwythur parhaol ar ôl penodi'r Prif Weithredwr newydd. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i fabwysiadu a gweithredu Opsiwn C yn ffurfiol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir yn fanwl.

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir am eu cydweithrediad.
- rhoddwyd y dasg i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol o archwilio'r broses dendro (GwerthwchiGymru) a pharatoi disgrifiadau swydd drafft ar gyfer swyddi'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr, cyn cyfarfod cyntaf y Panel Recriwtio.
- Cytunodd yr aelodau y dylai unrhyw ailstrwythuro fod yn gyfrifoldeb y Prif Weithredwr newydd.

PENDERFYNWYD

1. **cymeradwyo mabwysiadu a gweithredu Opsiwn C yn ffurfiol.**
2. **cytuno ar ddau ddyddiad cyfarfod yn olynol i'r Pennaeth AD gyfarfod â'r Panel Recriwtio Aelodau a ddewiswyd er mwyn cael mewnbwn a chytuno ar y camau nesaf i ganiatáu ar gyfer gweithredu Opsiwn C yn llwyddiannus.**
3. **cefnogi creu dwy swydd dros dro, sef Prif Weithredwr a Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.**
4. **penodi'r Prif Weithredwr Dros Dro ar bwynt cyflog isaf Graddfa'r Prif Weithredwr sef £87,717.**
5. **penodi'r Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro ar bwynt cyflog rhwng pwynt cyflog Uchaf y Cyfarwyddwr a phwynt isaf Tâl y Prif Weithredwr sef £79,911. (Mae hwn yn ffigwr amcangyfrifedig ar hyn o bryd gan nad yw'r pwynt cyflog ar hyn o bryd yn rhan o'n Strwythur Cyflogau Uwch Swyddogion).**
6. **rheoli pob cytundeb ffurfiol, lle bo angen, o ran newidiadau parhaol mewn contractau cyflogaeth drwy gymorth cyfreithiol allanol.**
7. **mae swyddi'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro yn swyddi sy'n benodol i ddigwyddiad.**
8. **penodi GIJ i swydd y Prif Weithredwr Dros Dro.**
9. **penodi JC i swydd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.**
10. **paratoi'r pecyn recriwtio ar unwaith ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.**
11. **agor y broses recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr parhaol yn swyddogol a hynny heb fod yn hwyrach na 1 Gorffennaf 2024.**
12. **ar ddyddiad dechrau'r Prif Weithredwr newydd parhaol yn ei swydd, bydd GIJ yn cymryd rôl y Dirprwy Brif Weithredwr ar unwaith. Byddai hyn yn dychwelyd JC yn awtomatig i'w swydd barhaol fel Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, oni bai ei fod wedi gwneud cais ac wedi llwyddo i gael swydd Prif Weithredwr parhaol, ac os felly bydd proses recriwtio yn dechrau i recriwtio Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yn ei le.**
13. **daw swydd y Dirprwy Brif Weithredwr i ben ar 31 Gorffennaf 2026.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
16. Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr	- bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.	Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno.	NM	Wedi ei nodi ac yn monitro'r sefyllfa.	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET


CYFARFOD YR AWDURDOD – 07.02.2024

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
11. Plas Tan y Bwlch	<ul style="list-style-type: none"> - gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl ar gyfer rheolaeth weithredol / datblygu Plas Tan y Bwlch. - ar yr un pryd, cynnig Plas Tan y Bwlch ar y farchnad agored i ddarpar brynwyr. - mynd ati i hyrwyddo Plas Tan y Bwlch fel busnes gweithredol i unrhyw ddarparartner/brynwr. - caniatáu cyfnod o hyd at 6 mis i geisio gwarediad partner neu farchnad agored. - y Tîm Rheoli a Bwrdd y Plas i fonitro cynnydd ac adrodd yn ôl i'r aelodau yn ôl yr angen, ond erbyn mis Medi 2024 fan bellaf, gydag argymhellion tymor hir yn seiliedig ar ganlyniad unrhyw drafodaethau. - defnyddio'r gronfa wrth gefn a nodwyd i bontio unrhyw bwysau/anghenion ariannol. 	I symud ymlaen fel yr amlinellwyd	PW/GIJ	Mae Carter Jonas yn y broses o gael ei benodi'n asiant gan y Pennaeth Eiddo mewn cysylltiad â gwerthiant posibl neu brydles hirdymor. Mae'r Pennaeth Eiddo hefyd yn y broses o geisio dyfynbrisiau cystadleuol gyda golwg ar benodi cyfreithwyr i baratoi Pecyn Gwybodaeth ar yr eiddo. Bydd adroddiad diweddarau pellach yn cael ei ddarparu i gyfarfod o Fwrdd Plas Tan y Bwlch.	NA

Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ebrill 2024



Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn dan adran 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau ohonynt, gan gynnwys o ran sut y gallant wella'r modd y maent yn defnyddio adnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, gan gynnwys cyrff y GIG, ac mae ganddo'r pwerau i adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau a'r modd y gallent eu defnyddio'n well.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y Senedd a'r llywodraeth.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sydd ill dau'n endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Gallwch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych yn ei aildefnyddio, rhaid i'ch aildefnydd fod yn gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi enwi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/ neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Mae'r model llywodraethu ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn darparu fframwaith eglur i gyflawni eu swyddogaethau allweddol, ond mae gwendidau yn y modd y caiff ei roi ar waith yn creu risg i lywodraethu da.

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham	4
Yr hyn a ganfuom	6
Ffeithiau allweddol am Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol	6
Beth yw 'llywodraethu da'?	8
Argymhellion	11

Adroddiad manwl

Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fodel llywodraethu eglur	13
Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cydnabod gwerth cydweithio ond mae llywodraethu trwy strwythurau partneriaethau cymhleth yn dwyn heriau	16
Mae gwasanaethu gofynion llywodraethu'n creu risg o roi pwysau ar gapasiti swyddogion	17
Ceir risg bod gwendidau mewn prosesau i ddethol aelodau etholedig yn tanseilio llywodraethu da	18
Mae gan Lywodraeth Cymru broses gymharol drylwyr ar gyfer penodi aelodau, ond cyfyngedig yw'r cymorth parhaus i aelodau a benodwyd	20
Mae'n aneglur i ba raddau y mae aelodau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu cyfraniad at lywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol	22
Mae gwendidau o ran sut y mae'r model llywodraethu'n cael ei roi ar waith yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd	23

Atodiadau

1 Cwmpas, ymagwedd a dulliau'r archwiliad	25
---	----


Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Fel rhan o raglen astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022-23, fe wnaethom adolygu'r trefniadau llywodraethu ar draws Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) yng Nghymru. Fe wnaeth ein hadolygiad ystyried pum elfen allweddol:
 - model a strwythurau llywodraethu;
 - swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol o fewn y strwythurau hyn;
 - diwylliant llywodraethu;
 - seilwaith i gefnogi llywodraethu effeithiol; a
 - trefniadau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd llywodraethu.
- 2 Mae'r adroddiad hwn yn cau pen y mwdwl ar ran gyntaf adolygiad dau gam i ystyried y trefniadau llywodraethu ar draws Awdurdodau Dibenion Arbennig yng Nghymru. Ceir dwy garfan o Awdurdodau Dibenion Arbennig yn sector llywodraeth leol Cymru, sef y tri APC a'r tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA). Mae ail gam yr adolygiad hwn – sy'n bwrw golwg ar y trefniadau llywodraethu ar draws y tri ATA – wedi'i gynnwys fel rhan o'n rhaglen waith ar gyfer 2023-24.
- 3 Fe wnaethom archwilio trefniadau llywodraethu APCau am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae themâu allweddol a adnabwyd trwy ein hadolygiadau mewn APCau dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys cyfleoedd i gryfhau trefniadau llywodraethu. Er enghraifft, mewn adolygiadau diweddar rydym wedi amlygu:
 - capasiti swyddogion sydd dan bwysau;
 - tensiwn rhwng blaenoriaethau allweddol wrth gyflawni eu swyddogaethau;
 - dibyniaeth ar gyllid grant byrdymor;
 - sefyllfaoedd ariannol sy'n gryn her a defnydd o gronfeydd wrth gefn; ac
 - anawsterau gyda rheoli perfformiad partneriaethau.

- 4 Yn ail, mae'r holl APCau yng Nghymru wedi bod yn gweithredu â chyllidebau sy'n lleihau dros y 15 mlynedd ddiwethaf. Dangosir hyn orau yn y newidiadau i'w gwariant alldro refeniw rhwng 2008-09 a 2022-23. Er enghraifft, mewn termau real, roedd cyfanswm y gwariant alldro refeniw¹ ar gyfer y tri APC ar y cyd yn 2022-23 26% yn is nag oedd yn 2008-09. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos y gwahaniaeth ar draws y tri APC. Mae'r amgylchedd gweithredu hwn sy'n her yn gwneud llywodraethu da'n bwysicach byth i reoli'r gostyngiadau yn y cyllid mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.

Arddangosyn 1: gwariant alldro refeniw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol mewn termau real rhwng 2008-09 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o [Wariant alldro refeniw, yn ôl awdurdod \(llyw. cymru\)](#), wedi'i addasu yn unol â [Datchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023

- 5 Yn drydydd, rydym wedi amlygu materion llywodraethu sylweddol yn APC Bannau Brycheiniog dros y blynyddoedd diwethaf.² Gallai'r materion hyn fod yn rhannol gysylltiedig â'r model llywodraethu ehangach.

1 Costau rhedeg gwasanaethau awdurdod lleol megis staffio, gwresogi, goleuadau a glanhau, ynghyd â'r gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yn y flwyddyn yw gwariant refeniw.

2 Archwilio Cymru, [Cyflawni'r Rhaglen Newid](#), Chwefror 2021

- 6 Mewn cyd-destun ehangach, mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu wedi cael eu hamlygu mewn parciau cenedlaethol yn Lloegr hefyd. Er enghraifft, canfu'r adroddiad Landscapes Review³ heriau a oedd yn ymwneud â maint, cyfansoddiad a diben aelodaeth APCau, yn ogystal ag mewn deddfwriaeth a chyllid. Fe wnaeth yr adolygiad gyfres o argymhellion i Lywodraeth y DU, a dderbyniwyd yn rhannol.⁴

Yr hyn a ganfuom

- 7 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A oes gan awdurdodau lleol dibenion arbennig yng Nghymru drefniadau llywodraethu effeithiol sy'n ategu deilliannau da ar gyfer dinasyddion?
- 8 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae'r model llywodraethu ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn darparu fframwaith eglur i gyflawni eu swyddogaethau allweddol, ond mae gwendidau yn y modd y caiff ei roi ar waith yn creu risg i lywodraethu da.

Ffeithiau allweddol am Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol


- 9 Ardaloedd o dir sydd wedi'u dynodi'n dirweddau gwarchoddedig oherwydd eu Nodweddion Arbennig yw parciau cenedlaethol.
- 10 Mae gan yr holl barciau cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban restr wedi'i diffinio'n glir o Nodweddion Arbennig. Mae'r rhain yn nodi beth sy'n gwneud yr ardal yn arbennig ac unigryw. Mae'r cyfuniad o'r Nodweddion Arbennig hyn yn ganolog i ddynodiad yr ardal yn barc cenedlaethol.
- 11 Ledled y DU ceir pymtheg o barciau cenedlaethol, y mae tri ohonynt yng Nghymru – Bannau Brycheiniog, Eryri ac Arfordir Penfro (**Arddangosyn 2**).
- 12 Yn ei Rhaglen Lywodraethu⁵, mae Llywodraeth Cymru'n nodi ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd, yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yng ngogledd ddwyrain Cymru. Ar adeg llunio ein hadroddiad, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi comisiwn i Cyfoeth Naturiol Cymru werthuso'r achos dros y dynodiad ac roedd cyfres o ymgynghoriadau ar y gweill.

3 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), [Landscapes review: National Parks and AONBs](#), Medi 2019

4 DEFRA, [Landscapes review: government response](#), Ionawr 2022

5 Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad](#), Rhagfyr 2021

Arddangosyn 2: parciau cenedlaethol Cymru



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 13 Mae'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru'n gorchuddio arwynebedd o 4,122 o gilometrau sgwâr. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu 20% o arwynebedd tir Cymru. Dynodwyd Eryri ym 1951, yna Arfordir Penfro ym 1952 a Bannau Brycheiniog ym 1957.⁶ Mae'r rhan fwyaf o'r tir o fewn parciau cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat.
- 14 Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddau ddiben dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf):
 - gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyll a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal; a
 - hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau Nodweddion Arbennig y parc cenedlaethol.

- 15 Mae cysyniad a elwir yn Egwyddor Sandford yn gorchymyn, lle ceir gwrthdaro rhwng y ddau ddiben hyn a lle na ellir datrys y gwrthdaro trwy reolaeth, mai'r egwyddor gyntaf sydd drechaf. Yn ychwanegol at eu dau ddiben statudol, mae dyletswydd ar APCau i gydweithredu gyda chyrrff cyhoeddus eraill yn lleol i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol heb ysgwyddo gwariant sylweddol. O dan Adran 62 y Ddeddf, rhaid i bartneriaid fel awdurdodau unedig roi ystyriaeth ddyladwy i ddibenion yr APCau yn eu gwaith hwythau.
- 16 Er bod eu dibenion statudol a'u dyletswydd dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn llywio llawer o waith APCau, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'u rhwymedigaethau dan ofynion deddfwriaethol eraill, megis y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cyfrifoldebau allweddol APCau yn cynnwys:
- creu cynllun rheoli'r parc cenedlaethol;
 - cynnal swyddogaethau awdurdod cynllunio lleol o fewn y parc cenedlaethol; a
 - gweithredu i gyflawni'r ddau ddiben a'r ddyletswydd – e.e. trwy hyrwyddo cyfleoedd i bobl gael mynediad at yr ardal a'i mwynhau a gwarchod y nodweddion sy'n gwneud yr ardal yn unigryw ac arbennig.
- 17 Mae cael eu llywodraethu gan awdurdod annibynnol yn gwahaniaethu parciau cenedlaethol oddi wrth dirweddau dynodedig eraill, megis Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae gan yr ardaloedd hyn drefniadau diogelu amgylcheddol tebyg ond nid oes gan y sefydliadau sy'n eu rheoli swyddogaethau tebyg, megis swyddogaethau cynllunio, a gedwir gan yr awdurdodau lleol perthnasol. Mae pum AHNE yng Nghymru.⁷

Beth yw 'llywodraethu da'?

- 18 Mae angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus gael eu llywodraethu mewn modd sy'n adlewyrchu'r cyhoedd a'r amgylchedd y maent yn eu gwasanaethu. I gefnogi hyn, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifwyr (IFAC) wedi diffinio llywodraethu da yn y sector cyhoeddus (**Arddangosyn 3**).

⁷ Sef Arfordir Ynys Môn, Penrhyn Gŵyr, Pen Llŷn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Gwy. Mae Dyffryn Gwy'n gorchuddio ardal yng Nghymru a Lloegr.

Arddangosyn 3: diffiniad o lywodraethu da

Y trefniadau a roddir ar waith i sicrhau bod y deilliannau bwriadedig ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni. I gyflawni llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, rhaid i gyrff llywodraethu ac unigolion sy'n gweithio i endidau'r sector cyhoeddus geisio cyflawni amcanion eu hendid gan weithredu er budd y cyhoedd bob amser. Mae gweithredu er budd y cyhoedd yn awgrymu rhoi'r brif ystyriaeth i'r manteision i gymdeithas, a ddylai arwain at ddeilliannau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Ffynhonnell: CIPFA/IFAC

- 19 I wreiddio'r diffiniad hwn, mae wedi cael ei ddatblygu ymhellach yn saith egwyddor (**Arddangosyn 4**).

Arddangosyn 4: saith egwyddor llywodraethu da



Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.



Bod yn agored a sicrhau ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.



Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.



Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig yn y ffordd orau.



Datblygu capasiti, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddi.



Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.



Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio, i gyflawni atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA/IFAC

Argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn. Rydym yn disgwyl i APCau a Llywodraeth Cymru dderbyn yr adroddiad hwn yn ffurfiol, ystyried ei ganfyddiadau, a monitro ymateb eu priod APC i'n hargymhellion.

Arddangosyn 5: argymhellion

Argymhellion

Cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl

A1 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y cymorth a'r canllawiau parhaus a ddarperir i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod APCau a Llywodraeth Cymru'n cydweithio er mwyn:

- cytuno ar y cymorth a'r canllawiau a fydd yn cael eu rhoi i aelodau o APCau;
- cytuno pa elfennau o'r cymorth hwn a'r canllawiau hyn fydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a pharai y bydd APCau yn gyfrifol amdanynt; a
- chyfleu hyn yn eglur i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Argymhellion

Sicrhau bod enwebiadau ar gyfer aelodau'n cefnogi llywodraethu da

- A2 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut y mae aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau. Mae hefyd yn amlygu diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau o APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol. I helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod APCau yn gweithio gyda CLILC a Llywodraeth Cymru i:
- adolygu pa un a yw'r protocol ar gyfer enwebiadau'n dal i fod yn addas ar gyfer y diben;
 - codi ymwybyddiaeth o'r protocol a sut y gall gefnogi enwebiadau; a
 - hybu ei ddefnydd ymhlith awdurdodau lleol perthnasol.

Gwella atebolrwydd ar gyfer aelodau

- A3 I ddarparu sicrwydd ynghylch cyfraniad aelodau at lywodraethu APCau, ac i helpu i oleuo'r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygiad yn y dyfodol, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, APCau ac awdurdodau lleol sy'n rhan ohonynt yn cydweithio i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer pob aelod o APCau sydd:
- yn gwerthuso eu cyfraniad at yr APC; ac
 - yn gallu cael ei ddefnyddio i dargedu cymorth a datblygiad i alluogi aelodau o APCau i fod yn effeithiol yn eu rôl.

Adolygu pa un a yw'r model yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd

- A4 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y modd y rhoddir y model llywodraethu ar waith a sut y mae'r materion hyn yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd. I sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben ac yn adlewyrchu'r heriau arbennig a gwahanol y mae pob APC yn eu hwynebu rydym yn argymhell, o fewn y graddfeydd amser ar gyfer dynodi parc cenedlaethol newydd, bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r model llywodraethu ar gyfer APCau.


Adroddiad manwl

Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fodel llywodraethu eglur

- 20 Mae'r model llywodraethu ar draws y tri APC yng Nghymru wedi'i ddiffinio'n glir. Caiff cyfansoddiad eu haelodaeth ei nodi mewn deddfwriaeth⁸ sy'n tanategu dynodiad parciau cenedlaethol. Mae gan bob APC 18 o aelodau:
- daw dwy ran o dair (12) o'r aelodau o blith y rhai sydd wedi'u hethol i'w hawdurdodau lleol, lle mae eu ffiniau daearyddol yn gorwedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y parc cenedlaethol. Bob pum mlynedd, enwebir aelodau i eistedd ar yr APC, gan adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdodau sy'n rhan ohono. Caiff y rhain eu nodi yn **Arddangosyn 6**.
 - caiff un rhan o dair (6) o'r aelodau eu penodi gan Weinidogion Cymru i ddarparu ffocws cenedlaethol ac i sicrhau bod digon o arbenigedd technegol.
- 21 Mae hyn yn golygu bod model llywodraethu APCau wedi'i fwriadu i ddarparu atebolrwydd democrataidd trwy gynnwys cynrychiolwyr etholedig o gymunedau lleol, ac arbenigedd strategol a sector trwy aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

8 [Deddf yr Amgylchedd 1995 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

Arddangosyn 6: y prif awdurdodau lleol sy'n enwebu aelodau ar gyfer parciau cenedlaethol Cymru



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 22 Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol strwythurau pwyllgorau sy'n eglur ac sydd wedi hen ennill eu plwyf. Y tu hwnt i'r model llywodraethu bras a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995, mae gan bob APC ddisgresiwn i sefydlu strwythur pwyllgorau sy'n rhoi'r adlewyrchiad gorau o'u gofynion yn lleol. Amlinellir y strwythurau hyn yn **Arddangosyn 7**. Mae gan bob APC strwythur is-bwyllgorau hefyd i gefnogi ei bwyllgorau allweddol, ac mae gweithgorau wedi'u sefydlu hefyd, yn aml i ymdrin â materion penodol neu i oruchwylio prosiectau neu asedau penodol. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i aelodau graffu'n fwy manwl, mewn amser real, o'i gymharu â phan fo eitemau'n cael eu cyflwyno i aelodaeth ehangach (e.e. yng nghyfarfodydd yr Awdurdod llawn). Trwy ein cyfweiliadau a'n hadolygiadau o ddogfennau canfuom fod y strwythurau hyn wedi hen ennill eu plwyf a bod ganddynt gylchoedd gorchwyl eglur sy'n adlewyrchu gofynion statudol a ffrydiau gwaith allweddol APCau. Mae hyn yn golygu bod strwythurau pwyllgorau APCau yn eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

Arddangosyn 7: strwythurau pwyllgorau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Pwyllgorau	Eryri	Bannau Brycheiniog	Arfordir Penfro
Awdurdod Llawn	✓	✓	✓
Pwyllgor Cynllunio / Rheoli Datblygu	✓	✓	✓
Pwyllgor Safonau	✓	✓	✓
Pwyllgor Archwilio a Risg		✓	
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad		✓	
Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	✓		
Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Gorfforaethol			✓
Pwyllgor Adolygu Gweithredol			✓
Pwyllgor Adnoddau Dynol			✓
Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy		✓	✓
Pwyllgor Cadeiryddion		✓	
Pwyllgor Cymorth a Datblygu Aelodau			✓
Cyfanswm nifer y pwyllgorau allweddol:	4	7	8

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 23 Mae cynlluniau dirprwyo Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn darparu eglurder ynghylch cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau. Er enghraifft, canfuom fod cynllun dirprwyo newydd wedi cael ei fabwysiadu'n ddiweddar yn APC Bannau Brycheiniog. Mae hwn wedi helpu i egluro rolau a gofynion a darparu hyblygrwydd ychwanegol (e.e. o ran ymwneud yr aelodau â gweithgorau penodol). Yn yr un modd, fe adolygodd APC Eryri ei weithdrefnau llywodraethu'n ddiweddar i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y diben yng ngoleuni newidiadau i ffyrdd o weithio yn dilyn pandemig Covid-19. Mae eglurder ynghylch cyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau'n agwedd hanfodol ar lywodraethu da.

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cydnabod gwerth cydweithio ond mae llywodraethu trwy strwythurau partneriaethau cymhleth yn dwyn heriau

- 24 Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn dangos ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi amlygu llwyddiannau APCau o ran sefydlu partneriaethau lleol gyda phartneriaid allweddol i fwrw ymlaen gyda'u nodau a'u hamcanion. Mae'r rhain yn cynnwys [Croeso Sir Benfro](#)⁹ a [Fforwm Eryri](#)¹⁰. Mae hyn yn golygu bod gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i ffordd o weithio pob APC ac yn bwysig i ateb gofynion deddfwriaethol allweddol ac osgoi dyblygu.
- 25 Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn dibynnu ar eu dylanwad a'u gallu i gynnull partneriaethau i helpu i reoli'r heriau sy'n wynebu parciau cenedlaethol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu rôl mewn rhai partneriaethau statudol. Er enghraifft, mae rôl APCau ar Gydbwyllgorau Corfforedig yn gyfyngedig i faterion cynllunio strategol. Ac er eu bod yn gallu cynnwys APCau mewn meysydd gwaith eraill, dim ond un o'r pedwar Cydbwyllgor Corfforedig sydd wedi achub y cyfle i wneud hyn.¹¹ Mae hyn yn creu risg o gwtogi ar ddylanwad APCau mewn meysydd allweddol. Mae hyn yn broblem oherwydd, fel a amlygwyd yn ein hadolygiadau diweddar o dwristiaeth gynaliadwy¹², bod materion o fewn cylch gwaith ehangach Cydbwyllgorau Corfforedig, megis seilwaith teithio i gefnogi'r economi ymwelwyr, yn effeithio'n sylweddol ar y galw sydd ar APCau.
- 26 Mae gwasanaethu strwythurau partneriaethau'n rhoi pwysau ar gapasiti. Er enghraifft, mae APC Bannau Brycheiniog, oherwydd ei leoliad, yn rhan o dri Cydbwyllgor Corfforedig a dau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)¹³. Trwy ein cyfweiliadau canfuom fod hyn yn rhoi baich sylweddol ar gapasiti uwch swyddogion. Mewn sefydliadau cymharol fach fel APCau, ceir hefyd nifer cyfyngedig o uwch swyddogion i ddirprwyo dros eraill mewn cyfarfodydd. Ar y cyd â rôl a dylanwad cyfyngedig APCau mewn rhai partneriaethau statudol, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch gwerth mynychu yng nghyd-destun ehangach adnoddau sy'n lleihau a phwysau ar gapasiti.

9 Partneriaeth rheoli cyrchfan a sefydlwyd rhwng APC Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro yw [Croeso Sir Benfro](#).

10 Partneriaeth o randdeiliaid allweddol a sefydlwyd i ddatblygu a gweithredu cynllun rheoli parc cenedlaethol APC Eryri, [Cynllun Eryri](#), yw [Fforwm Eryri](#).

11 [Cydbwyllgorau Corfforedig - sylwebaeth ar eu cynnydd](#)

12 [Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Archwilio Cymru](#)

13 Mae'r ardal a orchuddir gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn golygu bod yr APC yn un o'r partneriaid a wahoddir ar bedwar BGC ond mae'n aelod o ddau ar hyn o bryd – BGC Powys a BGC Sir Gâr.

Mae gwasanaethu gofynion llywodraethu'n creu risg o roi pwysau ar gapasiti swyddogion

- 27 Ceir perthnasoedd gweithio adeiladol rhwng aelodau a swyddogion mewn APCau. Trwy ein cyfweiliadau a'n harsylwadau ar gyfarfodydd canfuom fod aelodau'n gweithredu'n golegol gan mwyaf a phan ydynt yn herio swyddogion, eu bod yn gwneud hynny'n adeiladol ac yn briodol. Nid felly yr oedd hi bob amser ym mhob APC. Er enghraifft, cyfrannodd ymddygiad aelodau at y methiannau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu a amlygwyd yn APC Bannau Brycheiniog dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn dilyn trosiant sylweddol yn yr aelodaeth, canfuom fod Aelodau yn APC Bannau Brycheiniog bellach yn canolbwyntio ar ailadeiladu a chynnal perthnasoedd da â'i gilydd ac â swyddogion. Mae perthnasoedd gweithio adeiladol yn bwysig i ategu diwylliant llywodraethu cryf.
- 28 Er gwaethaf hyn, nid yw aelodau wastad yn dangos hyder wrth ddarparu cyfeiriad strategol a her gadarn i swyddogion. Yn arbennig, trwy ein cyfweiliadau a'n harsylwadau canfuom nad yw'r holl aelodau'n deall yn glir beth yw eu rôl ac yn gallu cyfrannu'n llawn at brosesau penderfynu.
- 29 Gall gwasanaethu trefniadau llywodraethu APC (er enghraifft, cefnogi'r ystod o gyfarfodydd pwyllgorau) fod yn adnodd-ddwys. Ceir gofynion adrodd sylweddol ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd. Er enghraifft, fel Awdurdodau Lleol Dibenion Arbennig, rhaid i APCau baratoi datganiadau ariannol manwl yn unol â chanllawiau CIPFA, er bod cyllidebau refeniw a chyfalaf APCau yn llai o lawer na rhai'r holl brif gynghorau. Mae pwysau ar gapasiti'n creu risgiau bod gan swyddogion amser cyfyngedig i roi i'r aelodau y cymorth y mae ei angen arnynt i lywodraethu'n effeithiol.
- 30 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio hybu capasiti i ategu trefniadau llywodraethu ar draws APCau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi cyllido swydd ar-y-cyd ganolog i arwain ar faterion cynhwysiant, amrywiaeth a llywodraethu. Mae'r rôl hon, a letyir gan APC Arfordir Penfro, yn gweithio ar draws pob un o'r tri APC ac yn darparu llwyfan i gynyddu capasiti trwy adnodd a rennir ac i wella llywodraethu cyfunol. Yn benodol, mae'r rôl wedi'i bwriadu i helpu i gydlynu hyfforddiant i aelodau, ategu trefniadau llywodraethu, hybu amrywiaeth, cynyddu amrywiaeth ymwelwyr â thirweddau dynodedig a helpu APCau i ymateb i fentrau polisi allweddol gan Lywodraeth Cymru.

Ceir risg bod gwendidau mewn prosesau i ddethol aelodau etholedig yn tanseilio llywodraethu da


31 Ceir anghysonderau o ran sut y caiff cynghorwyr eu dethol i eistedd ar APCau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ynghyd â'r tri APC, wedi datblygu protocol¹⁴ i gynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu pa aelodau etholedig ddylai gael eu henwebu i eistedd ar APCau. Mae'r protocol hwn yn nodi y dylid gwneud penodiadau yn ôl y cydbwysedd gwleidyddol o fewn yr awdurdod lleol a'i bod yn ddymunol bod y rhai a enwebir yn cynrychioli wardiau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. Mae **Arddangosyn 8** yn amlygu'r ystyriaethau allweddol a nodir yn y protocol. Trwy ein cyfweiliadau canfuom nad yw'r protocol yn cael ei ddilyn yn gyson. Mae hyn yn cyflwyno nifer o broblemau:

- awdurdodau lleol sy'n rheoli pwy gaiff eu henwebu, ac yn aml mae aelodau'n cael eu henwebu o wardiau etholiadol sydd y tu allan i ffiniau'r parc cenedlaethol ac sydd heb ryw lawer o gysylltiad â materion lleol a strategol sy'n effeithio ar APCau. Er enghraifft, ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd bron i draean o'r aelodau etholedig perthnasol yn cynrychioli wardiau cynghorau o fewn ffiniau parc cenedlaethol.
- ni roddir blaenoriaeth bob amser i ystyried y sgiliau a'r priodoleddau sy'n angenrheidiol i gyfrannu'n effeithiol at lywodraethu APCau.
- mae awydd aelodau o awdurdodau lleol i wasanaethu ar APC yn amrywio'n sylweddol. Mewn rhai, mae nifer o gynghorwyr yn awyddus i wasanaethu ar APC ac felly mae gan yr awdurdod lleol gronfa ehangach o ddarpar aelodau i ddewis ohonynt. Mewn awdurdodau lleol eraill, mae llai o gystadleuaeth am y rôl – er enghraifft, dywedodd aelodau o rai APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol eu bod ar yr APC am “nad oedd ar neb arall eisiau mynd arno” a'u bod nhw yno i “sicrhau bod digon o niferoedd”.

14 Protocol ar gyfer Enwebiadau i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Arddangosyn 8: ystyriaethau allweddol i awdurdodau lleol wrth enwebu cynghorwyr i eistedd ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, fel a nodir yn y protocol

Ymrwymiad i ddibenion y Parc Cenedlaethol



Ffynhonnell: [Protocol ar gyfer Enwebiadau i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol](#)

- 32 Ceir diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau o APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol. Er enghraifft, dengys **Arddangosyn 9**, ar adeg ein hadolygiad, fod 72% o'r aelodau o APCau a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol yn ddynion a 28% yn fenywod, er bod hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng APCau (a'i fod, yn wir, yn gyfartal yn APC Eryri). Hefyd, nid oedd yr un aelod o awdurdod lleol a oedd yn eistedd ar APC ar adeg ein hadolygiad yn dod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Lleiafrifol. Yn ein cyfweiliadau ni gyda swyddogion APCau, clywsom bryderon nad yw'r broses benodi a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn helpu gyda hyn, gan na roddir rhyw lawer o ystyriaeth i wella amrywiaeth aelodaeth APCau. Mae'r diffyg amrywiaeth yn broblem oherwydd, fel a amlygwyd yn 2014 yn adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, mae'n "bwysig felly bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar ein rhan... yn deall eu cymunedau lleol ac yn gynrychioliadol ohonynt."¹⁵

15 [Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau democratiaeth amrywiol mewn llywodraeth leol yng Nghymru – adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth \(llyw.cymru\)](#)

Arddangosyn 9: dosbarthiad y rhywiau ymhlith y 36 o aelodau o APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol

Awdurdod Parc Cenedlaethol	Nifer yr aelodau ALI sy'n fenywod	Nifer yr aelodau ALI sy'n ddynion
Bannau Brycheiniog	0	12
Eryri	6	6
Arfordir Penfro	4	8
Cyfanswm	10	26

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o aelodau APCau ym mis Medi 2023

Mae gan Lywodraeth Cymru broses gymharol drylwyr ar gyfer penodi aelodau, ond cyfyngedig yw'r cymorth parhaus i aelodau a benodwyd

- 33 Mae'r broses ddethol ar gyfer aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru'n drylwyr o'i gymharu â sut y caiff aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol eu dethol. Mae ymgeiswyr yn mynd trwy asesiad cystadleuol sy'n cynnwys Cadeirydd yr APC perthnasol, Dirprwy Gyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru, ac aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Caiff y broses ei rheoleiddio a'i goruchwyllo gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA) a'i gweinyddu gan y Tîm Noddi APCau yn Llywodraeth Cymru, gan ymgynghori â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus. Dim ond am wyth mlynedd (dau gyfnod o bedair blynedd) y gall aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru wasanaethu ar APCau, er y gall y Gweinidog ganiatáu estyniad i'w cyfnod yn y rôl gan ddibynnu ar berfformiad ac anghenion busnes. Cytunir ar estyniadau o'r fath trwy eithriad a rhaid iddynt gael eu cadarnhau gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.
- 34 Fel arfer mae aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru'n eistedd ar APCau am eu cyfnod llawn yn y rôl sy'n darparu parhad ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i benodi aelodau yn eu lle mewn ffordd wedi'i chynllunio. Roedd aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru y siaradom ni gyda hwy'n siarad yn gadarnhaol gan mwyaf am y broses benodi. Fodd bynnag, er gwaethaf cryfderau proses benodi Llywodraeth Cymru, o ystyried y gymhareb rhwng aelodau penodedig ac etholedig, mae ei heffaith yn gyfyngedig i un rhan o dair o'r aelodaeth.

- 35 Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd rhyw lawer o gymorth parhaus i aelodau gan Lywodraeth Cymru yn dilyn eu penodi. Canfuom hefyd nad oedd eu rôl yn glir i rai aelodau ar ôl eu penodi a'u bod yn teimlo'u bod yn cymryd cryn dipyn o amser i ymgylfarwyddo â'r rôl a chyfrannu at brosesau penderfynu. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf ei phroses benodi drylwyr, nad yw Llywodraeth Cymru'n gwybod a yw'r aelodau y mae'n eu penodi'n cael cymorth digonol ac yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.
- 36 O ganlyniad, ceir diffyg eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ar gyfer aelodau newydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, er bod peth tystiolaeth o APCau yn ceisio adnabod gofynion datblygu aelodau, canfuom nad yw hi wastad yn glir iddynt beth ddylent ei gynnwys yn eu cynlluniau hyfforddiant a sefydlu ar gyfer aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Canfuom hefyd fod aelodau'n gallu teimlo wedi'u hynysu a heb gymorth yn eu rôl o ganlyniad. Ceir risg y bydd hyn yn tanseilio gwerth yr arbenigedd strategol a'r safbwynt cenedlaethol y mae aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u bwriadu i'w cynnig.
- 37 Fe wnaeth ein hadroddiad ar Raglen Newid APC Bannau Brycheiniog ym mis Chwefror 2021¹⁶ amlygu, 'unwaith y gwneir penodiad i Awdurdod Parc Cenedlaethol, ychydig o gymorth parhaus a roddir gan Lywodraeth Cymru. Gall hyn olygu bod aelodau'n ddiameddiffyn, yn enwedig pan ydynt yn wynebu heriau sylweddol'. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau hyn yn [llythyr Tymor y Llywodraeth 2022](#) gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.¹⁷ Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud peth cynnydd o ran cefnogi aelodau yn ystod 2023-24, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau ar lywodraethu, tirweddau i bawb a'r argyfyngau natur a hinsawdd.
- 38 Mae hyn yn bwysig gan bod diffyg eglurder a chymorth ac arweiniad ar ôl penodi'n creu risgiau sylweddol i lywodraethu da. Er enghraifft, gall olygu nad yw aelodau'n deall eu rôl a'u bod felly'n methu â chymryd rhan yn effeithiol yn y broses benderfynu.

16 [Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Cyflawni'r Rhaglen Newid, Chwefror 2021](#)

17 Y Gweinidog Newid Hinsawdd sydd â chyfrifoldeb am barciau cenedlaethol ac mae'n nodi ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer APCau mewn llythyr Tymor y Llywodraeth.

Mae'n aneglur i ba raddau y mae aelodau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu cyfraniad at lywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

- 39 Ceir presenoldeb da mewn cyfarfodydd gan aelodau o APCau. Mae disgwyl iddynt fynychu o leiaf 75% o gyfarfodydd APCau ac mae aelodau, ar gyfartaledd, yn mynychu mwy na'r lleiafswm a ddisgwylir (**Arddangosyn 10**). Dengys dadansoddiad o'r data presenoldeb fod Aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yn mynychu fwy neu lai yr un mor aml ag aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Arddangosyn 10: presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Awdurdod Parc Cenedlaethol	Presenoldeb mewn cyfarfodydd ar gyfartaledd gan aelodau ALI %	Presenoldeb mewn cyfarfodydd ar gyfartaledd gan aelodau LIC %
Bannau Brycheiniog	82	82
Eryri	84	76
Arfordir Penfro	92	93
Ar y cyfan	86	84

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o bresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2022-23

- 40 Ceir trefniadau ffurfiol i oruchwylio ymddygiad aelodau. Er enghraifft, gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwynion, protocolau ymddygiad a phwyllgorau safonau sydd wedi'u sefydlu i ymdrin â chwynion. Mae hyn yn golygu bod APCau wedi sefydlu'r rhwystrau a gwrthbwysau gofynnol i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a darparu sicrwydd y byddid yn ymdrin yn y ffordd briodol ag unrhyw gamwedd neu achosion posibl o dorri codau ymddygiad.

- 41 Y tu hwnt i hyn, serch hynny, nid oes trefniadau eglur i oruchwylio effeithiolrwydd cyfraniadau aelodau o APCau a sut y maent yn perfformio yn eu rôl. Er bod Llywodraeth Cymru'n ceisio adborth gan APCau ar berfformiad penodeion yn flynyddol, nid yw'r ymarfer hwn wastad yn cael ei gynnal yn ymarferol a gall ei effaith fod yn gyfyngedig. Er enghraifft, trwy ein cyfweiliadau ni, mynegodd rhai aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch adolygiad Llywodraeth Cymru o'u perfformiad, gan amlygu diffyg adborth ar eu heffeithiolrwydd a sut y gallent wella yn eu rôl. Yn yr un modd, nid yw cyfraniad aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yn cael ei werthuso'n gyson. Mae hyn yn golygu, er ei bod yn rôl y telir cydnabyddiaeth ariannol¹⁸ am ei chyflawni, nad yw APCau yn gallu dangos y gwerth am arian a ddarperir trwy gyfraniadau aelodau.
- 42 Mae'r diffyg adborth ar berfformiad hefyd yn creu risg nad oes gan APCau ddealltwriaeth dda am anghenion hyfforddi a datblygu'r aelodau. Canfuom, er bod rhai APCau yn cynnal arolygon mewn ymgais i oleuo rhaglenni hyfforddi aelodau, nad yw'r rhain wastad yn cael cyfraddau ymateb da. Amlygodd swyddogion bresenoldeb gwael gan aelodau mewn cyrsiau hyfforddi a ddarperir hefyd. Mae hyn yn creu risg o danseilio llywodraethu da am nad oes gan aelodau ddealltwriaeth eglur am eu rolau ac nad ydynt wedi'u harfogi i gyflawni swyddogaethau allweddol yn effeithiol.

Mae gwendidau o ran sut y mae'r model llywodraethu'n cael ei roi ar waith yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd

- 43 Mae'r model llywodraethu ar gyfer APCau wedi'i fwriadu i gyfuno atebolrwydd democrataidd ag arbenigedd strategol a safbwyntiau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwendidau o ran sut y mae'n cael ei roi ar waith yn golygu nad yw cryfderau'r model 'ar bapur' wastad yn dilyn yn ymarferol. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn ag addasrwydd y model. Mae **Arddangosyn 5** yn amlygu ein hargymhellion yn dilyn yr adolygiad hwn, gan gynnwys ein disgwyliad bod Llywodraeth Cymru'n adolygu a yw'r model llywodraethu ar gyfer APCau yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd. Byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru fyfyrion ynghylch y materion hyn yng nghydestun a graddfeydd amser ei hymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

18 Telir cyflog sylfaenol o £4,738 y flwyddyn i bob aelod am gyflawni ei rôl, sy'n adlewyrchu tybiaeth bod disgwyl iddynt wneud o leiaf 44 diwrnod o waith bob blwyddyn. Gan ddefnyddio'r ffigwr hwn, gyda'i gilydd mae aelodau ar draws y tri APC yn cael cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol o oddeutu £250,000 y flwyddyn. Mae rhai aelodau'n cael cyflog ychwanegol – e.e. mae cadeiryddion awdurdodau a phwyllgorau'n cael uwch gyflog ar ben eu cyflog sylfaenol. Rhaid i APCau gyhoeddi datganiad blynyddol o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau.



Atodiadau

- 1 Cwmpas, ymagwedd a dulliau'r archwiliad

1 Cwmpas, ymagwedd a dulliau'r archwiliad

Cwmpas

Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn 'A oes gan awdurdodau lleol dibenion arbennig yng Nghymru drefniadau llywodraethu effeithiol sy'n ategu deilliannau da ar gyfer dinasyddion?'

I ateb y cwestiwn hwn, fe wnaethom fwrw golwg ar strwythurau llywodraethu, y model llywodraethu, sut y mae aelodau a swyddogion yn gweithio o fewn strwythurau, a'r dulliau a ddefnyddir i adolygu a gwella trefniadau llywodraethu.

Ni wnaethom fwrw golwg ar ymddygiad aelodau na swyddogion unigol, ac nid ydym wedi llunio casgliadau ynghylch pob APC yn unigol. Nid ydym ychwaith wedi asesu trefniadau llywodraethu AHNEoedd, prif awdurdodau lleol, na chyrrff eraill, ar gyfer yr adolygiad hwn.

Ymagwedd

Ein hymagwedd yn yr archwiliad hwn fu deall sut y mae strwythurau llywodraethu ym mhob Awdurdod 'ar bapur', sut y maent mewn gwirionedd, ac yna sut y cânt eu hadolygu. Ein nod oedd darparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu yn APCau Cymru ar y cyfan.

Fe wnaethom reoli ein gwaith maes gan fod yn ystyriol o'r pwysau a wynebir gan swyddogion ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys adfer wedi COVID-19, yr argyfwng costau byw, a phwysau ar gapasiti swyddogion a nodwyd yn ein hadroddiad. Fe wnaethom sicrhau bod cwmpas ein gwaith yn ddigon i roi trosolwg o'r sector cyfan ond ni wnaethom amharu ar ddarparu gwasanaethau. Fe weithiom ni'n hyblyg i drefnu ein gwaith maes gyda swyddogion.

Goleuwyd ein hymagwedd gan yr egwyddorion llywodraethu da a gyhoeddwyd gan CIPFA ac IFAC. Caiff y rhain eu hamlinellu yn yr adroddiad uchod (**Arddangosyn 4**).

Dulliau

Cwblhawyd ein gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2023, gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu dogfennau llywodraethu allweddol gan bob APC. Roedd y rhain yn cynnwys rheolau sefydlog, swydd ddisgrifiadau swyddogion allweddol, cyfansoddiadau, cylchoedd gorchwyl, a phapurau pwyllgorau. Roedd hyn hefyd yn cynnwys y llythyr cylch gwaith blynyddol a anfonir at bob APC gan Lywodraeth Cymru.
- cyfweiliadau lleol – fe wnaethom gyfweld ag uwch swyddogion ac aelodau o bob APC.
- cyfweiliadau cenedlaethol – fe wnaethom drafod ein hadolygiad gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chael safbwyntiau gan ddau APC yn Lloegr.
- arolygon – fe gynhaliom ni arolwg o uwch swyddogion sy'n rhyngweithio'n rheolaidd ag aelodau. Fe gawsom 26 o ymatebion (65%). Fe wnaethom hefyd arolygu aelodau o APCau a chael 28 o ymatebion (53%).
- arsylwadau – fe arsylwom ni ar bum cyfarfod ym mhob APC, a oedd yn cynnwys ystod o gyfarfodydd gan yr Awdurdodau Llawn, Pwyllgorau Cynllunio a phwyllgorau eraill.
- adolygu gwefannau – fe wnaethom adolygu gwefan pob APC, yn ogystal â gwefannau perthnasol eraill, megis rhai CLILC, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

EITEM RHIF 11

CYFARFOD:	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD:	12 Mehefin 2024
TEITL:	DATGANIAD CYFRIFON 2021/22
ADRODDIAD GAN:	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS:	<p>Derbyn a nodi'r adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.</p> <p>Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad.</p> <p>Awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth</p>

1. CEFNDIR

- 1.1 Ymhellach i ac yn seiliedig ar yr Adroddiad Alldro ar gyfer 2021/22 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 13 Gorffennaf 2022 cwblhawyd y Datganiad Cyfrifon drafft o fewn llinell amser estynedig y flwyddyn gan Bennaeth Cyllid yr Awdurdod a'i staff a'i ardystio (yn ddarostyngedig ei fod yn cael ei archwilio) gan Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod ar 27 Gorffennaf.
- 1.2 Bu oedi sylweddol yn archwiliad y Datganiad Cyfrifon gan Archwilio Cymru o ganlyniad materion ailbriso asedau, ceir y manylion yn yr adroddiad ISA260. Cyflwynir fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2021/22 yma i'r Awdurdod ei gymeradwyo yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018. Bydd Archwilio Cymru yn gofyn am Lythyr Sylwadau gan yr Awdurdod cyn y gall yr Archwilydd Penodedig (Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adrian Crompton) gyhoeddi'r dystysgrif ar ein cyfrifon yn derfynol.
- 1.3 Er cyflawnrwydd, mae'r Datganiad Cyfrifon a gyflwynir yma yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod ar 15 Mehefin 2022.

2. ADDASIADAU YN CODI O'R ARCHWILIAD

Mae'r prif addasiadau ers y fersiwn cyn-archwiliad wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd yma gan Archwilio Cymru. Nid yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar reolaeth ariannol barhaus yr Awdurdod.

3. CYMERADWYO'R DATGANIAD CYFRIFON

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Datganiad Cyfrifon gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad yr Awdurdod, a'i lofnodi a'i ddyddio gan y 'person sy'n llywyddu' (y Cadeirydd) yn y cyfarfod y cawsant eu cymeradwyo ynddo. Cyflwynir copi o'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2021/22 yma fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

4. LLYTHYR SYLWADAU

Cyflwynir y Llythyr Sylwadau drafft yma yn Atodiad 1 o adroddiad ISA260 Archwilio Cymru. Os yw aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad, gallant hefyd awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau ar eu rhan.

5. ARGYMHELLION

Derbyn a nodi'r adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.

Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad yr Awdurdod ar gyfer 2021/22.

Awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau.

6. PAPURAU CEFNDIR

Yr Adroddiad Alldro ar gyfer 2021/22 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 16 Gorffennaf 2022.

Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod hwn.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31AIN MAWRTH 2022



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON 2021/22

MYNEGAI

Adroddiad Naratif.....	3
Y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon.....	11
Datganiad o Bolisiâu Cyfrifyddu.....	12
Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	23
Y Fantolen	24
Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn	25
Datganiad Llif Arian	27
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	28
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22.....	79
Rhestr Termau.....	111

ADRODDIAD NARATIF

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad naratif yn darparu esboniad cryno ynghylch y materion mwy arwyddocaol adroddir yn y cyfrifon ac mae'n anelu i ychwanegu at a chynorthwyo i ddehongli'r datganiadau cyfrifyddu a amlinellir ar dudalennau 23 i 27 ac mae'n cynnwys :-

- Y **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** sy'n dangos crynodeb enillion a'r colledion a brofwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r enillion a'r colledion hyn wneud iawn am y symudiad mewn gwerth net.
- **Mantolen** yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31^{ain} Mawrth 2022.
- Crynodeb yw'r **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd** o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhan isaf y fantolen dros y flwyddyn ariannol.
- Y **Datganiad Llif Arian** sy'n crynhoi'r mewnlifiadau ac all-lifau o arian sy'n deillio o drafodion i bwrpasau refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon gan Ddatganiad o Bolisiau Cyfrifyddu a nodiadau esboniadol.

2. Gweledigaeth a Blaenoriaethau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc yng Nghynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri yng nghyfarfod 13eg Hydref 2021 fel a ganlyn:

Parc Cenedlaethol sy'n gyfoethog yn ddiwylliannol, gydag economi werdd lewyrchus, profiad ymwelwyr o'r radd flaenaf sy'n cyfrannu'n fawr iawn at les ein cenedl.

Erbyn 2035 bydd Eryri yn parhau i fod yn dirlun gwarchoddedig ac esblygol, wedi'i ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol a hanesyddol cyfoethog, amrywiol a chydnerth; yn darparu buddion lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu cyflawni trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd ac yn seiliedig ar adnoddau naturiol – rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a mwynhad, y dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog a chynhwysol sy'n ffynnu, bydd gweithio mewn partneriaeth yn dangos ei bod yn bosib cyflawni mwy trwy gydweithio.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cyswllt trigolion â'r amgylchedd, gan ddarparu gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol o fri yn rhyngwladol ac fel lle i'r enaid gael llonydd."

Yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015) mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Datganiad Lles 2021-2026 ym Mawrth 2021.

<https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2022/03/DATGANIAD-LLES-APCE-2021-26.pdf>

Mae'r ddogfen hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer y rhaglen waith corfforaethol sy'n manylu ar amcanion penodol llesiant a gwelliant, ac a gyflwynir yng nghyfarfod Awdurdod Ebrill yn flynyddol. Mae'r agenda ar gael trwy'r cyswllt canlynol:

<https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2022/04/Awdurdod-27.04.22.pdf>

3. CYD-DESTUN ARIANNOL

Perfformiad Ariannol a Sefyllfa Diwedd Blwyddyn

'Roedd y gyllideb ddiwygiedig fel ag adroddwyd i'r Awdurdod ar 13eg Gorffennaf 2022 fel a ganlyn.

	Cyllideb	Gwir	Amrywiad
	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,620,267	1,043,627	576,640
Corfforaethol	5,334,234	3,855,382	1,478,852
Llog a Ennillwyd	(8,000)	(11,612)	3,612
Ariannu Cyfalaf o Refeniw	1,746,003	507,881	1,238,122
Addasiad taliadau cyfalaf	(591,050)	(591,050)	-
Net	8,101,454	4,804,228	3,297,226
GPC a Lefi	(5,493,051)	(5,493,051)	-
TR i/o gronfeydd wrth gefn	(2,608,403)	688,823	(3,297,226)
Cyfanswm	-	-	-

Addaswyd yr amrywiad net o £3,297,266 ar gyfer trosglwyddiadau diwedd blwyddyn i ac o gronfeydd wrth gefn (gwybodaeth pellach ym mhar. 4.2 o'r adroddiad a gyfeirwyd ato) yn gadael gweddill o £516,324 i'w ddosrannu. Cynhwyswyd y ffigwr hwn yn y balansau diwygiedig wrth gefn gan yr Awdurdod. Mae'r adroddiad yn eitem 8 yn y cyswllt canlynol –

<https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2022/07/Pwyllgor-Perfformiad-ac-Adnoddau13.07.22.pdf>

Tra'n dilyn trefn cwblhau y Datganiad Cyfrifon gwnaethpwyd yr addasiadau canlynol i'r alldro, gyda'r canlyniad o gynyddu'r balans i'w ddosrannu i £537,463.70. Mae'r ffigyrau diwygiedig ar gyfer gwariant net yn ymddangos yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu (nodyn 1 i'r prif ddatganiadau).

	Aldro	Addasiadau	DGA (nodyn 1)
	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	1,043,625	2,036	1,045,661
Corfforaethol	3,855,386	(23,175)	3,832,211
	4,899,011	(21,139)	4,877,872
Symudiadau eraill			
Balance	516,324		537,463

Mae'r symudiadau mewn cronfeydd unigol yn nodyn 8 i'r datganiadau ariannol.

4. Crynodeb o'r Prif Bwyntiau :

Mantolen :

Mae gwerth net yr awdurdod wedi cynyddu **£3,960k**, a'r prif resymau yw lleihad o **£6,433k** yn y **rhwymedigaeth gronfa bensiwn** yn ogystal a lleihad net o **£3,051k** ym mantolen yr Awdurdod yn dilyn ailbrisiad asedau ar ddechrau'r flwyddyn. Symudiadau eraill fel a ganlyn:

- **Asedau Cyfredol** – mae'r gwerth wedi lleihau **£131k**, y prif effaith oherwydd

Arian a buddsoddiadau – (£988k) cynydd yn deillio o arian grantiau ag incwm ychwanegol gan gynnwys
£178k cynllun grant ERAMMP
£281k Tiroedd Cynaliadawy, Lleoedd Cynaliadwy, a £89k o ffi gweinyddol heb ei wario yn 2021/22
£480k incwm ychwanegol o ffioedd maesydd parcio

Dyledwyr – bu lleihad o £1,118k yn y balans dyledwyr sydd yn dod ar lleihad net yng ngwerth asedau cyfredol £130k. Mae'r lleihad yn y balans dyledwyr yn ymwneud a llai o arian grantiau wedi dderbyn i gymharu hefo'r flwyddyn flaenorol megis grant prosiect Coedwigoedd Celtaidd a prosiect SMS.

- **Rhwymedigaethau Cyfredol** – Mae'r gwerth wedi lleihau **£417k** yn dilyn –

£198k yn llai o grantiau wedi eu derbyn ymlaen llaw
£222k o leihad ym malans credydwyr masnach
£3k o leihad ym malans credydwyr 'Eraill'

Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr :

Mae'r cyfanswm cost net gwasanaethau wedi cynyddu £3,791k gyda symudiadau fesul cyfarwyddiaeth yn :

- | | |
|--|-----------|
| • Cynllunio, Treftadaeth Ddiwylliannol a Rheolaeth Tir | + £272k |
| • Corfforaethol (cynnwys Cyfathrebu) | + £3,562k |
| • Costau na ellir eu dosbarthu | - £43k |

Prif symudiadau :Gwariant

- £330k o gynydd yng ngwariant net Refcus yn 2021/22 i gymharu hefo 2020/21
- £653k o gynydd yn addasiad cost pensiwn IAS19 i'r gwasanaethau yn 2021/22
- £2,884k cost colledion ailbrisiad i'r gwasanaethau
- £318k o leihad yng nghôst dibrisiant i'r gwasanaethau
- £265k llai o wariant ar ddiswyddiadau i gymharu hefo 2020/21
- Llai o wariant cyffredinol ar gynlluniau grant yn 2021/22

Incwm

- £2,803k o leihad mewn gwerth grantiau yn ymwneud a prosiectau dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru.
- £118k yn llai o gyfraniadau o ffynhonnellau heblaw Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â derbyn cyllid grant mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ei incwm ei hunan. Mae nodyn 1c i'r prif ddatganiadau yn dangos £2,421k (£1,433k yn 2020/21) wedi ei gynhyrchu o ffioedd ac incwm gwasanaeth fel arall. Y prif rannau ydy :

- | | | |
|---------------------------------------|---------|--------------------|
| • Ffioedd parcio | £1,276k | (£472k yn 2020/21) |
| • Ffioedd Cynllunio | £227k | (£248k yn 2020/21) |
| • Gwerthiannau Canolfannau gwybodaeth | £189k | (£63k yn 2020/21) |
| • Rhent | £56k | (£32k yn 2020/21) |

Er bod cynydd yn y ffioedd uchod, roedd gostyniad incwm yn 2021/22. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyniad mewn cyfraniad grantiau.

5. Rhwymedigaeth Bensiwn

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori'n llawn beth yw gofynion y Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 19 (IAS 19).

Mae'r polisi'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn y tymor hir i gynyddu cyfraniadau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net priodoledig yn y gronfa bensiwn.

Mae'r rhwymedigaeth bensiwn net yn y Fantolen yn lleihau gwerth net yr Awdurdod o £884k ar 31 Mawrth 2022. Mae'r ffigwr damcaniaethol yma wedi lleihau £6,433k ers 31 Mawrth 2021. Y prif reswm am hyn ydyw effaith y newid yn rhagdybiaethau'r Actiwari yn sgîl datblygiadau cenedlaethol (manylder yn nodyn 35).

6. Cost neu Gredyd Anghyffredin yn y Cyfrifon

Y prif eitemau ydy'r :

- grantiau gwerth £1,141k a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru
- grantiau ac ad-daliadau gwerth £242k a dderbyniwyd yn sgîl y pandemig.

7. Gwariant Cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar feddiannu ased sefydlog, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog bresennol, nid ei gynnal yn unig.

Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2021/22 yn £1,609k. Dangosir manylion ynghylch y gwariant ym mhob maes gwasanaeth yn nodyn 30. Ariannwyd y gwariant gan grantiau a chyfraniadau oddi wrth gyrff eraill (£1,328) ac ariannu referniw uniongyrchol (£281k).

Bydd yr holl wariant cyfalaf a gynlluniwyd yn cael ei ariannu o referniw, grantiau allanol a chronfeydd a ddelir ar gyfer gwariant unwaith ac am byth.

Y prif gynlluniau gan yr Awdurdod ar 31^{ain} Mawrth 2022 ydyw :

- Cynllun Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau gydag amcan cost cyfredol o £2m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen yn Rhagfyr 2022.
- cynllun Partneriaeth y Carneddau bellach yn ei gyfnod gweithredol ac yn werth £4.17m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen erbyn Mawrth 2026.
- y prosiect Coedwigoedd Celtaidd yn brosiect 7 blynedd gwerth £7.6m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen yn 2025/26.

8. Cyllido Cyfalaf

Cafodd holl wariant cyfalaf yr Awdurdod, ers iddo gael ei sefydlu ar yr 23^{ain} o Dachwedd 1995, ei ariannu trwy gyfrwng grantiau cyfalaf a chyfraniadau gan y Llywodraeth, y Gymuned Ewropeaidd a grantiau o ffynonellau eraill, o dderbyniadau cyfalaf a gymhwyswyd ac o adnoddau referniw'r Awdurdod.

Ar 31 Mawrth 2022 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciad i ariannu cyfalaf, ac i ddibenion rheolaeth trysorlys bydd yn parhau fel awdurdod di-ddyled.

9. Cronfeydd wrth gefn Defnyddiadwy

Adolygwyd balans y Gronfa Refeniw Gyffredinol yn ystod y flwyddyn fel rhan o adolygiad cronfeydd yr Awdurdod, a bellach yn werth £850k.

Mae gan yr Awdurdod gyfanswm o £9,684k o Gronfeydd Defnyddiadwy penodol ac mae manylion rhain yn nodyn 8 o'r datganiadau ariannol. Dylid nodi fod y rhan fwyaf o'r cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer dibenion penodol.

10. Llywodraethu

Mae gan yr Awdurdod 18 aelod sy'n gwasanaethau ar Fwrdd yr Awdurdod, y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Mae gan Plas Tan y Bwlch a'r Ysgwrn eu Byrddau Rheolaeth eu hunain yn cynnwys 3 aelod yr un.

Darperir gwybodaeth pellach ar lywodraethu a materion perthnasol i 2021/22 yn y rhan Datganiad Llywodraethu Blynyddol o'r ddogfen hon.

11. Risgiau a Chyfleon

Risgiau

Cofnodir prif risgiau'r Awdurdod yn y Cofrestr Risg Corfforaethol a adolygir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac yn flynyddol yn Awdurdod Chwefror.

Nodir 4 risg mwyaf sylweddol yr Awdurdod, ynghyd â'r mesurau i'w lleddfu, yn niwedd rhan 6 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cyfleon

Mae'r Awdurdod wedi derbyn cyllid "un tro" gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ar brosiectau cyfalaf yn cynnwys prosiectau Mynediad a gwelliannau i eiddo'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ddenu cyllid grant o amrywiol ffynonhellau sy'n galluogi capasiti gweithredu llawer uwch na'r hyn sy'n bosibl trwy grant sylfaenol yn unig. Mae'r crebachu blynyddol ar niferoedd staff yr Awdurdod yn golygu bod elfen o risg gyda chapasiti i gyflawni ar brosiectau'n y dyfodol.

12. Strategaethau'r Awdurdod

Pedwar prif strategaeth yr Awdurdod yw:

- Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri,
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri,
- Cynllun Corfforaethol, a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y 4 ynghyd â strategaethau eraill yr Awdurdod ac adolygiad o'u effeithiolrwydd yn rhan 5 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

13. Effaith yr hinsawdd economaidd gyfredol

Mae'r Awdurdod wedi mantoli ei gyllideb am 2022/23 yn seliedig ar y ffigwr Grant Parc Cenedlaethol yn ôl hysbysiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bydd ffigwr y grant ar gyfer 2023/24 yn parhau yr un fath a ffigyrau 2022/23. Bydd hyn yn heriol i'r Awdurdod gan ystyried yr hinsawdd economaidd presennol, a pwysau chwyddiant sylweddol.

Ar amser ysgrifennu mae llif arian yr Awdurdod yn ddigonol, ond bydd angen ailwerthuso yn ddibynol ar y ffigyrau setliad gan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24.

Mae'r Awdurdod wedi derbyn cymorth ariannol yn ymwneud a Covid 19 trwy arbediad treth Annomestig, grantiau cymorth busnes gan gynghorau Gwynedd a Chonwy, grantiau cymorth penodol i'r Ysgwrn a'r cynllun seibiant swydd.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried sefyllfa tenantiaid a chaniatau gostyngiad rhent fel bo'r angen. Lle mae oediad gyda phrosiectau cyfalaf a grant, mae'r Awdurdod mewn cysylltiad â'r cyllidwyr a phartneriaid perthnasol ac wedi derbyn estyniad amser lle'n briodol e.e. cynlluniau Treftadaeth Treflun Dolgellau a Phartneriaeth Tirwedd Carneddau.

Mae'r Awdurdod wedi gwirio Cynllun Rheolaeth y Parc yn erbyn y gwersi a ddysgwyd o Covid. Bydd cychwyn ar adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol o fewn y ddwy flynedd nesaf (gyda'r dyddiad penodol ar gyfer yr adolygiad yn dibynnu'n bennaf ar Adroddiad Adolygiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol) a bydd hwn hefyd yn ystyried yr heriau i'r ardal sy'n deillio o Covid. Bu datblygu ar y cynllun Llesiant dros yr Hydref / gaeaf gan gynnwys ystyriaeth o faterion Covid. Mae'r Awdurdod yn adolygu'n barhaus yr effaith ariannol tan fydd gwell sefydlogrwydd yn bodoli.

GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth bellach ynghylch y Datganiad Cyfrifon hwn ar gael oddi wrth:

Sian Wyn Owen
Pennaeth Cyllid
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
Ffôn: 01766 772 251
Ebst: sian.owen@eryri.llyw.cymru

Y DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar i'r Awdurdod:-

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu priodol ei faterion ariannol ac i sicrhau fod un o'i swyddogion gyda chyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid;
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon, ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau;
- Cymeradwyo ei ddatganiad cyfrifon.

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar 16 Tachwedd 2022.

Llofnod:



CYNG. ANNWEN HUGHES - CADEIRYDD

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol a amlinellir yn y Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:-

- Dethol polisiâu cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Datganiad Ymarfer a Argymhellir.


Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:-

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiadau Cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â Chyfrifon Llywodraeth Leol a Rheoliadau Archwilio ac yn cyflwyno'n deg a gwir sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant i'r flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021.

Llofnod :



31ain Awst 2022

DAFYDD L. EDWARDS – PRIF SWYDDOG CYLLID

DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFYDDU

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i bolisiäau cyfrifyddu gael eu cymhwyso'n gyson. Y gofyniad pwysicaf yw bod y Datganiadau Cyfrifon yn 'cyflwyno'n deg a gwir' berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod.

2. Cysyniadau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â'r egwyddorion a'r cysyniadau cyfrifyddu hanfodol (a threiddiol) a ganlyn :

- Perthnasedd
- Dibynadwyedd
- Cymaroldeb
- Dealladwy
- Materoldeb
- Croniadau
- Busnes Gweithredol
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol

Mae'r egwyddorion a chysyniadau hyn wedi eu defnyddio wrth ddedhol a chymhwyso polisiäau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth weithredu barn broffesiynol.

3. Croniadau Gwariant ac Incwm

Mae cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cael eu cynnal ar sail cronïadau. Mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu gosod yn y cyfrifon ar yr amser maent yn ddyledus.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

4. Arian Parod a'r Eitemau sydd Gyfystyr ag Arian Parod

Mae hyn yn cynnwys cyfrifon imprest a chronfeydd parod yr Awdurdod ac arian parod a ddelir "ar alwad" neu wedi ei ddydodi dros y tymor byr gyda banciau lle mae'r arian yn ad-daladwy heb gosb pan geir rhybudd nid hwy na 24 awr.

5. Eitemau Eithriadol

Lle mae eitemau o'r fath yn berthnasol i gyfrifon 2021/22, tynnir sylw atynt yn y nodiadau perthnasol e.e. colledion ailbrisiad.

6. Addasiadau cyn cyfnod, newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu ac amcangyfrifon a chamgymeriadau

Yn ystod 2021/22, newidodd yr Awdurdod eu polisi cyfrifyddu yn ymwneud a Asedau Cymuned sydd nawr yn cael eu dal ar sail prisiant.

7. Codi tâl ar refeniw am asedau anghyfredol

Codir tâl ar wasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu gyda'r symiau a ganlyn er mwyn cofnodi'r gost o ddal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant sy'n digwydd i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol,
- Ailwerthuso a cholledion nam ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronus yn y Gronfa Ailwerthuso lle gellir dileu'r colledion yn eu herbyn,
- Amorteiddio asedau sefydlog anghyfyrdadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth. Ni ellir codi tal am y symiau hyn yn erbyn Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod ac felly maent fel y cyfryw yn cael eu gwyrddroi trwy gyfnewidiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf fel y dangosir yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd.

8. Buddion gweithwyr**8.1 Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth :**

Buddiannau gweithwyr tymor byr yw'r rheiny sydd i fod i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau fel cyflogau wythnosol a misol, tâl gwyliau blynyddol a thâl cyfnod salwch, bonysau a buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol (ee ceir) i weithwyr presennol ac maent yn cael eu cydnabod fel traul gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod.

8.2 Buddiannau terfynu :

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu Costau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

8.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd. Mae'r cynllun yn

darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

8.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr, a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.7% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol gyda statws credyd AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf, neu am fod yr actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Awdurdod dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg Perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Awdurdod o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

8.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

9. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiadau:

- y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau
- y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond ble y byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

10. Offerynnau Ariannol

Atebolrwydd Ariannol

Mae'r Awdurdod yn Awdurdod diddyled yn yr ystyr nad oes ganddo unrhyw fenthyciadau.

Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol i ddau fath:

- benthyciadau a derbyniadau posib – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu yn y farchnad weithredol.

Y fath offerynnau sy'n berthnasol i'r Awdurdod yw benthyciadau car a wneir i weithwyr (fodd bynnag tybir nad yw'r symiau'n ddigon sylweddol i'w cynnwys).

- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris marchnad dyfynedig ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy. Nid oes gan yr Awdurdod ased o'r math hwn.

11. Arian tramor

Mae incwm a gwariant sy'n deillio o unrhyw drafodion mewn arian cyfredol o dramor yn cael ei gyfieithu i £ sterling.

12. Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau eraill

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r cyfraniadau

gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwyd. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau refeniw a chyfraniadau a briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r cyfan o'r grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu rhoddi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn.

Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

13. **Asedau Treftadaeth**

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny sydd wedi eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol, h.y. mae ganddynt rinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, geoffisegol neu amgylcheddol. Maent yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod yn bennaf am eu cyfraniad tuag at wybodaeth a diwylliant, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod wrth iddo gyflawni ei fusnes arferol. Mae dibrisiant asedau treftadaeth, lle bo hynny'n briodol, yn unol â pholisi cyffredinol yr Awdurdod ar ddibrisiant.

14. **Asedau anghyfyrrdadwy**

Cyfrifir am asedau anghyfyrrdadwy a brynir ar ffurf trwyddedau meddalwedd fel rhan o'r rhaglen amnewid Technoleg Gwybodaeth, ac maent yn cael eu lleihau i refeniw yn unol â'r dibrisiant costau.

15. **Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill**

Mae gan yr Awdurdod fuddiant mewn Partneriaeth Rhwymedigaeth Cyfyngedig ar y cyd gyda 13 Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, gyda'r diben o gynhyrchu incwm yn bennaf o nawdd.

16. **Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir**

Mae stociau'n cael eu tynnu i'r cyfrif yn ôl cost y prisiau yn achos stociau'r bar, nwyddau i'w hailwerthu a darpariaethau cyffredinol ym Mhlas Tan y Bwlch, y Ganolfan Astudio ac yn achos nwyddau i'w hailwerthu yng Nghanolffannau Gwybodaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fabwysiadwyd ym mlynnyddoedd y gorffennol. Dan yr ymarfer a argymhellir rhaid dangos y stociau yn ôl y pris isaf o ddau, sef y gost wirioneddol neu'r gwerth dichonadwy net, ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol yn yr achos hwn.

17. Prydlesau (Cyllid)

Ar 31/3/2022 nid oes gan yr Awdurdod unrhyw drefniadau brydles cyllid.

18. Prydlesau (Gweithredol)

Mae'r Awdurdod yn rheoli prydlesau gweithredol i:

- Gerbydau,
- Llungopiŵyr a pheiriannau diodydd a byrbrydau.
- Tir ac adeiladau

Codir am daliadau prydles yn llawn yn ôl y dyddiad y maent yn daladwy arno ar sail llinell syth, yn sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw gwasanaeth drwy gydol oes y brydles.

Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo i gefnogi ei wasanaethau, a hefyd mae'n derbyn incwm rhent o sawl eiddo a berchenogir. Mae'r eiddo a berchenogir yn cael ei ddal fel asedau sefydlog yn y fantolen. Cyfrifir am yr incwm prydles ar sail llinell syth.

19. Eiddo, Offer a Chyfarpar

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Cydnabyddiaeth: Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail groniadau, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth (hy trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel ag y mae'n digwydd.

Mesur: Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo fedru cael ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr (amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y lleolir ef arno.)

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant i fod eu gwerth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (hy ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Pan fo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau etifeddiaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu - cost dibrisiant hanesyddol pan wyddys hwnnw
- asedau dros ben – gwerth (marchnad) teg.
- pob ased arall – potensial gwasanaeth ar sail gwerth defnydd presennol (GDP), , a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Heblaw am gyfarpar systemau gwybodaeth, mae lefel de minimis o £10,000 wedi ei ddefnyddio ar gyfer cydnabyddiaeth asedau nad ydynt yn gyfredol.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol o'u gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ar y lleiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. [Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan maent wedi codi o wyrddroi colled a godwyd yn flaenorol yn erbyn gwasanaeth.]

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronuss)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Cydrannu: Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor cydrannu i'r asedau sydd werth £150,000 neu fwy a lle bo'r gwahaniaeth mewn costau dibrisiant yn sylweddol. Mae'r egwyddor hon yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr elfennau hynny o'r eiddo â bywydau gweithredol gwahanol ac felly gwahanol raddau o ddibrisiant yn cael eu cydnabod ac y rhoddir cyfrif amdanynt.

Amhariad: Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer Dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod.

Dibrisiant: darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (hy tir rhydd-ddaliad a rhai asedau cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (hy asedau sy'n cael eu hadeiladu). Nid yw asedau buddsoddi nac asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu yn cael eu dibrisio.

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- adeiladau – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – canran o werth bob dosbarth o asedau yn y Fantolen, fel y cynghorir gan swyddog â chymwysterau addas

Dibrisir ar sail blwyddyn llawn yn y flwyddyn yr adnabyddir yr ased gyntaf yng nghyfrifon yr Awdurdod. Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân. Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Heb fod yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu

Pan y daw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael ei Ddal i'w Werthu. Mae'r ased y cael ei ailbrisiu yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel yn cael eu dal i'w gwerthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael Eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan geir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddatgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (hy wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio [neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthycia (y gofyniad cyllido cyfalaf)]. Mae derbyniadau'n cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi ar y Gronfa Gyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

20. **Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod sydd yn ôl pob tebyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod yr Awdurdod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Darpariaethau

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a cânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth posib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Ni chydabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

21. Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisi'r dyfodol, neu i ymdrin â risgiau. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy feddiannu symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan y ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna meddiannir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, fel nad oes taliad net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeol a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio gan yr Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisiâu perthnasol.

22. Gwariant Refeniw a ariennir o Gyfalaf Dan Statud

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycu, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau fel nad oes effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

23. Treth ar Werth

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Gyllid a Thollau EM. Mae'r TAW y gellir ei dderbyn yn cael ei eithrio o incwm. Arfer yr Awdurdod yw cynnwys yr holl dreth fewngyrch na ellir ei hadennill gan Gyllid a Thollau EM o fewn costau'r gwasanaethau perthnasol. O ganlyniad i'r newid yn nhrefniadau busnes cyfredol Plas Tan y Bwlch, nid oes cost TAW anadferadwy yno ar gyfer 2021/22.

Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn 1084unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

2020/21	2020/21	2020/21		2021/22	2021/22	2021/22
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
6,891	(5,062)	1,829	Cynllunio a Rheoli Tir	4,468	(2,367)	2,101
5,304	(1,597)	3,707	Corfforaethol	9,746	(2,477)	7,269
43	0	43	Costau na ellir eu dosbarthu			0
12,238	(6,659)	5,579	Cost net gwasanaethau	14,214	(4,844)	9,370
		5	Gwariant Gweithredu Arall (nodyn 9)	0		
		99	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (nodyn 10)	145		
		5,683	Gwariant Gweithredu Net	9,515		
		(6,246)	Incwm grant amhenodol (nodyn 11)	(5,845)		
		(563)	Gwarged (-) / Diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau am y flwyddyn	3,670		
		296	Diffyg net ar ailbriso asedau nad ydynt yn gyffredol a cholledion amhariad i'r gronfa ailbriso (nodyn 21)	74		
		2,113	Asedau/ rhwymedigaethau pensiwn (nodyn 35)	(7,704)		
		2,409		(7,630)		
		1,846	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(3,959)		

Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn destun i'r angen i gynnal lefel ochelgar o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw derfynau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbynebion Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion yn unig). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheiny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisiad wrth Gefn) ble dim ond ar ôl gwerthu'r asedau y byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn "Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau".

2020/21		Nodiadau	2021/22
£'000			£'000
17,529	Eiddo, Offer a Chyfarpar	12	14,482
798	Asedau Treftadaeth	13	807
25	Dyledwyr Tymor Hir	17	12
18,352	Asedau Tymor Hir		15,301
5,334	Buddsoddiadau Tymor Byr	15	7,848
117	Rhestrau Stoc	16	116
3,146	Dyledwyr Tymor Byr	17	2,028
3,859	Arian a Chyfateb Arian	18	2,333
12,456	Asedau Cyfredol		12,325
- 2,862	Credydwyr Tymor Byr	19	(1,756)
-	Darpariaethau	28	(689)
- 2,862	Asedau Cyfredol		(2,445)
- 7,317	Rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn	35	(884)
- 743	Credydwyr Tymor Hir	28	(452)
- 8,060	Rhwymediagaethau Tymor Hir		(1,336)
19,886	Asedau Net		23,846
- 9,137	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	8	(9,684)
- 10,749	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio	21	(14,162)
- 19,886	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn		(23,846)

Y DATGANIAD SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Dengys y datganiad hwn y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi i "Gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (h.y. y rheiny y gellir eu cymhwyso i ariannu gwariant) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell Gwarged (+) neu Ddiffyg (-) ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, y gwelir mwy o fanylion amdanynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Mae'r Cynydd/Gostyngiad Net cyn llinell Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau disgrisiwn i neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a wneir gan yr Awdurdod.

Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 2021/22

	Balans y Gronfa Gyffredinol a'r Cronfeydd wrth gefn a glustnodir	Cronfa wrth gefn Derbynion Cyfalaf	Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans a ddygwyd ymlaen 31 Mawrth 2021	(6,560)	(164)	(2,413)	(9,137)	(10,749)	(19,886)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	3,670	-	-	3,670	(7,630)	(3,960)
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan reoliadau (nodyn 7)	(4,536)	-	319	(4,217)	4,217	-
Cynydd/Gostyngiad yn 2021/22	(866)	-	319	(547)	(3,413)	(3,960)
Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2022	(7,426)	(164)	(2,094)	(9,684)	(14,162)	(23,846)
Cronfa Gyffredinol	(850)					
Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	(6,576)	(see note 8)				
	(7,426)					

Y Datganiad Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2020/21

	Balans y Gronfa Gyffredinol a'r Cronfeydd wrth gefn a glustnodir	Cronfa wrth gefn Derbyniion Cyfalaf	Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans a ddygwyd ymlaen 31 Mawrth 2020	(5,618)	(163)	(2,257)	(8,039)	(13,693)	(21,732)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(563)	-	-	(563)	2,409	1,846
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan reoliadau (nodyn 7)	(379)	-	(156)	(535)	535	-
Cynydd/Gostyngiad yn 2020/21	(942)	-	(156)	(1,098)	2,944	1,846
Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2021	(6,560)	(164)	(2,413)	(9,137)	(10,749)	(19,886)
Cronfa Gyffredinol	(663)					
Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	(5,897)	(gweler nodyn 8)				
	(6,560)					

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y **Datganiad Llif Arian** y newidiadau mewn arian a chyfateb ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfateb ag arian trwy ddsbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi a chyllido. Mae'r swm o lif arian neu sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn brif ddangosydd i'r graddau y mae gweithgareddau'r Awdurdod yn cael eu hariannu drwy incwm grant ac ardoll neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lif o arian wedi ei wneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at gyflenwad gwasanaeth yr Awdurdod i'r dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthycu) i'r Awdurdod.

2020/21 £'000		2021/22 £'000
(563)	(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau	3,670
(1,454)	Addasiadau l warged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau am symudiadau heb fod yn arian (nodyn 22)	(5,265)
1,525	Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido	689
(492)	Llif arian net o Weithgareddau Gweithredol	(906)
(711)	Gweithgareddau Buddsoddi (nodyn 23)	2,444
(15)	Gweithgareddau Cyllido (nodyn 24)	(12)
(1,218)	Cynnydd (-) neu ostyngiad net mewn arian neu gyfateb ag arian	1,526
2,641	Arian neu cyfateb ag arian ar gychwyn cyfnod adrodd	3,859
3,859	Arian neu cyfateb ag arian ar ddiwedd cyfnod adrodd (nodyn 18)	2,333

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**1. Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu**

Amcan y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yw dangos sut y mae'r cyllid sydd ar gael i'r Awdurdod (h.y. grantiau'r llywodraeth, rhenti, ffioedd a thaliadau ac ati,) am y flwyddyn wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu hefyd yn 10841010dangos sut y mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer dibenion gwneud penderfyniadau rhwng cyfarwyddiaethau'r cyngor. Mae'r incwm a'r gwariant a gyfrifir amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2021/22					
	Gwariant Net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	Addasaiadau rhwng y sail ariannu a Chyfrifyddu	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasaiadau rhwng yr Alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Alldro
	(£'000)	(£'000)	(£'000)	(£'000)	(£'000)
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir	938	(1,163)	2,101	1,055	1,046
Corfforaethol (cynnwys cyfarthrebu)	3,896	(3,373)	7,269	3,437	3,832
Costau na ellir eu dosrannu	-	-	-	-	-
Cost Net Gwasanaethau	4,834	(4,536)	9,370	4,492	4,878
Incwm a Gwariant Arall	(5,700)	-	(5,700)	(5,700)	-
Gwarged/ Diffyg	(866)	(4,536)	3,670	(1,208)	4,878
Balans Agoriadol	(6,560)				
Gwarged am y flwyddyn	(866)	-			
Balans Cau	(7,426)	-			
	(850)	Cronfa Gyffredinol			
	(6,576)	Cronfeydd wedi clustnodi			
	(7,426)				

2020/21					
	Gwariant Net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	Addasaiadau rhwng y sail ariannu a Chyfrifyddu	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau rhwng yr Alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Alldro
	(£'000)	(£'000)	(£'000)	(£'000)	(£'000)
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir	1,875	46	1,829	323	1,506
Corfforaethol (cynnwys cyfarthrebu)	3,325	(382)	3,707	589	3,118
Costau na ellir eu dosrannu	-	(43)	43	43	-
Cost Net Gwasanaethau	5,200	(379)	5,579	955	4,624
Incwm a Gwariant Arall	(6,142)	-	(6,142)	(6,142)	-
Gwarged/ Diffyg	(942)	(379)	(563)	(5,187)	4,624
Balans Agoriadol	(5,618)				
Gwarged am y flwyddyn	(942)				
Balans Cau	(6,560)				
	(663)	Cronfa Gyffredinol			
	(5,897)	Cronfa wedi eu clustnodi (nodyn 8)			
	(6,560)				

1a Nodyn ar yr Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu

Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i ffigyrau y Datganiad Incwm a Gwariant Chynhwysfawr	Newidiadau ar gyfer dibennion Cyfalaf	Newidiadau Net ar gyfer addasiadau pensiwn	Gwahaniaethau Eraill	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli	(552)	(611)	-	(1,163)
Corfforaethol	(2,747)	(626)	-	(3,373)
Costau na ellir eu dosrannu				
Cost Net	(3,299)	(1,237)	-	(4,536)
Incwm a Gwariant Arall				
	-	-	-	-
Gwahaniaeth rhwng y gwarged/diffyg ar y Gronfa Gyffredinol a'r gwarged/Diffyg ar gyflenwi gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant	(3,299)	(1,237)	-	(4,536)

Addasiadau rhwng sail Ariannu a Chyfrifyddu 2020/21				
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ffigyrau y Datganiad Incwm a Gwariant Chynhwysfawr	Newidiadau ar gyfer dibennion Cyfalaf	Newidiadau Net ar gyfer addasiadau pensiwn	Gwahaniaethau Eraill	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir	317	(271)	-	46
Corfforaethol (cynnwys cyfarthrebu)	28	(410)	-	(382)
Costau na ellir eu dosrannu				
Cost Net Gwasanaethau	345	(724)	-	(379)
Incwm a Gwariant Arall				
	-	-	-	-
Gwahaniaeth rhwng y gwarged/diffyg ar y Gronfa Gyffredinol a'r gwarged/Diffyg ar gyflenwi gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	345	(724)	-	(379)

1b Nodyn ar yr Incwm a Gwariant ar sail Cyfadrannol

Incwm ar sail cyfadrannol		
	2020/21	2021/22
Ffioedd ac incwm arall I wasanaethau	£'000	£'000
Cynllunio, Treftadaeth Ddiwylliannol a Rheoli Tir	(542)	(640)
Corfforaethol (cynnwys Cyfarthrebu)	(891)	(1,781)
	(1,433)	(2,421)

Costau 'heb fod yn arian' sylweddol ar sail Cyfadrannol							
	Cynllunio, Treftadaeath a Rheoli Tir		Corfforaeth		Totals		
	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	
	Dibrisiant	142	135	535	224	677	
Colledion Ailbrisiad	60	469	197	3,068	257	3,271	
Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf yn ôl statud	617	338	-	13	617	351	
addasiad pensiwn IAS19	176	638	285	633	461	1,271	
Addasiad croniad budd gweithwyr	52	(27)	57	(7)	109	(34)	
Totals	1,047	1,553	1,074	3,931	2,121	5,218	

1c Nodyn ar Wariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl eu Natur

Dadansoddiad Gwariant ac Incwm ar sail natur				
Dadansoddir gwariant ac incwm yr Awdurdod fel a ganlyn				
			2020/21	2021/22
			£'000	£'000
Gwariant/ Incwm				
Gwariant				
Costau Cyflogaeth			5,265	5,724
Costau eraill i wasanaethau			5,996	4,861
Costau na ellir eu dosrannu			43	-
Dibrisiant, amhariad a cholledion ailbrisiad			934	3,629
Cyfanswm Gwariant			12,238	14,214
				-
Incwm				
Ffioedd ac incwm eraill i wasanaethau			(1,433)	(2,421)
Llog net ar yr ymrwymiad net a ddiffinnir (addasiad pensiwn IAS 19)			111	157
Llog ac incwm buddsoddiad			(12)	(12)
Grantiau a chyfraniadau Llywodraeth			(5,226)	(2,423)
Incwm grant amhenodol			(6,246)	(5,845)
Enilliad ar waredu asedau			5	
Cyfanswm Incwm			(12,801)	(10,544)
Diffyg/gwarged ar gyflenwi gwasanaethau			(563)	3,670

2. Safonau cyfrifyddu sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eto wedi'u mabwysiadu

Nid oes safonau sydd yn effeithio ar Ddatganiad Cyfrifon 2021/22.

3. Barn gritigol mewn cymhwyso Polisiau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 11-21, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud rhai dyfarniadau am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddiwyddiadau yn y dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon yw:

Mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigonol eto i roi mynegiad y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau darpariaeth gwasanaeth.

4. Rhagdybiaethau a wneir am y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifedig sydd wedi eu seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Datgelir y rhagdybiaethau a wnaed gan yr Actwari yn gysylltiedig â'r Gronfa Bensiwn yn nodyn 35.

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw'r Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Tybiaethau
Atebolrwydd Pensiynau (nodyn 35)	<p>Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n adlewyrchu'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiwn.</p> <p>Darperir asesiad o'r rhwymedigaethau gan Hymans Robertson. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 35.</p>	<p>Gall newidiadau cymharol fach yn y rhagdybiaethau a wneir gael effaith sylweddol ar yr atebolrwydd net pensiwn. Bydd yr atebolrwydd net pensiwn a ddangosir yn y fantolen ddim ond yn dod yn daladwy dros gyfnod ymddeol gweithwyr presennol a rhai wedi ymddeol, felly gellir lledaenu addasiadau i'r rhwymedigaeth dros nifer o flynyddoedd trwy newidiadau yng nghyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr. Mae cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr yn cael effaith uniongyrchol ar y gyllideb.</p> <p>Cyfeirir at effaith y newid mewn rhagdybiaethau yn nodyn 5 o'r Adroddiad Naratif.</p>
Prisiadau eiddo (nodyn 12)	<p>Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Cynhaliwyd prisiad llawn ar 1af Ebrill 2021. Mae'n bosibl y gallai gwerthoedd eiddo amrywio'n sylweddol o fewn y ffrâm amser 5 mlynedd. Yn y cyswllt hwn, cynhelir adolygiad blynyddol gan y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Eiddo i nodi unrhyw brisiadau dros dro (interim) sydd eu hangen.</p> <p>Mae'n seilio ei brisiadau ar ragdybiaethau am gyflwr asedau, bywydau defnyddadwy, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad.</p> <p>Mae'r dyfarniadau hyn yn cael eu hategu gan y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys ond maent yn dal i fod yn seiliedig ar amcangyfrifon.</p>	Byddai amrywiad yng ngwerth eiddo yn effeithio ar y gwerthoedd a ddelir yn y Fantolen ac ar y tâl dibrisio cyfatebol.

5. Eitemau perthnasol o incwm a threuliau

Derbyniodd yr Awdurdod grantiau penodol “un-tro” gan Llywodraeth Cymru gwerth £2,520,566 yn ystod 2021/22.

Derbyniwyd gwerth £242,579 o grantiau cymorth yn sgîl effaith y pandemig.

6. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi eu cymeradwyo ar gyfer cyhoeddiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar 27^{ain} Gorffennaf 2021. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn wedi eu adlewyrchu'n y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Lle mae digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa cyn 31^{ain} Mawrth 2022, mae'r ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi eu addasu ymhob agwedd o sylwedd i adlewyrchu effaith y wybodaeth hwn.

7. Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir yn y cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir i'r adnoddau y manylir arnynt gan ddarpariaethau statudol fel eu bod ar gael i'r Awdurdodi gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw i'r dyfodol.

2021/22	Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol	Confeydd wrth gefn Derbynebion Cyfalaf	Cronfa wrth gefn Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso	mewn Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000	£'000	£'000
ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF				
Gwyrddroi eitemau a dderbyniwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyferedol	(742)	-	-	742
colledion ar ailbrisiad	(2,884)	-	-	2,884
Cwerth Llyfr asedau a waredwyd	-	-	-	-
Cymwysio grantiau a chyfraniadau cyfalaf	168	-	-	(168)
Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	(351)	-	-	351
Mewnosod eitemau na ddebydwyd neu gredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant				
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a ddefnyddiwyd yn 2021/22	-	-	604	(604)
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a drosglwyddwyd i refeniw yn 2021/22	(57)	-	-	57
Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	281	-	-	(281)
ADDASIAD YN YMWNEUD YN BENNAF Y GRONFA GRANTIAU CYFALAF HEB GYMHWYSO				
Grant cyfalaf dderbyniwyd yn 2020/21 a drosglwyddwyd i refeniw yn 2021/22	-	-	-	-
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd wedi eu credydi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	286	-	(286)	-
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y GRONFA DERBYNIADAU CYFALAF				
Derbyniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd yn 2021/22	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd yn 2021/22	-	-	-	-
ADDASIAD YN CYNNWYD YN BENNAF Y GRONFA BENSWIN WRTH GEFN				
Gwyrddroi eitemau yn gysylltiedig a buddianau ymddeol wedi ei debydu neu gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(1,979)	-	-	1,979
Cyfraniadau penswin cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn	708	-	-	(708)
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS				
Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol a'r gofynion statudol	34	-	-	(34)
Cyfanswm Addasiadau	(4,536)	-	319	(4,217)

2020/21	Cronfeydd wrth Genf Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol	Confeydd wrth gefn Derbynebion Cyfalaf	Cronfa wrth genf Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso	Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000	£'000	£'000
ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF				
Gwyrddroi eitemau a dderbynwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyferedol	(677)	-	-	677
colledion ar ailbrisiad	(257)	-	-	257
Cwerth Llyfr asedau a waredwyd	(16)	-	-	16
Cymwyso grantiau a chyfraniadau cyfalaf	905	-	-	(905)
Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	(272)	-	-	272
Mewnosod eitemau na ddebyddwyd neu gredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a ddefnyddiwyd yn 2020/21	-		-	-
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a drosglwyddwyd i refeniw yn 2020/21	-	-	334	(334)
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a drosglwyddwyd i refeniw yn 2020/21	(5)	-	5	-
Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Cyffredinol	172	-	-	(172)
ADDASIAD YN YMWNEUD YN BENNAF Y GRONFA GRANTIAU CYFALAF HEB GYMHWYSO				
Grant cyfalaf ddebyniwyd yn 2019/20 a drosglwyddwyd i refeniw yn 2020/21	-	(10)	10	-
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd wedi eu credydi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	505	-	(505)	-
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y GRONFA DERBYNIADAU CYFALAF				
Derbyniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd yn 2020/21	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd yn 2020/21	-	-	-	-
ADDASIAD YN CYNNWYD YN BENNAF Y GRONFA BENSWIN WRTH GEFN				
Gwyrddroi eitemau yn gysylltiedig a buddianau ymdeol wedi ei debydu neu gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(1,289)	-	-	1,289
Cyfraniadau penswin cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn	674	-	-	(674)
ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS				
Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol a'r gofynion statudol	(109)	-	-	109
Cyfanswm Addasiadau	(369)	(10)	(156)	535

8. Trosglwyddiadau o/i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd

	Gweddill 31 Mawrth 2020	Trosglwyddiada u allan 2020/21	Trosglwyddiada u i fewn 2020/21	Gweddill 31 Mawrth 2021	Trosglwyddiada u allan 2021/22	Trosglwyddiada u i fewn 2021/22	Gweddill 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfeydd wrth gefn referniw a chyfalaf (symiau wedi eu cymeradwyo fel gwariant clutnodedig)	(372)	50	(234)	(556)	556	(775)	(775)
Cronfa Risgiau Penodol (i gwrdd a phwysau cyllidebol tebygol)	(424)	-	-	(424)	-	-	(424)
Cronfa wrth gefn cynllunio (i gwrdd a chostau ymchwiliad cyhoeddus)	(225)	-	-	(225)	-	-	(225)
Cronfa wrth gefn arian cyfatebol (i bwrpas cronfa cyd-gyfeiriant)	(1,063)	297	(298)	(1,064)	216	(114)	(962)
Cronfa wrth gefn referniw	(1,720)	313	(702)	(2,109)	810	(265)	(1,564)
Cronfa wrth gefn incwm Pen y Pass (ar gyfer adnoddau yn perthyn i'r Wyddfa)	(56)	-	-	(56)	-	-	(56)
Cronfa wrth gefn Adain 106 (at bwrpasau cartrefi fforddiadawy)	(240)	50	(105)	(295)	36	(226)	(485)
Cronfa wrth gefn prosiectau	(405)	190	(289)	(504)	154	(592)	(942)
Cronfa wrth gefn Rheoli Asedau	(234)	29	(239)	(444)	57	(536)	(923)
Cronfa Gwytnwch Staff	(120)	-	-	(120)	-	-	(120)
Cronfa Risgiau Masnachol	(100)	-	-	(100)	-	-	(100)
	(4,959)	929	(1,867)	(5,897)	1,829	(2,508)	(6,576)
Cronfeydd Eraill	-	-	-	-	-	-	-
Cronfa Gyffredinol	(659)	-	(4)	(663)	45	(232)	(850)
Cyfalaf:	-	-	-	-	-	-	-
Grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	(2,257)	1,321	(1,477)	(2,413)	1,184	(865)	(2,094)
Cronfa Derbynebion Cyfalaf (i gyllido gwariant cyfalaf yn unig)	(164)	20	(20)	(164)	-	-	(164)
	(8,039)	2,270	(3,368)	(9,137)	3,058	(3,605)	(9,684)

9. Gwariant Gweithredol Arall

2020/21		2021/22
£'000		£'000
5	Enillion/colledion ar waredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0

10. Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi

2020/21		2021/22
£'000		£'000
111	Cost llog pensiwn a dychweliad disgwylidig ar asedau pensiwn	157
(12)	Llog y gellir ei dderbyn ac incwm tebyg	(12)
99	Cyfanswm	145

11. Incwm Grant Amhenodol

2020/21		2021/22
£'000		£'000
(3,745)	Grant Parc Cenedlaethol	(4,190)
(1,249)	Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol	(1,373)
(1,252)	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	(282)
(6,246)	Cyfanswm	(5,845)

12. Eiddo, Offer A Chyfarpar Symudiadau ar falansau

2021/22	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Cyfarpar	Cymuned	Asedau Dros Ben	Asedau yn cael eu Adeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad						
Ar 1 Ebrill 2021	18,892	2,177	108		210	21,387
Ychwanegiadau	382	121	25		106	634
Gwargedadau		(104)				(104)
Ailddosbarthiad	(21)					(21)
Ail-brisiad i'r datganiad IaGC	(2,859)		(25)			(2,884)
Colledion i'r Gronfa Ailbrisiad	(485)		512	40	-	67
Ar 31 Mawrth 2022	15,909	2,194	620	40	316	19,079
Dibrisiant ac Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2021	(2,276)	(1,583)				(3,859)
Dibrisiant	(158)	(188)				(346)
Ailddosbarthiad	(496)	-				(496)
Gwarediadau	-	104				104
Ar 31 Mawrth 2022	(2,930)	(1,667)				(4,597)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022	12,979	527	620	40	316	14,482
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2021	16,617	594	108		210	17,529

2020/21	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Cyfarpar	Cymuned	Asedau Dros Ben	Asedau yn cael eu Adeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad						
Ar 1 Ebrill 2020	18,702	1,951	108		147	20,908
Ychwanegiadau	615	332	-		185	1,132
Gwagediadau		(106)				(106)
Ailddosbarthiad	-					-
Ail-brisiad i'r datganiad IaGC	(250)		-			(250)
Colledion i'r Gronfa Ailbrisiad	(296)		-	-	-	(296)
Ar 31 Mawrth 2021	18,771	2,177	108	-	332	21,388
Dibrisiant ac Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2020	(1,791)	(1,493)				(3,284)
Dibrisiant	(485)	(180)				(665)
Ailddosbarthiad	-	-				-
Gwarediadau	-	90				90
Ar 31 Mawrth 2021	(2,276)	(1,583)				(3,859)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2021	16,495	594	108	-	332	17,529
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2020	16,911	458	108		147	17,624

Dibrisiant

Codir am ddibrisiant asedau sefydlog ar sail llinell syth i ddileu eu cost llai unrhyw werth gweddilliol rhagamcanedig mewn rhandaliadau dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased ar y seiliau canlynol:-

Tir ac Eiddo Gweithredol	: rhwng 10 – 60 mlynedd
Asedau Cymunedol	: dim
Offer Systemau Gwybodaeth	: 3 blynedd
Cerbydau	: dros 7 mlynedd i werth dim.
Dodrefn ac Offer Arall	: oes weithredol amcangyfrifedig

Ailbrisiadau

Bu ail-brisiad o holl asedau tir ac eiddo ar 1af Ebrill 2021

Ymrwymadau Cyfalaf

Yr unig ymrwymiad cyfalaf sydd gan yr Awdurdod ar gontract tendr ar 31/03/2022 ydy:

Cynllyn Trefadaeth Dolgellau £209K

13. Asedau Treftadaeth

Mae dosbarthiad yr Awdurdod o asedau treftadaeth diriaethol yn ymwneud â :

- **Melin Lechi Ynys y Pandy** - adeilad rhestredig heb ddefnydd gweithredol, a gafodd ei dynnu oddi ar brisiad y tir a'r adeiladau yn 2011/12 gan ei bod islaw'r lefel de-minimis.
- **Craig yr Aderyn** – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gedwir am ei nodweddion amgylcheddol. Prisiad ar sail “gwerth defnydd presennol”.
- **Yr Ysgwrn** – cartref y bardd Hedd Wyn a brynwyd i ddiogelu ei dreftadaeth ddiwylliannol. Mae'r asedau yma yn cael eu dal ar sail cost hanesyddol.

2021/22		Ynys y	Craig yr	Ysgwrn	Cyfanswm
		Pandy Slate	Aderyn		
		Mill			
		£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad					
	Ar 1 Ebrill 2021	-	28	818	846
	Ychwanegiadau	-	-	31	31
	Gwarediadau	-	-	-	-
	Ailddosbarthiad	-	-	21	21
	Colledion i'r Gronfa Ailbrisiad	-	-	-	-
	Ar 31 Mawrth 2022	-	28	870	898
		-	-	-	-
Dibrisiant ac Amhariad Cronnus					
	1 Ebrill 2021	-	-	(48)	(48)
	Dibrisiant	-	-	(43)	(43)
	Ar 31 Mawrth 2022	-	-	(91)	(91)
		-	-	-	-
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2022		-	28	779	807
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2021		-	28	770	798

2020/21	Melin Lechi	Craig yr	Ysgwrn	Cyfanswm	
	Ynys y	Aderyn			
		Pandy			
		(£'000)	(£'000)	(£'000)	(£'000)
Cost neu brisiad					
	1 Ebrill 2020	0	28	818	846
	Ychwanegiad	0	0	7	7
	Colled ailbrisiad i'r DI&GC	0	0	-7	-7
	Colled ailbrisiad I'r Gronfa Ailbrisiad	0	0	0	0
	31 Mawrth 2021	0	28	818	846
Dibrisiant ac Amhariad					
	1 Ebrill 2020	0	0	-36	-36
	Dibrisiad			-12	-12
	31 Mawrth 2021	0	0	-48	-48
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2021		0	28	770	798
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2020		0	28	782	810

14. Asedau Ar Werth

Ar 31/3/2022 nid oedd ased ar werth gan yr Awdurdod. (Ar 31^{ain} Mawrth 2021 nid oedd unrhyw ased wedi ei ddynodi'n Ased ar Werth).

15. Buddsoddiadau Tymor Byr

Ar 31/3/2022, roedd gan yr Awdurdod adneuron tymor gwerth £7,848k (£5,334k ar 31^{ain} Mawrth 2021).

16. Rhestrau stoc

Mae stoc yn dod i gyfrif ar bris cost. Roedd y stociau a oedd yn cael eu dal ar 31^{ain} Mawrth 2022 yn cynnwys:-

		Gweddill ar 31/03/2021	Gweddill ar 31/03/2022
		£'000	£'000
Canolfannau			
Gwybodaeth	Nwyddau i'w hailwerthu	82	75
Mynediad	Mapiau'r Wyddfa	4	3
	Cerrig a Bagiau	5	7
Plas Tan y Bwlch	Bar	1	1
	Nwyddau i'w hailwerthu	6	7
	Bwydydd a Glanhau	0	2
Gweinyddiaeth a			
Gofal Cwsmer	Dillad Amddifynol	3	3
Amaeth	Coed	10	12
Ysgwrn	Nwyddau Caffi a Siop	3	3
Pen y Pass	Nwyddau i'w hailwerthu	2	2
Llyn Tegid	Nwyddau i'w hailwerthu	1	1
Cyfanswm		117	116

17. Dyledwyr

2020/21		2021/22
£'000		£'000
	Symiau ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn:	
96	Masnach	93
119	Blaendaliadau	54
2,931	Eraill	1881
3,146		2028
	Dyledwyr Tymor Hir (symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn)	
25	Benthyciadau Ceir i Weithwyr	12
25		12

18. Arian a chyfateb ag arian

Mae'r balans o Arian a Chyfateb ag Arian yn cynnwys yr elfennau canlynol :

31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2022
£'000		£'000
2	Arian sy'n cael ei ddal gan yr Awdurdod	2
921	Cyfrifon banc cyfredol	418
2,936	Adneuon tymor byr gyda banciau	1,913
3,859	Cyfanswm Arian a Chyfateb ag Arian	2,333

19. Credydwy

2020/21		2021/22
£'000		£'000
	Swm yn ddyledus o fewn un blwyddyn	
(1,484)	Masnach	(1,262)
(491)	Eraill	(494)
(1,975)		(1,756)

20. Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy

Mae manylion ar symudiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod fel a nodir yn y Datganiad ar Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn (a nodyn 8).

21. Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio

2020/21		2021/22
£'000		£'000
(7,967)	Cronfa wrthgefn Ailbrisiad	(7,920)
(10,385)	Cyfrifon Addasiadau Cyfalaf	(7,377)
7,317	Cronfa wrth gefn Pensiynau	884
286	Cyfrif Absenoldebau Cronnus	251
(10,749)		(14,162)

CRONFA AILBRISANT WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisiad wrth gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar (ac Asedau Anghyfyrdadwy). Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn:

- Cael eu hailbrisiad i lawr neu eu amharu a'r enillion yn cael eu colli
- Cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant, neu
- Cael eu gwaredu a gwireddu'r enillion

Dim ond enillion a gronwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y gronfa wrth gefn, y dyddiad crëwyd y Gronfa Wrth Gefn. Mae enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cadarnhau i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2020/21		2021/22
£'000		£'000
(8,424)	Balans ar 1 Ebrill	(7,967)
296	Enillion ailbrisiant asedau	(3,125)
	Colledion ailbrisiant asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Gwarged/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	3,199
296	Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisiant asedau nad ydynt yn gyfredol na chawsant eu postio i'r gwarged neu ddiffyg ar Ddarpariaeth y Swm a ddilewyd i'r swm addasiad Cyfalaf	74
161	Enillion dibrisiant a ailbriswyd ac a ddilewyd i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf	(27)
(7,967)	Balans ar 31 Mawrth	(7,920)

Cyfrif Addasiad Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo ar gyfer defnydd asedau nad ydynt yn gyfredol a chyllido caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chost caffael, adeiladu neu wella fel dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostio cymodi o'r Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda symiau a osodir o'r neilltu gan yr Awdurdod fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronus ar Eiddo Buddsoddiad a chydnybuddir yr enillion ar asedau sy'n rhoddion ac sydd eto i'w defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiad cronus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn i ddal y fath enillion.

Mae Nodyn 8 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a bostiwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheiny oedd yn cynnwys y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn.

2020/21		2021/22
£'000		£'000
(10,035)	Balans ar 1 Ebrill	(10,385)
	Gwyrddroi eitemau cysylltiedig a gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
677	Taliadau am ddibrisiant ac amhariad o asedau nad ydynt yn gyfredol	742
257	Enillion/colledion ailbrisiant ar Eiddo/ Offer a Chyfarpar	2,884
16	Gwerth Llyfr offer a waredwyd	-
272	Gwariant Refeniw a ariennir o Gyfalaf dan Statud	352
(8,813)		(6,407)
	Addasiadau o'r Gronfa Ailbrisio	
(161)	Addasiad Dibrisiant	27
(8,974)	Swm Net a ddilewyd o gost asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(6,380)
	Ariannu Cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn	
-	Defnydd derbynebion cyfalaf i ariannu gwariant Cyfalaf newydd	57
(905)	Grantiau a chyfraniadau Cyfalaf a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant cynhwysfawr sydd wedi ei cymhwyso i gyllido Cyfalaf	(168)
(334)	Defnydd o grantiau o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso	(605)
(172)	Gwariant Cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Gronfa Gyffredinol	(281)
(10,385)	Balans ar 31 Mawrth	(7,377)

Cronfa wrth gefn Pensiynau

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo i fuddiannau ôl gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol a darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel buddiannau a enillwyd gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, diweddarau'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau a dychweliadau buddsoddi ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â chostau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y diwedd yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly mae'r balans dyled ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau mae'r Awdurdod wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd ariannu wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'r buddiannau'n ddyledus i'w talu.

2020/21		2021/22
£'000		£'000
4,589	Balans ar 1 Ebrill	7,317
2,113	Colledion/ elw actwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau	(7,704)
1,289	Gwyrddroad eitemau cysylltiedig a buddiannau ymddeol a ddebydir ney a gredydir i Warged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,979
(674)	Cyfraniadau penswin y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn	(708)
7,317		884

Cyfrif Absenoldebau Cronnus

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronnus yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn y flwyddyn e.e. hawliau gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2020/21 £'000		2021/22 £'000
177	Balans ar 1 Ebrill	286
(177)	Setliad neu ddiddymu'r cronniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(286)
286	Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	251
109	Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol a gofynion statudol	(35)
		-
286	Balans ar 31 Mawrth	251

22. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau gweithredol

Mae'r "addasiadau i'r gwarged net neu ddiffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau o symudiadau nad ydynt yn arian parod" yn cynnwys:

2020/21 £'000		2021/22 £'000
(677)	Dibrisiant ac Amhariad	(358)
(257)	Colledion ailbrisiad ar Eido, Offer a Chyfarpar	(3,270)
(16)	Colled Gwerth Llyfr ar werthiant Asedau	-
(1,298)	Symudiadau mewn Credydwy	702
1,423	Symudiadau mewn Dyledwyr	(1,067)
(14)	Symudiad mewn Stoc	(1)
(615)	Costau darpariaeth gwasanaethau ar gyfer Cuddianau ôl-gyflogaeth	(1,271)
		-
(1,454)	Balance at 31 March	(5,265)

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredol yn cynnwys llog banc a dderbyniwyd gwerth £12k (£11k yn 2020/21).

23. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Buddsoddi

2020/21		2021/22
£'000		£'000
1,139	Pryniant Eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffyrddadwy	665
	Derbyniadau o werthiant eiddo, peiriannau ac offer ac asedau	
(10)	anghyffyrddadwy	-
(133)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	2,514
(1,707)	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	(735)
		-
(711)	Balans 31 Mawrth	2,444

24. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Ariannu

2020/21		2021/22
£'000		£'000
-24	Ad-daliadau benthyciadau ceir a llog perthnasol	-12
10	Blaendalu benthyciadau ceir newydd	0
-14	Balans 31 Mawrth	-12

25. Lwfansau Aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Y lwfansau a dalwyd i aelodau oedd:-

2020/21 £'000		2021/22 £'000	
91	Lwfansau Aelodau	97	
0	Teithio & Chynhaliaeth	0	
91		97	

Mae gwybodaeth pellach ar wefan yr Awdurdod. Gweler y cyswllt isod : eryri.llyw.cymru/awdurdod/cyhoeddiadau/lwfans-aelodau

26. Tâl Staff

Mae Rheoliad 7A o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu taliadau gweithwyr.

Yn ôl Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu cymhareb cyflogau rhwng y cyflog canolig o holl weithwyr yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn.

2020/21 (£'000)		2021/22 (£'000)
91	Prif Weithredwr	92
23	Cyflog Canolig APCE	29
3.88	Cymhareb	3.15

Mae'r tâl perthnasol i uwch weithwyr yr Awdurdod fel a ganlyn :

2020/21				2021/22		
Cyflog	Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflog	Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr	Cyfanswm
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
91	18	109	Prif Weithredwr	92	18	110
7	1	8	Prif Swyddog Cyllid (Adran 151)*	7	1	9
63	13	76	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	63	13	77
63	13	76	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir	63	13	77

- * Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd yn Bennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd, mae'r berthynas hon wedi ei datgan yn nodyn 29 – Partion Cysylltiedig.

Ni dderbyniodd unrhyw swyddog swm dros £60k (gan hepgor cyfraniad pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr) yn cynnwys taliad diswyddo yn 2021/22.

Nifer swyddogion a dderbyniodd fwy na £60k yn cynnwys Cyflog a Budd Diswyddo						
2020-21			2021-22			
Cynllunio a Rheoli Tir	Corfforaethol	Cyfanswm	Amrediad	Cynllunio a Rheoli Tir	Corfforaethol	Cyfanswm
0	1	1	60,000 - 64,999	0	0	0
0	1	1	65,000 - 69,999	0	0	0

Buddiannau Terfynu

Mae nifer y pecynnau ymadael â chyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi'u nodi yn y tabl isod:

band cost pecyn ymadael	nifer y diswyddiadau		nifer yr ymadawiadau		Cyfanswm y pecynnau		Cyfanswm cost y pecynnau ymadael	
	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
0-40	5	0	0	0	5	0	42	0
40 - 60	0	0	0	0	0	0	0	0
60 - 80	0	0	0	0	0	0	0	0
80 - 100	1	0	0	0	1	0	84	0
100 - 150	1	0	0	0	1	0	130	0
Cyfanswm	7	0	0	0	7	0	256	0

27. Costau archwilio allanol

Mae'r costau yn ôl cynllun archwilio Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt archwilio'r Datganiad Cyfrifon, ardystio hawliadau grant ac archwiliadau statudol ac am wasanaethau nad oeddynt yn rhai archwilio a ddarparwyd gan archwilyr allanol yr Awdurdod fel a ganlyn:-

2020/21 £'000	Maes Rheoliadol	2021/22 £'000
31	Ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt gwasanaethau archwilio allanol a wnaed gan yr archwilydd penodedig	29
17	Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru yng nghyswllt archwiliadau statudol a Mesur LIL 2009	18
48	Cyfanswm	46

Ffigyrau'n unol â Chynllun Archwilio Blyneddol 2021-22 (yn cynnwys addasiad ar ffigyrau cost archwiliad ariannol oherwydd yr angen am waith ychwanegol ac felly'n cynyddu cyfanswm cost 2020/21).

28. Incwm Grantiau

Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol mewn credyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2021/22.

2020/21 £'000			2021/22 £'000
		Grantiau Refeniw	
		Credydwyd i Wasanaethau	
		Cynllunio a Rheoli Tir	
409		Cyfoeth Naturion Cymru	25
14		Ymddiriedolaeth Genedlaethol	8
10		RSPB	10
653		EU LIFE	416
2,485		Llywodraeth Cymru	354
85		Awdurdod Lleol	42
212		Cronfa Treftadaeth	195
-		Dwr Cymru	-
10		Coed Cadw	27
59		Grid Cenedlaethol	77
121		CGGC	85
29		HMRC (cynllun seibiant swyddi)	4
1		Erail	30
4,088			1,273
			-
		Corfforaethol	-
5		Cyfoeth Naturiol Cymru	254
572		Llywodraeth Cymru	243
72		Awdurdod Lleol	1
225		HMRC (cynllun seibiant swyddi)	23
2		Erail	1
876			522
4,964			1,795

2020/21			2021/22
£'000			£'000
		Grantiau Cyfalaf	
		Wedi ei credydu i Incwm Grant Amhenodol	
		Cynllunio a Rheoli Tir	
40		Cronfa Dreftadaeth y Loteri	-
245		Llywodraeth Cymru	7
48		Eraill	-
333			7
		Corfforaethol	
913		Llywodraeth Cymru	275
6		Eraill	-
919			275
1,252		Is-gyfanswm	282
		Credydwyd i Wasanaethau	
		Cynllunio a Rheoli Tir	
416		Llywodraeth Cymru	305
187		Cronfa Dreftadaeth y Loteri	126
(1)		Eraill	-
602			431
		Corfforaethol	
-		Llywodraeth Cymru	428
(1)		Eraill	-
(1)			428
1,854			1,141
		Grantiau Cyfalaf wedi'i derbyn o flaen llaw a'u defnyddio o fewn y flwyddyn gyfredol	
293		Llywodraeth Cymru	604
34		Cronfa Dreftadaeth y Loteri	-
7		Cyngor Mynydda Prydain	-
2,188		Is-gyfanswm	604
2,188		Cyfanswm Grantiau Cyfalaf	1,745

2020/21	GRANTIAU O FLAEN LLAW	2021/22
£'000		£'000
	Swm yn daladwy o fewn blwyddyn:	
(887)	Grantiau o flaen llaw	(689)
(887)		(689)
	Taladwy Tymor Hir (yn daladwy ar ôl un flwyddyn)	
(743)	Grantiau o flaen llaw	(452)
(743)		(452)

Mae'r awdurdod wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd heb eto cael eu hadnabod fel incwm, gan bod amodau cysylltiedig a olygir byddai angen dychwelyd yr arian os na fydd yr Awdurdod yn cwrdd ar gofynion. Mae'r balansau ar ddiwedd blwyddyn fel y ganlyn.

Mae'r £452k ar gyfer Credydwy'r Tymor Hir yn cynrychioli :

- £253k grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ar Hafod Eryri
- £95k grant ERAMMP.
- £48k cyfraniadau perthnasol i brosiect Awyr Dywyll.
- £1k perthnasol i grant TAIS Nant Peris
- £56k Cynlllyn LIFE – grant Dwr Cymru

29. Partïon Cysylltiedig

Mae gofyn i'r Awdurdod ddatgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu arnynt gan yr Awdurdod. Mae datgeliadau o'r trafodion hyn yn caniatáu i ddarllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu yn annibynnol neu yr oedd wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu gallu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu lefel materoldeb o £1,000 ar gyfer datgelu Trafodion Parti Cysylltiedig perthnasol i Aelodau a Staff.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cael dylanwad sylweddol trwy ddeddfwriaeth ac arian grant. Datgelir y symiau perthnasol yn nodiadau 11 ("incwm grant amhenodol") a 28 ("incwm grant").

Aelodau

Mae gan Aelodau'r Awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr Awdurdod. Cofnodir manylion buddiannau'r aelodau yng nghofrestriadau'r Gofrestr Aelodau, y gellir eu harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd yr Awdurdod yn ystod oriau gwaith.

Bu i un aelod ddatgan perchnogaeth o fusnes lle bu i'r Awdurdod brynnu nwyddau Lle Chwech. Trafodion busnes oedd rhain, heb unrhyw ddylanwad gan yr aelod.

Bu i un aelod ddatgan bod perthynas yn gweithio ym Mhrifysgol Bangor. Derbyniwyd £3k o incwm ym Mhlas Tan y Bwlch gan Brifysgol Bangor, doedd dim dylanwad gan yr aelod yn ymwneud ar incwm hwn.

Bu i aelod ddatgan bod perthynas yn berchen busnes nwyddau caledwedd. Mae'r awdurdod wedi prynnu amryw o nwyddau gan y busnes, ond nid oedd y trafodion yma wedi eu dylawadu gan yr aelod o gwbl.

Gweler cyfanswm lwfansau aelodau a dalwyd yn 2021/22 yn nodyn 25.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Awdurdodau cyfansoddiadol hynny lle mae terfyn yr Awdurdod hwn yn rhedeg o fewn eu terfynau hwy yn cyfrannu at gyllid yr Awdurdod trwy lefi statudol a ddynodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdodau hyn yn cyflenwi nifer o Aelodau i wasanaethu ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac mae'r nifer yn cyfateb yn fras i faint y lefi a gyfrennir a maint eu hardal o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae cynrychiolaeth 18 aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei rannu fel a ganlyn - Cyngor Gwynedd (9), Cyngor Conwy (3), Llywodraeth Cymru (6). Mae manylion pellach i'w cael o raglen yr Awdurdod ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ym mis Mehefin.

Yn ogystal derbynnir grantiau ar gyfer dibenion penodol gan neu drwy gyfrwng awdurdodau lleol a dangosir cyfanswm rhain yn nodyn 28.

Swyddogion

Datganodd Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod ddiddordeb, gan ei fod hefyd yn Bennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd. Derbyniodd yr Awdurdod oddeutu £1.1m (yn cynnwys lefi) o Gyngor Gwynedd yn 2021/22 (£1.1m yn 2020/21).

Bu i Bennaeth Gwasanaeth ddatgan ddiddordeb gan bod aelod o'u teulu yn berched cwmni gwaith metalau ble mae'r awdurdod wedi talu £2k yn 2021/22. Mi iedd y taliadau yn ymwneud a gwariant grantiau cyfalaf, yn ogystal a phryniant busnes yn ymwneud ac amaeth

Endidau a reolir neu y dylanwadir yn sylweddol arnynt gan yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod yn rhoi grantiau i gyrrff at ddibennion penodol trwy Gronfa Partneriaethau Eryri ond ni ystyrir fod gan yr Awdurdod reolaeth, rheolaeth ar y cyd na ddylanwad sylweddol ar y cyrrff hyn.

Roedd gan yr Awdurdod gontractau gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaethau canlynol yn ystod 2021/22:

- Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn a Gwasanaeth Cefnogol y Gyflogres (£7k)
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol (9k)
- Cefnogaeth dros dro adran gyllid (£6k)
- Cefnogaeth dros dro adran Adnoddau Dynol. (£16k)

Mae gan yr Awdurdod fuddiant mewn Partneriaeth Rhwymedigaeth Cyfyngedig (Partneriaeth Parciau Cenedlaethol) ar y cyd gyda 13 o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill gyda'r diben o gynhyrchu incwm yn bennaf o nawdd. Mae corff elusennol wedi ei sefydlu sydd yn ategol i'r Partneriaeth Parciau Cenedlaethol ar gyfer codi arian i'r parciau cenedlaethol.

30. Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido.

2020/21		2021/22
£'000		£'000
-	Gofynion Cyllido Cyfalaf Agoriadol	-
	Buddsoddiadau Cyfalaf	
	Eiddo, Peiriannau ac Offer	
	Cynllunio, Treftadaeth Diwylliannol a Rheoli Tir	
61	Ysgwrn	101
-	Pen y Pass & Llyn Tegid	16
53	Cynllun Lidar (Carneddau)	-
30	Offer	31
42	Arsyllfa Symudol a Phrosiectau Awyr Dywyll	-
-	Coedlannau	45
-	Coedlannau	7
186		200
	Corfforaethol (cynnwys Cyfarthrebu)	-
-	Uwchraddio maesydd parcio	40
-	Uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus	53
113	T.G - rhaglen amnewid gyffredinol	9
149	Cerbydau	15
-	Offer	26
29	Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa	16
54	Cyflenwad Trydan i Geir	7
-	Gwefan Newydd	91
31	Dol Idris (TAIS)	(1)
7	Canolfan Ogwen (TAIS)	2
30	Nant Peris (TAIS)	(3)
30	Canolfan Wybodaeth Betws y Coed	9
-	T.G - rhaglen amnewid gyffredinol	43
351	System wresogi Pencadlys	39
-	Cynllun ffeibr Ogwen	20
104	Llwybr Pren Morfa Dyffryn	20
-	Dadcarboneiddio	41
-	Cyflenwad Trydan i Geir	35
23	Plas Tan y Bwlch gwelliannau	-
27	Hafod Eryri	-
5	Arbedion Ynni (cynllyn grant)	-
953		462
		0
1,139		662

2020/21	Gwariant Refeniw Gyllidir o Gyfalaf dan Statud	2021/22
£'000		£'000
	Cynllunio a Rheoli Tir	
94	Cynlluniau Amgylchedd Adeiledig	9
253	Treftadaeth Treflun Dolgellau	167
25	Prosiect Awyr Dywyll	58
18	Coedlannau (grant .LL.C)	3
28	Coedlannau (grant T.C.LL.C)	104
-	Bioamrywiaeth (grant LI.C)	69
-	Prosiectau Cadwraeth	42
2	Gorseddau	-
1	Gwesty St. Davids	-
421		452
	Corfforaethol	0
104	Gwelliannau Mynediad	72
33	Ffridd Uchaf	33
-	Pont Llugwy Capel Currig	6
-	Cronfa Cymunedol Eryri	2
43	Bwlch Mawr - Brithdir	56
7	Cadair Idris	24
-	Lon Gwyrfai (grant LI.Cymru)	6
9	Llyn Nantlle (grant T.C.LL.C)	5
-	Cronfa Cymunedol Eryri	138
-	Crafnant - Capel Currig (grant T.C.LL.C)	147
-	Cwm Rhwyddfôr (grant T.C.LL.C)	6
196		495
		0
617	Cyfanswm REFCUS	947
		0
1,663	Cyfanswm gwariant	1,609
	Ffynhonellau Cyllid	
(1,854)	Grantiau Llywodreath a Chyfraniadau Eraill	(1,141)
(334)	Grant a Dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol a defnyddiwyd yn 2021/22	(564)
99	Ffi Gweinyddol T.C.LI.C	89
505	Grantiau ymlaen llaw dderbyniwyd 2021/22	288
(172)	Symiau a neilltwyd o Refeniw: Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(281)
(1,663)		(1,609)
	Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol	
-	Cynydd/ Gostyngiad yng ngofyniad Cyllido Cyfalaf	-

O'r cyfanswm gwariant o £1,609k (£1,663k yn 2020/21), mae £947k (£617k yn 2020/21) yn gysylltiedig ag asedau sefydlog nad ydynt ym mherchnogaeth yr Awdurdod, Mae'r cyllid grantiau a chyfraniadau cysylltiedig yn £595k (£345k yn 2020/21). Felly mae'r gwariant refeniw net a gyllidir o gyfalaf dan statud yn £351k (£272k yn 2020/21).

31. Prydlesau

YR AWDURDOD FEL DALIWR PRYDLES

Prydlesau Ariannol

Nid oes gan yr Awdurdod fel daliwr prydles unrhyw brydlesau ariannol.

Prydlesau Gweithredol

Mae gan yr Awdurdod brydlesau gweithredol yn ymwneud â cherbydau, llungopiwr, a pheiriannau ffrancio.

Mae'r isafswm taliadau prydles i'r dyfodol o dan brydlesau na ellir eu diddymu mewn blynyddoedd i ddod yn:

31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2022
<u>£'000</u>		<u>£'000</u>
91	Dim hwyrach nag 1 flwyddyn	138
210	Hwyrach nag 1 flwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	340
10,105	Hwyrach na 5 mlynedd	12,070
10,406	Cyfanswm	12,548

Codwyd costau prydles o £36,710 (£28,355 yn 2020/21) ar **offer** ar y Gyfarwyddiaeth Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

Codwyd costau prydles o £4,899 (£7,159 yn 2020/21) ar **gerbydau** r Awdurdod ar y Gyfarwyddiaeth Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Codwyd costau prydles o £82,583 (£83,266 yn 2020/21) ar **eiddo** yn erbyn Corfforaethol (£70,103) a Cynllunio a Rheoli Tir (£12,480) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

AWDURDOD FEL PRYDLESWR

Prydlesau Ariannol

Nid oes gan yr Awdurdod drefniant prydles ariannol ar 31/3/2022.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn prydlesu eiddo dan brydlesau gweithredol i'r pwrpasau canlynol: masnachol, rhenti daear ar hafotai ym Mhlas Tan y Bwlch, llety swyddfa, pori a hamdden/ mynediad.

'Roedd yr incwm derbyniadwy am 2021/22 yn £56,242 (£32,581 yn 2020/21). Y lleihâd o ganlyniad i effaith y pandemig.

Yr isafswm taliadau prydles i'r dyfodol sy'n dderbyniadwy dan brydlesau na ellir eu diddymu mewn blynyddoedd i ddod yw:

31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2022
£'000		£'000
62	Dim hwyrach nag 1 flwyddyn	60
427	Hwyrach nag 1 flwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	397
75,785	Hwyrach na 5 mlynedd	75,706
76,274	Cyfanswm	76,163

Mae'r ffigyrau yn ddarostyngedig i effaith adolygiadau rhent, a'r incwm a gynhrychir ynghyd â niferoedd ymwelwyr ar gyfer Hafod Eryri. Mae rhent Hafod Eryri wedi ei ddarogan ar sail gwerth 2020/21, gan gydnabod dim incwm ar ei gyfer yn 2020/21 na 2021/22.

Mae'r taliad dibrisiant cysylltiedig ar yr asedau perthnasol i brydlesau gweithredol yn £37,569 (2020/21 £37,569).

32. Colledion Amhariad

Bu colledion amhariad gwerth £496k ar eiddo ac offer yn ystod 2021/22. Roedd y colledion yn bennaf o ganlyniad gwariant cyfalaf di-wella.

33. Rhwymedigaethau Amodol

Ar 31 Mawrth 2022 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw rhwymedigaeth amodol.

34. Natur a maint risgiau'n deillio o offerynnau cyllidol

Gall gweithgareddau'r Awdurdod ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg credyd** – y posibilrwydd y gall partïon eraill fethu â thalu symiau dyledus i'r Awdurdod,
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymadau i wneud taliadau,
- **Risg marchnad** – y posibilrwydd y gall yr Awdurdod ddiodef colled ariannol o ganlyniad i newid mewn mesurau fel graddfeydd llog. Gall newid yn y gyfradd gyfnewid dramor olygu risg sylweddol o fewn y prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE).

Rheolwyd y risgiau uchod drwy drefniadau adennill dyledion yr Awdurdod a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, gyda dim effaith negyddol o sylwedd yn 2021/22. Mae gwerth offerynnau cyllidol yr Awdurdod yr un fath a'u gwerth teg.

35. Y Gronfa Bensiwn

Cyfranogi mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl i'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl gyflogaeth :

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd - mae hwn yn gynllun buddiant diffiniedig cyflog terfynol a ariennir, sy'n golygu fod yr Awdurdod a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn gydag asedau buddsoddi.
- Ôl fuddiannau ymddeol disgrisiwn wrth ymddeol yn gynnar. Mae hwn yn drefniant buddiant diffiniedig heb ei gyllido, y cydnabyddir rhwymedigaethau iddo pan fo'r dyfarniadau wedi eu gwneud. Ni adeiladwyd unrhyw asedau buddsoddi i gwrdd â'r rhwymedigaethau pensiynau hyn, a rhaid cynhyrchu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn gwirioneddol fel y dônt yn ddyledus. Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth flynyddol wedi ei seilio ar ddyfarniadau yn y gorffennol a wnaethpwyd dan y trefniadau hyn, ond nid yw wedi ychwanegu at y rhwymedigaeth hon mewn blynyddoedd diweddar. Yn hytrach, cydnabyddir unrhyw rwymedigaeth pensiwn ychwanegol sy'n deillio o ganiatáu ymddeol yn gynnar a'i dalu yn y flwyddyn benodol honno.

Trafodion yn Gysylltiedig â Buddiannau ôl Gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yn y gost gwasanaethau sy'n destun adroddiad pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau'n cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn i ni ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol ôl gyflogaeth /buddiannau ymddeol yn cael ei wyrdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022.

Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2022	Asedau	Ymrwymiadau	(Ymrwymiadau)/ asedau Net
	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg asedau'r cyflogwr	41,635	0	41,635
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	48,550	(48,550)
Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu	0	402	(402)
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2021	41,635	48,952	(7,317)
Cost Gwasanaeth			
- Cost Gwasanaeth Cyfredol *	0	1,822	(1,822)
- Cost Gwasanaeth Hanesyddol (yn cynnwys cwtogiadau)	0	0	(0)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth		1,822	(1,822)
Llog Net			
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	831	0	831
- Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir	0	988	(988)
Cyfanswm Llog Net	831	988	(157)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	831	2,810	(1,979)
Llif Arian			

- Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	218	218	0
- Cyfraniadau'r Cyflogwr	680	0	680
- Buddion a dalwyd	(996)	(996)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	(28)	(28)	0
- Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	28	0	28
Sefyllfa cau a ddisgwyllir	42,368	50,956	(8,588)
Ail Fesuriadau			
- Newid mewn rhagdybiaethau demograffig	0	(1,010)	1,010
- Newid mewn rhagdybiaethau ariannol	0	(3,289)	3,289
- Profiadau eraill	463	13	450
- Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net	2,955	0	2,955
Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	3,418	(4,286)	7,704
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	45,786	0	45,786
Gwerth presennol ymrwymadau wedi eu hariannu	0	46,306	(46,306)
Gwerth presennol ymrwymadau heb eu hariannu	0	364	(364)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2022	45,786	46,670	(884)

Mae'r côst gwasanaeth presennol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddol o 0.5% o werth y gyflogres.

NEWID MEWN GWERTH TEG ASEDAU'R CYNLLUN, YMRWYMIAD BUDDION A DDIFFINNIR AC YMRWYMIAD NET AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021.

Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2021	Asedau	Ymrwymadau	(Ymrwymadau)/ asedau Net
	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg asedau'r cyflogwr	32,215	0	32,215
Gwerth presennol ymrwymadau wedi eu hariannu	0	36,436	(36,436)
Gwerth presennol ymrwymadau heb eu hariannu	0	368	(368)
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2020	32,215	36,804	(4,589)
Cost Gwasanaeth			
- Cost Gwasanaeth Cyfredol *	0	1,135	(1,135)
- Cost Gwasanaeth Hanesyddol (yn cynnwys cwtogiadau)	0	43	(43)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	1,178	(1,178)
Llog Net			
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	741	0	741
- Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir	0	852	(852)
Cyfanswm Llog Net	741	852	(111)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	741	2,030	(1,289)
Llif Arian			
- Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	209	209	0
- Cyfraniadau'r Cyflogwr	646	0	646
- Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	(843)	(843)	0
- Buddion a dalwyd	(28)	(28)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	28	0	28
Sefyllfa cau a ddisgwyilir	32,968	38,172	(5,204)
Ail Fesuriadau			

- Newid mewn rhagdybiaethau demograffig	0	10,557	(10,557)
- Newid mewn rhagdybiaethau ariannol	0	547	(547)
- Profiadau eraill	0	(324)	324
- Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net	8,667	0	8,667
Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfwr Arall (ICA)	8,667	10,780	(2,113)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	41,635	0	41,635
Gwerth presennol ymrwymadau wedi eu hariannu	0	48,550	(48,550)
Gwerth presennol ymrwymadau heb eu hariannu	0	402	(402)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2021	41,635	48,952	7,317

Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% am gostau gweinyddol.

Mae'r atebolrwydd hwn yn cynnwys oddeutu £364k mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan CPLIL a £0 mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan Athrawon. O ran rhwymedigaethau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2022, tybir fod pob pensiwn sydd heb ei ariannu yn daladwy am weddill bywyd yr aelod. Tybir ymhellach fod 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) pan fyddant yn marw a bod eu priod (neu un sy'n cyd-fyw) yn derbyn 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion Diffynadwy

	Rhaniad ymrwymiad		Cyfnod Cyfartalog wedi ei Bwysoli adeg y Prisiad Diwethaf.
	£'000	(%)	
Aelodau gweithredol	3,366	76	52
Aelodau gohiriedig	295	7	52
Aelodau pensiywyr	773	17	68
Cyfanswm	4,434	100	

(Mae'r ffigurau ar gyfer ymrwymadau heb eu hariannu yn unig ac yn hepgor ymrwymadau pensiywyr heb eu hariannu. Mae hyd yr ymrwymiad yn weithredol ar sail y prisiad ffurfiol diwethaf ar 31 Mawrth 2022).

Hanes y Cynllun

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth presennol rhwymedigaethau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(37,044)	(38,018)	(43,173)	(36,804)	(48,952)	(46,670)
Gwerth Teg Asedau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	31,283	32,666	35,421	32,215	41,635	45,786
Gwarged / (diffyg) yn y cynllun :	(5,761)	(5,352)	(7,752)	(4,589)	(7,317)	(884)

Dengys y rhwymedigaethau yr ymrwymiadau gwaelodol sydd gan yr Awdurdod yn y tymor hir i dalu buddiannau ôl gyflogaeth (ymddeoliad). Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth o £46,670k yn cael effaith sylweddol ar werth net yr Awdurdod fel y caiff ei gofnodi yn y Fantolen h.y. ei leihau o £884k. Golyga darpariaethau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau'n iach :

- gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol trwy gyfraniadau uwch dros weddill oes waith gweithwyr (h.y. cyn bod y taliadau'n dod yn ddyledus), fel yr asesir gan actwari'r cynllun,
- dim ond ar gyfer buddiannau disgresiwn pan fo'r pensiynau'n cael eu talu'n wirioneddol mae angen codi cyllid.

Mae cyfanswm cyfraniadau gan yr Awdurdod, fel yr amcangyfrifir gan yr Actwari, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 yn £708k. Mae'r Actwari yn amcangyfrif y bydd cost cyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023 yn £666k.

Nid oes gan y trefniadau Buddiannau Disgresiwn unrhyw asedau i ymdrin â'u rhwymedigaethau. Mae asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol, fesul cyfran o'r cyfanswm ac asedau sy'n cael eu dal :

31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2022
(%)		(%)
70	Buddsoddiadau ecwiti	68
21	Buddsoddiadau dyled	22
8	Eiddo	9
1	Arian	1
100		100

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £45,786k ar 31 Mawrth 2022, yn seliedig ar

wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar sail gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

Categori Ased	31 Mawrth 2022				31 Mawrth 2021			
	Prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol	Cyf.	%	Prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol	Cyf.	%
	(£'000)	(£'000)	(£'000)		(£'000)	(£'000)	(£'000)	
Ernesau Ecwiti :								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ernesau Dyled								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	2,617.9	2,617.9	6	0	2,588.8	2,588.8	6
Eiddo Diriaethol :								
Eiddo y DU	0	4,165.2	4,165.2	9	0	3,302.2	3,302.2	8
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	0	0	0
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol :								
Ecwiti	0	28,549.6	28,549.6	62	0	26,675.7	26,675.7	64
Bondiau	0	0	0	0	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	1,112.0	1,112.0	2	0	733.9	733.9	2
Eraill	0	9,101.3	9,101.3	20	0	8,094.1	8,094.1	19
Arian a Chywerthoedd Arian :								
Y cyfan	240.0	0	240.0	0	240.3	0	240.3	1
Cyfanswm	240	45,546	45,786	100	240.3	41,395	41,635	100

Sail ar Gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoledd, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn wedi eu hasesu gan Hymans Robertson, cwmni annibynnol o actwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Awdurdod wedi ei seilio ar y gwerthusiad llawn olaf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2019.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2021/22	2020/21
Graddfa dychweliad disgwylidig tymor hir ar asedau yn y cynllun :	2.7%	2%
Rhagdybiaethau Marwoledd :		
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol :		
Dynion	21.2 blynedd	21.5 blynedd
Merched	24.1 blynedd	23.9 blynedd
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol :		
Dynion	22.3 blynedd	22.7 blynedd
• Merched	25.8 blynedd	25.9 blynedd
• Graddfa chwyddiant (CPI)	3.2%	2.9%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	3.5%	3.2%
• Graddfa cynnydd mewn pensiynau	3.2%	2.9%
• Graddfa ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	2.7%	2.0%
Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad	65% cyn gwasanaeth 1/4/2014 a 65% ôl gwasanaeth 1/4/2014.	50% cyn gwasanaeth 1/4/2008 a 75% ôl gwasanaeth 1/4/2008.

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffinedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2022 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwy meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Awdurdod pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3%-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythr y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth yr Awdurdod fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, dyddiad y prisiad actwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Cyflogwr	Brasamcan swm ariannol
	31 Mawrth 2022 (%)	31 Mawrth 2022 (£'000)
Lleihad 0.1% i'r gwir gyfradd disgownt	2	923
Cynnydd disgwyliad oes o 1 blwyddyn	4	1,867
Cynnydd 0.1% i'r cyfradd codiad cyflog	0	149
Cynnydd 0.1% i'r cyfradd codiad pensiwn	2	767

Rhagolwg Cost Buddion a Ddiffinnir am y cyfnod i 31 Mawrth 2023

	Asedau	Ymrwymadau	(ymrwymiad) / ased Net	
	£'000	£'000	£'000	% of pay
Rhagolwg Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	1,544	(1,544)	(45.9%)
Cost Gwasanaeth Hanesyddol yn cynnwys cwtogiadau	0	0	0	0
Effaith setliadau	0	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	1,544	(1,544)	(45.9%)
Incwm llog ar asedau'r cynllun	1,235	0	1,235	36.7%
Cost llog ar yr ymrwymiad budd a ddiffinnir	0	1,288	(1,288)	(37.7%)
Cyfanswm Cost Net Llog	1,235	1,270	(35)	(1%)
Cyfanswm wedi ei gynnwys yn yr elw a cholledion	1,235	2,814	(1,579)	(46.9%)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans am dreuliau gweinyddol megis 0.5% o'r gyflogres. Mae'r gwerth ariannol yn seliedig ar amcan gwerth y gyflogres o £3,366k.

Gosodir y cyfraniadau a delir gan y Cyflogwr gan Actiwari y Gronfa bob tair blynedd ar adeg prisiad actwariol y Gronfa (yr un mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022), neu ar unrhyw adeg arall yn unol â chyfarwyddid yr Awdurdod sy'n gweinyddu'r Gronfa.

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifeg sylweddol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22. Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y dehonglwyd ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Rwy'n annibynnol o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i barhau i fabwysiadu sail gynyddol cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Ariannol

Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Adroddiad ar ofynion eraill Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Barc Cenedlaethol Eryri a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifeg digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 11, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi barn wir a theg, ac ar gyfer rheolaeth fewnol o'r fath fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau

cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu enw gallu'r corff llywodraeth leol i barhau fel busnes gweithredol, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gynyddol o gyfrifo oni fernir yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolaeth, pennaeth archwilio mewnol yr Awdurdod a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Parc Cenedlaethol Eryri sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol ac adolygu amcangyfrif cyfrifeg ar gyfer rhagfarnau.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phroffion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a

wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Awdurdod, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Mehefin 2024

1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

Cynnal a chadw a chywirdeb gwefan yr Awdurdod :

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hygyrdedd gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021-22



Mae'r datganiad hwn yn diwallu'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol
yn unol â Rheoliad 4 o
Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2010)

Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddarau eleni gan Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd yn benodol i adolygu trefniadau llywodraethu'r Awdurdod i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2022.

Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;

- Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2021/22 cynhaliwyd 7 cyfarfod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 3 gwaith yn ystod 2021/22. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 8 gwaith yn ystod 2021/22. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod unwaith yn ystod 2021/22. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Personél yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogaion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisïau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda'r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o'r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau'r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i'w bwyllgorau a'i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaeithaid Gwasanaeth. Mae'r Gofrestr Risg a'r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a'i ddiweddarau'n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnolyn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth leol yn y DU. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel archwilydd allanol i'r Awdurdod, ac felly sy'n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2010). Y Prif Swyddog Cyllid (sydd yn Brif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd) yw'r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy'n maxsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau lleisiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion lleisiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Datblygwyd Datganiad Llesiant ar gyfer yr Awdurdod dros gyfnod o 18 mis ac mae'n nodi Amcanion Llesiant newydd sy'n disgrifio sut y byddant yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r saith nod lleisiant ar gyfer Cymru. Mabwysiadwyd y Datganiad Llesiant a'r Amcanion Llesiant fel dogfennau strategol gan yr Awdurdod yn ystod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 23ain o Fawrth, 2021.

Mae'r Amcanion Llesiant yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ac maent wedi'u halinio â phump is-thema i roi ffocws, fel yr amlinellir islaw.

Amgylcheddau Cydnerth

1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden.
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol.
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit.
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth

1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr.
2. Cefnogi pobl ifanc.
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol.
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio

1. Datblygu gweithlu medrus.
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau.
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu.
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau lleisiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2021/22 i'w chymeradwyo gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 28ain o Ebrill 2021. Mae'r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymeryd â hwy er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.

Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 24ain o Dachwedd 2021 ac y 23ain o Fawrth 2022. Mae'r adroddiad blynyddol llawn ar y Rhaglen Waith Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2022.

Mae adolygiad sylweddol o weithdrefnau ac arferion llywodraethu'r Awdurdod wedi'i gynnal yn ystod 2021/22, gan fod y maes hwn wedi'i ddewis fel un o'r pynciau craffu gan yr Awdurdod.

Roedd cylch gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu (fel y'i nodir yn y Cylch Gorchwyl) yn cynnwys canolbwyntio ar rhai o'r cynigion ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn adroddiad Archwilio Cymru ar Wasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy a oedd yn ymwneud â llywodraethu.

Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Awdurdod adolygu rhai materion llywodraethu yn dilyn llythyr at y Gweinidog yn mynegi pryderon. Roedd y materion a godwyd yn gyfle i'r Awdurdod adolygu a gwella ei systemau llywodraethu ac o ganlyniad adeiladu ar y diwylliant o ddeialog agored a her adeiladol i uwch arweinwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch darparu gwasanaethau a'r defnydd o adnoddau.

Un o ganlyniadau allweddol y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu oedd adolygu a diweddarau Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod. Mae'r Cod newydd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill 2022.

Nodir canlyniadau allweddol eraill yn y Datganiad hwn o dan y penawdau priodol.

Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilyr mewnol a'r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Egwyddor 1: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

<p>Cod Llywodraethu Corfforaethol</p>	<p>Nodwyd llywodraethu fel un o'r meysydd pwnc i graffu'n fanwl arno yn ystod 2021/22, ac o ganlyniad sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu. Cyfarfu'r grŵp 4 gwaith rhwng Tachwedd 21 a Chwefror 22.</p> <p>Adolygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn fanwl a'i ailddrafftio gan y Grŵp, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gonglfaen llywodraethu effeithiol ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Trafodwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig drafft yn fanwl yn y Gweithgor Aelodau ar y 6ed o Ebrill 2022, cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n derfynol a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod ddiwedd Ebrill 2022.</p>
<p>Pwyllgor Safonau</p>	<p>Cafodd y Pwyllgor Safonau ddiwrnod llawn ar y 3ydd o Fedi 2021.</p> <p>Yn ystod y bore, cynhaliodd y Pwyllgor Safonau Wrandawriad Apêl a gynhaliwyd yn unol â Threfn Gwyno'r Awdurdod. Cafodd yr apêl ei gwrthod yn y pen draw.</p> <p>Cynhaliwyd sesiwn y prynhawn i ystyried busnes arferol y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y cyfarfod hwn, bu'n ystyried nifer o faterion gan gynnwys Rhoi Goddefeb i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.</p> <p>Adolygodd yr Aelodau hefyd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2020/21, a chawsant wybod am y datblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn. Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol hefyd i'r Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.</p>

<p>Polisi Seinio Rhybudd</p>	<p>Ymgwymerwyd â'r adolygiad manwl olaf gan y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2016, gyda'r newidiadau a oedd yn deillio o hynny yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2016.</p> <p>Yn ystod 2021/22, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan y Polisi Seinio Rhybudd.</p>
<p>Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth</p>	<p>Yn ystod 2021/22 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion honedig o dwyll neu lygredigaeth mewn perthynas â unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio.</p>
<p>Model Cod Ymddygiad</p>	<p>Yn ystod 2021/22, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.</p>
<p>Cwynion – Swyddogion</p>	<p>Yn ystod 2021/22, derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 15 cwyn ffurfiol.</p> <p>Ni fu'r Awdurdod yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2021/22.</p> <p>Fodd bynnag, gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg fod yr Awdurdod yn torri ei Safonau Iaith Gymraeg, drwy fethu â darparu gwasanaeth archebu ar-lein cwbl ddwyieithog ar gyfer maes parcio Pen y Pass. Darparwyd y gwasanaeth gan ddarparwr allanol Just Park.</p> <p>Cychwynnodd y Comisiynydd ymchwiliad a daeth i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi methu â chydymffurfio â 3 safon benodol, sef safonau 50, 52 a 56. Datblygodd yr Awdurdod Gynllun Gweithredu y cytunwyd arno gan y Comisiynydd i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau hyn erbyn Pasg 2022.</p>
<p>Cwynion – Aelodau</p>	<p>Yn ystod 2021/22, ni dderbyniodd Swyddog Monitro'r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.</p>

<p>Cwynion – Eraill</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd cwyn yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ynghylch amrywiol faterion llywodraethu a gweinyddu o fewn yr Awdurdod.</p> <p>Ymatebodd yr Awdurdod i'r honiadau a darparwyd gwybodaeth berthnasol. Rhoddwyd argymhellion ar gamau gweithredu i'r Awdurdod i gryfhau llywodraethu mewn meysydd penodol, ac mae'r Awdurdod wedi'u derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau (manyion newidiadau penodol o dan bennawd y Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau). • Gwneud Cais am Gyllid gan Lywodraeth Cymru – adolygu'r broses benderfynu i gwrdd â therfynau amser cyflwyno mewn rhai amgylchiadau. Trafodwyd hyn a chytunwyd arno gan yr Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 23ain o Fawrth 2022. • Lefel y cronfeydd wrth gefn i fod yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod rhwng APCE a Llywodraeth Cymru. • Amrywiaeth - bydd cynnydd yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd monitro rhwng APCE a Llywodraeth Cymru.
<p>Rheolau Sefydlog</p>	<p>Adolygwyd a diwygiwyd y Rheolau Sefydlog diwethaf gan yr Awdurdod ar y 26ain o Ebrill 2017, yn dilyn derbyn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2017.</p> <p>Ni chodwyd unrhyw fater yn berthnasol a gweithrediad y Rheoliadau Sefydlog yn ystod 2021/22.</p>
<p>Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau</p>	<p>Mae'r Awdurdod wedi derbyn argymhellion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau'r Awdurdod mewn perthynas â chontractau yn ddigon tryloyw, sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Y trothwy ar gyfer cyhoeddi manylion contractau a ddyfarnwyd yn cael ei osod yn £1,000. 2. Adolygu'r prosesau ar gyfer adolygu a chofnodi manylion contractau lle mae Aelodau, staff, teuluoedd a ffrindiau wedi cael budd uniongyrchol o ddyfarnu contractau. Bydd hyn nawr yn cael ei ymestyn i'r holl staff, yn ogystal â'r gofyniad presennol ar y penaethiaid gwasanaeth a'r tîm rheoli.

	<p>3. Wrth ddyfarnu contractau, dylid gweithredu'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, hyd yn oed pan na fyddai gwerth contract yn sbarduno gofynion Rheoliadau 2015.</p> <p>Mae fersiwn drafft newydd o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau wedi'i gynhyrchu sy'n ymgorffori'r argymhellion uchod ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau newydd sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen gwneud rhagor o waith ar y drafft cyn y gellir ei gyflwyno i'r Aelodau i'w fabwysiadu yn 2022/23.</p>
<p>Cynllun Dirprwyo</p>	<p>Cafodd y Cynllun Dirprwyo ei adolygu a'i newid ddiwethaf gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 13eg o Ragfyr 2017.</p> <p>Fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, ystyriwyd sut yr oedd yr Awdurdod wedi mynd ati i wneud penderfyniadau yn ystod gwahanol gamau o bandemig Covid-19, ac a oedd unrhyw bwyntiau dysgu i'w hymgorffori ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Tra cydnabuwyd bod angen gwahaniaethu sut mae angen i'r Awdurdod weithredu ar adegau o argyfwng cenedlaethol ac mewn amseroedd arferol; roedd yn ddiddorol nodi bod yr arferion gwaith deinamig a weithredwyd yn ystod cam cyntaf y pandemig wedi'u galluogi o dan y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol.</p> <p>Daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac felly ni roddwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer newidiadau.</p>
<p>Cofrestr Buddiant / Diddordebau Aelodau</p>	<p>Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.</p> <p>Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddarau eu cofnod buddion/diddordebau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynnyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt eu hadolygu a'i diweddarau os yn berthnasol.</p>

	Yn ystod 2021/22, rhoddwyd cadarnhad i Lywodraeth Cymru bod y Gofrestr yn gyfredol ac ar gael i'r cyhoedd a bod trefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth.
--	--

Egwyddor 2: Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

Cynllun Cydraddoldeb Strategol	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020.</p> <p>Adroddwyd ar gynnydd yr Awdurdod gyda'i gynllun gweithredu o ran cyrraedd ei Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff.</p> <p>Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31ain o Fawrth 2021. Rhaid nawr ystyried sut y gall penderfyniadau strategol yr Awdurdod wella anghyfartaledd canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae templed asesu effaith newydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru i sicrhau y gallwn cofleidio ein cyfrifoldebau newydd yn llawn.</p>
Ymgynghori Uniongyrchol	<p>Wrth i gyfyngiadau amrywiol Covid-19 barhau yn eu lle drwy gydol y flwyddyn, parhaodd yr Awdurdod i ddefnyddio amrywiol atebion ar-lein i alluogi cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu uniongyrchol, fel ei brif ddull o gysylltu.</p> <p>Yn ystod 2021/22, parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol drwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd a gweithdai ar-lein. Pan oedd cyfyngiadau'n caniatáu, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori mewn person mewn manau diogel o ran Covid.</p> <p>Tra bod Fforwm Eryri, y Grŵp Cyswllt Amaeth Blynyddol, Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De i enwi dim ond rhai, wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol, mae trafodaethau ar sut i symud ymlaen yn y dyfodol wedi dechrau. Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg yw bod llawer yn gweld manteision mawr i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac yn dymuno parhau, tra bod eraill yn gweld anfanteision o beidio â chyfarfod mewn person a dymuniad i aildechrau cyfarfodydd o'r fath. Yn</p>

	<p>ystod y flwyddyn i ddod bydd rhai cyfarfodydd mewn person yn ailddechrau, bydd rhai cyfarfodydd yn defnyddio datrysiadau hybrid tra bydd rhai yn aros yn gyfan gwbl ar-lein.</p> <p>Y tu allan i'r ymgynghoriadau uniongyrchol arferol ar fusnes yr Awdurdod sydd wedi digwydd eleni, mae ymgysylltu ac ymgynghori hefyd wedi digwydd gyda chymunedau lleol er mwyn galluogi i wybodaeth gael ei rhannu ac i roi cyfle i bobl roi eu barn ar heriau niferus mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau wedi wynebu oherwydd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.</p>
<p>Strategaeth Cyfathrebu a Ymgysylltu</p>	<p>Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad lle i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.</p> <p>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae hyn wedi bod yn amlwg iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, lle bu cyfathrebu ac ymgysylltu clir a diamwys wedi bod yn hanfodol.</p> <p>Mabwysiadwyd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yr Awdurdod yn ffurfiol gan yr Awdurdod ar y 9fed o Fehefin 2021.</p> <p>Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar y strategaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 23ain o Fawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y dangosyddion perfformiad a nodir yn y strategaeth.</p> <p>Mae'r Rheolwr Cynnwys a Brand wedi bod yn gweithio gyda Creo, y cwmni a benodwyd ar gontract i ddatblygu dyluniad y wefan newydd ar gyfer yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Lansiwyd y wefan newydd ym mis Ebrill 2022.</p>

<p>Rhyddid Gwybodaeth</p>	<p>Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.</p> <p>Yn ystod 2021, derbyniwyd 33 o geisiadau, ac o'r rhain fe dderbyniodd 30 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (91%). O'r 3 chais arall, cafodd 2 eu gwrthod neu eu gwrthod yn rhannol oherwydd nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nid oedd yr awdurdod yn cadw'r wybodaeth, a gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys data personol trydydd parti, a gafodd ei olygu o'r wybodaeth a ryddhawyd.</p> <p>Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am wybodaeth.</p>
<p>Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig</p>	<p>Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod.</p> <p>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan.</p>

Egwyddor 3: Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

<p>Cynllun Partneriaeth y Wyddfa</p>	<p>Er na chyflwynwyd adroddiad diweddarau ffurfiol ar Gynllun Yr Wyddfa i'r Aelodau yn ystod 2021/22, fe ryddhawyd tri chylchlythyr oedd yn rhoi diweddariad ar waith y Partneriaeth ac fe gafwyd trafodaeth ar yr elfen parcio a thrafnidiaeth yn y Gweithgorau ar yr 22ain o Ionawr 2021 a'r 20fed o Hydref 2021.</p> <p>Ers lansio'r cynllun yn 2018 mae nifer o'r prosiectau cychwynnol wedi eu cyflawni ac mae'r Partneriaeth yn bwriadu adolygu'r Cynllun yn ystod 2023 gan lansio fersiwn diwygiedig - bum mlynedd ers creu'r Cynllun gwreiddiol.</p>
---	--

	<p>Un o flaenoriaethau'r Cynllun yw gweithredu'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth ardal Yr Wyddfa ac Ogwen. Mae nifer o'r elfennau cychwynol wedi eu rhoi ar waith gyda chefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru. Mae oedi mewn perthynas â Phen Y Pass a'r cais cynllunio a gymeradwywyd yn ddiweddar i osod rhwystr fyddai'n gwella effeithlonrwydd y system rag archebu gan fod pryderon wedi ei godi gan y tîrffediannwr.</p> <p>Ysgrifennwyd cynllun ardal bwrpasol ar gyfer Nant Gwynant yn ystod y flwyddyn, ar y cyd a'r partneriaid perthnasol yn yr ardal.</p> <p>Mae rhaglen Llysgennad Eryri wedi mynd o nerth i nerth gyda dros 700 wedi cymhwyso a tua 200 wedi ailgymhwyso yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Mae cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer penodi swyddog i arwain ar y gwaith sy'n ymwneud â Wyddfa ddi-sbwriel gyda'r bwriad o hysbysebu'r swydd eleni.</p> <p>Mae ap Llwybrau Yr Wyddfa ar fin cael ei lansio ar ei newydd wedd gan fod yr ap wedi ei diweddarau'n ddiweddar i gyd-fynd a'r ddeddf hygyrchedd i gyrff cyhoeddus.</p>
<p>Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri)</p>	<p>Mae Cynllun Eryri – sef Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2020 – 25, wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei Gyfarfod Blynyddol ar y 23ain o Fedi 2020.</p> <p>Mae Cylch Gorchwyl Fforwm Eryri wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfarfodydd partneriaeth o bell, ac mae bellach wedi'i nodi fel y dull gweithredu a ffeirir ar gyfer o leiaf 3 o'r 4 cyfarfod blynyddol.</p> <p>Yn ystod haf 2021, dechreuodd y gwaith o gynhyrchu'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Eryri, gyda'r wybodaeth a'r data a gasglwyd yn cwmpasu'r cyfnod o fis Medi 2020 i fis Rhagfyr 2021.</p> <p>Bydd pob Canlyniad yn cael ei asesu mewn perthynas â'r Mesurau Llwyddiant y cytunwyd arnynt gan yr holl Bartneriaid yng Nghynllun Gweithredu gwreiddiol Cynllun Eryri ac adroddir arnynt yn yr adroddiad.</p>

	<p>Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd yr adroddiad yn y broses o gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan Fforwm Eryri, ac wedi hynny bydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod.</p>
<p>Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031</p>	<p>Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLI) diwygiedig ar y 6ed o Chwefror 2019.</p> <p>Cyflwynwyd yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar yr 20fed o Hydref 2021, ac roedd yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2020 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Cyflwynir yr AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain o Hydref 2021 bob blwyddyn.</p> <p>Nododd yr Adroddiad Monitro fod arwyddion cynnar yn pwyntio at newidiadau angenrheidiol yn y dyfodol i CDLI Eryri oherwydd canlyniadau Brexit a'r pandemig Covid-19, newidiadau mewn polisi cenedlaethol megis cyhoeddi Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040 yn ogystal â pherfformiad rhai agweddau o'r Cynllun.</p>
<p>Cynllun Corfforaethol 2021-22</p>	<p>Gan fod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu Datganiad Llesiant sy'n cynnwys ei Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26; - ni fydd angen adolygiad blynyddol.</p> <p>Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn awr yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen adroddiad Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Mabwysiadwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22 gan yr Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2021.</p> <p>Rhodddwyd diweddariadau rheolaidd i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant, a amlinellwyd yn Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22.</p> <p>Adroddwyd ar gynnydd dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 24ain o Dachwedd 2021 a darparwyd adroddiad cynnydd y trydydd chwarter ar yr 23ain o Fawrth 2022.</p> <p>Croesawodd yr aelodau'r cynllun newydd, gan nodi ei fod yn fwy cryno ac yn haws ei ddeall.</p>

Egwyddor 4: Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

<p>Strategaeth y Gyllideb 2021/22</p>	<p>Cadarnhawyd cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2021/22 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 3ydd o Chwefror 2021. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.</p> <p>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 8fed o Ragfyr 2021 ac i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 23ain o Fawrth 2022.</p> <p>Roedd yr adroddiad mis Mawrth yn amlinellu'r cymorth ariannol a dderbyniwyd i liniaru effeithiau Covid-19, sydd wedi cynnwys grant cymorth gan Lywodraeth Cymru, rhyddhad trethi ac ad-daliadau cyflog trwy'r cynllun seibiant swyddi.</p> <p>Yn dilyn cynnydd o 10% yng ngrant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2021/22, adroddwyd bod gan yr Awdurdod weddill o hyd o £476,251, sydd bellach wedi ei glustnodi ar gyfer dibenion penodol, gan gynnwys gwella cydnerthedd yr Awdurdod, cynyddu capasiti'r Awdurdod, yr agenda datgarboneiddio ac ymrwymadau cyfalaf.</p>
<p>Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022/23 – 2025/26</p>	<p>Yn ei gyfarfod ar y 9fed o Chwefror 2022, cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer 2022/23 – 2025/26 i'r Awdurdod, sy'n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a allai wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sydd eu hangen ar yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yn y tymor canolig.</p> <p>Cadarnhaodd y Cynllun fod y targedau incwm ar gyfer 2022/23 wedi eu cynnal ar yr un lefel â 2021/22. Dywedwyd hefyd y bydd setliad craidd Grant y Parc Cenedlaethol yn debygol o aros ar yr un lefel dros y 3 blynedd nesaf, ac er nad oes darpariaeth ar gyfer chwyddiant, mae hyn o leiaf yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o ran sefyllfa ariannol yr Awdurdod.</p> <p>Mae unrhyw arian ychwanegol a dderbynnir trwy grantiau penodol (heblaw grantiau craidd) yn dod â gwaith gweinyddol ychwanegol yn ei sgil, felly mae angen ystyried y pwysau gwaith ychwanegol ar rai o wasanaethau'r Awdurdod.</p>

Rheoli Perfformiad	<p>Fel rhan o'r Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, mae'r mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol bellach wedi'u nodi'n ffurfiol.</p> <p>Mae'n cadarnhau y bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter.</p> <p>Hefyd, Adroddiad blynyddol i'w baratoi a'i ystyried gan yr Awdurdod yn dilyn diwedd y flwyddyn i asesu perfformiad cyffredinol ar gyrraedd Amcanion Llesiant yr Awdurdod.</p>
---------------------------	---

Egwyddor 5: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

Rol Disgrifiadau Aelodau	<p>Fel rhan o gylch gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, adolygwyd y disgrifiadau rôl bresennol ar gyfer Aelodau'r Awdurdod.</p> <p>Gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau pwyslais rôl aelodau wrth osod cyfeiriad strategol ac uchelgais ar gyfer yr Awdurdod, gan ddarparu cyflwyniad trosfwaol gan gynnwys pwrpas Parciau Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod wrth gyflawni'r dibenion hyn, a chryfhau'r adran ar ddatblygiad personol a rôl.</p> <p>Mabwysiadwyd y disgrifiadau rôl newydd ar gyfer Aelodau a'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022.</p>
Presenoldeb Aelodau	<p>Parhaodd pob cyfarfod i gael ei gynnal ar-lein yn ystod y flwyddyn, wrth i donnau newydd o Covid-19 ddod i'r amlwg a chyfyngiadau gael eu tynhau ar wahanol adegau.</p> <p>Mae plattform ar-lein Zoom ar gyfer cynnal pwyllgorau a chyfarfodydd eraill bellach wedi'i sefydlu'n dda ar draws yr Awdurdod ac mae'n gweithio'n dda.</p> <p>Roedd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2021/22 yn 85%, o gymharu â 90% yn 2020/21 ac 81% yn 2019/20.</p>

	<p>Mae gwaith ar y gweill gan wasanaeth TG yr Awdurdod i adnabod plattform priodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid yn y flwyddyn nesaf ac i argymhell lleoliad priodol ar gyfer hyn.</p> <p>Os bydd yr Awdurdod yn symud ymlaen lawr y trywydd hwn, mae'n debygol y bydd anghenion hyfforddi ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion pwyllgorau a chyfarfodydd, i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu rheoli'n effeithiol i alluogi pawb i gyfrannu'n llawn.</p>
Hyfforddiant Aelodau	<p>Fel y nodwyd uchod, roedd cyfyngiadau Covid-19 ar waith am y rhan fwyaf o 2021/22, ac felly ychydig iawn o gyfleoedd hyfforddi wyneb yn wyneb oedd ar gael i Aelodau.</p> <p>Fodd bynnag, ar yr 25ain o Fawrth 2022, cynhaliwyd y Diwrnod Datblygu Aelodau mewn person cyntaf ers 2 flynedd.</p> <p>Yn 2021/22, roedd presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 75% (69% yn 2020/21).</p> <p>Fel rhan o waith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, mae argymhelliad wedi'i gyflwyno i ddatblygu Strategaeth Datblygu Aelodau. Bydd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar y newid disgwylidig i Aelodau yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ar y 5ed o Fai 2022. Cynigir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal asesiad sgiliau cyfunol, a fydd yn orfodol i bob Aelod newydd ei gwblhau; • Bod y sesiynau sefydlu mewnol yn cael eu hadolygu a'u gwella; • Cynnig hyfforddiant ar gadeirio cyfarfodydd i bawb a benodir yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd; a • Ystyried penodi mentor ar gyfer pob Aelod newydd ym mis Mai 2022.
Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff	<p>Mae anghenion dysgu a datblygu yn cael eu hadnabod mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, ac mae cynllun hyfforddiant yn cael ei gynhyrchu gan y Pennaeth Personél sy'n amlinellu'r blaenoriaethau hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p>

	<p>Mynegwyd pryder dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bod canran y staff a arfarnwyd yn parhau i fod yn isel, ac yn 2020/21 roedd wedi gostwng i 32%, sydd heb ei debyg. Oherwydd diffyg adnoddau personél, nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y ganran a arfarnwyd yn 2021/22.</p> <p>Fodd bynnag, mewn arolwg staff a gynhaliwyd yn 2021/22, cytunodd 87% o'r staff eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau (81.5% yn 2020/21).</p>
Strategaeth Adnoddau Dynol	<p>Roedd absenoldebau salwch staff yn 11.5 diwrnod yn 2019/20, ond roedd hyn wedi gostwng yn sylweddol i 3 diwrnod yn 2020/21. Credir bod cyfuniad o'r rhan fwyaf o staff sy'n gweithio gartref a chysylltiadau cymdeithasol cyfyngedig oherwydd cloi lawr wedi lleihau salwch heintus yn sylweddol, sydd wedi arwain at lai o absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff o ganlyniad.</p> <p>Fodd bynnag, nid oes data personél pellach ar gael ar hyn o bryd, gan nad yw'r Adroddiad Diweddarau Blynyddol ar weithredu Strategaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystod 2021/22. Mae hyn oherwydd bod y Pennaeth Personél wedi ymddeol ar y 30ain o Fehefin 2021, a'r methiant dilynol i benodi i'r swydd.</p> <p>Mae'n amlwg bod angen adolygu a diweddarau'r Strategaeth Adnoddau Dynol fel mater o flaenoriaeth. Mae recriwtio a chadw yn risgiau cynyddol i'r Awdurdod fel y mae cynllunio olyniaeth.</p> <p>Mae Pennaeth Personél newydd wedi'i phenodi a disgwylir iddi ddechrau yn ei swydd ar y 13eg o Fehefin 2022. Y gobaith yw y bydd y Pennaeth Personél maes o law yn gallu adolygu'r strategaeth a chynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.</p>
Gwydnwch yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff	<p>Adnabuwyd adroddiad Archwilio Cymru ar Gydnerthedd yr Awdurdod a gallu'r Awdurdod i gwrdd â heriau cyfredol a heriau sy'n dod i'r amlwg ynghyd â materion yn ymwneud â chadw a recriwtio staff fel materion i fynd i'r afael â hwy.</p> <p>Trafododd yr Aelodau y materion hyn yn fanwl a chomisynwyd adroddiad, a ddaeth i'r casgliad nad oedd strwythur cyflogau'r Awdurdod yn gystadleuol, o'i gymharu â chyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus.</p>

	<p>Argymhellodd yr Aelodau hefyd y dylid cynnwys cydnabyddiaeth o ddwyieithrwydd yn yr adolygiad o strwythur tâl yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y gallu i fod yn ddwyieithog yn hanfodol i alluogi'r Awdurdod i ddarparu ei wasanaethau, ac mae achos busnes i gydnabod hynny yn ei strwythur tâl.</p> <p>Ar ôl ymgynghori â staff ac Undebau, rhoddwyd cymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar y 9fed o Ebrill 2022 ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Addasiad ym mandiau cyflog yr Awdurdod gan ddau bwynt cyflog (i fyny) ar y meingefn cyflogau. • Diwrnod ychwanegol o wyliau ar Ddydd Gŵyl Dewi o 2022 ymlaen. • Cadw'r pwynt cyflog olaf mewn unrhyw fand cyflog yn amodol ar gyrraedd safon y cytunwyd arni yn y Gymraeg a'r Saesneg.
--	--

Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

<p>Datganiadau Ariannol</p>	<p>Ni chwblhawyd y Datganiad Cyfrifon drafft o fewn yr amserlen estynedig sef y 31ain o Awst 2021. Cawsant eu hardystio (yn amodol ar archwiliad) gan y Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod a'u cyflwyno i'r Awdurdod ar y 13eg o Hydref 2021.</p> <p>Cyn hyn, roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'r Adroddiad Alldro ar gyfer 2020/21 mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar yr 30ain o Fehefin 2021.</p> <p>Archwiliwyd y Datganiad Cyfrifon gan Archwilio Cymru, a chyflwynwyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2020/21 ynghyd â'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i'r Aelodau mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar yr 24ain o Dachwedd 2021 i'w cymeradwyo yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.</p> <p>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru ei adroddiad ISA260 blynyddol i'r Awdurdod. Cadarnhaodd yr Archwilydd y byddai'n cyflwyno barn ddiamed ar ddatganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig yr Awdurdod.</p>
------------------------------------	--

<p>Rheoli Risg</p>	<p>Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli.</p> <p>Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae'r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau ym mhob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac mae unrhyw risgiau sy'n cael eu tynnu i ffwrdd o'r Gofrestr yn cael ei gadarnhau yn flynyddol mewn cyfarfod yr Awdurdod.</p>
<p>Archwilio Allanol</p>	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2021, cyflwynodd Archwilio Cymru ei adroddiad yn nodi ei ganfyddiadau yn dilyn ei Adolygiad o Wasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy. Mae manylion llawn y canfyddiadau wedi'u nodi o dan Adran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) yn y Datganiad hwn.</p> <p>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2021/22. Roedd y Cynllun Archwilio wedi ymgorffori effeithiau posibl Covid-19 ar waith yr Awdurdod yn ogystal ag ar allu Archwilio Cymru i gyflawni ei waith.</p> <p>Roedd y Cynllun Archwilio yn nodi trefniadau diwygiedig ar gyfer yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, a fyddai'n dibynnu ar bryd y gallai'r Awdurdod gwblhau'r cyfrifon. Roedd hefyd yn nodi'r bwriad o gynnal archwiliad perfformiad a fyddai'n adlewyrchu'r risgiau a'r cyfleoedd a amlygwyd yn adolygiad 2019/20 o gyfranogiad ac adolygiad 2020/21 o gydnerth corfforaethol.</p> <p>Ymhellach i hyn, yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 8fed o Ragfyr 2021, cyhoeddodd Archwilio Cymru Dystysgrif i gadarnhau, yn dilyn archwiliad o Asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad ar gyfer 2020/21, fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(2) (8) a (9) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.</p> <p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 9fed o Chwefror 2022, cyflwynodd Archwilio Cymru Gynodeb Archwilio Blynyddol o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2021. Nododd yr adroddiad fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn wir a theg ddiamedd ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar yr 29ain o Dachwedd 2021, cyn y dyddiad cau statudol.</p>

	<p>Dywedwyd hefyd bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol.</p> <p>Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod cynnydd wedi'i wneud o ran gwella ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar yr 27ain o Orffennaf 2021. Erys lle i wella ymhellach fod rhai anghysondebau rhwng y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol wedi'u nodi.</p> <p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2022, cyflwynodd Archwilio Cymru ei Gynllun Archwilio ar gyfer 2022. Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau archwilio a'r ymateb archwilio arfaethedig i'w cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nad yw'r archwiliad perfformiad wedi'i gadarnhau eto. Cadarnhawyd y ffioedd archwilio hefyd.</p>
<p>Archwiliad Mewnol</p>	<p>Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol ddiwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf.</p> <p>Cynlluniwyd i bedwar archwiliad mewnol gael eu cynnal yn ystod 2021/22, sef Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Trefniadau Tendro, Rheoli Absenoldebau a Chynlluniau Parhad Busnes.</p> <p>Roedd archwiliadau Trefniadau Tendro a Chynlluniau Parhad Busnes wedi cael eu graddio fel "Cyfyngedig" - er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth gyda'r rheolaethau a / neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau y mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.</p> <p>O ganlyniad i'r raddfa a roddwyd i hyn, cytunwyd ar bwyntiau gweithredu penodol ac ar amserlen i'w gwblhau gyda'r swyddogion perthnasol, er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.</p> <p>Yn yr archwiliad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gafodd ei raddio fel "Digonol" - mae yna reolyddion yn eu lle i gyflawni'r amcanion ond mae rhai agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau er mwyn lliniaru risgiau ymhellach.</p> <p>Cafodd archwiliad Rheoli Absenoldebau a Llesiant Staff ei radio yn "Uchel" - gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</p>

Iechyd a Diogelwch	<p>Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod bob chwarter i fonitro materion iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod.</p> <p>Mae'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cynnwys manylion y cyrsiau hyfforddiant a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r digwyddiadau / damweiniau a gofnodwyd.</p> <p>Adroddwyd ei bod yn arferol cymharu data o flwyddyn i flwyddyn ar ddigwyddiadau a gofnodwyd, sydd hefyd yn cynnwys digwyddiadau y mae'n rhaid adrodd y neu cylch i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan y 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)'. Fodd bynnag, nid yw data o 2020/21 yn gynrychioliadol oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys gweithio gartref ac atal busnes ym Mhlas Tan y Bwlch.</p> <p>Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg data cymaradwy, a chytunwyd y byddai'r Pennaeth Personél yn cylchredeg data pellach yn ôl y gofyn.</p>
Canolfannau Gwybodaeth	<p>Mae gan yr Awdurdod 3 Ganolfan Gwybodaeth ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Masnachol y Canolfannau, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn hyfyw fasnachol / hunangynhaliol.</p> <p>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 24ain o Dachwedd 2021. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r flwyddyn 2021/22 hyd yma, a'r camau i'w cymryd yn 2022/23.</p> <p>Adroddwyd bod y cyfyngiad ar niferoedd oherwydd cyfyngiadau Covid a gostyngiad mewn oriau agor yn ffactorau sydd wedi effeithio'n negyddol ar niferoedd ymwelwyr. Yn ogystal, mae lefelau recriwtio a chadw staff yn achosi problemau.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn amlinellu niferoedd ymwelwyr manwl a data gwariant y pen ym mhob un o'r Canolfannau.</p>
Strategaethau Benthycu a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthycu a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2020/21, i gyfarfod yr Awdurdod ar y 9fed o Fehefin 2021.</p>

	<p>Yn ystod 2020/21 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca.</p> <p>Yn 2020/21, cyfanswm y llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau oedd £11,113. Mae llog a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir o £1,194 yn cynyddu'r cyfanswm i £12,307 yn erbyn cyllideb o £23,000.</p> <p>Mae swm llog banc a chymdeithas adeiladu o £11,113 ar gyfer 2020/21 yn llawer is na'r swm cyfatebol o £48,077 yn 2019/20. Y prif reswm yw bod cyfraddau llog wedi gostwng yn gyffredinol oherwydd effeithiau'r pandemig, a bod yr Awdurdod wedi rhoi'r gorau i adneuo cyfrifon rhybudd 95 diwrnod ar sail cyngor proffesiynol.</p> <p>Rhodddwyd adroddiad ar lafar Intermin ar Reoli'r Trysorlys yn yr Awdurdod ar y 8fed o Rhagfyr 2021. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod cronfeydd a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel a bod cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn.</p> <p>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 9fed o Chwefror 2022.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2022/23 yn ddi-ddyled. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth Benthyca Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2022/23, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud a'r Cod Darbodus.</p>
<p>Ganolfan Astudio Plas Tan y Bwlch</p>	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod Arbennig a gynhaliwyd ar yr 23ain o Hydref 2020, penderfynodd yr Aelodau barhau i weithredu Plas Tan y Bwlch fel llety Gwely a Brecwast yn y tymor byr i ganolig; bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ailstrwythuro staff; parhau â'r ddeialog gydag ystod o bartneriaid posibl yn y dyfodol; ac adrodd ar y cynnydd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.</p>

	<p>Cynyddwyd y risgiau o fethu â chyrraedd y targed cynhyrchu incwm ar gyfer Plas Tan y Bwlch i Uchel ar Gofrestr Risg yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022. Amlinellir y manylion o dan adran 6 y datganiad hwn.</p> <p>Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi hysbysu'r Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 24ain o Dachwedd 2021, y bydd angen ystyried dyfodol Plas Tan y Bwlch ar ddiwedd tymor 2022.</p>
Yr Ysgwrn	<p>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn i'r Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2022.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gan Yr Ysgwrn orwariant o £7,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 oherwydd gostyngiad mewn incwm, cost comisiynu Cwricwlwm Yr Ysgwrn a chostau rheoli eiddo oherwydd amrywiol broblemau technegol gyda'r larwm a'r boeler biomas.</p> <p>Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynlluniau safle arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn cydnabod bod targedau'r gyllideb yn heriol. Nid yw niferoedd ymwelwyr a thueddiadau incwm cyfatebol yn glir oherwydd yr aflonyddwch a achosir gan bandemig Covid-19.</p>

Egwyddor 7: Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Datganiad Polisi Tâl	<p>Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Personél.</p> <p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2021/22 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 23ain o Fawrth 2022 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod.</p>
-----------------------------	--

	<p>Ar adeg adrodd, dim ond yn ddiweddar y cytunwyd ar y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2021/22, sy'n golygu bod ôl-dâl o fis Ebrill 2021 wedi'i dalu i'r holl staff yng nghyflogau Mawrth 2022.</p>
<p>Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella 2020/21</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2020/21 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Hydref 2021, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddsbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.</p> <p>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, y gweithgareddau gwaith allweddol ar gyfer 2020/21, a rheoli perfformiad (gan gynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn).</p> <p>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau, yn dilyn mabwysiadu Datganiad Llesiant 2021 – 2026, fod y broses bellach wedi newid, ac mai dyma'r tro olaf i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno yn y fformat presennol o dan y Mesur Llywodraeth Leol.</p>
<p>Darlledu Pwyllgorau</p>	<p>Fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, ystyriwyd sut y dylid cynnal cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol yn ogystal â symud ymlaen gyda darlledu pwyllgorau.</p> <p>Trafodwyd argymhellion a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn y Gweithgor Aelodau ar yr 6ed o Ebrill 2022, cyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n derfynol a'u mabwysiadu gan yr Awdurdod ddiwedd Ebrill 2022. Y rhain oedd:</p> <p>Darlledu'r Awdurdod a Phwyllgorau Cynllunio a Mynediad yn y dyfodol yn fyw ar y wefan. Recordiadau o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i'w uwchlwytho ar ôl y cyfarfod er mwyn i'r cyhoedd eu gweld.</p>

	<p>Symud ymlaen gyda threfniadau heb gyfieithu cyfraniadau Saesneg.</p> <p>Cyflwyno system cyn-gofrestru ar gyfer y cyhoedd.</p> <p>Staff i ymchwilio i'r lleoliad gorau ar gyfer pwyllgorau hybrid a gwneud argymhelliad i'r Awdurdod maes o law.</p>
Craffu Aelodau	<p>Yn ystod 2021/22, derbyniwyd adroddiad gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 14eg o Orffennaf 2021 ynglŷn â chynnydd y Grŵp Tasg a Gorffen ar graffu ar Gyfrif Carbon Eryri (a sefydlwyd yn 2020/21); a derbyniwyd adroddiad gan yr Awdurdod ar y 13eg o Hydref 2021 ar gynnydd y Grŵp Tasg a Gorffen i graffu ar ddiogelu Enwau Lleoedd Cymru.</p> <p>Adroddodd y Grŵp Tasg a Gorffen ar Adolygu Llywodraethu hefyd eu hargymhellion i'r Gweithgor Aelodau ar yr 6ed o Ebrill 2022. Rhan o gylch gorchwyl y grŵp oedd edrych ar Graffu Strategol. Gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Grwpiau Tasg a Gorffen i gytuno o'r cychwyn cyntaf ar Gylch Gorchwyl sy'n nodi dyddiad adrodd terfynol, er mwyn sicrhau bod y grwpiau'n parhau i ganolbwyntio. 2. Dylid adolygu penodi Aelodau ar Grwpiau Tasg a Gorffen. Dylid penodi pobl sydd ag arbenigedd neu ddiddordeb yn y pynciau. 3. Oedi wrth bennu pynciau craffu 2022/23 hyd nes y ceir y Llythyr Cylch Gwaith Terfynol gan y Gweinidog, ac yn amodol ar hyn, cefnogi'r meysydd canlynol ar gyfer Grwpiau Tasg a Gorffen yn y dyfodol, sef: <ul style="list-style-type: none"> • Camau Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd • Camau Gweithredu ar yr Argyfwng Bywyd Gwyllt a Natur • Cynllunio Wrth Gefn a sut rydym yn delio â Digwyddiadau'r Dyfodol

Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2022/23

Archwilio Cymru: Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy

Yn ystod 2020-21 adolygwyd cydnerthedd corfforaethol o bell, trwy astudio ac archwilio dogfennau perthnasol ac anfon arolwg allan i Aelodau a staff yn gofyn am eu barn.

Wrth adrodd ar y canlyniadau ym mis Ebrill 2021, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod "yr Awdurdod wedi ymateb yn dda yn y pandemig ond mae'r heriau a wynebwyd ganddo wedi amlygu angen i wella'i gydnerthedd a'i gynaliadwyedd yn y tymor hwy".

Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl islaw yn gosod allan y cynigion ar gyfer gwella a adnabuwyd gan Archwilio Cymru wrth ymgymryd â'r adolygiad. Yn ystod 2021/22, bu'r Awdurdod yn gweithio i roi'r cynigion hyn ar waith, ac mae'r canlyniadau wedi'u hadrodd o dan y penawdau penodol yn y Datganiad hwn. Mae rhywfaint o'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2022/23.

CaG1	I gefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod gadarnhau ac arfarnu ei ffyrdd newydd o weithio mewn perthynas â llywodraethu, parhad busnes a gweithio o bell.
CaG2	I gynyddu effaith prosiectau a ariennir â grantiau i'r eithaf dylai'r Awdurdod ddatblygu fframwaith i arfarnu eu cyfraniad posibl at symud Cynllun Eryri yn ei flaen ac i sicrhau bod cynllunio priodol ar gyfer etifeddiaeth yn digwydd.
CaG3	I gefnogi mwy o gydnerthedd dylai'r Awdurdod ystyried sut a phryd i adael i swyddogion gael profiadau newydd mewn gwasanaethau a thimau ehangach i feithrin sgiliau, gwybodaeth a chapasiti.

Archwilio Cymru: Adolygiad o sut mae'r Awdurdod yn Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy

Mae'r archwiliad wedi cymryd lle, ond nid yw Archwiliad Cymru wedi cyhoeddi adroddiad canlyniad yr adolygiad hwn eto.

Proffil Risg yr Awdurdod


Mae'r tri risg uchaf i'r Awdurdod fel y'u diweddarwyd ym mis Mawrth 2022, fel a ganlyn:

Risg	Canlyniad	Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma
Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Hydref 2020 cymerwyd y penderfyniad i weithredu Plas Tan y Bwlch fel busnes G&B yn y tymor byr i ganolog, ac i symud ymlaen i ailstrwythuro staff fel amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae'r penderfyniad yn golygu bod y risg i'r Awdurdod wedi ei leihau rhywfaint. Fodd bynnag, mae yna risg i'r Awdurdod o hyd, er bod yr effaith a'r effaith debygol wedi lleihau rhywfaint.</p> <p>Yn dilyn y broses o ailagor yr economi, mae Plas wedi cael tymor prysur yn gweithredu fel yr amlinellwyd uchod. Gwnaethom adrodd yn ddiweddar i Fwrdd Plas. Yr un fath â gweddill y sector, rydym wedi dioddef o brinder staff mewn manau ac ansicrwydd Covid. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o gyfrifo'r incwm am y flwyddyn hyd yma, ond rydym yn ymwybodol bod gorwariant wedi bod ar staff yn ogystal â chostau tanwydd ar gyfer rhedeg a gwresogi'r Plas. Ni fydd y costau ychwanegol hyn yn cael eu gwrthbwysu gan gynhyrchu incwm ac mae ganddynt y potensial i gael effaith fach ar gyfrifon yr Awdurdod.</p>
Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	<p>Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.</p> <p>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafniadaeth / parcio yn yr ardal. Mae astudiaeth rheoli traffig ar gyfer Yr Wyddfa ac Ogwen wedi'i chomisiynu a'i derbyn. Mae'r partneriaid wedi ystyried argymhellion</p>

		<p>yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru. Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal gyda'r cymunedau. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ystyried dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer materion o'r fath a gallai ffurfio Cydbwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafnidiaeth ddarparu cyfleoedd pellach.</p> <p>Disgwylir niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd y DU eto'r haf hwn wrth i'r cyfnod cloi lacio, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Er y cymerir dull gweithredu ar sail partneriaeth, canfyddiad y cyhoedd fydd mai'r Awdurdod sy'n llwyr gyfrifol. Mae nifer o fesurau lliniaru wedi eu rhoi mewn lle gyda partneriaid ar gyfer tymor 2021 ac bydd yn parhau'r tymor 2022.</p>
<p>Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.</p>	<p>Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.</p>	<p>Ail adroddiad canol tymor i'r CE (a'r hawliad grant cysylltiedig) i fod i ddod i ben Ebrill 2022. Prosiect wedi cyrraedd trothwy gwariant ar gyfer gwneud yr hawliad hwn mewn pryd.</p> <p>Adborth swyddogol y Comisiwn i'r adroddiad canol tymor cyntaf yn gadarnhaol ar y cyfan, does dim pryderon mawr wedi'u codi. Mynd i'r afael â mân bryderon ochr yn ochr â monitro'r Prosiect mewn pryd ar gyfer yr adroddiad canol tymor nesaf.</p> <p>Llwyddodd y prosiect i gyrraedd y trothwy gwariant oedd ei angen er mwyn hawlio'r cyfanswm o £2m gan y Llywodraeth. Mae cyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru nawr wedi dod i ben.</p>

Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.



EMYR WILLIAMS

ANNWEN HUGHES

**PRIF WEITHREDWR
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
ERYRI**

**CADEIRYDD
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
ERYRI**

DYDDIAD: 15.06.2022

DYDDIAD: 15.06.2022

RHESTR TERMAU

CRONIADAU

Y cysyniad fod incwm a gwariant yn cael ei gydnabod fel y mae'n cael ei ennill neu ei wneud, nid pan fo arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.

TÂL CYFALAF

Taliad i gyfrifon refeniw gwasanaeth i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth.

GWARIANT CYFALAF

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddarau, fel rhan o adolygiad mwy ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn 2021/22. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2022.

2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2022/23 cynhaliwyd 5 cyfarfod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 3 gwaith yn ystod 2023/24. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 8 gwaith yn ystod 2023/24. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod dwywaith yn ystod 2023/24. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Adnoddau Dynol yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogaion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisiau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru;

- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda'r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o'r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau'r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i'w bwyllgorau a'i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Gofrestr Risg a'r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a'i ddiweddarau'n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel archwilydd allanol i'r Awdurdod, ac felly sy'n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2016). Y Prif Swyddog Cyllid (sydd yn Brif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd) yw'r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn ystod y flwyddyn, ffurfiolwyd penodiad newydd ar gyfer Swyddog Adran 151 gan yr Awdurdod yn dilyn newid personél yng Nghyngor Gwynedd oherwydd ymddeoliad y deiliad blaenorol.

4. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion llesiant sy'n maximeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau llesiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2021-26 yn gosod allan Amcanion Llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru.

Mae'r Amcanion Llesiant yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ac maent wedi'u halinio â phump is-thema i roi ffocws, fel yr amlinellir islaw.

Amgylcheddau Cydnerth

1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden.
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol.
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit.
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth

1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr.
2. Cefnogi pobl ifanc.
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol.
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio

1. Datblygu gweithlu medrus.
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau.
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu.
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethgu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2023/24 i'w chymeradwyo fel dogfen waith gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 14eg o Fehefin 2023 . Mae'r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.

Adroddwyd ar gynnydd y Rhaglen adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 30ain o Dachwedd a'r 20fed o Fawrth 2024.

5. Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Egwyddor 1: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

<p>Cod Llywodraethu Corfforaethol</p>	<p>Cafodd llywodraethu ei graffu'n fanwl yn ystod 2021/22 gan Grŵp Tasg a Gorffen o Swyddogion ac Aelodau a sefydlwyd yn arbennig i'r diben hwn.</p> <p>Adolygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn fanwl a'i ailddrafftio gan y Grŵp, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gonglfaen ar gyfer llywodraethu effeithiol yn y dyfodol.</p> <p>Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig yn ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 27ain o Ebrill 2022.</p>
<p>Pwyllgor Safonau</p>	<p>Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar yr 28ain o Ebrill 2023, ystyriwyd a chytunwyd ar yr adroddiad blynyddol statudol i'w gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod, ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, a oedd yn cynnwys trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.</p> <p>Bu'r cyfarfod hefyd yn ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghylch y monitro a oedd wedi digwydd ar weithrediad y cod ymddygiad ac yn benodol y Datganiadau o Fuddiannau Aelodau. Bu'r cyfarfod hefyd yn ystyried a chytuno ar ymateb i ymgynghoriad ar gyfer Llywodraeth Cymru ar Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol.</p> <p>Yn ail gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar yr 1af o Fedi 2023, ystyriwyd busnes arferol y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl, Caniatáu Goddefebau ac ystyried Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol yr Awdurdod yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Yn yr un cyfarfod, adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor ar ei sylwadau yn dilyn presenoldeb fel sylwedydd ar Bwyllgorau yr Awdurdod i werthuso eu heffeithiolrwydd a'u trefniadau llywodraethu. Calonogwyd y Cadeirydd i nodi bod y pwyllgorau'n gweithredu'n dda, gydag arweiniad cadarn, yr aelodau wedi paratoi'n drylwyr, a dangoswyd parch at gyd-aelodau.</p>

Polisi Chwythu'r Chwiban	Yn ystod 2023/24, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban.
Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth	Yn ystod 2023/24 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dwyll neu lygredigaeth honedig mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio.
Cod Ymddygiad Enghreifftiol	Yn ystod 2023/24, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.
Cwynion – Swyddogion	Yn ystod 2023/24, derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 12 cwyn ffurfiol. Cyfeiriwyd un o'r cwynion hyn yn ddiweddarach at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a wrthododd ymchwilio ymhellach. Ni fu'r Awdurdod felly yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2023/24.
Cwynion – Aelodau	Yn ystod 2023/24, ni dderbyniodd Swyddog Monitro'r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
Rheolau Sefydlog	Adolygwyd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr Awdurdod yn parhau â'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol ystyried newid sy'n rhoi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth benodol gan yr Awdurdod).

<p>Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau</p>	<p>Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig newydd o'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau i'r Awdurdod i'w mabwysiadu yn ei gyfarfod ar yr 16eg o Dachwedd 2022.</p> <p>Mae'r adolygiad yn ymgorffori'r argymhellion a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a dderbyniwyd yn flaenorol, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau newydd sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn darparu sylfaen i'r Awdurdod ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol yn ei bolisi caffael gwyrdd.</p>
<p>Cynllun Dirprwyo</p>	<p>Adolygwyd y Cynllun Dirprwyo fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22.</p> <p>Daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac felly ni wnaethpwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer newidiadau.</p>
<p>Cofrestr Buddiannau'r Aelodau</p>	<p>Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.</p> <p>Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddarau eu cofnod buddiannau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt ei adolygu a'i ddiweddarau os yn berthnasol.</p> <p>Yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Ebrill 2023, adolygodd y Pwyllgor Safonau ffurflenni datgan buddiannau unigol Aelodau a gwblhawyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rhan o'u gwaith yn monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad. Adolygwyd Cofrestr Buddiannau'r Aelodau Cyffredinol hefyd. Ni nodwyd unrhyw faterion o bryder.</p>

Egwyddor 2: Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

<p>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023.</p> <p>Adroddwyd ar gynnydd yr Awdurdod gyda'i gynllun gweithredu o ran cyrraedd ei Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff.</p> <p>Mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2024 – 28 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 20fed o Fawrth 2023, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr ac ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru, fel rhan o'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.</p>
<p>Ymgynghori Uniongyrchol</p>	<p>Yn ystod 2023/24 parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau, cyfarfodydd ar-lein yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb, gweithdai a chymorthfeydd ymgynghori.</p> <p>Mae ymgynghori yn rhan annatod o'r ystod eang o lifoedd gwaith a phrosiectau yr ydym yn ymgymryd â hwy fel Awdurdod, boed hynny trwy broses statudol ffurfiol, yn anffurfiol gyda chymunedau a rhanddeiliaid neu ar y cyd â chyrrff cyhoeddus eraill. Fel Awdurdod bach, mae'n bwysig ein bod yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid ac yn ystyried eu barn o'r cychwyn cyntaf, os ydym am lwyddo gyda'n prosiectau.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd ymgynghoriadau ynghylch adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, cyflwyniad a sesiynau cymunedol ar gyfer prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig, gweithdai a sesiynau cymunedol ar gyfer y Prosiect Ardaloedd Cadwraeth, a ddilynwyd drwy hyfforddiant, ac ar ddiwedd y flwyddyn, dechrau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyfarwyddyd Erthygl 4, ymhlith pethau eraill.</p> <p>Yn ogystal, sefydlwyd prawf ar ddull gwahanol o ymgynghori gyda Chynghorau Cymuned a Thref ar y broses o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri dros y blynyddoedd nesaf. Cytunodd y Cynghorau Cymuned a Thref mai'r dull gorau o weithredu oedd sesiwn rithiol i'w chynnal cyn pob cam o'r broses ymgynghori. Yn y cyfamser, gellir defnyddio'r broses gytûn hon ar y gwahanol gamau gweithredu sy'n ofynnol gyda Chyfarwyddyd Erthygl 4 dros y flwyddyn i ddod.</p>

<p>Strategaeth Cyfathrebu a Ymgysylltu</p>	<p>Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad le i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.</p> <p>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd.</p> <p>Yn dilyn ymadawriad y Pennaeth Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, ad-drefnwyd y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'i rannu'n ddau wasanaeth ar wahân. Crëwyd rôl y Pennaeth Cyfathrebu newydd, a gwnaed penodiad mewnol yn ystod hydref 2023. Fodd bynnag, mae'r rôl hon yn cyfuno un o rolau'r Swyddog Cyfryngau, sydd ddim yn arwain at unrhyw adnoddau staffio ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth.</p> <p>Oherwydd yr ad-drefnu hwn, ni chyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023, sy'n cynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad, i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mawrth 2024 fel y rhaglenwyd. Fodd bynnag, disgwylir y bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Gorffennaf 2024.</p>
<p>Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol</p>	<p>Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.</p> <p>Yn ystod 2023, derbyniwyd 28 o geisiadau ac o'r rhain derbyniodd 15 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (54%). O'r 13 cais arall, cafodd 5 eu gwrthod neu eu gwrthod yn rhannol oherwydd nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu am nad oedd yr awdurdod yn cadw'r wybodaeth, gwrthodwyd 2 gais yn rhannol gan y byddai'r wybodaeth wedi adnabod aelodau o'r cyhoedd a ddygodd sylw at achosion posibl o dor-reolaeth cynllunio. Gwrthodwyd 2 gais yn rhannol gan eu bod yn cynnwys data personol trydydd parti, gwrthodwyd 1 cais gan y byddai datgelu'r wybodaeth wedi effeithio'n andwyol ar gwrs cyfiawnder, gwrthodwyd 1 cais oherwydd bwriadwyd cyhoeddi'r wybodaeth yn y dyfodol, gwrthodwyd 1 cais, gan fod y wybodaeth a yn cael ei chadw at ddibenion achos troseddol a fyddai wedi bod yn niweidiol pe bai'n cael ei rhyddhau, a gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn ymwneud ag ymateb yr Awdurdod i gais am gyngor cyn-cais cynllunio, nad oedd wedi arwain at gais cynllunio. Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i gadw'r rhain yn gyfrinachol hyd nes y cyflwynir cais cynllunio, ac felly yn cael ei ddsbarthu fel eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.</p>

	<p>O'r 28 cais, ni chafodd 1 ei ateb o fewn y terfyn amser o 20 diwrnod gwaith.</p> <p>Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am wybodaeth.</p>
<p>Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig</p>	<p>Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod, i fodloni gofynion amser statudol.</p> <p>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan am y 3 blynedd olaf, gyda'r rhaglenni hyn ar gael drwy gais. Mae Cyfrol Cofnodion hefyd yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ar y wefan.</p>

Egwyddor 3: Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

<p>Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa</p>	<p>Mae'r broses o adolygu Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa wedi dechrau, a rhagdybir y cymer y broses tua blwyddyn gyda'r bwriad o lansio cynllun diwygiedig cyn haf 2025.</p> <p>Un o flaenoriaethau Cynllun Yr Wyddfa yw ymdrin â heriau yn ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth yn ardal Yr Wyddfa ac Ogwen. Y math o welliannau sydd wedi eu gweithredu hyd yn hyn ydyw system parcio a theithio yn Ogwen, rheolaeth parcio well ar yr A5 yn Ogwen ac yn Nant Gwynant, cyflwyno'r gwasanaeth rheolaidd T10 drwy Ddyffryn Ogwen, gwelliannau i wasanaeth Sherpa'r Wyddfa, a negeseuon teithio cynaliadwy ar wefannau cyfryngau cymdeithasol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Yn ogystal â'r uchod, sefydlwyd Grŵp Gweithredu i ymdrin â materion strategol yn ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth sy'n cynnwys y partneriaid allweddol (Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd ers ei sefydlu yn ystod 2022.</p> <p>Yn arwain tuag at Wythnos Llysgennad Cymru 2023, cyrhaeddwyd y garreg filltir arbennig o gael 1000 o Lysgenhadon Eryri. Yn ystod yr wythnos, cynhaliwyd gweithgareddau ledled Cymru i ddathlu gwaith y Llysgenhadon.</p>
--	--

	<p>Diffiniwyd Parth Di-blastig ar gyfer prosiect Yr Wyddfa ym mis Ionawr 2023, ac mae'n cwmpasu'r mynydd a'i bentrefi porth (Llanberis, Waunfawr, Beddgelert).</p> <p>Mae prosiect Yr Wyddfa Di-blastig yn ymrwymiad 'gweithio tuag at' ac mae byrder a heriau unigryw'r prosiect yn golygu y bydd yn cynnwys sawl ymgyrch brawf, gan ganiatáu i'r Awdurdod fesur effeithiolrwydd gwahanol syniadau a dulliau newydd. Mae'r egwyddorion arweiniol y tu ôl i'r ymgyrchoedd yn cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol y prosiect: cynnal a pharchu ein hamgylchedd, cymunedau cynaliadwy, a chenedlaethau'r dyfodol.</p>
<p>Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri)</p>	<p>Mabwysiadwyd Cynllun Eryri gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ei Gynllun Rheoli (Partneriaeth) statudol ym mis Hydref 2020 ac fe'i lansiodd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020. Mae'r trydydd adroddiad cynnydd blynyddol sy'n dal mewnbwn gan yr holl Bartneriaid yn ystod 2023 ar ffurf drafft ar hyn o bryd.</p> <p>Er bod 2023 wedi parhau i fod yn heriol i'r holl Bartneriaid, wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn mae'n amlwg bod enghreifftiau rhagorol o nodau Cynllun Eryri sy'n cael eu datblygu yn parhau i gynyddu'n gyflym ar draws y rhanbarth.</p> <p>Yn y drydedd flwyddyn o weithredu, mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Ganlyniadau sydd wedi'u hasesu fel rhai 'Heb eu symud ymlaen a/neu mewn peryg'. Mae'n deg casglu felly bod cynnydd wedi'i gyflawni ym mhob maes o Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri yn y flwyddyn 2023.</p> <p>Bydd yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2023 yn cael ei drafod yng nghyfarfod Fforwm Eryri ar 7 Mai 2024 a'r gobaith yw y caiff ei gyflwyno i aelodau'r Awdurdod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 12 Mehefin 2024 i'w fabwysiadu.</p>

<p>Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031</p>	<p>Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLI) diwygiedig ar y 6ed o Chwefror 2019.</p> <p>Cymeradwywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2022-23 gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 18fed o Hydref 2023, a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cyn hyn, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar yr 28ain o Fehefin 2023, yn dilyn cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid a oedd yn rhedeg rhwng y 7fed o Ebrill a 12fed o Fai 2023. Yna cyflwynwyd yr Adroddiad i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Amlygodd yr adolygiad fod newidiadau cyd-destunol cenedlaethol a lleol sylweddol wedi digwydd sydd angen eu hystyried yn awr. Roedd angen hefyd adolygu Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ynghyd ag asesiadau effaith eraill. Yn ogystal, nid oedd ffigurau gofyniad tai yn cael eu bodloni. Bydd angen ailystyried y gofyniad tai i adlewyrchu anghenion ardal y Cynllun yn y dyfodol. Felly, bydd angen ailystyried dosbarthiad y gofyniad tai drwy'r Strategaeth Datblygu Gofodol hefyd.</p> <p>Daeth yr adolygiad i'r casgliad mai'r weithdrefn Adolygu Llawn yw'r ffurf fwyaf priodol o adolygu ar gyfer CDLI Eryri. Fodd bynnag, arweiniodd penderfyniad dilynol yr Awdurdod i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (gweler isod), a'r gofynion adnoddau cysylltiedig y byddai hyn yn ei olygu, at yr Aelodau'n cytuno i ohirio'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri am y tro, ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 6ed o Ragfyr 2023.</p>
<p>Cyfarwyddyd Erthygl 4</p>	<p>Yn dilyn trafodaethau ac ystyriaethau blaenorol gan yr Aelodau, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4.</p> <p>Yn dilyn cyhoeddi is-ddeddfwriaeth cynllunio yn yr Hydref 2022, cyflwynwyd 3 Dosbarth Defnydd Cynllunio newydd (Tŷ Anedd, Tŷ Anedd na chaiff ei ddefnyddio fel unig neu brif breswylfa, a Llety ar Osod Tymor Byr), a byddai newidiadau rhwng y dosbarthiadau hyn bellach yn cael eu hystyried yn 'ddatblygiad'. Fodd bynnag, ar yr un pryd, diwygiwyd y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir i ganiatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd h.y. ni fyddai angen caniatâd cynllunio.</p>

	<p>Gellir tynnu'r hawliau datblygu a ganiateir hyn yn ôl o fewn ardal benodol drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir gan awdurdod cynllunio lleol ar sail tystiolaeth leol gadarn. Byddai dileu'r hawliau datblygu a roddwyd gan Gyfarwyddyd Erthygl 4 wedyn yn ei gwneud yn angenrheidiol i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer newidiadau rhwng y 3 Dosbarth Defnydd newydd.</p> <p>Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau cymuned yn y Parc Cenedlaethol dros 10% o osodiadau gwyliau ac ail gartrefi, gyda bron i hanner y cymunedau â 15%. Mae gan 12 cymuned dros 20%. Oherwydd hyn, mae pryder sylweddol cynyddol ynglŷn â hygyrchedd cartrefi i bobl leol, a'r materion cysylltiedig o ran hyfywedd cymunedau lleol y gall hyn arwain atynt.</p> <p>Felly cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad a oedd yn cyfiawnhau Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 a chymeradwyodd hefyd ymgysylltiad ar y cyflwyniad arfaethedig, yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth 2024. Ni fydd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym tan 12 mis yn ddiweddarach h.y. Gwanwyn 2025.</p>
<p>Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy</p>	<p>Ers mabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035) gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar yr 8fed o Chwefror 2023, mae swyddogion APC a Chyngor Gwynedd wedi bod yn ffurfioli strwythurau gweithredu.</p> <p>Ar yr 17eg o Ebrill 2024, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Partneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a ddaeth am y tro cyntaf â chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth a'r gymuned ynghyd i drafod yn ffurfiol yr economi ymwelwyr yn yr ardal am y flwyddyn i ddod. Mae Cynllun Gweithredu wedi'i ddrafftio, a'r nod yw ei fabwysiadu yn ystod y mis nesaf. Mae'r Bartneriaeth wedi ethol Cyd-Gadeiryddion i gynrychioli'r sectorau busnes a chymunedol, ac Is-Gadeiryddion yn yr un model.</p> <p>At hynny, mae Bwrdd Strategol sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a grŵp Cyflawni Partneriaeth yn ogystal â grwpiau Tasg a Gorffen a fydd yn cael eu sefydlu i arwain ar brosiectau penodol.</p> <p>Ar hyn o bryd nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol, ond maent yn mynd ag ef drwy eu prosesau democrataidd gyda'r bwriad o lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ystod 2024.</p>

<p>Rhaglen Waith Corfforaethol</p>	<p>Gan fod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu Datganiad Llesiant sy'n cynnwys ei Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26; ni fydd angen adolygiad blynyddol.</p> <p>Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn awr yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen adroddiad Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Ystyriwyd yr adroddiad terfynol ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2022/23 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023.</p> <p>Mabwysiadwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2023/24 yn ffurfiol gan yr Awdurdod ar y 14eg o Fehefin 2023.</p> <p>Rhodddwyd diweddariadau i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant, a amlinellwyd yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2023/24.</p> <p>Adroddwyd ar gynnydd dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 29ain o Dachwedd 2023. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd y trydydd a'r pedwerydd chwarter (lle'r oedd ar gael) i'r un pwyllgor ar yr 20fed o Fawrth 2024. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024.</p>
---	--

Egwyddor 4: Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

<p>Strategaeth y Gyllideb 2023-24</p>	<p>Cadarnhawyd cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2023/24 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 8fed o Chwefror 2023. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.</p> <p>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 13eg o Fedi 2023 ac i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023 a'r 20fed o Fawrth 2024.</p> <p>Cadarnhaodd y Gyllideb Refeniw Sylfaenol ar gyfer 2024/25 a gyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod mis Tachwedd, y rhagamcanwyd y byddai'r diffyg yn y gyllideb tua 10% o gyfanswm cyllideb yr Awdurdod.</p>
--	---

	<p>Roedd adroddiad mis Mawrth yn amlinellu'r sefyllfa refeniw a chyfalaf rhagamcanol ar gyfer diwedd y flwyddyn. Cadarnhaodd yr adroddiad hefyd y dyraniad grant refeniw a chyfalaf o £2 filiwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â'r heriau a wynebir gan bwysau cyllidebol presennol yr Awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i leihau'r diffyg gweithredu yn y gyllideb yn ogystal â lleddfu'r pwysau cyfalaf presennol.</p> <p>Cadarnhaodd yr adroddiad fod y sefyllfa o ran gwariant net ar wasanaethau yn parhau i gymharu'n ffafriol â gwariant net o'r un cyfnod yn 2022/23, fodd bynnag roedd pwysau chwyddiant yn parhau i fod yn heriol.</p> <p>Mae gwariant yn parhau i fod yn uwch ar elfennau sy'n cael eu heffeithio gan chwyddiant, yn enwedig ar ynni, fodd bynnag cafwyd cadarnhad bod y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn ddigonol. Gan nad oedd lefel chwyddiant wedi gostwng mor sydyn ag a ragwelwyd, arhosodd cyfraddau llog yn uchel. Mae hyn yn parhau i arwain at incwm llog sylweddol i'r Awdurdod. Cynyddwyd y gyllideb/targed incwm llog i £120k i adlewyrchu hyn a rhagorwyd ar y targed hwn eisoes gyda dros £190k o incwm wedi ei dderbyn hyd yma yn 2023/24.</p>
<p>Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 – 2027/28</p>	<p>Adroddwyd yn Natganiad y llynedd bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, yn ei gyfarfod ar y 26ain o Ebrill 2023, wedi cyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer 2023/24 – 2026/27 i'r Awdurdod, sy'n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a allai wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sydd eu hangen ar yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yn y tymor canolig.</p> <p>Ymhellach at hyn, cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o heriau ariannol yr Awdurdod ar gyfer y 2 flynedd ariannol nesaf (2025 – 2027) mewn cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau ar yr 17eg o Ebrill 2024.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r pwysau chwyddiant a ragwelir (yn seiliedig ar ragdybiaethau Banc Lloegr) ar yr Awdurdod am y 3 blynedd ariannol nesaf i fod yn £903,000.</p> <p>Nodwyd chwyddiant cyflog hefyd fel rhywbeth anhysbys. Gall leihau'r her neu gynyddu'r pwysau ariannol ar yr Awdurdod, a bydd angen ei asesu pan fydd hynny'n</p>

	<p>hysbys. Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad nad oedd angen ystyried unrhyw addasiadau sylweddol (ac eithrio Plas Tan y Bwlch) yn y flwyddyn ariannol hon, ond mae angen gwneud gwaith paratoadol i'w ystyried yn y dyfodol.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion wneud gwaith pellach ar gynhyrchu incwm, gwariant cyfalaf a referiw gan gynnwys cadw staff a recriwtio mewn meysydd allweddol; ac i ystyried ymhellach sefyllfa ariannol yr Awdurdod cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon ac ystyried camau gweithredu posibl i'w rhoi ar waith yn ystod 2025/26 a 2026/27.</p> <p>Oherwydd yr adroddiad uchod a'r camau gweithredu a gymeradwywyd, nid oedd angen cyflwyno'r Cynllun Ariannol Canol Tymor ar gyfer 2024/25 – 2027/28 yn ffurfiol i'r Awdurdod ym mis Ebrill 2024, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd hwn nawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau mis Gorffennaf 2024.</p>
<p>Rheoli Perfformiad</p>	<p>Cafodd y mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol eu nodi'n ffurfiol yn 2021/22.</p> <p>Mae'n cadarnhau y bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter.</p> <p>Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 a gymeradwywyd i'w fabwysiadu a'i gyhoeddi gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar yr 13eg o Fedi 2023, yn adrodd ar gynnydd Blwyddyn 2 o ran cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.</p>

Egwyddor 5: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

<p>Rôl Disgrifiadau Aelodau</p>	<p>Cafodd y disgrifiadau diwygiedig ar gyfer rôl Aelodau a'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu mabwysiadu gan yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022.</p> <p>Gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau pwyslais rôl aelodau wrth osod cyfeiriad strategol ac uchelgais ar gyfer yr Awdurdod, gan ddarparu cyflwyniad trosfwaol gan gynnwys pwrpas Parciau Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod wrth gyflawni'r dibenion hyn, a chryfhau'r adran ar ddatblygiad personol a rôl.</p>
<p>Presenoldeb Aelodau</p>	<p>Mae platfform ar-lein Zoom ar gyfer cynnal cyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd eraill bellach yn mynd i mewn i'w bedwaredd flwyddyn o weithredu. Mae'r buddsoddiad technolegol newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid wedi gwreiddio'n dda, ac mae bellach wedi'i hen sefydlu.</p> <p>Gall aelodau'r cyhoedd arsylwi'r pwyllgorau yn bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch neu gallant gofrestru ymlaen llaw i gael mynediad trwy Zoom. Gellir gweld recordiadau pwyllgorau yn ddiweddarach hefyd drwy sianel YouTube yr Awdurdod.</p> <p>Roedd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2023/24 yn 85%, o'i gymharu ag 81% a 82% yn y ddwy flynedd flaenorol, sef 2022/23 a 2021/22.</p>
<p>Hyfforddiant Aelodau</p>	<p>Yn 2023/24, roedd presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 53.5% (70% yn 2022/23).</p> <p>Yn ogystal â rhaglen hyfforddi Aelodau'r Awdurdod, eleni darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer sesiynau hyfforddi Aelodau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Llywodraethu; ➤ Tirweddau i Bawb (Cyflwyniad i Amrywiaeth a Chynhwysiant; a ➤ Argyfyngau Natur a Hinsawdd. <p>Mae deunyddiau cwrs ar gael ar wefan Tirweddau Cymru, sy'n galluogi Aelodau nad oeddent yn gallu bod yn bresennol i gael mynediad at y wybodaeth.</p>

	<p>Bydd hyfforddiant pellach yn ymwneud â llywodraethu yn cael ei ddarparu yn 2024-25 yn dilyn cadarnhad bod cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn. Mae sesiynau wedi'u trefnu ar gyfer Mehefin 2024 ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ System lywodraethu APC – gwahaniaethau a thebygrwydd â chyrrff llywodraeth leol eraill; ➤ Cyflwyniad i lywodraethu da; a ➤ Arfer llywodraethu da.
<p>Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff</p>	<p>Nodir anghenion dysgu a datblygu mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, sy'n amlinellu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p> <p>Er na dderbyniodd yr holl staff arfarniad yn ystod y cyfnod, o ganlyniad i gyfarwyddyd a gyflwynwyd gan y ddau Gyfarwyddwr i annog rheolwyr i arfarnu eu staff, bu cynnydd o 32% yn nifer y staff a oedd yn cael eu harfarnu yn ystod 2023/24.</p> <p>Bydd ffocws pellach yn parhau i sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cael eu harfarnu'n flynyddol.</p>
<p>Strategaeth Adnoddau Dynol</p>	<p>Yn 2022/23 roedd absenoldeb salwch staff yn 6.95 diwrnod ar gyfartaledd. Yn ystod 2023/24 y cyfartaledd absenoldeb salwch staff oedd 9.1 diwrnod.</p> <p>Mae'r cynnydd hwn wedi ysgogi adolygiad gan y tîm AD mewn perthynas â sut mae'r Awdurdod yn rheoli absenoldeb yn gyffredinol. Bydd yr adolygiad yn edrych ar resymau dros absenoldeb, hyd absenoldebau, absenoldebau cylchol ac effaith ariannol gyffredinol absenoldeb ar yr Awdurdod.</p> <p>Yn absenoldeb parhaus Rheolwr Tîm ym Mhlas Tan y Bwlch, mae'r pennaeth AD wedi parhau i oruchwylio staff yno bob dydd, gan effeithio ar ei gallu i ganolbwyntio'n llawn ar swyddogaethau AD.</p> <p>Hefyd wynebodd y Tîm AD newidiadau sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn oherwydd ymddeoliad swyddog AD profiadol ac absenoldeb mamolaeth y Gweinyddwr AD. Yn ystod Ionawr 2024, cymeradwyodd y tîm rheoli adolygiad o strwythur y Tîm Adnoddau Dynol a'r diwygiadau a gyflwynwyd.</p> <p>Un o'r newidiadau allweddol oedd y penderfyniad i ddisodli'r rôl Gweinyddwr AD blaenorol gyda swydd dan hyfforddiant i i gynghorydd AD am ddwy flynedd. Bydd y strwythur</p>

	<p>diwygiedig gyda'r holl swyddi wedi'u llenwi yn cynyddu effeithlonrwydd o fewn y tîm ac yn caniatáu mwy o ffocws ar adolygu polisïau a gweithdrefnau, lles staff, a diweddarau'r strategaeth AD.</p> <p>Er gwaethaf y gostyngiad dros dro yn nifer aelodau'r tîm, roedd cynnydd sylweddol yn dal i gael ei wneud mewn perthynas â chreu nifer o bolisïau newydd, gan gynnwys 'Menopôs,' 'Gweithio Hyblyg' a 'Fflecsi Hynod Hyblyg'.</p> <p>At hynny, rhoddodd y tîm Raglen Cymorth i Weithwyr newydd ar waith a lansiodd y Fforwm Ymgysylltu a Lles Staff.</p>
--	--

Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

<p>Datganiadau Ariannol</p>	<p>Adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu'r llynedd nad oedd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021/22 wedi'i ardystio a'i gymeradwyo'n ffurfiol eto. Roedd hyn oherwydd anawsterau a oedd wedi codi oherwydd yr angen i ailwerthuso asedau'r Awdurdod bob 5 mlynedd.</p> <p>Nid yw'r Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2021/22 a 2022/23 wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ffurfiol eto; ac felly nid yw Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol yr Archwilydd Penodedig oddi wrth Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018 wedi dod i law eto.</p> <p>Adeg paratoi'r adroddiad, rhagwelir y bydd y Datganiad o Gyfrifon Terfynol ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ar yr 12fed o Fehefin 2024.</p> <p>Yn dilyn hyn, bydd cyflwyno'r Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2022/23 a 2023/24 yn dibynnu ar yr amserlen archwilio a fydd yn cael ei phennu gan Archwilio Cymru.</p>
<p>Rheoli Risg</p>	<p>Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli.</p> <p>Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae'r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau ym mhob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac mae unrhyw risgiau sy'n cael eu tynnu i ffwrdd o'r Gofrestr yn cael ei gadarnhau yn flynyddol yng nghyfarfod yr Awdurdod.</p>

<p>Archwilio Allanol</p>	<p>Mae'n arferol i Archwilio Cymru gyflwyno Cynllun Archwilio i'r Awdurdod bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau archwilio a'r ymateb archwilio arfaethedig i'w gynnal yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chadarnhad o feysydd archwilio perfformiad a'r ffioedd archwilio sy'n daladwy. Ni dderbyniwyd Cynllun Archwilio ar gyfer 2023 gan Archwilio Cymru.</p> <p>Ar ddechrau 2023, cychwynnodd Archwilio Cymru adolygiad ar lywodraethu o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, a oedd yn cynnwys craffu effeithiol, partneriaethau, cefnogi adferiad a gwytnwch, penodi aelodau a gwneud y mwyaf o'u cyfraniad drwy gydbwysu materion cenedlaethol a lleol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr 25ain o Ebrill 2024, a bydd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i Aelodau a Swyddogion yng Nghyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ar y 12fed o Fehefin 2024.</p> <p>Yn ystod haf 2023 cyhoeddodd Archwilio Cymru friff ar eu harchwiliad arfaethedig ar 'Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mynediad', a chyflwynodd Swyddogion y dystiolaeth y gofynnwyd amdani yn briodol. Hyd yn hyn, nid yw cynnydd pellach ar yr archwiliad yn hysbys.</p> <p>Yn dilyn astudiaeth a gynhaliwyd ar Arallgyfeirio Incwm ar draws tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru, cyflwynodd Archwilio Cymru eu canfyddiadau i Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023. Dilynodd Archwilio Cymru'r adroddiadau unigol gydag adroddiad tri Pharc Cenedlaethol ar y cyd a chyhoeddwyd ef ym mis Medi 2023.</p> <p>Adroddodd y Prif Weithredwr ar gynnydd i'r Aelodau ar argymhellion yr adroddiad yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023, a hefyd mewn adroddiad i'r Gweithgor Aelodau ar yr 17eg o Ebrill 2024, fel rhan o'r trosolwg ar Her Ariannol yr Awdurdod ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae manylion llawn y canfyddiadau a'r argymhellion wedi'u nodi o dan Adran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) yn y Datganiad hwn.</p>
---------------------------------	--

<p>Archwiliad Mewnol</p>	<p>Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Eleni, adroddwyd ar hyn a yr 29ain o Dachwedd 2023.</p> <p>Roedd tri archwiliad mewnol i'w cynnal yn ystod 2023/24, sef Trefniadau Gweithredu y Gwasanaeth Cynllunio, Partneriaeth Tirweddau'r Carneddau, a Chefnogaeth i Aelodau.</p> <p>Ni chynhaliwyd archwiliad Partneriaeth Tirweddau'r Carneddau, ac yn lle hynny cynhaliwyd archwiliad ar Brosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE.</p> <p>Rhodddwyd gradd "Digonol" i'r ddau archwiliad ar Drefniadau Gweithredu y Gwasanaeth Cynllunio a Phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE - mae camau mewn lle i gyflawni'r amcanion ond mae agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</p> <p>O ganlyniad i hyn, rhodddwyd argymhellion ar gyfer gwelliant fel rhan o'r adroddiadau. Bydd Archwilio Mewnol yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd gweithredu'r argymhellion hyn maes o law.</p> <p>Graddiwyd yr archwiliad Cefnogaeth i Aelodau fel "Uchel" - gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle i gyflawni amcanion.</p>
<p>Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023 gan y Pennaeth Adnoddau Dynol, yn manylu ar ddiwyddiadau / damweiniau a gofnodwyd gan gynnwys digwyddiadau y dylid cyflwyno gwybodaeth amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan yr adran 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Rheoliadau Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)'. </p> <p>Ar y 23ain o Ionawr 2024 penododd yr Awdurdod Swyddog Iechyd a Diogelwch llawn amser a fydd yn berson cymwys ar gyfer pob mater yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch wrth symud ymlaen.</p>

<p>Canolfannau Gwybodaeth</p>	<p>Mae gan yr Awdurdod 3 Canolfan Gwybodaeth, sef ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Twristiaeth Gynaliadwy, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn fasnachol hyfyw / hunangynhaliol.</p> <p>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r flwyddyn 2023/24 hyd yma, a daeth i'r casgliad y byddai'r Canolfannau yn diweddu'r flwyddyn ariannol o fewn eu cyllideb weithredu osodedig.</p> <p>Y prif faterion i'w nodi oedd y cynnydd yn y trosiant ariannol a welwyd ym mhob un o'r 3 Canolfan, a'r rheswm am hyn, ymhlith pethau eraill, oedd gwell recriwtio a chadw staff, ehangu cyflenwyr, a chyfradd cyfnewid ariannol ffafriol ar gyfer ymwelwyr tramor. Adroddwyd hefyd bod achosion o ddwyn o'r canolfannau yn uwch na'r cyfartaledd yn ystod y prif dymor, ond bod uwchraddio a gosod systemau teledu CCTV wedi bod yn werthfawr o ran canfod dwyn.</p>
<p>Strategaethau Benthycu a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthycu a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2022/23, i gyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Fedi 2023.</p> <p>Yn ystod 2022/23 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthycu.</p> <p>Yn 2022/23, cyfanswm y llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau oedd £135,616. Mae llog a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir o £331 yn cynyddu'r cyfanswm i £135,947 yn erbyn cyllideb o £8,000.</p> <p>Mae swm llog banc a chymdeithas adeiladu o £135,616 ar gyfer 2022/23 yn gynydd sylweddol i'r swm o £10,902 dderbyniwyd yn 2021/22. Mae'r cynnydd yn ganlyniad uniongyrchol i chwyddiant a'r effaith ar gyfraddau llog sydd wedi cynyddu sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ac sy'n parhau i gynyddu.</p> <p>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r</p>

	<p>trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg gysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2024/25 yn ddiddyled. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth Benthyca Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2024/25, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud a'r Cod Darbodus.</p> <p>Ymhellach, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid efallai y bydd yn rhaid i'r Awdurdod fenthyca yn y dyfodol yn y tymor byr i gyflawni'r Prosiect LIFE oherwydd galwadau llif arian posibl. Roedd hyn oherwydd estyniad 18 mis i'r prosiect a allai fod angen cyllid yn y tymor byr.</p>
<p>Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch</p>	<p>Yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024, dywedodd y Prif Weithredwr fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi dod i'r casgliad na ellir datblygu busnes hyfyw sy'n gysylltiedig â chyflawni dibenion statudol yr Awdurdod o fewn yr adnoddau presennol sydd ar gael.</p> <p>Yn ogystal, roedd adroddiad Archwilio Cymru ar Arallgyfeirio Incwm wedi argymhell bod yr Awdurdod, o fewn 12 mis, yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch i gynnal gwerthusiad cost a budd o'r cyfleuster er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'r goblygiadau adnoddau cysylltiedig mewn manylder. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen i'r Awdurdod leihau'r costau refeniw a chyfalaf sy'n deillio o reolaeth weithredol Plas Tan y Bwlch ac mae angen i'r Awdurdod ystyried modelau amgen sy'n cynnwys ffurfio partneriaethau neu werthu ar y farchnad agored, fel busnes gweithredol yn ddelfrydol.</p>
<p>Yr Ysgwrn</p>	<p>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn ar gyfer 2022/23 i'r Awdurdod ar yr 14eg o Fehefin 2023.</p> <p>Nodwyd yn yr adroddiad y llwyddodd Yr Ysgwrn i ddenu cefnogaeth ariannol ar gyfer rhaglen weithgareddau a digwyddiadau gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru a Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Haf o Hwyl. Mae data incwm yn dangos fod incwm uwch ar y dyddiau</p>

	<p>pan gynhelir gweithgareddau a digwyddiadau ac mae cynnal rhaglen o safon yn hanfodol er mwyn meithrin bwrlwm.</p> <p>Roedd y cynnydd yng nghostau rhedeg Yr Ysgwrn yn ystod y flwyddyn yn her, gan adlewyrchu'r argyfwng costau byw ehangach. Mae'r cynnydd mewn costau wedi effeithio ar bob agwedd ar y busnes ac yn arbennig, costau gwresogi. Roedd y broblem yn fwy amlwg yn 2022/23 oherwydd effaith cost uwch pelenni coed a phrisiau nwy a dibyniaeth uwch ar nwy wrth gwblhau gwaith cynnal a chadw ar y boeler biomas.</p> <p>Arweiniodd y cyfuniad hwn o ffactorau at fwllch o tua £50,000 yn y gyllideb. Sefydlwyd cronfa wrth gefn Yr Ysgwrn er mwyn cwrdd â bwllch o'r fath.</p>
--	---

Egwyddor 7: Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

<p>Datganiad Polisi Tâl</p>	<p>Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.</p> <p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2022/23 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod.</p>
<p>Adroddiad Blynyddol 2022/23</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Fedi 2023, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddsbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.</p> <p>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y</p>

	<p>bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, y gweithgareddau gwaith allweddol ar gyfer 2022/23, a rheoli perfformiad.</p>
<p>Pwyllgorau Hybrid a Darlledu</p>	<p>Mae cyfarfodydd hybrid bellach wedi'u hen sefydlu yn yr Awdurdod yn dilyn buddsoddiad yn y dechnoleg sydd ei hangen i hwyluso'r cyfarfodydd. Mae gan Aelodau a Swyddogion y dewis i fynychu'n bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch neu ymuno ar-lein trwy Zoom.</p> <p>Mae cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad hefyd yn cael eu gweddarlledu'n fyw ar sianel YouTube yr Awdurdod, yn ogystal â hynny mae recordiad o'r cyfarfod i'w weld ar unrhyw adeg. Felly gall aelodau'r cyhoedd naill ai fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn bersonol neu gallant gael mynediad o bell.</p> <p>Mae hyn nid yn unig yn gwella mynediad i Aelodau a Swyddogion ond hefyd yn gwella mynediad, tryloywder ac adrodd ar fusnes yr Awdurdod i aelodau'r cyhoedd.</p>
<p>Cyllido Grant</p>	<p>Ariennir y rhan fwyaf o waith prosiect yr Awdurdod trwy gyllid grant allanol.</p> <p>Rhoddir diweddariadau Cyllid Grant, gan gynnwys unrhyw ailbroffilio a newidiadau i ddyddiadau gorffen lle bo'n berthnasol, i Aelodau drwy'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bob chwe mis. Rhoddir gwybodaeth fanwl am brosiectau a ariennir gan gyfalaf yn ogystal â phrosiectau byw.</p> <p>Mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau'n flynyddol, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r amserlenni sy'n gysylltiedig â rhai rhwymedigaethau grant, ac o ganlyniad yn cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r aelodau wedi cadarnhau'n flaenorol bod angen eu cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn. • Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â'r hyn y cytunwyd arno fel blaenoriaeth strategol. • Unrhyw gynnig a gyfeiriwyd at aelodau gan y Cadeirydd neu Brif Swyddog Gweithredol. • Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw'r terfyn cyllid y cytunwyd arno (cytunwyd ar £150,000)

	Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd diweddariadau i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023 ac ar yr 20fed o Fawrth 2024.

6. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau y Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2022/23

Archwilio Cymru: Arallgyfeirio Incwm

Yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad a oedd yn ceisio asesu a oedd gan yr Awdurdod y weledigaeth a'r systemau cywir ar waith i amrywio ei ffrydiau incwm, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cynllunio, eu rheoli a'u cyflawni'n effeithiol heb gyfaddawdu ar ei allu i gyflawni ei ddibenion a'i ddyletswyddau statudol. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Wrth adrodd ar y canlyniad yn benodol ar gyfer yr Awdurdod hwn ym mis Gorffennaf 2023, nododd Archwilio Cymru yn ei adroddiad fod "angen mwy o gydnerthedd ariannol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gyflawni'n effeithiol yn erbyn yr agenda uchelgeisiol a osodwyd gan Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru. Er mwyn gwneud hyn mae angen i Aelodau a swyddogion yr Awdurdod feddu ar y weledigaeth, y sgiliau a'r arbenigedd cywir i osod strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm. Ochr yn ochr â hyn, rhaid i drefniadau llywodraethu cadarn ddarparu cyfleon craffu priodol ac effeithiol i helpu i arfarnu risgiau a buddion unrhyw weithgarwch newydd arfaethedig".

Daeth yr adolygiad i'r casgliad "Yn Eryri, canfuom fod gan yr Awdurdod hanes cryf o godi arian a rheoli adnoddau. Er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb yn y dyfodol i sicrhau bod ei ddibenion statudol yn parhau i gael eu cyflawni a rheoli asedau allweddol, mae angen i'r Awdurdod osod gweledigaeth glir".

Cafodd adroddiad dilynol 'Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, ei ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023. Nododd yr adroddiad 6 bloc adeiladu allweddol, pob un ohonynt yn hanfodol ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol pan fyddant yn amrywio eu ffrydiau incwm. Daeth yr adroddiad i ben gydag argymhellion i Lywodraeth Cymru:

"Mae hefyd yn amlwg bod yna faterion cyffredin a phwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw os yw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol am sicrhau incwm newydd yn llwyddiannus. Gyda hyn mewn golwg, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adroddiad hwn i ddeall yr heriau a'r rhwystrau presennol sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n ceisio amrywio eu ffrydiau incwm. Ar sail y canfyddiadau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a diffinio'n glir:

- ei weledigaeth a'i uchelgais ar gyfer cynhyrchu incwm gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ar lefel genedlaethol;
- lefel y risg y mae'n gyfforddus i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ei chymryd, a pharamedrau eraill ar gyfer dilyn ffrydiau incwm newydd;

- y gefnogaeth y bydd yn ei darparu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran y sgiliau sydd eu hangen i fynd ar drywydd arallgyfeirio incwm, a chraffu arno; a
- sut y bydd yn hwyluso cydweithio rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru er mwyn gallu dilyn mentrau cynhyrchu incwm ar y cyd.”

Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella ar gyfer yr Awdurdod yn benodol, sef y rhai a nodwyd gan Archwilio Cymru wrth gynnal yr adolygiad ynghyd ag ymateb yr Awdurdod.

Argymhelliad	
R1	<p>Dull Strategol o arallgyfeirio incwm</p> <p>Mae ymgymryd ag arallgyfeirio incwm yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael digon o gapasiti, y sgiliau cywir a systemau cadarn ond ystwyth i fod ar waith. Rydym yn argymhell bod yr Awdurdod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ defnyddio ei offer hunanarfarnu i nodi ei gryfderau a'i wendidau presennol, a datblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm; ac ➤ fel rhan o'i strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm yn gosod mesurau perfformiad CAMPUS a systemau llywodraethu priodol i sicrhau monitro a chraffu digonol ar gyflawni'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ac sy'n deillio o'i hunanwerthusiad.
Ymateb 12.07.23	
	<p>Mae'r Awdurdod yn cytuno i ddefnyddio'r offeryn hunanwerthuso i ddatblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm.</p> <p>Gall arallgyfeirio incwm fod yn ddwys o ran adnoddau gyda chyfleoedd cyfyngedig, a bydd angen i unrhyw strategaeth sicrhau bod ein hadnoddau prin yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posibl.</p> <p>Gyda'r cafeut a nodir uchod, cytunir y bydd y strategaeth yn mesur perfformiad ac yn asesu a oes angen newidiadau i'n model llywodraethu.</p>
Ymateb wedi'i Ddiweddarau 29.11.23	
	<p>Mae'r adroddiad ei hun yn amlygu'r chwe bloc adeiladu ar gyfer arallgyfeirio cynhyrchu incwm ynghyd â'r offeryn hunanwerthuso. Mae swyddogion wedi ystyried y rhain ond mae cynnydd ar unrhyw waith pellach wedi cael ei gyfyngu oherwydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar y cyd a oedd yn herio Llywodraeth Cymru i ddeall ac ystyried y materion penodol sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran arallgyfeirio incwm ac i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar y materion hynny.</p>

	Nododd adroddiad Archwilio Cymru hefyd yr angen am un strategaeth gorfforaethol ar arallgyfeirio incwm. Nid yw'r Awdurdod yn cynhyrchu un ddogfen o'r fath ond yn hytrach mae'n rhoi mwy o fanylion am feysydd cyflawni sy'n darparu cyfleoedd masnachol e.e., cynlluniau busnes a thargedau incwm ar gyfer meysydd fel Plas Tan y Bwlch, Yr Ysgwrn, Meysydd Parcio a Chanolfannau Croeso. Mae perfformiad gweithgareddau gyda chyfleoedd masnachol yn cael ei fonitro ar lefel swyddogion, byrddau swyddogion/aelodau penodol ac adroddir yn achlysurol naill ai i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.
--	--

Ymateb wedi'i Ddiweddarau 17.04.24

	<p>Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r her ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, yn ei adroddiad i'r Gweithgor Aelodau ar yr 17eg o Ebrill 2024.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn nodi y disgwylir mewnbwn pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch arallgyfeirio incwm. Er gwaethaf hyn, cadarnhawyd y gall Swyddogion symud ymlaen ar y meysydd a ganlyn wrth baratoi, i gynghori a darparu opsiynau i Aelodau ar unrhyw gamau gweithredu y gallai fod eu hangen ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/27:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Incwm meysydd parcio ➤ Ffioedd cynllunio ➤ Canolfannau Croeso ➤ Yr Ysgwrn ➤ Nawdd masnachol
--	--

Argymhelliad

R2	<p>Plas Tan y Bwlch</p> <p>Argymhellwn fod yr Awdurdod, o fewn y 12 mis nesaf, yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch i gynnal gwerthusiad cost a budd o'r cyfleuster er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol.</p>
----	---

Ymateb 12.07.23

	Mae'r adolygiad hwn eisoes wedi cychwyn ac rydym yn y broses o gasglu'r wybodaeth.
--	--

Ymateb wedi'i Ddiweddarau 07.02.24

	Roedd y Bwrdd wedi ystyried y sail resymegol weithredol ar gyfer Plas Tan y Bwlch, gan gwmpasu modelau busnes posibl a sut mae hynny'n cefnogi cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol, a daeth i'r casgliad bod angen i'r Awdurdod leihau'r costau refeniw a chyfalaf sy'n deillio o reolaeth weithredol Plas Tan y Bwlch ac mae angen i'r Awdurdod ystyried modelau amgen ar gyfer Plas Tan y Bwlch sy'n cynnwys ffurfio partneriaethau neu ei werthu ar y farchnad agored, fel busnes gweithredol, yn ddelfrydol.
--	--

	<p>Penderfynodd yr Awdurdod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Parhau gyda'r model busnes presennol am gyfnod hyd nes y gall yr Awdurdod ystyried yn ffurfiol ei opsiynau ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol. 2. Gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl ar gyfer rheolaeth weithredol/datblygu Plas Tan y Bwlch. 3. Cynnig Plas Tan Y Bwlch ar y farchnad agored i brynwyr posibl. 4. Hyrwyddo Plas Tan y Bwlch yn weithredol fel busnes gweithredol i unrhyw bartner/prynwr posibl. 5. Caniatáu cyfnod o hyd at 6 mis ar gyfer dod o hyd i bartner neu werthu ar y farchnad agored. 6. Y Tîm Rheoli a Bwrdd y Plas i fonitro cynnydd ac adrodd yn ôl i'r aelodau yn ôl yr angen ond erbyn mis Medi 2024 fan bellaf gydag argymhellion tymor hir yn seiliedig ar ganlyniad unrhyw drafodaethau. 7. Defnyddio'r gronfa a nodwyd i bontio unrhyw bwysau/anghenion ariannol.
--	---

Proffil Risg yr Awdurdod

Mae'r tair risg uchaf i'r Awdurdod fel y cawsant eu diweddarau ym mis Mawrth 2023, fel a ganlyn:

Risg	Canlyniad	Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma
Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	<p>Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2024, ac fe'i sefydlwyd ar sail dim newid i Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25. Roedd hyn yn parhau'r cynnydd sero yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol, er bod yr Awdurdod yn profi lefelau chwyddiant na welwyd ers y 1980au.</p> <p>Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfraniad net o £1,061,760 o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, sy'n cynnwys £731,330 o gyllid refferiw a £330,430 o gyfalaf. Mae hon yn lefel ddigynsail o ddefnydd cronfeydd wrth gefn, ac er bod rhywfaint o hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r defnydd o grant a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r defnydd o gronfeydd eraill yn gynaliadwy yn y tymor hir.</p>

		<p>Mewn blynyddoedd blaenorol, mae APCE wedi gallu cadw hyblygrwydd gyda'i gronfeydd wrth gefn ac mae wedi cadw lefel ddoeth o arian i allu cydbwysu'r gyllideb heb weithredu toriadau brys. Fodd bynnag, ystyriwyd arbedion ar gyfer 2024/25 a bydd yn rhaid i hyn barhau yn y blynyddoedd i ddod, gydag effaith niweidiol ar wasanaethau, oni bai bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.</p> <p>Yn dilyn adroddiad gan Archwilio Cymru, mae nifer o argymhellion wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i nodi opsiynau ar gyfer codi incwm - ac egluro'r risgiau cysylltiedig - ond mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio nes bod canllawiau wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Graddfa Risg: Effaith 4 x Tebygolrwydd 4 = 16 (Uchel)</p>
<p>Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).</p>	<p>Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.</p>	<p>Yn dilyn y pandemig a'r nifer o gyfnodau clo mae Plas Tan y Bwlch wedi bod yn gweithredu model busnes hybrid sy'n cynnwys ceisio gwneud y gorau o'r farchnad dwristiaid trwy gynnig pecyn Gwely a Brechwast i ymwelwyr, cynnal digwyddiadau arbennig fel cynadleddau a phriodasau, a chrosawu rhywfaint yn ôl o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel defnyddwyr craidd blaenorol Plas Tan y Bwlch.</p> <p>At ei gilydd, mae hyn wedi cwrdd â chanlyniadau cymysg. Er bod incwm wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn anffodus mae'r costau cyffredinol wedi cynyddu hefyd, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y pwysau chwyddiant sy'n wynebu Plas Tan y Bwlch. Gyda'r pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn gyffredinol mae angen cynyddol i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod y diffyg ac ystyried opsiynau tuag at y dyfodol.</p> <p>Mae Archwilio Cymru wedi argymhell bod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod o fewn 12 mis. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi cael y dasg o lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch.</p>

		<p>Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur i'r Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac ystyriodd yr Awdurdod y mater yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, pan gytunodd i fabwysiadu dull deuol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y mater nesaf ym mis Medi 2024.</p> <p>Graddfa Risg: Effaith 4 x Tebygolrwydd 5 = 20 (Uchel)</p>
--	--	--

Yn ogystal, diweddarwyd yr ail risg ynglŷn â Phlas Tan y Bwlch ym mis Mawrth fel yr amlinellir hynny yn y tabl isod. Gofynnodd yr Aelodau a chytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau dyddiedig yr 20fed o Fawrth 2024, i'r ddwy risg gael eu cyfuno i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, ac i gynnwys mwy o fanylion mewn perthynas â'r risg i enw da'r Awdurdod, y risgiau ariannol, y risgiau i'r adeilad ei hun etc.

Risg	Canlyniad	Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma
Sicrhau dyfodol tymor hir i Blas Tan y Bwlch.	Risg i enw da'r Awdurdod wrth reoli Plas Tan y Bwlch. Y Plas yn gorfod cau gyda staff yn colli eu bywoliaeth. Effaith andwyol ar yr economi leol ac enw da'r Awdurdod yn dioddef.	<p>Fel yr adroddwyd yn flaenorol, er bod incwm yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, mae diffyg sylweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef.</p> <p>Mae Archwilio Cymru wedi argymhell bod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod o fewn 12 mis. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi cael y dasg o lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch. Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur i'r Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac ystyriodd yr Awdurdod y mater yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, pan gytunodd i fabwysiadu dull deuol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y mater nesaf ym mis Medi 2024.</p> <p>Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod nifer o broblemau gyda'r adeilad ei hun megid tamprwydd cynyddol a cholli ystafelloedd gosod yn sgil hynny. Rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r sefyllfa ac mae gennym Arolwg o Gyflwr yr adeilad. Mae'r adroddiad hwn wedi ei drafod yn y Bwrdd ac rydym wedi gofyn am fanylion y gwaith brys angenrheidiol, gyda golwg ar</p>

		<p>ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cais am arian grant ar gyfer gweddill y gwaith. Gellir penderfynu wedyn os a sut i fuddsoddi ymhellach yn y Plas gyda'r arian eisoes i law. Yn y cyfamser cafwyd caniatâd adeilad rhestredig i wneud gwaith brys a gwaith y gellir ei wneud ar y cyd â gwaith arall a fydd yn lleddfu'r broblem o ddŵr yn dod i mewn gan achosi tamprwydd.</p> <p>Graddfa Risg: Effaith 3 x Tebygolrwydd = 12 (Canolig)</p>
--	--	--

Yn wyneb y ceisiadau uchod, bydd y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu'n ffurfiol a'i chyflwyno i'w chymeradwyo yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau nesaf ym mis Gorffennaf 2024.

7. Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r anghenion gwella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

EMYR WILLIAMS

**PRIF WEITHREDWR
AWDURDOD PARC
CENEDLAETHOL ERYRI**

DYDDIAD: 12.06.2024

**CADEIRYDD
AWDURDOD PARC
CENEDLAETHOL ERYRI**

DYDDIAD: 12.06.2024

EITEM RHIF 15

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	12 Mehefin, 2024
TEITL	RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2023-24
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Adroddiad cynnydd y Chwarter Olaf ar gyfer 2023-24. (Pedwerydd Chwarter, Ionawr – Mawrth 2024).

1. CEFNDIR

- 1.1 Ynglwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y Chwarter olaf o 2023/24 i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.
- 1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.

3. PAPURAU CEFNDIROL

- 3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2023-24: Adroddiad Cynnydd y Chwarter olaf sef y pedwerydd chwarter, Ionawr – Mawrth 2024.




AMCANION LLESIANT 2023-24 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL


Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llywyddiant
Diweddariad Chwarter 4 (Terfynol) : Ionawr – Mawrth 2024


Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)


1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH








Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 1	GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGyddOL HAMDDEN
--	------	---


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.1	 Ch. 1-3	Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2022. Adroddiad wedi ei chynyrchu ac ar gael ar safle we'r Parc Cenedlaethol: https://Awdurdod.eryri.llyw.cymru/qwybodaeth/visitor-monitoring-figures/ Bydd Rheolwr Mynediad a Llesiant yn cyflwyno'r adroddiad i Weithgor Aelodau mis Tachwedd.	Parhaus Adroddiad nesaf erbyn Meh.Gorff 2023	Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Llesiant


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024





 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.2 		Ymgyrch Negeseuon Tymor 2023 i godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon - ei weithredu ac adrodd ar y canlyniadau/ cyrhaeddiad.	Rhagfyr 2023	Pen. Cyfathrebu Pen. Partner. Swyddog Twristiaeth Cynaliadwy
1.2.1 a.		Mae APCE wedi cynnal ymgyrch ymwelwyr ar y cyd i fynd i'r afael â heriau rheoli ymwelwyr ac wedi annog pobl i ymweld yn gynaliadwy Gweithredu Ymgyrch Eryri Ni 23 – Bydd Llysgenhadon Aur yn gymwys ar gyfer graffeg cyfryngau cymdeithasol mewn partneriaeth ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd Llysgenhadon Aur yn gallu cofrestru yn erbyn dyddiad y cytunwyd arno a byddant yn derbyn cyfres o deils wedi'u teilwra yn cynnwys logo eu cwmni i hyrwyddo negeseuon allweddol y strategaeth. Byddant hefyd yn derbyn pecyn hyrwyddo ar gyfer eu busnes.		
	Ch. 1-2	Cafwyd adborth bositif ar ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar sianeli cyfryngau cymdeithasol canolog yr Awdurdod, amlygwyd y negeseuon gan ddefnyddio 40 o Lysgenhadon Eryri fel 'Llysgenhadon Digidol' i rannu ein negeseuon ymhellach. Hefyd, cyhoeddwyd erthygl â thâl ar '7 ffordd o ymweld ag Eryri'n gynaliadwy' gan North Wales Live.		
	Ch. 3.	Cynhaliwyd Gweithdy Adolygu Tymor Ymwelwyr ym mis Rhagfyr 2024 gan yr Adrannau Wardeiniaid, Eiddo, Cyfathrebu a Phartneriaethau.		
b.		Datblygu atebion i faterion cartrefi modur gan gynnwys mesurau ymgysylltu a chyfathrebu Cynhyrchwyd tudalen bwrpasol ar wefan Eryri i annog ymweliadau cyfrifol gan berchnogion cartrefi modur: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/cynllunio-eich-ymweliad/faniau-cysgu-a-cartrefi-modur/ Cynhyrchwyd fersiwn estynedig a gwell o daflen Fan Gwersylla Eryri yn 2023 sydd bellach wedi ehangu'r rhestr o feysydd gweryslla swyddogol ar y daflen, ac mae peiriannau dosbarthu wedi'u gosod mewn mwy o ardaloedd lle gall y Gwasanaeth Wardeniaid gyfeirio ymwelwyr yn hawdd.		
	Ch. 1 - 3			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024










Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
1.2.2	Ch. 1- 3	Mae o leiaf dwy deithlen wedi'u datblygu ar ein gwefan sy'n canolbwyntio ar rinweddau arbennig gan gynnwys diwylliant Cymru a thwristiaeth gynaliadwy Cyhoeddwyd 7 arweinyfr gan gynnwys "5 taith gerdded yn Eryri wedi'u trwytho mewn Chwedloniaeth" a "Sut i Ymweld ag Eryri heb gar".	Rhag. 2023	Pen. Cyfathrebu
AC 1.3	 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghanolfan Gwybodaeth Betws y Coed trwy uwchraddio'r cyfleusterau i ymwelwyr <ul style="list-style-type: none"> ➤ Canolfan Wybodaeth Betws y Coed: y blwch tywod a'r arddangosfa rhithwirionedd wedi agor i'r cyhoedd ➤ Gwelliannau i arwyddion Canolfan Wybodaeth Betws y Coed i'w cwblhau ➤ Gweithio gyda CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i roi cam 2 o welliannau dehongli Ogwen ar waith <p>Mae arddangosfa Betws y coed wedi ei chwblhau a'i hagor ond bydd rhai agweddau o'r gwaith yn cael eu newid dros y Gaeaf. Dehongli Ogwen ar y cwrs i'w gwblhau erbyn Mawrth 2024.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwaith dehongli yng Nghanolfan Wybodaeth Betws y Coed wedi'i gwblhau ➤ Gwaith ar gyfer mynedfa newydd ac arwyddion wedi'u hamserlennu ar gyfer Chwefror/Mawrth 2024. ➤ Arwyddion i'w cwblhau erbyn diwedd Chwarter 2. 2024 ➤ Gwaith Cam 2 yn Ogwen i'w gwblhau yn chwarter 4. <p>Gwelliannau i arwyddion Canolfan Wybodaeth Betws y Coed a Cam 2 o welliannau dehongli Ogwen wedi eu cwblhau.</p>	Disgwyllir gorffen erbyn Ebrill 2023 Hydref 2023 Mawrth 2024	Rh. Twristiaeth Cynaliadwy Pen. Cyfathrebu


Wedi'i gwblhau


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024










 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.4 	 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl Gwaith mynediad ar draws y Parc yn parhau gyda cynnal a chadw, gwelliannau ac datblygu teithiau sy'n cael eu hyrwyddo. Wedi apwyntio Uwch Warden – Mynediad fydd yn cydlynnu prosiectau canolig i mawr. Gwaith o gasglu, blaenoriaethu, a rhaglennu yn ailgychwyn gyda cyfarod blaenoriaethu gwaith ym mis Tachwedd. Mae'r gwaith yn parhau – yn y broses o dderbyn meddalwedd newydd i reoli'r rhwydwaith mynediad. Bydd y meddalwedd yn ein galluogi i greu adroddiadau, asesu'r gwaith a dilyn i fyny gydag arolygiaeth. Mae'r gwaith yn parhau gyda'r gweithlu mewnol a chontractwyr allanol.	Parhaus	Pen. Wardeinio a Mynediad (WaM)
AC 1.5 	 Ch. 1 - 3 Ch. 4	Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri Fydd y gwaith yma'n cael ei flaenoriaethu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau yn 2024. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Hydref 2024.	Chwefror 2024	Pen. WaM
AC 1.6 	 Ch. 1- 3 Ch. 4	Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri Fydd y gwaith yma'n cael ei flaenoriaethu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau yn 2024. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Hydref 2024.	Chwefror 2024	Pen. WaM


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024








Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.7	 Ch. 1 - 2 Ch. 3 - 4	Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn Gwaith yma'n parhau ac yn cael ei flaenoriaethu yn rhaglenni gwaith Wardeniaid Ardal. Mae'r gwaith yn parhau. Bydd meddalwedd newydd yn cynorthwyo gyda rheoli ac adrodd ar y gwaith.	Parhaus	Pen. WaM
AC 1.8	 Ch. 1 - 4	Wardeniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol Gwaith yma'n parhau ac yn cael eu cynllunio yn cynlluniau ardal Wardeniaid	Parhaus	Pen. WaM
AC 1.9	  Ch. 1-4	Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeniaid Mae pob warden efo cynllun ardal sy'n cael ei arolygu gyda'r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae'r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw'r gwaith prosiectau natur arian grant Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (SLSP) efo'r Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. Mae'r gwaith yn barhaus.	Parhaus	Pen. WaM
AC 1.10	  Ch. 1 - 2 Ch. 3 - 4	Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2023. Mae tudalen benodol ar ein gwefan yn ymdrin â phrif ymgyrchoedd a digwyddiadau'r prosiect: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/yr-wyddfa/yr-wyddfa-ddi-blastig Adroddiad blynyddol wedi'i gyflwyno i'r Gweithgor ym mis rhagfyr 2023. Mae blaenoriaethau ar gyfer gweddill y prosiect – hyd at Hydref 2024 – wedi eu gosod drwy'r system gwerthuso blynyddol.	Parhaus	Pen. Partneriaethau

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 2	YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD
--	------	---









Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 2.1  Adroddiad Blynyddol		Sicrhau gweithrediad y polisiau CDLI cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd. Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLI presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLI i'r Aelodau ac yna i Lywodraeth Cymru bob Hydref, ac mae hyn wedi dod i'r casgliad y cydymffurfiwyd yn fras â'r polisiau hyn. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn yr adolygiad o'r CDLI yn 2025.	Adroddiad blynyddol	*Pen. RhDaCh * Pen. PC
AC 2.2 	 Ch. 1- 2 Ch. 3 - 4	Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Ebrill 2022) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Carbon Isel yr Ystâd Gyhoeddus Mae'r gwaith yn parhau – mae nifer o brosiectau ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i Ben y Pass, Ysgwrn a'r Pencadlys yn cael eu cwblhau trwy ffrwd ariannu prosiect SLSP. Hyd yma mae mesurau effeithlonrwydd ynni mewn goleuadau LED, atal drafftiau a gwell perfformiad thermol adeiladau wedi arwain at arbediad o 223,000 KWH o ynni y flwyddyn, sy'n werth tua £100,000 o arbed ynni i'r Awdurdod. Prosiectau wedi'u tendro a'u dyfarnu ar gyfer Pen y Pass a chaniatâd cynllunio wedi'u sicrhau ar gyfer drysau a ffenestri gwydr dwbl yng Nghanolfan Groeso Aberdyfi (amserlen waith 24/25). Wedi gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer gwaith ar y Byngalo, Yr Ysgwrn. Cwblhawyd gwelliannau thermol a gwrthsain i ystafelloedd cyfarfod y Pencadlys.	Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau o Ebrill 2024 + ymlaen Pennaeth Eiddo	


* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC) *Pennaeth Polisi Cynllunio (Pen. PC)


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024






Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 2.3 	 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr astudiaeth carbon i APCE fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030 Cafodd adroddiad Aquater ei hstyried gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Carbon ac argymhellwyd fod y Strategaeth Rheoli Asedau yn cynnwys y cyfrif carbon ar gyfer pob ased a reolir. Mae Rheolau Sefydlog diwygiedig yn darparu ar gyfer caffael sy'n cynnwys ôl troed carbon nwyddau os dymunir. Mae caffael ehangach mewn perthynas â nwyddau a charbon yn cael ei drafod gyda'n dau Awdurdod Lleol cyfagos. Mae Pennaeth Eiddo yn y broses o integreiddio cyfrifo carbon i strategaeth Rheoli Asedau'r Awdurdod. Defnyddiwyd arian grant LIC Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy i fynd i'r afael â rhai o argymhellion adroddiad Aquatera. Mae gwaith pellach i ymgorffori rheoli Carbon yn y strategaeth rheoli asedau wedi ei gyflawni. I'w graffu gan aelodau yn ystod 2024.	Mabwysiadu erbyn 2024 Parhaus 2030	Prif Weithredwr (PW) Pen. Eiddo
AC 2.4 	 Ch. 1 - 3 	Datblygu Cynllun Gweithredu yn dangos sut y gall ardal Eryri symud tuag at fod yn garbon niwtral Mae Grŵp Aelodau ar Garbon wedi trafod 3 phrif faes, yn dilyn asesiad o'r 2 adroddiad a luniwyd gan ymgynghorwyr (Aquaterra a Small World Consulting). Bydd y cyntaf yn berthnasol i ystâd a phrosesau mewnol a chaffael yr Awdurdod, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Aquaterra. Bydd hyn yn cael ei arwain gan y Pennaeth Eiddo lle bydd polisiâu carbon isel yn cael eu hintegreiddio i brosesau a gweithdrefnau mewnol yr Awdurdod. Yr ail faes (gan adeiladu'n rhannol ar waith Small World Consulting) fydd sicrhau bod dau gynllun statudol y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu'n llawn at nodau di-garbon yr Awdurdod. Mae'n bwysig bod y rhain yn rhan o'r strategaeth ar gyfer y ddau gynllun hyn. Caiff y ddau dîm eu hysbysu'n llawn am arwyddocâd y mater hwn a'r angen i'w integreiddio ar ddechrau'r broses. Y trydydd maes fydd arweinyddiaeth yn y maes hwn. Er na all yr Awdurdod reoli llawer o'r materion sy'n effeithio ar yr agenda garbon yn uniongyrchol, gallwn ymgymryd â rôl arwain ac eiriolaeth gref. Yn hyn o beth, bydd y Prif Weithredwr	Rhagfyr 2023	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir (CaRhT)


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

	Ch. 4	<p>yn cyflwyno papur ar y 'Ras i Sero', ac os caiff ei fabwysiadu, bydd yn rhoi trefn gliriach ar gyfer datblygu cynllun gweithredu.</p> <p>Bydd y 3 maes hyn nawr yn cael blaenoriaeth i'r Awdurdod wrth fynd i'r afael â'r agenda di-garbon, a bydd yr Aelodau'n cael eu hysbysu'n llawn am gynnydd yn hyn o beth.</p> <p>Mae strategaeth mawndiroedd wedi'i hadolygu ac mae strategaeth coetir yn cael ei datblygu.</p> <p>Bydd y Strategaeth Garbon yn cael ei thrafod yng Ngweithgor mis Ebrill gyda fersiwn derfynol i'w chyflwyno i'w chymeradwyo mewn cyfarfod Awdurdod Llawn ym mis Gorffennaf 2024.</p>
--	-------	--

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 2.5 	 Ch. 1- 2	<p>Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol</p> <p>Mae swydd Arweinydd Strategol ar gyfer Adfer Natur a Chadw Carbon wedi'i lleoli yn Eryri. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac mae canfyddiadau/strategaeth amlinellol i'w hystyried yn gynnar yn 2024. Nodwyd saith amcan a drafftwyd rhaglen waith i'w cyflawni. Dau brif ganlyniad sy'n deillio o'r rhaglen waith yw Strategaeth Galluogi wedi'i hanelu at LIC a'r cyrff rheoli Tirweddau Dynodedig a darn prawf ar y rhyngwyneb rhwng y cyrff rheoli DL a'r rheolwyr tir sy'n gweithredu oddi mewn iddynt, a elwir ar hyn o bryd yn 'Llyfr Bach o Opsiynau'. Mae mecanweithiau ariannu a sgiliau recriwtio a chadw yn destun holiadur a anfonwyd at staff.</p> <p>Mae fframwaith strategol yn cael ei ddrafftio fel sail i gynlluniau gweithredu wedi'u blaenoriaethu ar gyfer adfer natur, fel rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Plymio'n Ddwfn ar Fioamrywiaeth ar gyfer y DLs. Bydd y fframwaith strategol yn ffurfio tudalen gyntaf y Strategaeth Galluogi a fydd yn mynd ymlaen i drafod cyfnewid gwybodaeth, adnabod asedau, meddwl integredig a gwneud penderfyniadau, cynllunio senarios, cytundebau, newid ymddygiad, a llywodraethu. Mae Cynnwys y Llyfr Bach o Opsiynau yn cael ei ddrafftio tra'n chwilio am bartneriaid i'w gyflwyno, sy'n debygol o gael ei anelu at gynhyrchwyr cig eidion a chig oen yn Eryri. Bydd yr Ysgwrn yn destun rhywfaint o waith cwmpasu ar ddefnyddio data a meddwl integredig a gwneud penderfyniadau.</p>	Parhaus	PW Arweinydd Strategol








 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


	Ch. 3 - 4	<p>Mae'r fframwaith strategol wedi'i drafod gyda'r grŵp plymio dwfn Bioamrywiaeth ac wedi'i ddiwygio. Bydd yn rhan o adroddiad a gyflwynir i'r Gweinidog dros Newid Hinsawdd yn gynnar yn 2024. Mae'r gwaith yn cyd-fynd yn dda iawn â chanlyniadau'r rôl arweiniol strategol ac mae wedi bod yn llwyfan defnyddiol i drafod ymagweddau at ein humateb ar y cyd i natur ac argyfyngau hinsawdd. Agorodd y cyfnod ymgynghori terfynol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar 14 Rhagfyr hyd at 7 Mawrth gan fynnu rhwyfaint o ffocws a fydd yn parhau yn y flwyddyn newydd. Dechreuodd cyfarfod blynyddol Cyswllt Amaeth Eryri (Tachwedd) y broses o drafod syniadau, materion, dulliau gweithredu a chyfleoedd i gydweithio ag undebau'r ffermwyr. Mae trafodaethau allanol eraill wedi cynnwys rheoli gêm, atal a rheoli tanau gwyllt, awyr dywyll, credydau carbon, mapio gofodol a chyd-destun polisi Cymru.</p>
--	-----------	---












Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 3	GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL
--	------	---


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.1 	 Ch. 1-2  Ch. 3  Ch. 4	<p>Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE</p> <p>Gwaith mewnol ar y strategaeth yn bwrw ymlaen drwy weithdai staff. Ymchwil allanol wedi'i gwblhau. Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro.</p> <p>Briffiau wedi'u drafftio ar gyfer datblygiad allanol maes strategaeth allweddol – blaenoriaethu gwaith adeiladu rhestredig.</p> <p>Heb ei gwblhau. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y prosiect, ond nid yw wedi'i gyflwyno i'r aelodau eto oherwydd bod y Pennaeth Gwasanaeth yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol ar hyn o bryd. Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn 2024/25.</p>	Gwanwyn 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
 Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024










 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.2 	 Ch. 1+2 Ch. 3 - 4	Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2023/24 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025 Paratoi adroddiad yn diweddarau i'r Aelodau Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi gwneud cynnydd da iawn yn ystod y ddau chwarter cyntaf ac mae'r prosiect yn rhedeg yn unol â'r amserlen. Mae'r Cynllun yn parhau ar amser. Adroddiad wedi'i chyflwyno i Weithgor Aelodau Rhagfyr, 2023.	Parhaus - 2025 Gawnwyn 2024	Pen. TDd Rheolwr Prosiect y Carneddau
AC 3.3 	 Ch. 1-2  Ch. 3  Ch. 4	Cyflwyno adroddiad terfynol ar Gynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau Mae'r prosiect yn rhedeg yn unol â'r amserlen, i'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn galendr 2023. Mae'r gwaith ar adeilad o'r radd flaenaf o fewn y Cynllun Treftadaeth Trefol wedi'i ohirio. Mae cytundeb cyflogaeth y Rheolwr Prosiect wedi'i ymestyn am 3 mis er mwyn goruchwyllo cwblhau'r Cynllun. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn ystod yr Haf 2024.	Rhag. 2023	Rheolwr Prosiect TT Dolgellau
AC 3.4 	 Ch.1- 3 Ch. 4	Datblygu prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy a fydd yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am arian allanol maes o law a cyflwyno DoDD i'r Gronfa Loteri Mae gwaith ymgysylltu gydag Ysgol Dyffryn Ardudwy wedi'i gwblhau. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu cymunedol ym mis Medi a Hydref. Mae cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer y prosiect a bydd swyddogion yn symyd ymlaen i gyflawni'r prosiect o fis Ebrill 2024.	Rhag. 2023	Pen. TDd. Swyddog Prosiect TDd


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024








 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.5 	 Ch. 1- 3 Ch. 4	Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd (STB) Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru Mae prosiect dehongli Ynysypandy yn symud yn ei flaen. Mae swyddogion yn gweithredu ar amryfal grwpiau'r dynodiad ac yn cynghori ar ddatblygiadau amrywiol. Mae hyfforddiant sgiliau traddodiadol wedi'i drefnu ar gyfer Haf a Hydref 2024, i wella sgiliau treftadaeth yn yr ardal ac i wella cyflwr treftadaeth adeiledig STB. Bydd dehongliad Ynysypandy yn cael ei gwblhau yn Haf 2024.	Parhaus	Pen. TDd.
AC 3.6 	 Ch. 1- 3 Ch. 4	Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth Teithiau cerdded wedi cael eu cynnal yn fisol gyda nifer o fynychwyr yn amrywio. Fydd angen i ni geisio hyrwyddo'r teithiau ym mhellach gan dargedu cynulleidfaoedd gwahanol. Fyddwn yn gwahodd arbenigwyr yn y teithiau sy'n cychwyn yn Ionawr. Mae teithiau cerdded yn parhau – mewn trafodaethau i ddatblygu teithiau gyda arbenigwyr gwadd.	Parhaus 2023/24	Pen. Gwas. WaM
AC 3.7 	 Ch. 1-2 Ch. 3 - 4	Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd ac yn cyfrannu at weithdy Lliniaru Newid Hinsawdd sy'n cael ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 2024. Rydym yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr yn nhirweddaru dynodedig eraill Cymru. Mae swyddogion o bob rhan o'r Awdurdod wedi cyfrannu at weithdy Lliniaru Newid Hinsawdd a byddant yn parhau i fwydo i raglen waith y grŵp.	Parhaus	Pen. TDd.


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024






Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.8 	 Ch. 1-2 Ch. 3 Ch. 4	Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau Mae'r Ysgwrn yn profi blwyddyn gadarnhaol gyda'r niferoedd ymwelwyr a'r incwm yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cyflwynwyd sawl cais grant llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, gan alluogi rhaglen weithgareddau ac addysg o safon uchel. Mae ymweliadau ysgolion a nifer o ddigwyddiadau hyfforddi athrawon a gweithgareddau teuluol wedi'i trefnu ar gyfer Ionawr – Mawrth 2024, er mwyn cynnal a chreu diddordeb yn y safle. Mae'r Ysgwrn wedi cael blwyddyn llwyddiannus yn 2023/24 gyda'r niferoedd ymwelwyr wedi cynyddu. Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei chyflwyno i'r aelodau mis Mehefin 2023.	Rhag. 2023	Pen. TDd.
AC 3.9 	 Ch. 1- 3	Datblygu Cynllun Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli/Cynllun Cyflenwi fel llinell sylfaen o wybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau cyfalaf posibl yn y blynyddoedd dilynol Mae'r gwaith cychwynnol hwn wedi'i gwblhau ac mae gwaith pellach yn cael ei gomisiynu ar hyn o bryd ar gyfer adeiladau rhestredig led-led Eryri.	Mawrth 2024	Pen. TDd. Swyddog Cynllunio yr Amg. Hanesyddol

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 4	MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT
--	------	--

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 4.1	 Ch. 1-2 Ch. 3 Ch. 4	Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol Proses barhaus. Wedi'i gyfyngu o ran potensial mewnbwn hyd yma, ond mae datblygiadau newydd yn cynnig gwell potensial. Mae plymio dwfn Bioamrywiaeth hefyd wedi agor llwybr newydd o fynd ar drywydd amcanion. Bydd y Strategaeth Coed a Choetiroedd yn bwydo i mewn i'r uchod. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, tua 40% wedi'i gwblhau. Parhaus, mae cyflymder a maint y gwaith wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob un o'r meysydd uchod. Wedi paratoi ymateb ar y cyd ar gynigion Llywodraeth Cymru yn ymgynghoriad y cynllun ffermio cynaliadwy. Mae cefnogaeth i waith plymio dwfn Bioamrywiaeth yn parhau.	Parhaus	*Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir
AC 4.2	 Ch. 1- 4	Ymateb ar y cyd ar gynigion Llywodraeth Cymru o dan yr ymgynghoriad SFS wedi'i baratoi. Mae gwaith y Dive Deep Bioamrywiaeth yn parhau i gael ei gefnogi. Cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus Brexit ar reoli tir Parhaus, perthynas waith agos yn cael ei chynnal.	Mawrth 2023 + Parhaus	Pen. CCA










*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024










Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 5	MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR
--	------	---


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 5.1 	 Ch. 1-2  Ch. 3  Ch. 4	Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayyb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri Datblygiadau ar Cynllun Adfer Natur ar weill Adroddiad Cyflwr y Parc ar y gweill a'r gwaith wedi ei roi allan i dendr. Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cael ei ddatblygu'n fewnol gan y tîm bioamrywiaeth. Mae contractau casglu data yn eu lle ar gyfer adroddiad Cyflwr y Parc. Cynhyrchwyd drafft cyntaf adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol ac mae ar fin cael ei anfon at randdeiliaid i dderbyn sylwadau cychwynnol. Mae'r gwaith yn parhau.	Mawrth 2024	Pen. CCA
AC 5.2 	 Adroddiad blynyddol	Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfriad ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru Er bod Llywodraeth Cymru wedi trafod cyhoeddi canllawiau ar wella bioamrywiaeth, nid yw hyn wedi'i wneud eto. Fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw fethodoleg ffurfiol ar gyfer gwella bioamrywiaeth, mae swyddogion cynllunio a'r ecolegydd cynllunio wedi ceisio cyflawni rhyw fath o welliant bioamrywiaeth ar y mwyafrif o ddatblygiadau newydd. Mae'n faes sy'n datblygu o hyd, a bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda LIC i geisio ffurfioli'r broses hon.	Adroddiad Blynyddol	Pen. RhDaCh


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 5.3 	 Ch.1-2 Ch. 3 - 4	Unwaith bydd canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu erbyn 2023 i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu Cyflwynodd yr Awdurdod ymateb i'r newidiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru: "Budd net ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau" yn ystod mis Mai 2023. Mae'r polisi terfynol i'w gynnwys yn yr iteriad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru (fersiwn 12) wedi'i raglennu tua diwedd 2023. Dal i aros am gyhoeddiad y polisi a'r canllawiau terfynol yn yr iteriad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru.	Mawrth 2024	Pen. PC
AC 5.4 	 Ch. 1-2 Ch. 3 - 4	Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach Mae'r elfen Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA) o'r gwaith ar darged Cynnydd wedi'i wneud, gwaith yr adran CCA ar darged. Bydd yr ail adroddiad cynnydd yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau yn ystod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, Mawrth.	Cyflwyno adroddiad diweddarau ar brosiectau unigol 2 waith y flwyddyn	Pen CCA Rheolwyr Prosiectau
AC 5.5 	 Ch. 1-2 Ch. 3 Ch. 4	Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS) a pharatoi Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Eryri Mae gwaith Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS) yn symyd ymlaen yn dda. Strategaeth tua 40% wedi'i chwblhau 9 o 15 arolwg wedi'u cwblhau ar gyfer eleni. Bydd y gweddill yn cael eu cwblhau yn y chwarter olaf. Mae'r strategaeth goed hanner ffordd a disgwylir drafft or ail ran cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhaglenni gwaith newydd yn cael eu gosod ar gyfer y flwyddyn ariannol. Cwblhawyd drafftiau cychwynnol y strategaeth goed a'r ail gam ymgynghori/sylwadau, yn cael eu mireinio cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol i'w chymeradwyo a'i mabwysiadu.	Mawrth 2025	Pen CCA

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

CANLYNIADAU:

AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

AC1: Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1*)

AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2*)

AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4*)

AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5*)

AC1: Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3*)

AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1*)

AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2*)

AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1*)

AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2*)

AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (*yn unol â Chynllun Eryri A4.2*)

AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. (*yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3*).

2. CYMUNEDAU CYDNERTH








Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC 1	CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR
--	-------------	---


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.1	 Ch. 1-2 Ch 3 - 4	<p style="color: red; margin: 0;">Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae ffilter wedi'i roi ar waith ar y safle Teithiau Cerdded a Llwybrau fydd yn galluogi ein cynulleidfa i deilwra eu canlyniadau yn seiliedig ar Leoliad, Anhawster, Hyd, Amgylchiadau, Nodweddion Arbennig a Mynediad Tramper. ➤ Hyrwyddwyd llwybrau i'w huwchlwytho i'r wefan (Pontydd Arthog a Betws y Coed) ➤ Arweinlyfrau ymweld wedi eu huwchlwytho megis "Dewis y llwybr cywir ar Yr Wyddfa" a 5 "Cymru wedi'i thrwytho mewn Chwedloniaeth" <p style="margin: 0;">Ymgyrch y gaeaf yn canolbwyntio ar lwybrau hygyrch a thymhorol yn ardaloedd y tu allan i ardal Yr Wyddfa.</p>	Parhaus	Pen. Cyfathrebu Pen. Gwas. Wardeinio + Rheolwr Brand a Cynnwys y We


Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024





Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.2 	 Ch. 1 - 4	<p>Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cefnogi a chymryd rhan yng nghynllun gwirfoddoli Caru Eryri 2023-24 gyda phartneriaid gan gynnwys Cymdeithas Eryri ➤ Ystyried ac adolygu digwyddiadau gwirfoddoli a Llesiant 2022, diweddaru DPA a gosod targedau ac argymhellion newydd ar gyfer 2023 ➤ Sefydlu rhaglen wirfoddoli ar gyfer y flwyddyn i ddod ➤ Cynnal cyfres o ddigwyddiadau lles <p>Cyflawnwyd y cyfan o'r uchod a chyflwynwyd Strategaeth Wirfoddoli wedi'i diweddaru ac adroddiad blynyddol i'r Aelodau ym mis Mehefin 2023. Mae'r Swyddog Gwirfoddoli yn gweithredu fwy fel swyddog Gwirfoddoli Corfforaethol ac yn parhau i ehangu ar ystod o brofiadau gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol.</p>	Parhaus	Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Lles Swyddog Gwirfoddoli a Lles
CC 1.3 	 Ch. 1-2 Ch. 3 - 4	<p>Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig</p> <p>Mae Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022 yn dangos cynnydd amlwg mewn gwirfoddolwyr er ei bod yn anodd casglu'r data sydd ar gael ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae grwpiau ffoaduriaid a sefydliadau elusennol eraill i gyd wedi bod yn rhan o'r rhaglen yn 2022-23 ac mae'r Swyddog Gwirfoddoli yn parhau i ehangu perthnasoedd yn y meysydd hyn</p> <p>Fel uchod – mae'r gwaith yn parhau i Swyddog Gwirfoddoli a Lles.</p>	Parhaus	Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Lles Swyddog Gwirfoddoli a Lles


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024





 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.4 Adroddiad blynyddol		<p>Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLI</p> <p>Heb os, mae'r tîm Polisi Cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector. Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau tai, yr Hwylusydd Tai Gwledig a'r Awdurdodau Tai yng Nghynghorau Gwynedd a Chonwy. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r targed a osodwyd yn y CDLI o ddarparu 25 o unedau tai fforddiadwy y flwyddyn wedi'i fethu. Mae'n bosibl bod llawer o ffactorau ar waith yma – hinsawdd economaidd heriol, natur wledig iawn rhai safleoedd, ac asiantaethau eraill yn canolbwyntio ar safleoedd llai ymylol/mwy hyfyw. Bydd swyddogion yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r materiomn hyn, a bydd y materion hyn yn cael sylw pellach pan ddaw'n amser i adolygu'r CDLI yn 2025.</p>	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.5	 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Erthygl 4:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cynhyrchu adroddiad tystiolaeth drafft yn ceisio cyngor cyfreithiol ➤ Cyflwyno adroddiad tystiolaeth i'r Aelodau ar gyfer penderfyniad i symud ymlaen neu fel arall ➤ Os yn symud ymlaen gyda Chyfarwyddeb Erthygl 4 yn Eryri, cychwyn cyfnod o 12 mis o rybudd ac ymgynghoriad cyhoeddus <p>Papur cyfiawnhau Erthygl 4 wedi'i ddrafftio a chyngor cyfreithiol wedi'i geisio yn ystod Haf 2023. Adroddiad ar gyfeiriad Erthygl 4 wedi'i ddrafftio ar gyfer y Gweithgor Aelodau ym mis Hydref.</p> <p>Drafftiodd papur drafft cyfiawnhau Erthygl 4 ac aethpwyd ag adroddiad cychwynnol ar gyfarwyddyd Erthygl 4 i'r Gweithgor Aelodau ym mis Hydref ac i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Rhagfyr. Roedd yr aelodau'n cefnogi mewn egwyddor yr angen i fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi o gyflwyno Cyfarwyddeb Erthygl 4 yn Eryri. Cafwyd cyngor cyfreithiol pellach ynghylch y berthynas rhwng cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 a pholisi presennol yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Roedd y farn gyfreithiol yn cadarnhau bod Polisi Strategol G yn darparu "bachyn" polisi digonol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwyliau a chadarnhawyd hefyd fod y bachyn polisi yn ddigon i symud ymlaen gyda pharatoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad pellach. Bydd adroddiad pellach i gymeradwyo ymgysylltu ar y cynnig i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei cyflwyno i Bwyllgor PacA ym mis Mawrth 2024 gyda'r bwriad o ymgynghori yn ystod Gwanwyn 2024. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer y cyfnod ymgysylltu chwe wythnos yn y Gwanwyn. Roedd yr Aelodau hefyd yn cefnogi'r angen i barhau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i chwilio am adnoddau cynllunio ychwanegol yn y tymor hir er mwyn gweithredu Erthygl 4 yn effeithiol yn Eryri.</p> <p>Rhodddwyd cymeradwyaeth yr aelodau ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad mis Mawrth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig gan gynnwys cyhoeddusrwydd sylweddol (gan gynnwys llythyr at hol aelwydydd y Parc Cenedlaethol) a bydd hyn yn cynnwys cyfnod rhybudd ffurffiol o 12 mis. Bydd hyn yn digwydd yn ystod Ebrill – Mai 2024. Os caiff ei gefnogi, y dyddiad gweithredu fyddai Mehefin 2025. Bydd angen cynhyrchu CCA i fynd i'r afael â'r gwagel polisi yn y cyfamser.</p>	Tachwedd/ Rhagfyr 2023	Cyf. CaRhT



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.





Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24





Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024




Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024






Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.6	 Ch. 1-3 Ch. 4	<p>Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri (CCE), yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r iaith Gymraeg.</p> <p>Mae Cronfa Cymunedau Eryri wedi ariannu 9 prosiect yn 2023-24 – pob un ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn Chwefror 2024.</p> <p>Cyfanswm cyllid y prosiect yw £59,958.95. Mae ceisiadau wedi blaenoriaethu'r themâu canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • seilwaith gwyrdd • gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles • cynhyrchu ynni • gwelliannau amgylcheddol lleol megis sbwriel a rheoli gwastraff • datblygu cymunedol • ffyniant yr iaith Gymraeg • datgarboneiddio <p>Mae cronfa grantiau bach cymunedol a llesiant y PC yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn ac mae wedi cynorthwyo mewn amrywiaeth o brosiectau sydd eisoes yn y flwyddyn ariannol hon</p> <p>Mae CCE ar y trywydd i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2024 a disgwylir i'r gronfa newydd o £75,000 agor ar 1af Ebrill 2024 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Mae'r Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn coladu adroddiad ar gyfer swyddogion LIC ac Aelodau'r Awdurdod yn manylu ar sut mae'r gronfa hon yn cael ei datblygu a sut mae wedi cefnogi cymunedau ar draws Eryri.</p>	Mawrth 2024	Pennaeth Partneriaethau Swyddog Prosiect CCE


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC 2	CEFNOGI POBL IFANC
--	------	---------------------------






Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 2.1 	 Ch. 1+2  Ch. 3 Ch. 4	<p>Aelodau i gysidro Maniffesto leuencid drafft</p> <p>Wedi cychwyn taith o amgloch ysgolion i gynnal gweithdai yn hyrwyddo gwaith y Parc a derbyn barn ynglyn yr hyn hoffent eu gweld yn digwydd. Fydd y gweithdai yn darparu barn a gwybodaeth fydd yn rhan o'r Maniffesto.</p> <p>Bydd y Maniffesto drafft yn cael ei gyflwyno i'r Tim Rheoli yn Chwefror ac i weithgor Aelodau yn fuan wedyn.</p> <p>Bydd y Maniffesto drafft yn cael ei gyflwyno a gobeithir ei fabwysiadu gan Weithgor mis Mai, 2024.</p>	Medi 2023	Pen. WaM Swyddog Pobl Ifanc
CC 2.2 	 Ch. 1+2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun</p> <p>Y cynllun Ceidwad Ifanc yn parhau gyda amrywiaeth o weithgareddau ar draws y Parc. Rydym yn parhau i chwilio am fynhonellau cyllidol ac wedi derbyn cyngor addawol gyda arian Loteri.</p> <p>Mae sesiynau Ceidwaid Ifanc yn parhau gyda phresenoldeb da, pob sesiwn yn amrywio rhwng 5 a 12 o fynychwyr. Yn dilyn gwaith ymgynghori a mabwysiadu'r maniffesto, bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r Loteri. Ceisiwyd cyllid hefyd drwy Bartneriaeth y Parciau Cenedlaethol (PyPC)</p> <p>Mae cyllid PyPC wedi'i dderbyn – bu'n flwyddyn lwyddiannus gyda gweithgareddau amrywiol yn cael eu cyflawni. Gyda chyllid – trefnir cyfleoedd cyfnewid yr haf gyda Pharciau Cenedlaethol Cymru.</p>	Chwefror 2024	Pen. WaM

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC3	HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL
--	-----	---

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 3.1 	 Ch. 1-3 Ch. 4	Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig. Cwblhawyd Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri a'i lansio'n swyddogol ar 25 Medi 2023. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r Bartneriaeth a Grŵp Llywio i gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu cyntaf erbyn diwedd Mawrth 2024. Bydd cyfarfod cyntaf y Bartneriaeth newydd ymlaen ar 17 Ebrill 2024 er mwyn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i gynrychioli'r sectorau Cymunedol a Thwristiaeth. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddrafftio ac yn cael ei ddsbarthu i'r holl Bartneriaid i'w gymeradwy. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2024 i ddechrau gweithredu.	Lansio Medi 2023 Mawrth 2024	Pen. Partneriaethau Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.







Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24





Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024











Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 3.2 	 	<p>Datblygu cyfleoedd i annog trafndiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafndiaeth a pharcio Gogledd Eryri ➤ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafndiaeth yn ardal Nantgwynant. ➤ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen <p>Mae grwpiau partneriaeth Nant Gwynant ac Ogwen yn cyfarfod yn fisol ac maent wedi cael cyrhaeddiad sylweddol yn nhymor 2023 drwy gydweithio yn y ddwy ardal.</p> <p>Prosiectau TrC ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-4 yw: Strategaeth Arwyddion Eryri, i ddatblygu argymhellion ar gyfer arwyddion gwell a chyson yn y Parc Cenedlaethol; Hwb Trafnidiaeth Llanberis, cymryd dyluniadau cysyniad i mewn i broses Wel-Tag Cam 1 a 2 gan gasglu mewnbwn gan yr holl randdeiliaid; Rhwydwaith Sherpa'r Wyddfa, yn parhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau sy'n rhedeg o amgylch ardal Yr Wyddfa; T10 Gwasanaeth Bangor i Gorwen, parhau i wella'r gwasanaeth hwn. Nid yw'r Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023 – mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain ar hyn ac yn trefnu'r cyfarfod nesaf gyda'r holl aelodau i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen.</p> <p>Ch. 1-2</p> <p>Ch. 3</p> <p>Ch. 4</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei ddrafftio a cyfarfod wedi ei gynnal i gyd-lynu lansiad CDLI Gwynedd, Conwy ac Eryri i sicrhau bod polisiau'n cyd-fynd â'r dyfodol.</p>	Parhaus tan Ebrill 2025	Pen. Partneriaethau


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024









 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 3.3 	 Ch. 1-3	Annog ymwelwyr i ddod ar drafnidiaeth gyhoeddus ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i ardaloedd gwahanol er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol, trwy ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru Cyfrannodd canllawiau ymweld ar-lein, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, fideos cyngor warden, erthyglau taledig a llysgenhadon digidol i gyd at negeseuon y tu allan i oriau brig y tymor. Ar ddiwedd Ch2 gweithredwyd negeseuon o amgylch Awyr Dywyll fel rhan o ymgyrch Eryri Ni 23 i annog ymwelwyr ymweld yn ystod tymor y gaeaf.	Rhag. 2023	Pen. Cyfathrebu
CC 3.4 	 Ch. 1- 2 Ch. 3- 4	Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri a'u defnyddio i helpu i ledaenu negeseuon mewn perthynas â'r uchod. Datblygu achrediad Llysgennad Gwyrdd fel rhan o gynllun Llysgenhadon Eryri gyda modiwlau twristiaeth gynaliadwy cysylltiedig. Cynnwys gwybodath am y rhai sy'n cyflawni'r achrediad ar ein gwefan Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd – gyda'r nod o gyrraedd 1000 o Lysgenhadon Eryri erbyn 3ydd penblwydd y cynllun ym mis Tachwedd 2023. Yn ystod Tachwedd 2023 bydd wythnos gyntaf Llysgenhadon Cymru gyfan lle mae Eryri yn cynnal digwyddiad Zoom Cymru gyfan a digwyddiad Awyr Dywyll ym Mhlas Tan y Bwlch. Mae'r Cynllun Llysgenhadon yn parhau i dyfu a datblygu – cyrhaeddodd 1,000 o Lysgenhadon ym mis Tachwedd 2023. Mae modiwl gloywi wedi'i gyhoeddi ar gyfer achrediad 2024 ac yn boblogaidd iawn. Bydd modiwlau newydd ar Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau a Phrosiect Coed Glaw Celtiadd LIFE yn cael eu lansio yn 2024.	Parhaus Chwefror 2024	Pen. Partneriaethau Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024





Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 3.5  Adroddiad blynyddol		Sicrhau bod y CDLI presennol yn rhoi ei bolisiau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol Daeth yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynwyd i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod polisiau'r Awdurdod yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn hyn o beth. Yn ogystal, bydd y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan Strategaeth Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd Eryri yn darparu llinell sylfaen defnyddiol ar gyfer pryd y bydd adolygiad o'r CDLI yn dechrau yn 2025.	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh Pen. PC
CC 3.6 		Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLI fel rhan o'r broses CDLI mewn perthynas â pholisiau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.	Mawrth 2024	Pen. Partneriaethau
	Ch. 1-2 	Nid yw'r Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023 – mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain ar hyn ac yn trefnu'r cyfarfod nesaf gyda'r holl aelodau i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen		
	Ch. 3	Fel CC 3.2 - mae'r Grŵp cyflawni wedi cyfarfod ym mis Ionawr 2024 ac mae'r Cynllun Gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu ar Lefel Strategol. Mae Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir wedi trefnu trafodaethau ag Awdurdodau Cynllunio eraill yn y rhanbarth i sicrhau bod y gwaith o ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau ar gyfer Trafnidiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth. Mae Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol sy'n cyfeirio at y gwaith a gyflawnwyd gan yr Awdurdod ac yn ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer da.		
	Ch. 4	Mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei ddrafftio a cyfarfod wedi ei gynnal i gyd-lynu lansiad CDLI Gwynedd, Conwy ac Eryri i sicrhau bod polisiau'n cyd-fynd â'r dyfodol.		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024








Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC4	HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL
--	-----	--


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 4.1 	 Ch. 1+2 Ch. 3- 4	Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg Cynhaliwyd rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i deuluoedd ac i oedolion, sy'n dathlu gwahanol agweddau o ddiwylliant Cymreig, e.e. arddangosfa Geiriau Diflanedig, gweithgareddau celf a nosweithiau cerddorol. Bydd Yr Ysgwrn yn cynnal nifer o weithgareddau teuluol a digwyddiadau treftadaeth gymunedol o Ionawr – Mawrth 2024.	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
CC 4.2 	 Ch. 1+2	Datblygu'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' trwy gydweithrediad ag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (gyda chefnogaeth cronfa TCLIC), gan ddod ag arddangosfa 'Geirfa Coll' i Gymru am y tro cyntaf ac arddangos camp ddwyieithog epig y blodeugerddi Lansiwyd yr arddangosfa ym mis Mehefin gyda agoriad swyddogol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau yn llwyddiannus, gan gynnwys adnodd addysg newydd.	Parhaus hyd ddiwedd yr arddangosfa Mawrth 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024








 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 4.3 	 Ch. 1+ 2 Ch. 3 Ch. 4	Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri Mae'r gwaith ar y cam nesaf sef enwau llynnoedd Eryri yn parhau a bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2023. Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2023. Mae enwau llynnoedd Eryri bellach wedi'u safoni. Bydd cam nesaf y prosiect yn edrych ar enwau rhaedrau Eryri. Mae cydweithio'n parhau gyda Chomisiynydd y gymraeg a'r Arolwg Ordnans. Mae gweithdai mapio enwau lleoedd wedi'u trefnu ar gyfer Haf 2024.	Mawrth 2024	Pen. Treftadaeth Diwylliannol
CC 4.4 	 Ch. 1+2 Ch. 3 - 4	Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy'r strategaeth wirfoddoli gan gynnwys: ➤ Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli. ➤ Mynychu Eisteddfod Pen Llyn. ➤ Cwblhau'r prosiectau dehongli yn Ogwen a Hafod Eryri ➤ Darperir cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy baru gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl â'r rhai sy'n dymuno dysgu neu loywi eu Cymraeg llafar ➤ Cafodd yr Awdurdod wythnos lwyddiannus iawn ar faes yr Eisteddfod. Daeth nifer dda i'r stondin gyda llawer o wahanol weithgareddau yn cael eu cynnal drwy gydol yr wythnos. Roedd gan Tirweddau Cymru gynrychiolaeth ar y stondin hefyd. ➤ Gwaith yn parhau ar ddatblygu darpariaeth dehongli yng Nghanolfan Cwm Idwal. Bydd elfennau'r prosiect a ariannwyd drwy arian grant Cyfoeth Naturiol Cymru megis paneli gwybodaeth ychwanegol a chomisiynu ffilmiau wedi'u cwblhau o fewn y targed. Fodd bynnag, mae gwaith ar agweddau eraill o'r prosiect yn parhau gyda'r nod o'u cyflawni cyn gynted â phosibl o fewn y flwyddyn ariannol hon. Fel uchod – mae paru dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn bolisi ar gyfer Rhaglen Caru Eryri a Rhaglen Wardeiniaid gwirfoddol.	Parhaus Awst 2023 Tach. 2023	Rheolwr Mynediad a Lles Swyddog Gwirfoddoli a Lles Swyddog Cyfathrebu (GAE)


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024




Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 4.5 	 Ch. 1- 3 Ch. 4	Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweiliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli Mae'r gwaith yn parhau drwy Gynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ac mae Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy wedi cyfrannu dros 150 o enwau i'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, gan gynnwys enwau rhai o furddunnod yr ardal. Mae enwau lleoedd yn cael eu casglu a'u cyfrannu at y rhestr Hanesyddol o Enwau Lleoedd Cymru. Mae diwrnodau cofnodi enwau lleoedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2024.	Parhaus hyd at Rhag. 2025	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
CC 4.6 	 Adroddiad blynyddol	Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwedd Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu'n effeithiol.	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC5	DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL
--	-----	--

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 5.1	 Adroddiad Blynyddol	Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisiau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiau uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn 2025 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh Pen. PC
CC 5.2	 Adroddiad Blynyddol	Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol Mae hyn wedi ei wneud gan swyddogion a phenderfynwyd i'r adolygiad gychwyn yn 2025 (penderfynwyd ei ohirio am flwyddyn er mwyn caniatáu amser i swyddogion weithredu cyfarwyddyd Erthygl 4).	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh Pen. PC

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

CANLYNIADAU:

CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl (*yn unol â Chynllun Eryri B1.2*)

CC1, 3, 5: Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1*)

CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2*)

CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafndiaeth wyrddach (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2*)

CC2, 3, 4: Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)

CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)

CC 4: Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)





CC4: Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2*)


CC4: Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3*)


CC1, 2, 4: Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1*)


3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO






Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 1	DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS
--	-------------	---------------------------------

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 1.1		<p>Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis ➤ Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis 	Parhaus Mawrth 2024	Pen. Adnoddau Dynol (AD)
	Ch. 1- 3	Mae'r broses o werthuso aelodau staff yn 2023 ymlaen ers mis Mai. Cyn gynted ag y bydd y broses wedi'i chwblhau byddwn yn asesu'r anghenion hyfforddi.		
	Ch. 4	Mae anghenion dysgu a datblygu yn parhau i gael eu nodi trwy adolygiad gwerthuso perfformiad blynyddol, sy'n amlinellu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod. Er na dderbyniodd yr holl staff arfarniad yn ystod y cyfnod, o ganlyniad i gyfarwyddeb a gyflwynwyd gan y ddau gyfarwyddwr i annog rheolwyr i arfarnu eu staff, bu cynnydd o 32% yn y staff a oedd yn cael eu harfarnu yn ystod 2023/24. Bydd ffocws pellach yn pagrau i sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cael eu harfarnu'n flynyddol.		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 1.2	 Ch. 1 - 4	Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid.	Parhaus Mawrth 2024	Pen. AD Pen. Gwasanaeth
CW 1.3	 Ch. 1 - 4	Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol.	Parhaus Mawrth 2024	Pen. AD Pen. Gwas.


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 2	DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU
--	-------------	--







CW 2.1	 Ch. 1- 4	Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru.	Mawrth 2024	Pen. Eiddo
--------	---	--	-------------	------------

Tud. 33


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 2.2	 Ch. 1-3 Ch. 4	Coladu gwybodaeth parthed arfer gorau mewn PC eraill, cael adborth gan staff a drafftio papur i'w drafod/ystyried gan y gweithgor Aelodau Gwaith ar y gweill i goladu arferion gorau ac adolygu polisïau APCE yn ôl yr angen. Mae arferion gorau lechyd a Diogelwch Parciau Cenedlaethol eraill ac ALLau rhanbarthol wedi'u coladu a thrafodaethau wedi'u cynnal ar lefel Tîm Rheoli ar y ffordd ymlaen. Daeth trafodaethau i'r casgliad bod angen 2 swydd Swyddog lechyd a Diogelwch rhan amser i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth lechyd a Diogelwch gofynnol. Mae Swydd Ddisgrifiad wedi'i lunio ac mae'r swyddi ar hyn o bryd yn y cyfnod recriwtio. Mae papur trafod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor P&R i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Cynhaliwyd cyfweiliadau i benodi Swyddog(ion) lechyd a Diogelwch. Yn dilyn cyfweiliadau penderfynwyd cynnig y swydd yn llawn amser i un ymgeisydd llwyddiannus, mae wedi dechrau yn ei swydd ers diwedd Ionawr.	Mawrth 2024	Pen. AD
CW 2.3 	 Ch. 1+ 2 Ch. 3 Ch. 4	Adolygu trefniadau gweithio staff mewn ymateb i darged Llywodraeth Cymru o weithio gartref a gweithio cyfunol o'r cartref/swyddfa lle mae'n bosibl i staff wneud hynny Yn dilyn ymgysylltiad cychwynnol rhwng y Pennaeth AD, y Tîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaeth i gychwyn trafodaethau mewn perthynas â mabwysiadu model Gweithio Hybrid hirdymor ar gyfer yr Awdurdod. Gosodwyd Swydd Ddisgrifiadau swyddi o fewn pob gwasanaeth yn seiliedig ar gweithio o'r Swyddfa/ Cartref/ Hybrid / Gweithiwr o Bell. Ymhellach, mae Polisi Gweithio Hybrid a Pholisi Fflecsi Hyblyg yn cael eu hysgrifennu ac ar ôl eu cwblhau a'u cymeradwyo byddant yn cael eu rhannu gyda staff ac undebau llafur at ddibenion cyd-drafod cyn cychwyn ar gyfnod prawf ar gyfer y ddau bolisi. Mae'r polisïau Gweithio Hybrid a Fflecsi Hyblyg wedi'u cwblhau a'u rhannu â staff ac undebau. Cymeradwywyd y ddau bolisi ar 11.01.24. a lanswyd y polisi Gweithio Hybrid ar 12.01.24. Bydd y polisi Fflecsi Hyblyg yn cael ei lansio ar 01.03.24. am gyfnod prawf cychwynno o 12 mis.	Rhagfyr 2023	Pen. AD









Tud. 34

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 3	GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH
--	-------------	--










Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 3.1	 Ch. 1+2	Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf wedi ei chfyllwyno i'r Awdurdod. Cyflwyno'r ail adroddiad cynnydd i'r Awdurdod Cyflwynwyd ail adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ym mis Mai 2023.	Mehefin 2023	Pen. Partneriaethau
CW 3.2 	 Ch. 1- 4	Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r Bartneriaeth. Mae arfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd. Mae trefniadau ar gyfer seminar 2024 ar y gweill.	Parhaus	PW
CW 3.3 	 Ch. 1- 3 Ch. 4	Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill Mae adnoddau yn cael eu cynhyrchu ar gyfer aelodau PPC a Sefydliad y PC e.e. menter BMW. Mae cynigion pellach yn cael eu datblygu. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol PPC a Sefydliad y PC yn ystod y 3ydd chwarter. Mae'r Prif Weithredwr wedi ymddiswyddo o fwrdd PPC, gan geisio recriwtio cynrychiolydd o Gymru. Mae tymor y PW fel ymddiriedolwr y Sefydliad i ddod i ben yn ystod 2024. Bydd y Sefydliad yn ceisio enwebeion ar gyfer ymddiriedolwr newydd.	Parhaus	PW


Tud. 35


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024








Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 3.4 	 Diweddariad Ch. 1- 2  Ch. 3 - 4	Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru Dim datblygiad arwyddocaol o ran penodi swyddogion ar gyfer y swyddogaeth gynllunio, fodd bynnag cytunwyd ar gyllideb ar gyfer y swyddogaeth gynllunio. Dim datblygiad pellach – aros am gynnydd gan PW y CBC.	Parhaus	Cyf. CaRhT
CW 3.5 	 Qtrs. 1- 2  Update Qtr. 3 – 4	Er mwyn cyflawni adolygiad Cynllun Eryri 2025 yn unol â'r amserlen, bydd data ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gasglu a'i ddehongli gyda mewnbwn gan gydwethwyr mewnol ac allanol erbyn diwedd 2023. Cyflwyno crynodeb i'r Aelodau. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac efallai y bydd angen diwygio'r amserlenni i adlewyrchu capasiti. Mae saflemeicro o Gyflwr y Parc yn cael ei ddatblygu a'r gobaith yw y bydd drafft yn mynd i'r Awdurdod cyn Haf 2024 a'r gwaith i'w gwblhau erbyn diwedd 2024.	Rhag. 2023	Pen. Partneriaethau

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 4	MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU
--	-------------	---

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 4.1 	 Ch. 1+2	Sefydlu a oes galw gan Aelodau'r Awdurdod mewn rhaglen fentora ac, os felly, datblygu un Holiadur wedi'i anfon at yr Aelodau i dderbyn eu barn ar ofynion hyfforddi a datblygu ac yn gofyn a oedd galw am raglen fentora. Derbyniwyd 3 ymateb. Mae nifer yr ymatebion yn awgrymu bod yr angen am raglen fentora yn isel ymhlith aelodau. Dim gwaith pellach ei angen.	Rag. 2023	Cyf. Gwas. Corfforaethol
CW 4.2 	 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu Yn aros am fanylion pecyn hyfforddi Llywodraeth Cymru a chynnwys modiwlau hyfforddi ar gyfer Aelodau. Rhagwelir y bydd y modiwlau hyfforddi yn ymdrin â materion amrywiol megis llywodraethu effeithiol, mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Disgwylir manylion cyn ddiwedd y flwyddyn. Cadarnhawyd manylion sesiynau hyfforddi LIC fel yr uchod a dyddiadau wedi'u cadarnhau i'w cynnal yn ystod Ionawr/Chwefror, 2024. Mae archwiliad o "Gefnogaeth i'r Aelodau" yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan adran archwilio fewnol Cyngor Gwynedd. Cadarnhaodd canlyniad yr archwiliad ar "Gefnogaeth i Aelodau" fod lefel a rhwydwaith y gefnogaeth sydd ar gael ac a ddarperir ynghyd â'r systemau sydd mewn lle yn briodol i aelodau gyflawni eu hamcanion. Darparwyd sesiynau hyfforddi LIC i aelodau ar: Hyfforddiant Llywodraethu, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur.	Parhaus	Cyf. Gwas. Corfforaethol







Tud. 37


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024





Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 5	CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL
--	-------------	---


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.1 	 Ch. 1- 4	Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr. Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gynnal sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grwp a gan ysgolion ac mae nifer o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd. Mae denu rhagor o wirfoddolwyr cyson yn parhau yn her.	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio)
CW 5.2	 Ch. 1- 4	Gweithredu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod Mae metrigau yn y Strategath Gyfathrebu yn cael eu monitro'n barhaus.	Parhaus	Pen. Cyfathrebu


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024



 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024


Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.3	 Ch. 1- 3	Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i ddiweddarau a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLI.	O leiaf 1 cyfarfod blynyddol	Pennaeth Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer
CW 5.4	 Ch. 1- 3 Ch. 4	Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Lleol Mynediad Eryri Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd y FfLI a gynhalwyd ym mis Mawrth, Mehefin a Medi. Cyswllt nesaf i'w gynnal ym mis Rhagfyr. Mae'r nifer o gyfarfodydd FfLI wedi ei leihau i 3 gwaith y flwyddyn yr un i Fforymau'r gogledd a de.	Parhaus Mawrth 2024	Rheolwr Mynediad a Llesiant
CW 5.5	 Cyfarfod Blynyddol	Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu i'w gynnal ym mis Tachwedd 2023.	Cyfarfod Blynyddol Tachwedd	Pennaeth CCA


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Rhif	Statws a Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.6	 Ch. 1- 3 Ch. 4	<p>Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.</p> <p>Mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol wedi'i phenodi ar sail swyddog prosiect dwy flynedd, ym mis Ebrill 2023 i gyflawni Cynllun Cymunedau Eryri ac i ddrafftio Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod. Mae gwaith mapio eisoes wedi dechrau ar draws y Gwasanaethau perthnasol o fewn yr Awdurdod.</p> <p>Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod proses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023 wedi derbyn ymateb da gan y Cynghorau Cymuned fel dull ymgysylltu ar gyfer proses CDLI Eryri.</p> <p>Mae Pennaeth Partneriaethau a swyddog Ymgysylltiad Cymunedol wedi bod yn cyfarfod â holl Glercod Cynghorau Cymuned Eryri yn ystod 2023/24. Nodwyd unrhyw bryderon a godwyd a thrafodwyd rhaglenni amrywiol megis Cronfa Cymunedau Eryri, Cynllun Eryri, Caru Eryri ynghyd â gwaith perthnasol eraill.</p>	Parhaus Mawrth 2024	Pen. Partneriaethau Pen. RhDaCh Swyddogion

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau am 2023-24

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

CANLYNIADAU

FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

CW1, 2: Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.


CW2, 4: Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)*


CW5: Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2)*

CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*


LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio	AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4
Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040	CC 3.3 CW 2.3
Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol	AC 5.5 (PAWS)
Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30	AC 5.1 - AC 5.5
Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol	AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4
Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas	AC 5.1
Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio	CW 3.2
Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau	
Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir	AC 1.10


LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith	AC 4.1
Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol	-
Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg	CC 1.4
Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafndiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy	AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9 CC 3.1 – 3.5 CW 5.3
Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy	-
Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol	-
Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â <i>Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru</i> i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol	AC 3.1 – AC 3.9
Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni <i>Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026</i>	CC 4.1 – CC 4.7
Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli	CC 1.2 1.3
Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.	CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2 CW 5.1

LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

Amcanion blaenoriaeth a chymau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLILC o dan arweiniad y sector	-
Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau	CW 4
Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol	CW 4
Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol	CW 4
Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd	CW 4
Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisiâu Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd)	CW 3.4

LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24	CW 3.2 CW 3.3
<p>Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:</p> <p>i. Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon, i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon</p> <p>ii. Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.</p> <p>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd; • Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd; • Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffyrddiau ariannu arloesol. <p>iii. Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydaddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig.</p>	AC 2.5
Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo	-

JO/Perfformiad/Amcanion Llesiant 2023-24
Chwarter 3-4 Hydref 2023 - Mawrth 2024

EITEM RHIF 16

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	12 Mehefin 2024
TEITL	STRATEGAETH CARBON ISEL ERYRI 2024-2029
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir
PWRPAS	Cytuno a mabw Strategaeth Carbon Isel Eryri 2024-2025

1. Rhagymadrodd

2. Cafodd yr adroddiad yma yn ogystal â'r Strategaeth Garbon Isel atodol ei drafod yn y Gweithgor Mis Ebrill. Yr unig newid i'r Strategaeth ers y Gweithgor ydi'r cyfeiriad at deithio llesol.
3. Er bod yr Awdurdod eisoes yn ymgymryd â nifer o brosiectau sy'n cyfrannu'n sylweddol at y nod o leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr (NTG), ystyrir y bydd y Strategaeth Carbon Isel sy'n cyd-fynd â hi yn helpu i ddarparu dull mwy cydgysylltiedig. Gyda thargedau sero net uchelgeisiol wedi'u gosod gan y Llywodraeth, mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn barod i ymgymryd â'r her hollbwysig hon.
4. Gobeithir y gall yr Awdurdod fabwysiadu'r ddogfen hon, cyn ei chyflwyno i'w mabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod dilynol yr Awdurdod.

5. Panel Craffu Aelodau – Carbon

6. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu 'panel craffu carbon', sy'n cynnwys y 3 aelod a ganlyn: Mr Brian Angell (Cadeirydd), Cyng John Pughe Roberts a Mr Tim Jones. Mae'r panel craffu hwn wedi chwarae rhan arwyddocaol wrth gyrraedd y pwynt hwn, a hoffwn ddiolch yn bersonol i'r grŵp am eu cyfraniadau. Yn 2021, edrychodd y panel ar y meysydd allweddol y gall yr Awdurdod eu cyfrannu atynt i leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr (a cheir hyn yn Atodiad 1 y Strategaeth). Yn gynharach eleni trafodwyd sgôp a chynnwys y Strategaeth, ac mae hyn wedi arwain at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod heddiw.

7. **Strategaeth Carbon Isel – Trosolwg Byr**

8. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl 'allanol' yr Awdurdod – dyma yw prif gynhaliath gwaith yr Awdurdod ac mae'n cynnwys gwaith prosiect, gwaith partneriaeth, y swyddogaeth gynllunio statudol, ochr yn ochr â rôl eiriolaeth amgylcheddol gyffredinol yr Awdurdod. Bydd strategaeth ar wahân ar gyfer rheolaeth gorfforaethol fewnol yr awdurdod – bydd hyn yn ymdrin â materion yn ymwneud ag ystâd, gwresogi, caffael a fflyd cerbydau'r eiddo.
9. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:
 - a. Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ac Amcanion Llesiant, ynghyd â phartneriaethau statudol eraill sy'n cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol (CC).
 - b. Cynllun Eryri – y Cynllun Rheoli statudol.
 - c. Y Cynllun Datblygu Lleol – y cynllun defnydd tir statudol; a
 - d. Rôl eiriolaeth yr Awdurdod – lle rydym yn trafod ac yn hyrwyddo amgylchedd yr ardal yn ein gwaith o ddydd i ddydd.
10. Mae amseriad y Strategaeth yn ddefnyddiol gan y bydd yn cael ei chymeradwyo cyn yr adolygiadau o Gynllun Eryri a'r CDLI, sydd i fod i gychwyn y flwyddyn nesaf. Bydd ganddo ffenestr 5 mlynedd (2024-2025), ond bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd o fewn y cyfnod hwnnw.
11. Bydd y Strategaeth yn ailadroddol, ac os bydd yr Awdurdodyn cytuno, cynigir ei dwyn yn ôl i'r Aelodau yn flynyddol i'w hadolygu, i asesu a oes angen unrhyw newidiadau i adlewyrchu polisi neu arfer cyfredol.

12. **Adnoddau**

13. Gellir gweithredu llawer o'r Strategaeth Carbon Isel o fewn ffrydiau gwaith presennol gan ddefnyddio staff ac adnoddau presennol. O bryd i'w gilydd bydd arian cyfalaf a grant ychwanegol ar gael yn gysylltiedig â phrosiectau lleihau carbon a bydd swyddogion yn monitro hyn ac yn ymgeisio am unrhyw gyfleoedd priodol.
14. Mae cydlynu'r strategaeth garbon a rheoli ei gweithrediad ar draws yr Awdurdod yn fwy o her, ac nid oes rôl benodol wedi'i neilltuo i hyn ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, bydd swyddogion yn archwilio cyfleoedd i ariannu swyddog carbon isel, a fydd wrth gwrs yn heriol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

15. **Casgliad**

16. Mae'r Strategaeth Carbon Isel yn dwyn ynghyd y meysydd allweddol yr ystyrir y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol effeithio arnynt o ran lleihau allyriadau carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr eraill. Bydd ei gymeradwyaeth yn helpu i

ddylanwadu ar yr adolygiad sydd ar ddod o ddau gynllun statudol yr Awdurdod y flwyddyn nesaf. Mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ynddo, a gellir ei roi ar waith o fewn yr adnoddau presennol. Fodd bynnag, byddai cael swyddog carbon isel penodedig yn helpu i gydlynu a gwthio'r materion o'i fewn yn llawer mwy effeithiol.

17. Argymhelliad:

- 1. I'r Aelodau fabwysiadu'r Strategaeth Carbon Isel; a**
- 2. Cytuno i gael adolygiad blynyddol o'r adroddiad ac unrhyw gynnydd.**

STRATEGAETH CARBON ISEL ERYRI 2024-2029

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Ebrill 2024

STRATEGAETH CARBON ISEL ERYRI 2024–2029:

ADRAN 1:

CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

1. Cyflwyniad

2. Mae effaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar yr ardal yn sylweddol. Rydym yn creu ac yn cefnogi prosiectau ledled Eryri, y mae llawer ohonynt yn cynnwys buddsoddiadau ariannol sylweddol. Bydd y prosiectau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni ein pwrpas statudol o warchod a gwella'r amgylchedd. Mae gan yr Awdurdod hefyd rôl eiriolaeth amgylcheddol sylweddol, ac mae gennym enw da fel partner y gellir ymddiried ynddo – gan weithio'n agos gydag ystod o bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Er ein bod eisoes wedi bod yn ceisio cyfrannu at yr agenda lleihau carbon, y gobaith yw y bydd y Strategaeth hon yn dod â llawer o hyn ynghyd mewn ffordd fwy strwythuredig a chydlynol. Gobeithiwn y bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw garreg yn cael ei gadael heb ei throi yn ymdrechion yr Awdurdod i gyfrannu at dargedau lleihau carbon a nwyon tŷ gwydr.
3. Mae amseriad y Strategaeth hon yn arwyddocaol gydag adolygiad o'n cynlluniau statudol - Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol - ill dau yn cychwyn yn 2025. Gobeithir y bydd y Strategaeth hon yn cael effaith sylweddol ar gynnwys y dogfennau hyn yn ogystal â mewn sawl maes arall o'n gwaith.

4. Mae'r Grŵp Craffu Carbon wedi cymryd rôl allweddol wrth arwain ar gynhyrchiad y strategaeth. Mae cwmpas gwaith carbon isel yr Awdurdod cynhyrchwyd gan y grŵp craffu, sy'n amlygu gwaith presennol a potensial yn y maes yma, wedi ei gynnwys yn Atoodiad 1.

5. Y Cyd-destun Newid Hinsawdd

6. Newid hinsawdd yw un o heriau diffiniol y byd ac mae angen i bawb weithredu ar unwaith. Dywedodd adroddiad pwysig gan y Cenhedloedd Unedig ym mis Awst 2021 fod gweithgaredd dynol yn newid ein hinsawdd mewn ffyrdd digynsail a bod angen gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau carbon (6ed Adroddiad Asesu'r IPCC · 2021).
7. Mae'r rhagamcanion hinsawdd diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos siawns uwch o aeafau mwynach, gwlypach a hafau poethach a sychach, lefelau'r môr yn codi a chynnydd yn amllder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol (Cynllun Strategol Net Sero, Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r goblygiadau yn amlwg yn llwm, ac mewn llawer o achosion maent eisoes yn cael eu teimlo.

8. Targed 2050

9. Ffordd holl bwysig o liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yw lleihau allyriadau carbon. Ym mis Mawrth 2021, yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2020, gosododd Llywodraeth Cymru dargedau newydd ar gyfer gostyngiad carbon o 63% erbyn 2030, gostyngiad o 89% erbyn 2040, a gostyngiad o 100% erbyn 2050. Wrth siarad ar y pryd, Dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Lesley Griffiths:
10. "Rydym yn gobeithio y gall y datganiad gan Lywodraeth Cymru heddiw helpu i ysgogi ton o weithredu gartref ac yn rhyngwladol. O'n cymunedau, busnesau a sefydliadau ein hunain i

seneddau a llywodraethau ledled y byd.” (Sector Cyhoeddus Sero Net, Llywodraeth Cymru, 2022)

11. Targed 2030 y Sector Cyhoeddus

12. Yn ogystal, nododd Llywodraeth Cymru uchelgais ar y cyd mwy heriol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni carbon net sero erbyn 2030 (uchelgais gyfunol 2030). Bydd yr “uchelgais gyfunol 2030” hon yn canolbwyntio ar ôl troed y Sector Cyhoeddus ei hun, er yn cydnabod bod dylanwad ehangach a rôl arweinyddiaeth bwysig. Mae cynlluniau gweithredu'r sefydliadau eu hunain yn debygol o gynnwys meysydd blaenoriaeth eraill ond mae pedwar maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel y rhai allweddol i gyflawni'r uchelgais carbon net sero ar y cyd – ac maent fel a ganlyn:

- Adeiladau
- Symudedd a thrafnidiaeth
- Caffael
- Defnydd Tir

13. Rôl Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Astudiaethau Presennol: Canolfan Tyndall, Adroddiadau Small World Consulting ac Aquaterra

14. Hyd yn hyn, mae APC wedi comisiynu 3 adroddiad i lywio'r sylfaen dystiolaeth a llunio polisiau yn y Parc Cenedlaethol. Mae pob un o'r 3 adroddiad yn cyfrannu'n sylweddol at y sylfaen dystiolaeth, ond mae ganddynt eu cyfyngiadau hefyd. Byddant yn ddefnyddiol ar gyfer llywio a bwydo gwybodaeth yn hytrach na gosod trefniadau ar gyfer llunio polisiau.

15. Canolfan Tyndall: Pennu Cyllidebau Carbon ar gyfer Eryri

16. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno targedau newid hinsawdd ar gyfer y Parc Cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymadau sydd wedi'u hymgorffori yng Nghytundeb Paris (ymhell o dan 2°C ac yn mynd ar drywydd 1.5°C) – mae wedi'i gynhyrchu ar gyfer pob un o Barciau Cenedlaethol y DU i alluogi meincnodi a gwell cydweithio ar y materion hyn. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod angen ymrwymiad gan sefydliadau, cymunedau ac ymwelwyr eraill yn ogystal â Llywodraethau'r DU a Chymru ar gyfer y targedau.

17. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, er mwyn i'r Parc Cenedlaethol wneud ei gyfraniad 'teg' tuag at Gytundeb Paris, mae angen iddo:

1) Aros o fewn cyllideb allyriadau carbon deuocsid cronus uchaf o 1,201 mil o dunelli (ktCO₂), am y cyfnod 2020 i 2100. Ar lefelau allyriadau CO₂ 2017, byddai'r gyllideb gyfan hon yn cael ei gwario o fewn 6 blynedd o 2020.

2) Cychwyn rhaglen ar unwaith o liniaru CO₂ i gyflawni toriadau blynyddol o 14.2% ar gyfartaledd mewn allyriadau er mwyn darparu cyllideb garbon wedi'i halinio â Chytundeb Paris. Mae'r gostyngiadau blynyddol hyn mewn allyriadau angen gweithredu cenedlaethol a lleol, a gallent fod yn rhan o gydweithrediad ehangach o fewn y Parc Cenedlaethol.

3) Cyrraedd sero net neu bron a bod yn gwbl ddi-garbon erbyn 2039 fan bellaf. Mae'r adroddiad hwn yn darparu llwybr dangosol ar gyfer lleihau CO₂ sy'n aros o fewn y gyllideb garbon uchaf a argymhellir o 1,201 ktCO₂. Ar y llwybr hwn yn 2039, mae <5% o'r gyllideb yn

parhau i fod yn ei lle. Mae hyn yn cynrychioli lefelau isel iawn o allyriadau CO2 gweddilliol erbyn yr amser hwn, neu efallai y gwneir penderfyniad i hepgor yr allyriadau gweddilliol hyn a thorri allyriadau i sero ar hyn o bryd. Mae'r flwyddyn darged yn dibynnu ar y llwybr - bydd cynnydd arafach o ran lleihau allyriadau yn defnyddio'r gyllideb garbon yn gyflymach, gan olygu na fydd allyriadau sero yn cyrraedd yn gynharach.

18. Mae'r targedau hyn yn adlewyrchu'r angen i ganolbwyntio ar leihau ffynonellau carbon deuocsid yn gyflym wrth osod polisi hinsawdd net sero.
19. Small World Consulting
20. Yn yr un modd â gwaith Canolfan Tyndal, cafodd yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Small World Consulting ei ail adrodd ar draws Parciau Cenedlaethol y DU – i helpu i feincnodi data a galluogi gwell cydweithio ar y materion hyn. Roedd hyn ar sail dull gweithredu 'ar sail defnydd', a oedd yn eu barn hwy yn caniatáu asesiad 'ôl troed llawn' – gan gynnwys ffyrdd o fyw, nwyddau a gwasanaethau. Roedd hefyd yn cynnwys effaith ymwelwyr - i'r ardal ac allan ohoni.
21. Mae'n cydnabod bod newid i ddyfodol carbon isel yn golygu gweithredu cryf mewn sawl maes: "adeiladu, ynni cartref uniongyrchol; cynhyrchu bwyd a diet; teithio a thrafnidiaeth; defnydd ynni busnes; natur twristiaeth a phrofiad yr ymwelydd; cylchredeg yr economi materol (gan gynnwys atgyweirio, cynnal a chadw, rhentu ac ail werthu nwyddau traul); a newidiadau sylweddol mewn rheoli tir." Mae llawer o'r materion hyn y tu allan i reolaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
22. Fodd bynnag, mae'n awgrymu bod cyfleoedd fel Awdurdod Cynllunio Lleol i wthio am gartrefi di-garbon, adeiladau ynni isel, annog trafndiaeth carbon isel / di-garbon mewn datblygiadau newydd, ac adeiladu ar y cyfleoedd a gynigir gan wella bioamrywiaeth.
23. Er eu bod wedi'u cynllunio i gyrraedd y targedau gofynnol sy'n cyfateb i Baris, mae'r llwybrau ar gyfer pob un o chwe chydran y targed yn serth ac yn heriol. Wrth gyrraedd y targedau, gellir disgwyl rhywfaint o help o'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol, o newid a ragwelir yn economi'r DU ac yn fyd-eang. Er enghraifft, mae'r grid trydan yn ceisio datgarboneiddio a bydd llai o danwydd ffosil yn pweru pob math o drafndiaeth ffordd. Ar ben hyn, efallai y bydd y cyhoedd yn poeni fwyfwy am garbon ac yn dewis opsiynau mwy cynaliadwy, er enghraifft trwy insiwleiddio eu cartrefi, gosod systemau gwresogi adnewyddadwy a phaneli solar, a dewis dietau llai carbon-ddwys. Yn olaf ond nid yn lleiaf, byddai busnesau hefyd eisiau chwarae rhan weithredol yn y trawsnewid carbon isel drwy dorri eu hallyriadau uniongyrchol, tra ar yr un pryd yn dewis cyflenwyr sydd â llai o garbon wedi'i fewnosod yn eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, gan gyflymu'r trawsnewid ar draws gadwyn gwerth gyfan.
24. Mae rheoli tir yn ganolog i argymhellion yr adroddiad hwn ac yn cynnwys targedau arfaethedig ar gyfer plannu Coetir Llydanddail / Cymysg Newydd a Choetir Conifferaidd Cynhyrchiol Newydd. Mae'r rhain yn uchelgeisiol iawn os am gyrraedd y targedau. Mae sefydlu dalfeydd carbon anwrthdroadwy (gyda chyd-fuddiannau bioamrywiaeth), fodd bynnag, yn amodol ar sicrhau bod cymhellion addas ar gael i reolwyr tir weithredu newidiadau defnydd tir megis creu coetiroedd, adfer mawndiroedd a ffermio atgynhyrchiol, yn unol ag argymhellion cyfredol Llywodraeth y DU.

25. Mae'r adroddiad yn nodi y gallai Parciau Cenedlaethol Cymru hefyd gael eu herio i gyfryngu ateb pragmatig gyda rhanddeiliaid a grwpiau diddordeb arbennig i'r pwysau tir cystadleuol ar gyfer cynhyrchu bwyd yn y DU, cynhyrchu pren yn y DU, adfer mawndiroedd, enillion net bioamrywiaeth a'r angen i dyfu a chefnogi cymunedau 'byw' lleol.

26. Aquaterra

27. Comisiynodd yr Awdurdod adroddiad hefyd ar sut y gall yr Awdurdod (yn hytrach nag ardal y Parc Cenedlaethol) gyflawni targedau di-garbon net - trwy newid corfforaethol yn y ffordd y mae'n caffael, yn defnyddio'r fflyd ac yn gwresogi ei eiddo. Datblygir hyn yn strategaeth gorfforaethol ar lwybr yr Awdurdod i sero net – bydd hon yn ddogfen ar wahân i'r un hon.

28. Gwaith cynharach gan y Panel Craffu Aelodau ar Garbon

29. Yn ogystal â'r uchod, cynhyrnodd Panel Craffu Carbon Aelodau'r Awdurdod yn 2021 asesiad o'r meysydd lle mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn cyfrannu at yr agenda di-garbon, ynghyd â meysydd y gellid mynd i'r afael â hwy yn y dyfodol. Gosodwyd hyn yn erbyn y sectorau allweddol sy'n effeithio ar allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer cwmpas y gwaith y mae'r Awdurdod yn ymwneud ag ef, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 y ddogfen hon.

30. Rôl Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Ras i Sero

31. Yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2023, ymunodd yr Aelodau â'r fenter "Ras i Sero". Ras i Sero yw'r fenter arweinyddiaeth hinsawdd fyd-eang a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig sy'n annog actorion anwladwriaethol (fel dinasoedd, awdurdodau lleol, busnesau, prifysgolion) i gymryd camau llym ac ar unwaith i haneru allyriadau byd-eang erbyn 2030 a darparu byd di-garbon iachach a thecach.

32. Lansiodd Ras i Sero yn ffurfiol ddwy flynedd yn ôl er mwyn:

- Strwythuro rôl ar gyfer actorion di-wladwriaeth i helpu i ysgogi datgarboneiddio holl bwysig
- Symud y ddadl fyd-eang o weithredu hirdymor 2050 i weithredu tymor agos 2030
- Canolbwyntio'r uchelgais ar 1.5 nid 2 radd
- Cyflwyno mwy o drylwyredd a thryloywder
- Cadw'r ffocws byd-eang ar adeiladu dyfodol iachach tecach

33. Mae Ras i Sero bellach yn ysgogi llawer o weithredu byd-eang gyda'r nod o leihau allyriadau carbon.

34. Bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio ei ymdrechion ar bedwar maes allweddol lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf. Y rhain yw:

- 1) Cynllun Eryri 2025- 20XX – ac unrhyw gynlluniau atodol ee Strategaeth Coetir, Strategaeth Mawndir
- 2) Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI) 2027-2042 – ac unrhyw gynllun atodol ee Canllawiau Cynllunio Atodol
- 3) Rôl Arwain ac Eiriolaeth – adeiladu ar egwyddorion 'Ras i Sero' a dull gweithredu cadarn yr Awdurdod sy'n seiliedig ar bartneriaeth

4) Rheoli Asedau a Chaffael – adeiladu ar y gwaith a wnaed gan yr ymgynghorwyr
Aquaterra

35. Bydd y ddogfen hon yn canolbwyntio ar y 3 cyntaf, gyda'r ddogfen Rheoli Asedau / Caffael yn cael ei chynhyrchu ar wahân.

ADRAN 2: CYNLLUN CORFFORAETHOL A DATGANIAD LLES YR AWDURDOD A MEYSYDD GWAITH STRATEGOL ERAILL

36. Cynllun Corfforaethol

37. Mae'n hanfodol bod carbon wrth galon pob penderfyniad a wneir gan yr Awdurdod. Mae hyn yn dechrau gyda Chynllun Corfforaethol yr Awdurdod a'r amcanion llesiant cysylltiedig.
38. Er bod carbon yn rhan o gynllun corfforaethol yr Awdurdod ar hyn o bryd, gyda llawer o amcanion a chymau gweithredu sy'n ceisio lleihau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill, mae'n debygol y bydd angen diweddarau hyn o ystyried pa mor gyflym y mae'r maes hwn yn esblygu.
39. Felly, mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod unrhyw adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol yn rhoi pwyslais sylweddol ar sicrhau bod lleihau allyriadau carbon yn ganolog i gamau gweithredu'r Awdurdod. Ymgynghorir yn helaeth ag aelodau a rhanddeiliaid ar yr adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol, a bydd y mater hwn yn cael ei godi bryd hynny.

40. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

41. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn cyfrannu at bartneriaethau strategol eraill a grwpiau sector cyhoeddus. Mae'n cael ei chynrychioli ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Orllewin Cymru (BGC), partneriaeth strategol statudol sy'n dod â sefydliadau sector cyhoeddus ynghyd i fynd i'r afael â materion a phrosiectau cydweithredol. Fel arfer cynrychiolydd yr Awdurdod ar y BGC yw'r Prif Weithredwr.
42. Mae'n hollbwysig bod yr Awdurdod yn codi pwysigrwydd lleihau nwyon tŷ gwydr a charbon gyda'r grŵp hwn, ynghyd â sicrhau bod prosiectau o'r fath yn cael eu cyflawni trwy gynrychiolaeth ar y BGC.
43. Dylid cael adroddiad blynyddol yn ôl i Aelodau'r Awdurdod ar y cynnydd a wnaed yn y BGC – a fydd yn caniatáu craffu ar faterion yn ymwneud â lleihau carbon a nwyon tŷ gwydr.

44. Cydbwyllgor Corfforaethol (CC)

45. Mae'r CC yn gyfrifol am y dasg o gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (CDS) sef dogfen cynllunio defnydd tir statudol ar gyfer Gogledd Cymru – bydd swyddogaeth gynllunio'r CC yn cwmpasu 7 Awdurdod Cynllunio Lleol Gogledd Cymru. Er nad yw strwythur staffio'r CC wedi'i sefydlu eto o ran ei swyddogaeth gynllunio, bydd cynrychiolaeth arno o Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Eto, fel gyda'r gynrychiolaeth ar y BGC, rhaid i'r Awdurdod ymrwymo i wneud carbon yn flaenoriaeth strategol trwy ei gynrychiolaeth ar y grŵp.
46. Fel gyda'r BGC, dylid cael adroddiad blynyddol yn ôl i Aelodau'r Awdurdod ar y cynnydd a wnaed yn y CC – a fydd yn caniatáu craffu ar faterion sy'n ymwneud â lleihau carbon a nwyon tŷ gwydr.

ADRAN 3: CYNLLUN ERYRI

47. Mae'r angen i leihau allyriadau carbon yn cael ei gydnabod yng Ngweledigaeth Cynllun Eryri, sy'n datgan:
48. "..... Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn Byd sy'n newid – bydd economi carbon isel wedi cryfhau cyswllt trigolion â'r amgylchedd, gan ddarparu gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol o fri rhyngwladol ac un o leoedd i'r enaid gael llonydd." (CDLI 2016-31, t24)
49. Rhennir y Weledigaeth hon hefyd gyda'r Cynllun Datblygu Lleol (mwy am hyn isod) i sicrhau cysondeb rhwng dwy ddogfen statudol yr Awdurdod.
50. Mae Cynllun Rheoli statudol presennol y Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri 2020) yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd a'r angen i leihau allyriadau carbon. Mae'r Cynllun yn datgan *"Rhaid i ni gyd ail-werthuso'r ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio. Mae Cynllun Eryri yn gosod allan ein nodau i helpu i leihau allyriadau carbon a dadleoliad a briodolir i'r ardal, ond hefyd i gynllunio mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau newid hinsawdd."*
51. Roedd Canlyniad A3 Cynllun Eryri yn cydnabod canlyniad allweddol fel "Rydym yn barod ar gyfer effeithiau newid hinsawdd ac yn lleihau ein hól troed carbon".

Ein camau i gyflawni hyn	Rhinweddau Arbennig	Trosolwg o'r camau	Pwy?	Sut byddwn yn mesur llwyddiant
A3.1. Lleihau allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri	1, 2, 6, 8 & 9	<ul style="list-style-type: none"> > Cyfrannu'n broactif tuag at gynllun gweithredu lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru > Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol o fewn y Parc Cenedlaethol > Gweithredu mesurau trafnidiaeth a theithio mwy gwyrdd i leihau allyriadau carbon. > Annog cymunedau i sefydlu eu cynlluniau hwythau. > Hyrwyddo a chefnogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd ynni mewn adeiladau newydd a thraddodiadol yn unol â pholisi cynllunio > Partneriaid i asesu cynladwydd y prif adeiladau o fewn y Parc Cenedlaethol > Parhau i gefnogi cynlluniau ynni gwyrdd sydd yn eiddo'r cymunedau pan fyddant ar raddfa ac mewn lleoliad addas – yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol > Sefydlu llinellau sylfaen ar gyfer gosod targedau allyriadau yn y dyfodol 	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Ynni Cymunedol</p> <p>Cyd Ynni</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cymdeithas Eryri</p> <p>Menter Môn</p> <p>Grŵp Cynefin</p> <p>Adra</p> <p>Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)</p> <p>Canolfan Ecoleg a Heidroleg (CEH)</p> <p>Prifysgol Aberystwyth</p>	<p>Bydd llinellau sylfaen ar gyfer mesur allyriadau carbon yn y dyfodol yn cael eu sefydlu erbyn 2023, yn seiliedig ar gyngor gosod targedau gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Erbyn diwedd y Cynllun byddwn wedi cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynllun lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru, wedi gosod rhagor o bwyntiau gwefru cerbydau trydan a - trwy gyfrwng ceisiadau cynllunio - wedi monitro nifer y cartrefi sydd yn uwchraddio i dduilliau ynni adnewyddol newydd. Gweler hefyd bolisi B4.1 ar gyfer dulliau gwella trafnidiaeth</p>

Ein camau i gyflawni hyn	Rhinweddau Arbennig	Trosolwg o'r camau	Pwy?	Sut byddwn yn mesur llwyddiant
A3.2. Diogelu a chynyddu swm y carbon a gedwir yn Eryri	8 & 9	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddefnyddio a gwella dalfeydd carbon naturiol o fewn y Parc Cenedlaethol Lleihau a - lle bo'n bosibl - cildroi erydiad a diraddiad mawndiroedd, gan gynnwys cau ffosydd yn yr ucheldiroedd ac adfer mawndir amaethyddol yn yr ardaloedd is Sicrhau ymrwymiad hirdymor i goetiroedd amrywiol a reolir yn dda Ymchwilio i wrthbwysu carbon a chwilio am gefnogaeth ariannol er mwyn gwrthbwysu carbon Annog cynnal tir glas parhaol ac osgoi aflonyddu ar bridd 	<p>APCE CNC</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA)</p> <p>Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFU)</p> <p>Undeb Amaethwyr Cymru(FUW)</p>	Erbyn diwedd 2022, byddwn wedi cynyddu nifer y prosiectau Côt Mawndir a Chôt Coed a Choetiroedd a gefnogir gennym. Gydol cyfnod y Cynllun bydd APCE yn monitro camau adfer mawndir, yn gofalu am blannu coetiroedd mewn safleoedd addas ac hefyd yn monitro cyflwr coetiroedd presennol ac yn gwella cynefinoedd gwrychoedd, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth i gynghori ar ddulliau pori addas.
A3.3. Gweithredu mesurau lliniaru newid hinsawdd	Y Cyfan	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu trefn Indecs Peryglon Hinsawdd (CVI) o ran asedau naturiol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol Sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal i safon fydd yn gwrthsefyll amlder stormydd trwy Bolisi A1.2 	<p>APCE</p> <p>Yr holl bartneriad perthnasol</p>	Erbyn diwedd 2021 byddwn yn gweithio gyda Thirweddau Dynodedig eraill sydd eisoes yn defnyddio dulliau CVI, i fapio asedau a llunio astudiaeth posibilrwydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Caiff ein llwybrau ucheldir eu monitro yn gyson ar gyfer manylebau newydd neu uwchraddedig.

52. Yn gysylltiedig â'r agenda lleihau carbon mae Canlyniad B4 sy'n datgan "bod opsiynau cynaliadwy ar gyfer parcio a thrafnidiaeth yn cael eu cyflawni".

Ein camau i gyflawni hyn	Rhinweddau Arbennig	Trosolwg o'r camau	Pwy?	Sut byddwn yn mesur llwyddiant
B4.2. Archwilio a sefydlu cyfleoedd i annog trafndiaeth fwy gwyrdd	1 & 6	<ul style="list-style-type: none"> Asesu effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon er mwyn annog symudiad tuag at ddefnyddio technolegau mwy gwyrdd ar gyfer teithio megis ceir, bysiau a beiciau trydan Gwella gwybodaeth a marchnata o safbwynt teithio i'r Parc a theithio o'i gwmpas, gan sicrhau bod y dewisiadau mwyaf cynaladwy yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu Defnyddio technoleg smart er mwyn annog newid arferion (e.e. Cynllun Menter) Fel ym Mholisi A3.1 gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn mannau strategol yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr a theithwyr 	<p>APCE CNC</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Croeso Cymru</p> <p>Partneriaeth Ogwen</p>	<p>Gweithio gyda'r holl argymhellion yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen 2020 i weithredu mesurau ar draws y Parc Cenedlaethol. Adolygu ac addasu mesurau yn ôl yr angen erbyn 2025.</p> <p>Bydd ffordd newydd o fesur cyfraniad ac effaith ymwelwyr ar yr ardal mewn lle erbyn 2021 a bydd yn asesu ffactorau amgylcheddol.</p>

53. PA MOR LLWYDDIANNUS YDYM NI A'N PARTNERIAID WEDI BOD O RAN Y CAMAU GWEITHREDU UCHOD SY'N YMWNEUD Â CHARBON?

54. Fel y dengys y polisiau uchod, mae Cynllun Eryri yn cynnwys polisiau a chamau gweithredu lleihau carbon, a fydd yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon. Heb os, mae wedi arwain at gydwethredu rhwng partneriaid i drafod yr agenda garbon.

55. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trafodaethau helaeth ar faterion trafndiaeth a pharcio, a sut y gall y rhain leihau carbon yn Eryri – yn arwyddocaol mae hyn yn cynnwys cyfraniad i **Grŵp Cyflawni Parcio, Trafnidiaeth a Eryri** a arweinir gan Trafnidiaeth Cymru (y mae'r Awdurdod yn chwarae rhan allweddol ynddo);

- Mae pwyslais ar garbon yn mynd i galon y tîm Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth – gyda llawer o brosiectau llwyddiannus, ynghyd â strategaethau newydd sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol gan gynnwys:
 - o Strategaeth Coed a Choetiroedd
 - o Strategaeth Mawndiroedd
- Mae'r Strategaeth Coed a Choetiroedd yn ei dyddiau cynnar - felly mae'n rhy gynnar i asesu ei heffeithiolrwydd;
- Fodd bynnag, mae'r Strategaeth Mawndiroedd wedi helpu i sicrhau prosiect Systemau Rheoli Cynaliadwy (SRhC) gwerth £925,000 i adfer 781 ha o fawndiroedd (451 ha yn Eryri) ac adeiladu capasiti ledled Cymru o 2018-2121. Dilynwyd hyn gan nifer o geisiadau grant llwyddiannus gan y Rhaglen Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol o 2021 hyd heddiw, sef cyfanswm o ychydig dros £1.04 miliwn o wariant (hyd yma) i wella ansawdd a chadernid mawndiroedd. Hyd yma, rydym wedi cynnal gwaith adfer dros 6000 ha o'r amcangyfrif o 25,400 ha o fawndiroedd yn y Parc, ac wedi cynnal arolwg o 3000 ha pellach o fawndiroedd yn yr ardal strategaeth ehangach (Eryri Fringes).
- Mewn perthynas â'r uchod, bydd yr adolygiad o'r Strategaeth Mawndiroedd yn cael ei gynllunio i alluogi monitro cynnydd blynyddol.
- Creu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar ein hystad ein hunain – sy'n galluogi pobl leol ac ymwelwyr i wefru eu ceir wrth yrru yn y Parc Cenedlaethol (rydym wedi gosod XX);
- Prosiect peilot Yr Wyddfa Di-blastig, sy'n ceisio harneisio'r gymuned leol i godi ymwybyddiaeth o lygredd plastig a sbwriel yn ac o amgylch mynydd prysuraf ac atyniad ymwelwyr prysuraf Cymru;
- Cyd-greu Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri sy'n edrych tuag at ddyfodol hollol wahanol i'r economi ymwelwyr a'r modd y caiff ei fesur ar draws y rhanbarth.
- Mae'r tîm Polisi Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol wedi gweithredu rhaglen o addysgu trigolion adeiladau hanesyddol yn yr Ardal Gadwraeth sut i'w gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni tra'n diogelu eu hasedau a'u cymeriad hanesyddol.
- Mae strategaeth gyffredinol y CDLI yn cyflawni ei strategaeth o ganolbwyntio datblygiad ar aneddiadau presennol yn llwyddiannus a thrwy hynny atal galwadau pellach a chynyddol ar geir preifat. Fodd bynnag, mae'r ardal yn dal i fod yn ddibynnol iawn ar y car preifat.
- Gellir mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chartrefi di-garbon i raddau drwy bolisiau cynllunio – ond yn gyffredinol ymdrinnir â hwy drwy Reoliadau Rheoli Adeiladu.
- Mae'r CDLI hefyd wedi caniatáu llawer o gynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach o fewn y PC, ac wedi darparu cymorth mewn egwyddor neu gyngor lliniaru ar gyfer cynlluniau mwy y tu allan i ffin y PC ond yn agos ati;
- Mae'r Awdurdod wedi dechrau mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag addasu i newid yn yr hinsawdd - gan gynnwys caniatáu ceisiadau cynllunio sy'n cyfrannu at addasu i newid yn yr hinsawdd yn ogystal â gweithredu ein prosiectau ein hunain fel creu llwybrau troed mwy cadarn sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y Parc Cenedlaethol.

56. BETH SYDD ANGEN EI WNEUD O RAN LLEIHAU CARBON AR GYFER YR ADOLYGIAD O GYNLLUN ERYRI?

57. Mae Cynllun Eryri eisoes wedi datblygu llawer o brosiectau sydd â'r nod o ddylanwadu ar newid ymddygiad / lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyr / carbon a chyfrannu at ymaddasu i

newid hinsawdd – ac mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r holl brosiectau cysylltiedig, yn amlwg yn parhau. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod llawer mwy y gallwn anelu at ei gyflawni fel Awdurdod wrth i effeithiau cynhesu byd-eang ddod yn fwyfwy amlwg. Bydd adolygiad Cynllun Eryri yn 2025 yn anelu at roi Lleihau Carbon a Chynaliadwyedd yn fwy cadarn wrth galon cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

58. Dyma rai o'r meysydd allweddol y gallem fynd i'r afael â hwy drwy gyfrwng dull gweithredu Partneriaeth:

- Sefydlu gwaelodlin nwyon tŷ gwydr / carbon – i helpu i ddeall effeithiau ein gweithredoedd ar y nwyon hyn ;
- Cynyddu'r uchelgais o ran cyflawni prosiectau trafndiaeth strategol sydd â'r nod o leihau dibyniaeth ar y car preifat – gan sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys yn adolygiadau'r CDLI a Chynllun Eryri 2025
- Cyflawni'r Strategaeth Coed a Choetiroedd
- Cyflawni'r Adolygiad o'r Strategaeth Mawndiroedd
- Cyflawni'r Cynllun Adfer Natur
- Sicrhau ffocws carbon isel ar weithredu Strategaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy
- Camau gweithredu SFS
-

Adran 4: Cynllun Datblygu Lleol Eryri

59. Mae'r angen i leihau allyriadau carbon yn cael ei gydnabod yn CDLI mabwysiedig Eryri (2016-2031). Cyfeirir ato yn y weledigaeth ar gyfer Eryri (fel yr eglurir uchod, rhennir y Weledigaeth hon gyda Chynllun Eryri):
60. “..... Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn Byd sy'n newid – bydd economi carbon isel wedi cryfhau cyswllt trigolion â'r amgylchedd, gan ddarparu gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol o fri rhyngwladol ac un o leoedd i enaid y genedl gael llonydd.” (CDLI 2016-31, t24)
61. Mae Newid yn yr Hinsawdd hefyd wedi'i nodi fel mater allweddol, her a sbardun ar gyfer newid (CDLI 2016-31, t19)
62. “Gall newid yn yr hinsawdd newid amgylchedd, cymunedau ac economi'r Parc Cenedlaethol yn ddramatig. Gallai'r newidiadau hyn gynnwys colli rhai rhywogaethau a chynefinoedd, newidiadau mewn cynhyrchiant cynyddol a chynhyrchiant da byw, cynnydd yn lefel y môr ac amlder cynyddol amodau tywydd eithafol, gyda chanlyniadau ar gyfer perygl llifogydd ac erydiad pridd. Un o sgil-ffeithiau newid yn yr hinsawdd fydd y potensial am elw economaidd o ddatblygu arbenigedd mewn nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.
63. Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol anelu at leihau'r ddibyniaeth ar danwydd anadnewyddadwy a chyflawni cynhyrchu a defnyddio ynni cynaliadwy drwy;
- Leihau'r angen i deithio, trwy leoliad cynaliadwy cymunedau, cartrefi a chyfleoedd cyflogaeth a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy
 - Gwella cynaliadwyedd trafndiaeth ac integreiddio trafndiaeth gyhoeddus yn well
 - Lleihau allyriadau carbon a'r potensial ar gyfer 'tloidi tanwydd' drwy wella effeithlonrwydd adeiladau newydd a phresennol
 - Darparu ynni adnewyddadwy priodol gan ddeiliaid tai a'r gymuned”
64. Mae gan y CDLI bolisi penodol ar newid hinsawdd fel a ganlyn:

Polisi Strategol Dd: Newid yn yr Hinsawdd (Dd)

Bydd cyfraniad y mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r Parc Cenedlaethol yn ei wneud i newid yn yr hinsawdd yn cael ei leihau ac ymdrinir ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y Parc Cenedlaethol yn y Cynllun hwn trwy:

- i. Sicrhau nad yw unrhyw waith arfordirol a diogelu rhag llifogydd, gan gynnwys adlinio rheoledig, yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu y gellid eu lliniaru'n foddhaol.
- ii. Gwarchod a gwella ardaloedd coetir, pridd yr ucheldir a thir mawnog er mwyn cynorthwyo i gadw carbon, dal dŵr ac atal llifogydd.
- iii. Hwyluso'r broses o helpu rhywogaethau i addasu a mudo trwy ddiogelu coridorau cysylltu cynefinoedd a chyfoethogi bioamrywiaeth.
- iv. Cyfeirio datblygiadau i leoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio yn enwedig mewn car preifat.

Polisi Datblygu 3: Ynni (3)

Lle bo'n briodol dylai Datganiad Ynni fod ynghlwm i geisiadau cynllunio naill ai ar wahân neu fel rhan o'r Datganiad Dylunio a Mynediad a dylai gymryd i ystyriaeth y dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy a Datblygiadau Carbon Isel. Ble bynnag bo'n bosib, dylai datblygiadau gael eu lleoli a'u cyfeirio i gymryd mantais o'r haul a chysgod ac ymgorffori strategaethau dylunio goddefol ac ymagwedd ffabrig yn gyntaf tuag at ddefnyddio ynni'n effeithlon. Dylid rhoi ystyriaeth i'r potensial ar gyfer manteisio i'r eithaf ar dechnolegau ynni adnewyddadwy.

Ynni Adnewyddadwy

Bydd cynlluniau ynni adnewyddadwy yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu cefnogi os ydynt yn ymdrin yn foddhaol â'r ystyriaethau cynllunio ar gyfer y technolegau amrywiol a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy a Datblygiadau Carbon Isel.

- Bydd microgynhyrchu (o dan 50kW) a chynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa lai yn cael eu hystyried yn ffafriol, ar yr amod nad ydynt yn peri niwed i fuddiannau'r dirwedd, amwynder a chadwraeth natur a threftadaeth.
- Gall cynlluniau sy'n llai na graddfa'r Awdurdodau Lleol (hyd at 5MW) hefyd gynnig rhywfaint o botensial yn Eryri a byddant yn cael eu caniatáu yn ddarostyngedig i'r un ystyriaethau.

Yn gyffredinol, ystyrir nad yw cynlluniau ynni adnewyddadwy Graddfa'r Awdurdodau Lleol mwy (mwy na 5MW) a Strategol yn gydnaws â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol a byddai'n rhaid iddynt fodloni Polisi Strategol B; Datblygiadau Mawr.

65. Roedd carbon hefyd yn ffactor sylfaenol yn y strategaeth aneddiadau gyffredinol a'r strategaeth gyflogaeth, lle mae cyfleoedd datblygu yn bosibl o fewn llawer o aneddiadau Eryri gan leihau'r angen i greu tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol ymhell o gymunedau lleol. Mae hyn wedi'i nodi ym Mholisi Strategol C sy'n nodi'r strategaeth ddatblygu gyffredinol fel a ganlyn:

Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol (C)

Bydd datblygiadau gofodol ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn seiliedig ar yr hierarchaeth a ganlyn:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol – Dolgellau a'r Bala

- i. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy i fodloni angen lleol.
- ii. Cefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig.
- iii. Gwella cyfleusterau presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol i gryfhau ei swyddogaeth fel canolfan gwasanaethau lleol a chefnogi ei swyddogaeth fel cyrchfan i ymwelwyr.
- iv. Datblygiadau manwerthu wedi'u lleoli yn agos at y prif ardaloedd manwerthu.

Aneddiadau Gwasanaethau

- v. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen lleol.
- vi. Datblygiadau ar gyfer cyflogaeth ar raddfa fach i gefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig yn unol â Pholisi Datblygu 19.
- vii. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol.
- viii. Cryfhau ei swyddogaeth fel anheddiad gwasanaethau sy'n wasanaethu'r anheddiad a'r gymuned gyfagos.
- ix. Cefnogi ei swyddogaeth fel cyrchfan i ymwelwyr.
- x. Datblygiadau manwerthu yn ardaloedd manwerthu Harlech, Aberdyfi a Betws y Coed.

Aneddiadau Eilaidd

- xi. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen lleol.
- xii. Datblygiadau ar gyfer cyflogaeth ar raddfa fach i gefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig yn unol â Pholisi Datblygu 19.
- xiii. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol a chryfhau ei swyddogaeth i ddarparu gwasanaethau i'r cyrion gwledig.

Aneddiadau Llai

- xiv. Tai fforddiadwy ar ffurf unedau sengl i ddiwallu angen lleol.
- xv. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol lle nad oes unrhyw leoliadau addas yn bodoli yn yr aneddiadau a restrir yn yr hierarchaeth aneddiadau.
- xvi. Trosi adeiladau i gefnogi defnydd economaidd.
- xvii. Mewn amgylchiadau eithriadol, datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant newydd ar raddfa fach yn unol â Pholisi Datblygu 19.

Cefn gwlad agored

- xviii. Trosi adeiladau gwledig i gefnogi defnydd economaidd.
- xix. Trosi adeiladau gwledig i dai fforddiadwy er mwyn diwallu angen lleol.
- xx. Tai newydd yn lle'r rhai presennol.
- xxi. Tai sy'n ymwneud ag angen hanfodol i fyw yng nghefn gwlad yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol.
- xxii. Cyfleusterau cymunedol hanfodol eraill i wasanaethu trigolion lleol lle nad oes unrhyw leoliadau addas yn yr aneddiadau a restrir yn yr hierarchaeth aneddiadau.
- xxiii. Datblygiadau Amaethyddol sydd yn ymdoddi'n naturiol i'r tirlun.
- xxiv. Mewn amgylchiadau eithriadol, datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant newydd ar raddfa fach yn unol â Pholisi Datblygu 19.
- xxv. Datblygiad economaidd fel rhan o ddyraniad Parth Menter Eryri yn unol â Pholisi Datblygu 27.

66. Trafnidiaeth a Pharcio

- 67. Nod cyffredinol Polisi Strategol L yw lleihau'r defnydd o geir

Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant (L)

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymroddedig i wella mynediad at gyfleusterau lleol a lleihau'r angen i deithio yn enwedig mewn ceir preifat. O fewn y Parc Cenedlaethol bydd cerdded a beicio yn cael ei annog pa bryd bynnag fo hynny bosibl a bydd mynediad at gludiant cyhoeddus a'r ddarpariaeth o gyfleusterau yn cael ei ddarparu.

Cefnogir datblygiad pan:

- i. Leolir y ddarpariaeth o wasanaethau er mwyn lleihau'r angen i deithio.
- ii. Fo mynediad cyfleus trwy gyfrwng llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a chludiant cyhoeddus, a bod hynny felly yn annog y defnydd o'r dulliau hyn o deithio ar gyfer teithiau lleol ac yn lleihau'r angen i deithio gyda char preifat a gwella mynediad at wasanaethau i'r rhai hynny lle mae cael mynediad i gludiant yn anodd.
- iii. Mae yna welliant o ran yr hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl.
- iv. Nad yw'r newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn niweidio neu'n achosi effeithiau andwyol i HTC adeiladau rhestredig neu henebion hanesyddol, nac yn effeithio yn andwyol ar ddynodiadau amgylcheddol. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i warchod a gwella bioamrywiaeth nodweddiadol Eryri, yn enwedig cynefinoedd a rhywogaethau a ddynodwyd o dan ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd. Pan fo hynny'n bosibl, bydd y gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer defnydd ar wahân ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- v. Fydd yn lleihau neu yn cael gwared â thraffig cerbydol o ganol trefi a lle bo'n bosibl o ardaloedd gwledig.
- vi. Nad yw amgylchedd naturiol y parc yn cael ei effeithio yn andwyol.
- vii. Ddarperir cyfleusterau parcio beiciau diogel lle bo hynny'n briodol.

Bydd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gefnogi mentrau cludiant a thrafnidiaeth gynaliadwy priodol.

Bydd y llwybrau hamdden a ddynodir ar y mapiau cynigion yn cael eu diogelu rhag datblygiadau eraill a fyddai'n rhwystro eu defnydd fel llwybrau hamdden.

Bydd gwely trac Rheilffordd Corris o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu rhag ffurfiau eraill o ddatblygiad fel ei fod yn gallu cael ei ailsefydlu fel rheilffordd.

Bydd y rhan segur hwnnw o'r rheilffordd sy'n rhedeg o Drawsffynydd i Flaenau Ffestiniog sydd o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw ddatblygiad amhriodol a fyddai'n rhwystro defnydd o'r llinell reilffordd fel coridor cludiant yn y dyfodol.

68. PA MOR LLWYDDIANNUS FU'R CDLL O RAN LLEIHAIU CARBON / NWWYON TŶ GWYDR (NTG)?

69. Strategaeth Ddatblygu Gyffredinol

70. Yn gyntaf, yn yr un modd â Chynllun Eryri, nid oes ffigwr gwaelodlin ar gyfer lefel allyriadau carbon / NTG Eryri – felly mae sefydlu asesiad meintiol o lwyddiant cymharol y CDLI yn anodd.

71. Mae polisiâu strategol sydd wedi ceisio lleihau'r angen i deithio drwy ganolbwyntio datblygiad ar gymunedau cynyddol fwy h.y. canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau mewn aneddiadau mwy fel Dolgellau a'r Bala, ac yna'n gynyddol llai wrth i aneddiadau fynd yn llai. Mae hyn yn ddamcaniaethol yn lleihau'r angen i deithio i siopau, i'r gwaith ac i gymdeithasu. Mae cartrefi ynysig sy'n dibynnu ar geir mewn ardaloedd cefn gwlad agored yn eithriadau, ac mae datblygiad yn canolbwyntio ar aneddiadau presennol.

72. Fodd bynnag, er bod y strategaeth uchod wedi bod yn llwyddiant – yn yr ystyr y glynydd at y strategaeth ddatblygu gyffredinol – mae ei llwyddiant o ran lleihau teithiau car yn dibynnu ar

ffactorau eraill y tu hwnt i reolaeth yr ACLI ee amlder a dibynadwyedd gwasanaethau bws lleol, gweithle pobl ac arferion siopa ac ati

73. BETH SYDD ANGEN EI WNEUD O RAN TARGEDAU CARBON AR GYFER ADOLYGU'R CDLL?

- Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau – rheoliadau adeiladu yn hytrach na chynllunio?
- Rhaniad Dulliau Trafnidiaeth – a oes angen gosod targedau mewn strategaeth ar wahân?
- Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy – capasiti gosodedig ac a oes angen i ni wneud mwy (yn ôl pob tebyg, nac oes)
- Asesu enghreifftiau arweiniol o awdurdodau eraill ee
- Bydd nifer o opsiynau o ran sut y gall y CDLI wella a chryfhau ei strategaeth newid hinsawdd, a gellir hefyd gymryd arweiniad ac ysbrydoliaeth o waith awdurdodau eraill sydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:
 - Cyngor Cernyw – 'Cynllun Datblygu Argyfwng Hinsawdd' (2023). Cyhoeddodd y cyngor argyfwng hinsawdd yn 2019 ac mae wedi paratoi'r ddogfen hon, a'r polisiâu sydd ynddi, er mwyn cyflawni Cernyw Carbon Niwtral, ac i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol.
 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor – 'Lleihau Allyriadau Carbon Mewn Datblygiadau Newydd' (2019). Nodyn briffio sy'n edrych ar dystiolaeth ar gyfer dulliau o leihau allyriadau CO₂ mewn adeiladau newydd.
 - Cyngor Dosbarth Gorllewin Swydd Rhydychen – 'Cynllun Gweithredu Ardal ar gyfer Cyflenwi 'Salt Cross Garden Village'. Mae hyn yn enghraifft o sut y gall cynllunio, polisi ac awdurdodau weithio i greu datblygiadau sero net newydd ac aneddiadau sy'n fwy cynaliadwy o ran tai, trafndiaeth, mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae hwn yn un o 14 gardd-bentref posibl y cyhoeddodd Llywodraeth y DU gefnogaeth ar eu cyfer ym mis Ionawr 2017. Y saith thema graidd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Ardal yw Gweithredu ar yr Hinsawdd; Llunio Lleoedd Iach; Diogelu a Gwella Asedau Amgylcheddol; Symud a Chysylltedd; Menter, Arloesi a Chynhyrchiant; Diwallu Anghenion Tai Presennol ac yn y Dyfodol; ac Adeiladu Cymunedau Cryf, Bywiog a Chynaliadwy.
 - Bannau Parc Cenedlaethol Brycheiniog – 'Ailymwelwyd â'r Strategaeth a Ffeirir' (2020) – Mae'r ddogfen hon yn nodi rhesymeg yr Awdurdod dros newid ffocws polisi, a'u blaenoriaethau cynllunio strategol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol – sy'n arbennig o angenrheidiol yn dilyn pandemig y Coronafeirws.
 - Fframwaith Newid Hinsawdd Manceinion 2020-2025 – Y fframwaith yw strategaeth lefel uchel y ddinas ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yr amcan yw aros o fewn y cyllidebau carbon a argymhellir gan Ganolfan Tyndall; addasu i'r hinsawdd a chaderniad; iechyd a lles; ac economi gynhwysol, di-garbon sydd yn hinsoddol gadarn. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys ac yn diffinio saith maes ar gyfer gweithredu sy'n cynnwys; Adeiladau (presennol a newydd); ynni adnewyddadwy; cludiant a hedfan; bwyd; y pethau yr ydym yn eu prynu ac yn eu taflu; seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur; a chefnogi trigolion a sefydliadau i weithredu.

74. Meysydd Penodol i'w Hystyried

75. Isod ceir rhai enghreifftiau o feysydd allweddol lle gellid addasu, diwygio ac ystyried polisiâu a strategaethau yn ystod y broses adolygu.

76. Dylunio Cynaliadwy (adeiladau ac adeiladau hanesyddol)

- Dyluniad cynaliadwy – diweddariad i ymgorffori egwyddorion (polisiau Salt Cross 1,2,3)
- Ystyried diweddarau yn unol â'r polisiau diweddaraf sy'n rheoli adeiladu di-garbon a chreu lleoedd (gweler gofynion Salt Cross, neu bolisiau a argymhellir gan bwyllgor hinsawdd Manceinion) yn enwedig 'cynaliadwyedd amgylcheddol'
- Gwerth nodi sut y gellir ôl-osod adeiladau hanesyddol ee gwydr mewnol pwrpasol, inswleiddio to, lleoliad paneli heulol / solar thermol / PV, trwy ddyrchafu rhywfaint o'r canllawiau i'r lefel polisi hwn.
- Canllawiau pellach posibl ar addasu adeiladau hanesyddol.

77. Cludiant

- Parcio ceir – manau pwrpasol ar gyfer gwefru cerbydau trydan, lle storio beiciau, cerdded a rhannu ceir. Fe all fod gwahaniaethau yn seiliedig ar leoliad / hierarchaeth aneddiadau.
- Teithio Llesol – term a ddefnyddir i ddisgrifio cerdded a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol i gyrchfan, neu ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus.

78. Bydd trafndiaeth hefyd yn fater allweddol o ran yr adolygiad ac o ran gwella gwaelodlin carbon y Parc. Mae gwaith wedi'i wneud yn flaenorol gan bartneriaid a chydweithwyr yn yr Awdurdod yn hyn o beth, megis Adroddiad Martin Higgitt.

79. Bioamrywiaeth

- Cryfhau bioamrywiaeth ac enillion net – gan helpu natur a hefyd rheoleiddio a helpu i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Cynnydd net mewn gwyrddio trefol a bioamrywiaeth
- O ran hwyluso addasiad rhywogaethau a mudo trwy warchod coridorau cysylltedd cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth – mae angen adnabod ble mae angen i hyn ddigwydd a sut mae'n cael ei wireddu yn y cynllun (er enghraifft adnabod ardaloedd o fewn neu gerllaw aneddiadau yr ystyrir eu bod yn ardaloedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth neu goridorau).

80. O ran Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG), mae Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 11) yn disgrifio ASG fel 'adnodd tystiolaeth integredig sy'n seiliedig ar fapiau sy'n defnyddio setiau data presennol a'r wybodaeth orau sydd ar gael i fapio seilwaith gwyrdd ac asedau ecolegol presennol'. Bydd yr ASG yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu dull cadarn o wella bioamrywiaeth, cynyddu gwytnwch / cadernid ecolegol a gwella canlyniadau llesiant. Mae manteision Seilwaith Gwyrdd o ran yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd yn cynnwys;

- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth trwy warchod cynefinoedd presennol a chreu rhai newydd
- Gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau trwy gysylltu cynefinoedd naturiol presennol i greu coridorau gwyrdd ehangach sy'n galluogi symudiad rhywogaethau mewn hinsawdd sy'n newid.
- Lleihau allyriadau CO2 drwy ddarparu llwybrau teithio di-gerbyd ac annog cerdded a beicio
- Darparu capasiti dal a storio / atafaelu carbon mewn llystyfiant

- Lliniaru yn erbyn tywydd eithafol trwy ddarparu cysgod ac amddiffyniad rhag gwyntoedd cryfion a gwres eithafol
- Rheoli perygl llifogydd trwy amsugno glaw trwm
- Lleihau'r angen i ddefnyddio ynni i wresogi ac oeri adeiladau.

81. Bydd gwaith ar ASG y Parc Cenedlaethol yn dechrau yn ystod 2024.

82. Addasiadau

- Cryfhau addasu (yn enwedig rôl y tir wrth ddarparu ffyrdd o addasu, cynyddu gorchudd coed, peidio ag adeiladu ar orlifdiroedd, adfer mawn, glannau afonydd / lliniaru llifogydd, gwella cyflwr cynefin, gwella iechyd y pridd, gwella gwytnwch glaswelltir i sychder gan ennill statws cynefin lle bo'n bosibl, gwella'r gallu i wrthsefyll lledaeniad tanau gwyllt yn enwedig ar y rhyngwyneb trefol / gwledig ac ar / ger tir cynefin, SUDS)
- Mae'n bosibl bod angen iddo fod yn fwy rhagweithiol a bod manteision amgylcheddol i waith amddiffyn yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd, o bosibl yn bolisi is-set ar gyfer afonydd ac arfordiroedd ar wahân. Asesu'r cwmpas / sgôp i reoli aberoedd, morfeydd heli, morwelltau a gwastadeddau llaid – sydd oll yn bwysig ar gyfer dal a storio carbon. Byddai angen i hwn fod yn brosiect ar y cyd â phartneriaid eraill ee creigresi Sabellaria spinulosa (llynghyren / mwydyn dreiniog) a allai fod yn werthfawr oddi ar Ynys Mochras hefyd, sy'n dda ar gyfer bioamrywiaeth ac amddiffyn yr arfordir.

83. Ynni a Gwastraff

- Posibilrwydd defnyddio modelau a ddefnyddir mewn enghreifftiau eraill i roi manylion mwy cynhwysfawr am ofynion datganiadau ynni.
- Mae'r polisi presennol yn nodi, "lle bynnag y bo'n bosibl dylai pob adeilad newydd, gan gynnwys estyniadau, ystyried y potensial ar gyfer gwneud y mwyaf o dechnolegau ynni adnewyddadwy" – gallai newid polisi olygu bod sero net yn fan cychwyn gydag eithriadau am resymau safle-benodol.
- Mae'r polisi presennol hefyd yn nodi "Bydd meicrogynhyrchu a pheiriannau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach yn cael eu cefnogi yn enwedig lle maent yn cyfrannu at wella ansawdd bywyd mewn cymunedau llai" – Mae'n bosibl y bydd angen ystyried treulio anaerobig a phrosiectau cymunedol yn ogystal ag ôl-ffitio system ynni carbon isel / di-garbon ar adeiladau presennol (er enghraifft yn Y Bala a Dolgellau – cynlluniau gwresogi ardal). Angen posibl am bolisi penodol ynghylch penderfyniadau ar geisiadau i ôl-ffitio systemau ynni yn yr ardaloedd hyn a dyraniadau safleoedd. Angen meddwl hefyd am fapio defnyddiau, defnyddwyr gwres a chynhyrchwyr gwres a'u cydleoeli cyn belled ag y bo modd ee canolfannau hamdden a diwydiant ar raddfa fechan.
- Gosod cynlluniau ar gyfer ysgolion a chanolfannau hamdden sy'n darparu canolbwytiau i ôl-ffitio gwresogi ardal yn y gymuned gyfagos. Angen darparu lle ar gyfer hyn fel y gall datblygiad ddod ymlaen yn y dyfodol.
- Cynnwys potensial treulio anaerobig (sy'n cynnwys buddion eilaidd economi gylchol a lleol, effeithlonrwydd maetholion, a ffynhonnell refeniw (yn bennaf cynhyrchu ynni)
- Datganiadau Ynni – Er eu bod wedi'u cynnwys ar hyn o bryd ym Mholisi Datblygu 3: Ynni fel gofyniad lle bo'n briodol, mae'n ansicr pa mor aml y bu angen hyn fel rhan o geisiadau cynllunio – Byddai hyn yn cael ei ddiwygio yn yr adolygiad. Mae Datganiad Ynni yn ddogfen fanwl sy'n nodi'r atebion mwyaf addas a chost-effeithiol i leihau allyriadau

carbon ac integreiddio technolegau ynni adnewyddadwy Carbon Isel neu Ddi-garbon (LZC).

84. Casgliad

85. Asesiad o bolisiâu a sylwadau ychwanegol dilynol a wnaed yn ystod yr adroddiad adolygu; ysbrydoliaeth gan awdurdodau a sefydliadau eraill; yn ogystal ag astudiaethau posibl y gellir eu cynnal, bydd yn helpu i lywio ymateb y Parc Cenedlaethol a'r adolygiad o'r CDLI er mwyn gwella a chryfhau ei strategaeth a pholisiâu carbon a newid yn yr hinsawdd.
86. Bydd yn allweddol sefydlu a chynnal deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd. Gellid cynnal gweithdai penodol hefyd ar agwedd carbon a newid hinsawdd y CRhPC a'r CDLI fel rhan o'r broses adolygu.

Adran 5: Arweinyddiaeth ac Eiriolaeth

87. Mae'r adran olaf hon yn canolbwyntio ar rôl arweiniol ac eiriolaeth yr Awdurdod. Mae Adrannau 2 a 3 wedi cyfeirio at weithredu uniongyrchol a'r rôl alluogi wrth leihau carbon trwy bolisiau a phrosiectau'r Awdurdod yng Nghynllun Eryri a'r CDLI. Bydd yr Adran hon yn canolbwyntio ar rôl yr Awdurdod fel 'partner dibynadwy' sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned leol, a fydd yn ddi-os yn bwysig i wireddu'r nod o leihau ôl troed carbon yr ardal.
88. Mae'r Cenedloedd Unedig, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd. Mae gan yr Awdurdod hwn, trwy ei lythyr Tymor Llywodraeth a dibenion statudol, rôl arwyddocaol wrth ymateb i newid hinsawdd a'r dirywiad mewn natur. Mae gan Barciau Cenedlaethol rôl gynyddol i godi ymwybyddiaeth o'r angen i weithredu ar faterion o'r fath. Rydym yn ystyried bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, fel partner dibynadwy sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned leol, mewn sefyllfa arbennig o dda yn y rôl codi ymwybyddiaeth hon.
- 89. Ras i Sero**
90. Mae Eryri bellach wedi ymuno â menter arweinyddiaeth hinsawdd Ras i Sero a gefnogir gan y Cenedloedd Unedig – ynghyd â'r rhan fwyaf o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill y DU. Mae Ras i Sero yn amlygu'r angen i gymryd camau llym ac ar unwaith i haneru allyriadau byd-eang erbyn 2030 a sicrhau byd di-garbon net iachach a thecach.
91. Lanswyd Ras i Sero yn ffurfiol ddwy flynedd yn ôl i:
- Strwythuro rôl ar gyfer actorion di-wladwriaeth i helpu i ysgogi datgarboneiddio holl bwysig
 - Symud y ddadl fyd-eang o weithredu hirdymor 2050 i weithredu tymor agos 2030
 - Ganolbwyntio uchelgais ar 1.5 nid 2 radd
 - Cyflwyno mwy o drylwyredd a thryloywder
 - Cadw'r ffocws byd-eang ar adeiladu dyfodol iachach tecach
92. Mae gan Barciau Cenedlaethol yn fyd-eang rôl holl bwysig i'w chwarae wrth ymateb i'r argyfwng hwn – drwy arwain atafaelu carbon ar sail natur ar raddfa tirwedd, a thrwy fod yn rhan o'r fyddin rheng flaen o ran datgarboneiddio mewn lleoliad gwledig. Mae hon yn rôl strategol na all unrhyw endidau eraill ei harwain. Parciau Cenedlaethol y DU fydd y Parciau Cenedlaethol cyntaf yn y byd i ymuno â Ras i Sero y Cenedloedd Unedig.
93. Drwy ymuno â Ras i Sero, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i'r pum maen prawf a ganlyn:
- **Addewid:** gwneud y mwyaf o ymdrech tuag at neu y tu hwnt i gyfran deg o'r gostyngiad byd-eang o 50% mewn nwyon tŷ gwydr sydd ei angen erbyn 2030, a chyrraedd sero net erbyn 2050 fan bellaf.
 - **Cynllun:** o fewn 12 mis datblygu cynllun lleihau allyriadau ar sail tystiolaeth yn unol â'r addewid.
 - **Ymlaen:** cymryd camau ar unwaith tuag at gyflawni'r addewid.
 - **Cyhoeddi:** ymrwymo i adrodd ar ddata a chamau gweithredu mewn perthynas â chyflawni'r addewid, yn gyhoeddus ac o leiaf bob blwyddyn - gan fwydo i Borthol Gweithredu Hinsawdd Byd-eang UNFCCC.
 - **Perswadio:** alinio gweithgareddau lobbïo ac eiriolaeth gyda sero net trwy gefnogi polisiau hinsawdd sy'n gyson â'r meini prawf Ras i Sero yn rhagweithiol.

94. Mae ymrwymo i weithredu i gyrraedd nod datgarboneiddio yn golygu rôl arweiniol i'r Awdurdod wrth weithio gyda thirfeddianwyr a rheolwyr, trigolion, sefydliadau partner, rhanddeiliaid a'r cyhoedd – yn hytrach na disgwyliad y bydd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol y pwerau a'r adnoddau i gyflawni y targed ei hun. Mae'r rôl arweinyddiaeth hon yn un y mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn brofiadol ynddi. Mae aelodau dinasoedd ac awdurdodau lleol Ras i Sero yn mabwysiadu'r un dull gweithredu ac nid yw'n unigryw i Barciau Cenedlaethol.
95. I raddau, rydym eisoes wedi dechrau ar y daith hon – gyda pholisïau a phrosiectau lleihau carbon y cyfeiriwyd atynt eisoes yn ein Cynllun Rheoli a'n CDLI. Fel y crybwyllwyd eisoes mewn man arall, rydym hefyd wedi comisiynu astudiaethau i'n helpu ar ein llwybr i sero net – drwy adroddiad Small World Consulting a'r astudiaeth gan ganolfan Tyndall a ragflaenodd hyn. Yn olaf, mae'r Strategaeth Carbon Isel hon hefyd sy'n ceisio dod â'r wybodaeth ynghyd.
96. Mae'n bwysig yn awr i'r Awdurdod adeiladu ar y rôl arweinyddiaeth ac eiriolaeth hon – drwy hyrwyddo'r egwyddorion a nodir yn y Strategaeth hon, sicrhau bod y CDLI a Chynllun Eryri yn uchelgeisiol wrth sicrhau llwybr i sero net, a dod â'n partneriaid allweddol niferus a'n cymunedau lleol hefo ni ar y daith hon.

Atodiad 1

Gwaith Gwedd 1 cynhyrchiwyd gan Grwp Craffu Aelodau – Carbon* (2021) – cwmpas y gwaith dad-garboneiddio – presennol a potensial.

*aelodaeth y Grwp: Mr Brian Angell (cadeirydd y grwp), Cyng John P Roberts, Mr Tim Jones

PWÊR / YNNI	
Cyfraniad Presennol:	Beth arall y gellir ei wneud? Materion ar gyfer Strategaeth Garbon yr Awdurdod
<p>Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol o fewn y Parc Cenedlaethol (Gweler hefyd bolisi B4.2)</p> <p>Parhau i gefnogi cynlluniau ynni gwyrdd ar raddfa briodol ac wedi'u lleoli'n briodol sy'n eiddo i'r gymuned - yn unol â'r CDLI</p> <p>Ynni adnewyddadwy a chynaliadwy ar raddfa briodol</p> <p>Polisiau CDLI sy'n annog dylunio cynaliadwy da / cartrefi carbon isel?</p>	<p>Mesur carbon o osodiadau pŵer – pa wahaniaeth y mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan a chartrefi carbon isel yn ei wneud mewn gwirionedd ?</p> <p>A ddylai polisiau cynllunio fynd ymhellach o ran annog cartrefi carbon isel neu hyd yn oed di-garbon?</p>
ADEILADAU	
Cyfraniad Presennol:	Beth arall y gellir ei wneud? Materion ar gyfer Strategaeth Garbon yr Awdurdod
<p>Annog adeiladau cynaliadwy ym mholisiau'r CDLI</p> <p>Strategaeth CDLI Cyffredinol o ganolbwyntio adeiladau / datblygiad newydd i aneddiadau presennol er mwyn lleihau teithiau car. Fodd bynnag, bydd natur wledig yr ardal yn dal i olygu dibyniaeth ar geir preifat. Gall hyn fod yn arbennig o wir pan fydd safleoedd megis Parth Menter Eryri (Llanbedr a Thrawsfynydd) yn cael eu datblygu.</p> <p>Cynllun Rheoli yn annog effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau</p> <p>Mae'r Rhaglen Waith Gorfforaethol yn cydnabod bod cyllid wedi'i sicrhau i asesu Ardaloedd Cadwraeth, a fydd yn cynnwys elfen sy'n asesu cwmpas eu gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni.</p>	<p>A all / a ddylai polisiau CDLI a Chynllun Eryri fynd ymhellach a chynnwys ymrwymiad llawer cryfach i adeiladau carbon isel a di-garbon? A yw di-garbon yn ddyhead polisi economaidd realistig yn Eryri?</p> <p>Yn y tymor byrrach, a oes potensial ar gyfer canllaw dylunio i wella safonau lleihau carbon mewn adeiladau newydd?</p> <p>A all Strategaeth Ofodol y CDLI a Chynllun Eryri fynd ymhellach i atal dibyniaeth ar geir preifat? Gallai Astudiaeth Trafnidiaeth a Chludiant Martin Higgitt Astudiaeth lywio hyn?</p> <p>Yn gysylltiedig â'r uchod, codwyd a oedd y fframwaith Asesiad Cynaliadwy presennol sy'n ofyniad statudol ar gyfer cynhyrchu'r CDLI a Chynllun Eryri yn addas i'r diben ac yn CAMPUS – ac a ellid diwygio hwn i adlewyrchu</p>

<p>Prosiect Rhaglen Waith Gorfforaethol i barhau â phrosiectau Datgarboneiddio ym mhrif adeiladau APCE i leihau colledion gwres a gwastraff ynni</p>	<p>blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cymru yn well;</p> <p>Cyfleoedd i uwchsgilio / hyfforddi adeiladwyr mewn deunyddiau adeiladu cynaliadwy? (mae hyn yn rhannol gysylltiedig â'r prosiect arfaethedig ar Ardaloedd Cadwraeth)?</p> <p>A all yr Awdurdod wneud unrhyw brosiectau arddangos? Gallai hyn fod yn gysylltiedig â hyfforddiant ar uwchsgilio / adeiladu</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid allweddol ee Swyddog Arbed Ynni Cyngor Gwynedd</p>
CLUDIANT	
<p>Cyfraniad / Ymrwymadau Presennol:</p>	<p>Beth arall y gellir ei wneud? Materion ar gyfer Strategaeth Garbon yr Awdurdod</p>
<p>Nod y CDLI yw canolbwyntio datblygiadau newydd mewn aneddiadau presennol, a ddylai fel arfer fod yn agosach at gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus presennol (a ategir hyn gan agosrwydd datblygiadau newydd at arosfannau bysiau).</p> <p>Mae meysydd parcio newydd mewn cefn gwlad agored yn cael eu rheoli'n llym gan bolisiau presennol.</p> <p>Mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd ar raddfa fawr fod yn hygyrch trwy gyfrwng gwahanol ddulliau o deithio;</p> <p>Strategaeth trafndiaeth gyhoeddus a pharcio yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen i ddarparu a gweithredu argymhellion.</p> <p>Sefydlu a chytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer gweithgor trafndiaeth a pharcio ar gyfer Eryri.</p> <p>Gwella gwybodaeth am ddewisiadau trafndiaeth gynaliadwy i ymwelwyr.</p> <p>Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol o fewn y Parc Cenedlaethol Gweithredu mesurau trafndiaeth a theithio gwyrddach i leihau allyriadau carbon.</p> <p>Annog atebion yn y gymuned.</p> <p>Awdurdod yn datblygu fflyd o gerbydau trydan</p>	<p>Datblygu ymhellach yr egwyddorion a sefydlwyd gan Martin Higgitt, ac o bosibl eu cymhwyso i rannau eraill o'r PC;</p> <p>A oes modd meintoli effeithiau carbon defnydd trafndiaeth yn y Parc Cenedlaethol. Byddai hyn yn galluogi penderfyniadau cynllunio mwy gwybodus i gael eu gwneud - ar hyn o bryd mae datblygiadau sy'n dibynnu ar geir yn dal i gael eu cymeradwyo</p> <p>Angen strategaeth i reoli defnydd trafndiaeth o Ardal Fenter Eryri</p> <p>Datblygu rhwydwaith beicio sy'n gwasanaethu cymunedau lleol, addysg a chyflogaeth - ac nid twristiaeth / hamdden yn unig</p> <p>Cyfraniad yr Awdurdod trwy barhau i ddatblygu fflyd o gerbydau trydan, ond hefyd gweithio o gartref ac ati</p>

<p>Sicrhau bod llwybrau trafndiaeth gyhoeddus wedi'u cysylltu'n glir â llwybrau a llwybrau a hyrwyddir.</p> <p>Gwella gwybodaeth a marchnata mewn perthynas â sut mae pobl yn cyrraedd y parc ac yn teithio o gwmpas, gan sicrhau bod yr opsiynau mwyaf cynaliadwy yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu.</p>	
SECTOR DIWYDIANNOL	
Cyfraniad / Ymrwymadau Presennol:	Beth arall y gellir ei wneud? Materion ar gyfer Strategaeth Garbon yr Awdurdod
<p>Mae Cynllun Eryri yn ceisio cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant, cyflogaeth a busnes sy'n ymwneud neu'n ategu ail bwrpas a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol, a'r thema iechyd a lles.</p> <p>Mae'r CDLI yn ceisio hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth o faint rhesymol, gan gynnwys Ardal Fenter, yn y Parc Cenedlaethol.</p>	<p>Yn sicr mae cyfleoedd i'r Awdurdod hyrwyddo'r economi Werdd a Chylchol o fewn y PC - bydd hyn yn helpu i annog a datblygu diwydiant carbon isel.</p>
DEFNYDD TIR / AMAETHYDDIAETH	
Cyfraniad / Ymrwymadau Presennol:	Beth arall y gellir ei wneud? Materion ar gyfer Strategaeth Garbon yr Awdurdod
<p>Mae polisiâu CDLI yn ceisio gwarchod adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae coetiroedd hefyd yn cael eu hamddiffyn yn hyn o beth ac mae datblygiadau'n cael eu gwthio tuag at aneddiadau presennol. Fodd bynnag, nid oes targed penodol ar gyfer ailraddio'r polisi hwn o ran allyriadau carbon neu ddal a storio carbon.</p> <p>Cydlynu cynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) ar gyfer Eryri i gynnwys y data diweddaraf a thargedau bioamrywiaeth penodol.</p> <p>Ailgysylltu ardaloedd darniog o goetir. Ehangu gorchudd coed brodorol ar dir y Parc Cenedlaethol. Annog rheolaeth fel y gwneir y gorau o goetiroedd presennol i ddiogelu eu cyflwr ecolegol. e.e Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE</p> <p>Parhau i ddefnyddio a gwella dalfeydd carbon naturiol o fewn y Parc Cenedlaethol. Lleihau, a lle bo'n bosibl gwrthdroi, erydiad a diraddio mawndiroedd, gan gynnwys drwy gau gafaelion</p>	<p>Adeiladu ar y prosiectau presennol hyn – bydd tynnu'r rhain ynghyd mewn strategaeth garbon gydynol yn gwneud y llwybr at ddefnydd tir carbon isel yn llawer haws i'w ddeall.</p> <p>Rhaid datblygu ymhellach rôl yr Awdurdod fel partner gyda Llywodraeth Cymru mewn unrhyw gynllun rheoli tir yn y dyfodol, gyda phwyslais ar gynlluniau pori cynaliadwy.</p> <p>Datblygu ymhellach brosiectau Cod Mawndir / Cod Carbon, ynghyd â chamau gweithredu eraill yn Strategaeth Mawndiroedd yr Awdurdod.</p> <p>Archwilio'r potensial ar gyfer credydau carbon a chynllun masnachu</p> <p>Bydd Adfer Natur yn amcan pwysig i Lywodraeth Cymru – a bydd angen i'r Awdurdod gynnwys hyn mewn unrhyw strategaeth carbon isel sydd ar ddod. Mae cysylltiad agos rhwng hyn ac adroddiad SoNaR CNC.</p> <p>Mae 2 bwnc mawr heb eu harchwilio y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu datblygu ymhellach - y</p>

<p>yn yr ucheldiroedd ac adfer mawnau amaethyddol yr iseldir.</p> <p>Archwilio gwrthbwysu carbon a chyfleoedd ar gyfer cymorth ariannol ar gyfer gwrthbwysu carbon.</p> <p>Annog cynnal a chadw glaswelltir parhaol ac osgoi aflonyddwch pridd.</p> <p>Ymchwilio i ddefnydd tir a phatrymau newid er mwyn gwella gwneud penderfyniadau ymhellach</p> <p>Creu a mireinio cynllun nwyddau cyhoeddus</p>	<p>Goedwig Genedlaethol a'i thargedau plannu coetir cysylltiedig a'r cynllun cymorth newydd ar gyfer Amaethyddiaeth yng Nghymru. Felly mae angen gwneud rhagor o waith ar y rhain.</p> <p>Mae ymchwil ar blannu coed v aildyfiant naturiol (ystyir rhododendron a rhedyn ungoes yn broblemus) yn gofyn am ddealltwriaeth well gyda'r pethau cadarnhaol a negyddol a ddatgelir.</p> <p>Brocer Carbon: Gwaith yn mynd rhagddo gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio cais am grant a chwmni Palladium ynghylch ymarfer portffolio Sero Net gyda Natur Parciau Cenedlaethol Cymru ar y cyd</p>
RHEOLI GWASTRAFF	
Cyfraniad / Ymrwymadau Presennol:	Beth arall y gellir ei wneud? Materion ar gyfer Strategaeth Garbon yr Awdurdod
<p>Mae Cynllun Eryri yn cynnwys llawer o gamau gweithredu mewn perthynas â rheoli gwastraff gan gynnwys – er na fydd pob un o'r rhain o reidrwydd yn effeithio ar gyfrif carbon y Parc Cenedlaethol;</p> <p>Ymchwilio i symudiad tuag at ddefnyddio pecynnau mwy cynaliadwy yn ein siopau manwerthu</p> <p>Ymchwilio i symudiad i 'ardaloedd di-blastig' yn Eryri a nodi dewisiadau eraill dichonadwy</p> <p>Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r pentref/rhanbarth ail-lenwi dŵr rhad ac am ddim cyntaf yn y Parc Cenedlaethol</p> <p>Gweithio gydag ymgyrchoedd lleihau sbwriel presennol a gweithredu negeseuon ar raddfa leol</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau dull cydgysylltiedig o reoli digwyddiadau a drefnir yn gynaliadwy</p> <p>Gweithio o fewn partneriaethau cenedlaethol i rannu arfer dda</p> <p>Cynnal a gweithredu Strategaeth Hamdden i reoli unrhyw wrthdaro posibl rhwng defnyddwyr yn gynaliadwy.</p> <p>O ran y CDLI, bydd cyfleusterau rheoli gwastraff mwy yn cael eu lleoli yn gyffredinol y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.</p>	<p>Mae llawer o'r rhain yn gynlluniau cadarnhaol y dylid eu datblygu ymhellach – er bod llawer o bosibl yn gysylltiedig â strategaethau newid ymddygiad ehangach yn hytrach nag yn uniongyrchol i leihau effeithiau carbon.</p>

EITEM RHIF 17

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	12 Mehefin 2024
TEITL	PRESENOLDEB AELODAU
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Er gwybodaeth

1.0 CEFNDIR

1.1 Mae'r Awdurdod wedi gofyn yn flaenorol i adroddiad blynyddol gael ei baratoi yn manylu ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau. Isod, nodir manylion presenoldeb o'r fath ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 i'w hystyried gan yr Awdurdod. Mae'r manylion wedi'u torri lawr i ddangos presenoldeb aelodau unigol yn yr Awdurdod, y Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Safonau. Lle nad yw aelod wedi gallu bod yn bresennol oherwydd ei fod ef neu hi wedi bod i ffwrdd ar fusnes yr Awdurdod, nodir hyn yn y cofnod presenoldeb.

2.0 PRESENOLDEB AELODAU 01.04.23 – 31.03.24

Pwyllgor	Awdurdod	Cynllunio & Mynediad	Perfformiad & Adnoddau
Nifer y cyfarfodydd	7	8	3
Aelodau	Mynychwyd		
Cyng. Elwyn Edwards	7	8	3
Cyng. Annwen Hughes	6	7	2
Cyng. Edgar W. Owen	7	8	3
Cyng. Elfed P. Roberts	6	6	3
Cyng. Louise Hughes	7	5	2

Cyng. Mehefin Jones	6	8	2
Cyng. Kim Jones (ymddiswyddodd o'r Awdurdod ar 06.12.23)	3 (o 4 posib)	2 (o 5 posib)	0 (o 2 posib)
Cyng. Einir Wyn Williams (penodwyd ar 01.02.24)	2 (o 2 posib)	1 (o 1 posib)	1 (o 1 posib)
Cyng. Meryl Roberts	7	8	3
Cyng. Jo Nuttall	7	8	3
Cyng. Dilwyn Owain Roberts	5	8	2
Cyng. John Pughe Roberts	7	7	2
Cyng. Ifor Glyn Lloyd	5	6	2
Mr. Brian Angell	7	8	3
Ms. Tracey Evans	7	7	3
Tim Jones	6	5	3
Sarah Hattle	3	6	2
Ms. Naomi Luhde- Thompson	3	5	1
Ms. Delyth Lloyd	7	8	3

Pwyllgor	Safonau	Safonau	Cyfanswm
Dyddiad	28.04.23	01.09.23	2
Cyng. Elfed P. Roberts	✓	✓	2
Cyng. Dilwyn Roberts	✓	✓	2
Mrs.Sarah Hattle	X	✓ (gofynnwyd iddi beidio â bod yn bresennol i sicrhau Cworwm)	1

- 3.1 Fel rhan o'r adroddiad hwn rwyf hefyd wedi casglu gwybodaeth am y presenoldeb cyfartalog cyffredinol mewn termau canrannol yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau a nodir hyn isod. Rwyf hefyd wedi cynnwys canran presenoldeb ar gyfer blynyddoedd blaenorol at ddibenion cymharu.

**PRIF GYFARFODYDD A DREFNWYD/ GWEINYDDWYD
01.04.23 – 31.03.24**

CYFARFOD	CYNHALIWYD	PRESENOLDEB GANRIF
AWDURDOD	7	86%
CYNLLUNIO A MYNEDIAD	8	86%
PERFFORMIAD AC ADNODDAU	3	80%
PWYLLGOR SAFONAU	2	83%
CYFANSWM	20	85%

CYFARFOD	CYNHALIWYD	2023- 24	2022- 23	2021- 22	2020- 21
AWDURDOD	7	86%	81%	85%	88%
PERFFORMIAD AC ADNODDAU	8	80%	85%	86%	87%
CYNLLUNIO A MYNEDIAD	3	86%	81%	79%	87%
PWYLLGOR SAFONAU	2	83%	67%	100%	100%
CYFANSWM	20	85%	81%	82%	88%

3.2 Fel y gwelir mae'r canran presenoldeb cyffredinol yn dangos ystod gyson o 80% ar gyfer y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i 86% ar gyfer yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad gyda chyfartaledd cyffredinol o 85%. Mae'r ffigurau yn dangos cysondeb mewn presenoldeb o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

4.0 GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim

5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

EITEM RHIF 18

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	12 Mehefin 2024
TEITL	SAFONAU'R IAITH GYMRAEG
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS	Adroddiad Monitro Safonau Iaith Gymraeg yr Awdurdod

1. CEFNDIR

- 1.1 Ar 30 Medi 2015, cyflwynodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau y Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.
- 1.2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y safonau yn unol â gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1. **Bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

3. PAPURAU CEFNDIROL

- 3.1. Safonau'r iaith Gymraeg: Adroddiad Monitro 2023/24.



Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad Monitro 2023/24

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ar y 30ain o Fedi 2015, cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau'r Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.
- 1.2 Fel sy'n ofynnol bob blwyddyn, mae'r Adroddiad Monitro hwn yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ariannol 2023-24, ac yn adrodd ar sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio gyda, ac wedi perfformio yn erbyn bob un o'r 162 o'r Safonau a osodwyd arno.
- 1.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin bob blwyddyn ar gyfer cael ei gymeradwyo, cyn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae cyhoeddusrwydd yn cael ei rhoi i'r Adroddiad Blynyddol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod.
- 1.4 Y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer sydd gyda'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros weithredu'r safonau, a dylid cysylltu yn uniongyrchol trwy yrru e-bost at Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru neu drwy ffonio 01766 772530 i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn.

2. Crynodeb Gweithredol

- 2.1. Gwelwyd trosiant parhaus ymhlith staff ym mlwyddyn ariannol 2023-24, gyda 33 o swyddi newydd neu wag yn cael eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn. Ar y 31ain o Fawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod 149 o staff, ac roedd 142 ohonynt yn gallu cyflawni dyletswyddau eu swydd yn ddwyieithog, sef 95.3%.
- 2.2 Nodwyd yn yr adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf fod recriwtio a chadw staff yn fater o bwys i'r Awdurdod, ac er y cydnabyddir bod hon yn broblem genedlaethol, gyda phob math o sectorau yn cael anawsterau wrth recriwtio ar bob lefel, serch hynny mae'n parhau i fod yn risg i'r Awdurdod.

- 2.3 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhai meysydd gwaith arbenigol yn arbennig o agored i anawsterau recriwtio yn genedlaethol, a gyda'r gofynion iaith ychwanegol sydd gennym, mae'r pŵll recriwtio yn gyfyngedig. Oherwydd hyn, mae'r Awdurdod eleni wedi buddsoddi mewn creu swydd Swyddog Cynllunio Graddedig dan Hyfforddiant sy'n arbenigo yn yr Amgylchedd Hanesyddol.
- 2.4 Roedd y broses recriwtio yn hynod galonogol gyda nifer uchel o ymgeiswyr o ansawdd da wedi ymgeisio am y swydd. Mae hyn wedi dangos i ni fod yna gronfa o bobl ifanc dawnus sy'n siarad Cymraeg allan yna sy'n awyddus i weithio i'r Awdurdod.
- 2.5 Dros y flwyddyn i ddod, y gobaith yw y gellir creu o leiaf un swydd Hyfforddai Graddedig arall yn y gwasanaeth cynllunio, a fydd yn cyfrannu rhywfaint at wella cadernid y tîm yn y dyfodol. Bydd cadarnhad swyddogol o hyn yn ddarostyngedig i asesiad ariannol cadarnhaol.
- 2.6 Gan aros ar y pwnc o recriwtio staff; er bod yr achos prawf oedd i'w gynnal yn y flwyddyn ariannol flaenorol a oedd yn herio gofynion lefel sgiliau Cymraeg rhai swyddi yn wahaniaethol, wedi'i setlo y tu allan i'r llys; rydym yn parhau i gofio'r angen i'n hasesiadau barhau i fod yn gadarn.
- 2.7 Yn dilyn arweiniad pellach gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a oedd yn cynnwys seminar gyda Chyfreithiwr o Darwin Gray; adolygodd yr Awdurdod ei ddefnydd o'i Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg. Er bod y fframwaith yn gadarn a bod asesiadau yn gyson, daeth yn amlwg bod gofynion iaith yn cael eu gosod yn rhy uchel ar gyfer rhai swyddi, na ellid eu cyfiawnhau.
- 2.8 O ganlyniad, lluniodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ddogfen ganllaw fanwl ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a staff allweddol eraill sy'n gyfrifol am asesu anghenion iaith swyddi. Mae'r ddogfen ganllaw newydd hon bellach yn galluogi staff i edrych yn fanylach ar ofynion pob swydd trwy gyfrwng cyfres o gwestiynau. Mae hyn yn galluogi staff i nodi'n fwy cywir y lefel sgil sydd ei hangen ar gyfer pob un o'r 4 elfen – gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.
- 2.9 Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn parhau i gymedroli pob asesiad er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r broses ddiwygiedig bellach yn rhoi mwy o hyder i ni ynghylch cadernid ein hasesiadau, pe bai ni'n derbyn her gyfreithiol yn y dyfodol.
- 2.10 Asesiad arall a adolygwyd eleni oedd y broses o asesu effaith ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Roedd yr Awdurdod wedi bod yn cynnal yr asesiadau hyn fel rhan o asesiad effaith integredig a oedd yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol.

- 2.11 Yn dilyn presenoldeb mewn 2 seminar gyda Gwion Lewis, CB o Landmark Chambers, a drefnwyd eto gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, daeth yn amlwg nad oedd proses asesu'r Awdurdod yn ddigonol.
- 2.12 Roedd proses yr Awdurdod yn cynnwys mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus cyn cynnal asesiad effaith llawn fel y gellid ymgorffori ymatebion. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn glir bod y dull hwn yn annigonol bellach. Dylid cynnal asesiad effaith llawn cyn yr ymgynghoriad fel y gall y cyhoedd weld pa effeithiau a allai fod ar benderfyniad polisi. Yna gellir adolygu'r asesiad hwn ymhellach ar ôl y broses ymgynghori os nodir effeithiau pellach a mesurau lliniaru.
- 2.13 Er nad yw'n anghenraid, mae'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg bellach wedi'i wahanu oddi wrth yr asesiad integredig, a bydd yn ddogfen annibynnol gydag asesiad a dadansoddiad manylach ar gyfer pob penderfyniad polisi.
- 2.14 Ac yn olaf, mae'n bleser nodi bod y flwyddyn lawn gyntaf o ffrydiau a phrosiectau gwaith gwahanol a amlinellir yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg yr Awdurdod ar gyfer 2022 – 27 wedi'i chwblhau. Mae'r Awdurdod yn parhau i integreiddio hyrwyddo'r iaith ymhob agwedd o'i waith, a gobeithiwn y bydd yn cyfrannu at gryfhau'r Gymraeg yn Eryri dros y blynyddoedd i ddod.

3. Safonau Cyflawni Gwasanaeth

- 3.1 Gohebiaeth (Safonau 1-7): Mae'r Awdurdod yn anfon gohebiaeth yn iaith ddewisol y derbynnydd, neu mewn achosion pan nad yw hyn yn hysbys, anfonir fersiwn ddwyieithog o'r ohebiaeth.
- 3.2 Pan anfonir gohebiaeth ddwyieithog, ymdrinnir â'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal drwy sicrhau eu bod yn ymddangos ochr yn ochr (pan fo hyn yn bosibl), gyda'r un ffont a maint yn cael eu defnyddio yn y ddwy iaith. Ar adegau prin pan gynhyrchir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn union yr un fath o ran ffont a maint, gan gynnwys manylion cyswllt, llofnodion ac ati.
- 3.3 Galwadau Ffôn (Safonau 8-22): Mae'r holl staff sy'n gweithio ym mhrif dderbynfeydd yr Awdurdod a'r Canolfannau Croeso yn gwbl ddwyieithog ac yn unol â hynny, yn gallu ymdrin â phob ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg fel pwynt cyswllt cyntaf.
- 3.4 Mae gan yr Awdurdod ddewislen awtomatig ar y prif rif cyswllt, sy'n rhoi dewis i symud ymlaen yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yna rhoddir dewisiadau ar y ddewislen yn yr iaith a ddewiswyd. Mae'r neges a recordiwyd ymlaen llaw ar gyfer galwadau y tu allan i oriau gweithio arferol yn ddwyieithog gyda'r neges yn Gymraeg yn cael ei throsglwyddo yn gyntaf.

- 3.5 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i gyfarch y sawl sy'n ffonio gyda chyfarchiad dwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf) neu gyda chyfarchiad niwtral, gan sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.
- 3.6 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i adael neges ddwyieithog ar eu peiriannau ateb, gyda'r neges yn y Gymraeg yn cael ei chwarae yn gyntaf. I'r rhai nad ydynt wedi gosod neges ar y peiriant ateb, chwaraeir cyfarchiad Cymraeg safonol, a recordiwyd gan un o staff y dderbynfa, yn gofyn i'r galwr adael neges yn lle hynny.
- 3.7 Gan fod y rhan fwyaf o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, ymdrinnir gydag unrhyw alwadau gan siaradwyr Cymraeg ar y pwynt cyswllt cyntaf. O ran y staff nad ydynt yn gwbl abl i gynnal sgwrs lawn yn y Gymraeg yn hyderus, byddant yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr yn ddi-oed.
- 3.8 Cyfarfodydd (Safonau 23-38): Rhaid i bob cyfarfod a drefnir gydag unigolyn gael ei gynnal yn iaith ddewisol yr unigolyn, a bydd y trefniant hwn yn parhau. Ar gyfer cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer grŵp o unigolion, byddant yn cael eu cynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw rai di-Gymraeg sy'n bresennol (oni bai bod yr holl wahoddedigion yn ddi-Gymraeg, ac os felly, cynhelir y cyfarfod yn Saesneg).
- 3.9 Rhaid i bob cyfarfod cyhoeddus o'r Awdurdod gael ei gynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a bydd y trefniant hwn yn parhau.
- 3.10 Mae holl bwyllgorau'r Awdurdod yn hybrid, gan roi'r dewis i'r Aelodau a'r staff i fynychu'n bersonol neu ar-lein. Ar gyfer aelodau'r cyhoedd, mae ganddynt bellach y dewis o arsylwi'r pwyllgorau hyn yn bersonol neu drwy gyfrwng y gwe-ddarllediad byw ar gyfer yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad neu'n ddiweddarach drwy'r sianel YouTube.
- 3.11 Mae pob cyhoeddusrwydd, deunyddiau ysgrifenedig ac unrhyw ddogfennaeth a gynhyrchir gan yr Awdurdod sy'n cael ei ddogfennu mewn digwyddiadau cyhoeddus neu mewn cyfarfodydd yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.
- 3.12 Dogfennaeth Gyhoeddus (Safonau 40-51): Mae holl ddogfennau cyhoeddus yr Awdurdod, gan gynnwys ffurflenni, naill ai'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf neu ar ochr chwith y ddogfen neu'n ddwy ddogfen – gyda'r Gymraeg a Saesneg ar wahân. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn dogfennau ar wahân fel arfer pan gyhoeddir y dogfennau ar y wefan, ac mae brawddeg yn cael ei chynnwys ar y fersiwn Saesneg, yn nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael.

- 3.13 Y Wefan, Apiau a Chyfyngau Cymdeithasol (Safonau 52-59): Mae gwefan ac apiau yr Awdurdod yn gwbl ddwyieithog gyda'r defnyddiwr yn gallu dewis iaith ar y dudalen gartref. Mae botwm togl ar bob tudalen ar y wefan newydd y gellir ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad at yr iaith arall. Mae pob tudalen yn cyfateb yn gyfan gwbl yn y ddwy iaith.
- 3.14 Mae gan yr Awdurdod fersiynau cyfatebol neu ddwyieithog o'i gyfrifon cyfyngau cymdeithasol. Mae pob neges gan yr Awdurdod yn cael eu hailadrodd yn union yr un fath yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr amrywiol safleoedd cyfyngau cymdeithasol, neu'n ddwyieithog mewn rhai achosion. Bydd unrhyw negeseuon a dderbynnir yn Gymraeg trwy gyfyngau cymdeithasol yn cael eu hateb yn y Gymraeg bob amser.
- 3.15 Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 60): Mae holl beiriannau talu ac arddangos yr Awdurdod yn y meysydd parcio yn gallu darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar beiriannau hŷn, mae'r sgrin gychwynnol yn dangos dewis iaith cyn symud ymlaen tra bo'r peiriannau sy'n fwy newydd yn newid iaith bob 3 eiliad.
- 3.16 Arwyddion (Safonau 61-63): Mae pob arwydd sy'n cael ei osod gan yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith.
- 3.17 Gwasanaethau Derbynfa (Safonau 64-68): Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r holl staff sy'n gweithio yn y prif dderbynfeydd neu yn y Canolfannau Croeso yn gwbl ddwyieithog. Mae'r logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei arddangos ym mhob derbynfa i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac mae gan bob un o staff y dderbynfa fathodynau 'Iaith Gwaith'.
- 3.18 Hysbysebion Swyddogol (Safonau 69-70): Pan fo'r Awdurdod yn cyhoeddi neu'n arddangos Hysbyseb Swyddogol maen nhw'n hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith.
- 3.19 Cynlluniau Grant (Safonau 71-75): Mae'r Awdurdod yn gweinyddu sawl cynllun grant, sef
- Cronfa Partneriaeth Eryri;
 - Grantiau adeiladau yn Nolgellau trwy gyfrwng Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau;
 - Cronfa Cymunedol y Carneddau sy'n cael ei ariannu gan Chronfa Treftadaeth y Loteri; ac
 - Cronfa Coedwigoedd Glaw Celtaidd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa LIFE yr Undeb Ewropeaidd.
- 3.20 Mae'r holl ddogfennau, gan gynnwys y ffurflenni cais a'r nodiadau cyfarwyddyd yn gwbl ddwyieithog, ac mae'r ohebiaeth yn cael ei chynnal yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu'n ddwyieithog.

- 3.21 Yn ogystal, ar gyfer y grantiau hynny sydd ar gyfer prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gosodir amodau ar y grant i sicrhau bod yr holl weithgareddau a dogfennaeth a ariennir gan y grantiau yn gwbl ddwyieithog. Mae gan yr Awdurdod Bolisi Dyfarnu Grantiau ffurfiol mewn perthynas â'r goblygiadau iaith Gymraeg yn ei le.
- 3.22 Tendrau Cytundebau/ Contractau: Mae pob Hysbysiad Cyhoeddus fel Gwahoddiadau i Dendro neu ar gyfer Mynegi Diddordeb yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Maent hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan GwerthwchiGymru yn ddwyieithog.
- 3.23 Mae'r holl geisiadau a dderbyniwyd yn Gymraeg wedi cael eu prosesu a'u trin yn yr un modd â'r ceisiadau yn Saesneg, a gohebir yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu'n ddwyieithog.
- 3.24 Hunaniaeth Gorfforaethol a Hyrwyddo Gwasanaethau (Safonau 81-83): Bu hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog ers y dechrau un, gyda'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb. Sicrhawn fod unrhyw newidiadau neu ail-frandio hunaniaeth gorfforaethol yn y dyfodol yn un ai glynu at yr egwyddor sylfaenol hon neu defnyddir y Gymraeg yn unig mewn perthynas â'r enw Eryri (Snowdonia).
- 3.25 Nid yw'r Awdurdod yn darparu'r un gwasanaethau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond yn hytrach yn cynnig gwasanaeth dwyieithog gydag un pwynt cyswllt. Mae unrhyw waith hyrwyddo'r gwasanaethau felly yn cael ei wneud yn ddwyieithog, oni bai defnyddir rhai sianeli cyfryngau cymdeithasol, i gyd fynd â hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod, sy'n sicrhau fod yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb.
- 3.26 Cyrsiau Addysg (Safonau 84-86): Nid yw'r Awdurdod bellach yn rhedeg cyrsiau addysg gyhoeddus ym Mhals Tan y Bwlch. Felly nid yw'r safon hon yn berthnasol i'r Awdurdod mwyach.
- 3.27 Y System Annerch Gyhoeddus (Safon 87): Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod unrhyw systemau annerch cyhoeddus ar waith ar draws ei adeiladau.
- 3.28 Cwynion perthnasol i Gydymffurfio â'r Safonau Cyflawni Gwasanaeth
Yn ystod y flwyddyn ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflawni Gwasanaethau.

4. Safonau Gwneud Polisi

- 4.1 Ffurio Polisi a'r Ymgynghori Cysylltiol (Safonau 88-93): Gyda phob polisi newydd* sy'n cael ei ddatblygu (neu os yw polisi presennol yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau) ymgymerir â phroses sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses. Mae'r broses asesu effaith integredig hon wedi cael ei ehangu i ymgorffori'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd.
**Mae Polisi yn cael ei ddiffinio yn ei gyd-destun ehangach i gynnwys cynlluniau a strategaethau.*
- 4.2 Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn mae'r broses hon wedi'i hadolygu a'i haddasu yn dilyn gwybodaeth bellach a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn 2 ddigwyddiad ar-lein lle cafwyd cyngor cyfreithiol ac ymarferol gan Fargyfreithiwr, mae swyddogion bellach wedi dod i ddeall y ffordd orau o gynnal asesiadau effaith ystyrlon a chynhwysfawr ar y Gymraeg wrth ddatblygu polisiâu newydd. O ganlyniad, nid yw'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg bellach wedi'i integreiddio â'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol, ond yn hytrach yn asesiad effaith annibynnol.
- 4.3 Y newid mwyaf i'r broses yw bod yr asesiad effaith yn cael ei gynnal yn llawn cyn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Yna caiff ei ddiwygio ymhellach os yw ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu ardrawiadau pellach a'u heffeithiau. Fel y bu erioed, bydd Aelodau'r Awdurdod hefyd yn cael cyfle i graffu ar y polisi arfaethedig ar wahanol adegau yn ystod y broses hon. Os canfyddir unrhyw effeithiau negyddol, gwneir gwaith pellach i nodi mesurau lliniaru. Byddai gan yr aelodau ran llawn yn y penderfyniad sydd a wnelo a yw'r mesurau lliniaru yn debygol o fod yn ddigonol a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r polisi neu beidio.
- 4.4 Mae Dogfen Ganllaw ar gyfer staff yn ei lle sy'n amlinellu'r gofyniad i ofyn cwestiynau penodol ynglŷn ag ardrawiad / effaith (naill ai cadarnhaol neu negyddol) unrhyw gynnig ar y Gymraeg, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd i hybu'r iaith, ac fe aiff hwn allan gyda'r copi o'r asesiad effaith. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys enghreifftiau o eiriad priodol i'w ddefnyddio mewn gwahanol ddogfennau ymgynghori, sydd wedi'u dosbarthu i holl wasanaethau'r Awdurdod.
- 4.5 Dyfarnu Grantiau a Chomisiynu Ymchwil a Phrosiectau (Safonau 94-97): Mae'r angen i ystyried yr effaith (boed hynny'n negyddol neu'n gadarnhaol) ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei integreiddio'n llawn i mewn i brosesau'r gronfa gomisiynu, Cronfa Eryri. Bydd amodau ychwanegol o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg, yn parhau i fod yn rhan o ofynion y gronfa.

- 4.6 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi
Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi.

5. **Safonau Gweithredu**

- 5.1 Ar 31 Mawrth 2024, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 149 aelod o staff; mae 142 o'r rheiny'n ddwyieithog, sy'n cynrychioli 95.3%.
- 5.2 Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol (Safon 98): Ers iddo gael ei sefydlu, mae'r Awdurdod wedi sefydlu trwy arferiad a gweithrediad mai'r Gymraeg yw'r brif iaith gyfathrebu fewnol, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio fel bo'r angen. Mae polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn awr yn ei le, sy'n ffurfioli'r arfer ac i gynorthwyo staff newydd gyda disgwiliadau gweithredol.
- 5.3 Dogfennaeth Staff (Safonau 99-104): Mae gan yr Awdurdod bolisi cwbl ddwyieithog yn ei le ar gyfer yr holl faterion adnoddau dynol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod pob dogfen sy'n ymwneud â chyflogaeth unigolyn yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg yn safonol a'i rhoi i bob aelod o staff. Mae staff yn gallu gwneud cais i gael fersiwn Saesneg os dymunant. Mae unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon allan o bryd i'w gilydd gan y gwasanaeth adnoddau dynol at aelodau unigol o staff hefyd yn cael ei pharatoi'n Gymraeg yn unig fel rheol, ac yn achlysurol yn ddwyieithog.
- 5.4 Polisiau Adnoddau Dynol (Safonau 105-111): Mae pob polisi adnoddau dynol yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog yn safonol.
- 5.5 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu (Safonau 112-119): Mae croeso i staff ohebu trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ac ni fyddai unrhyw oedi cyn ymateb i ohebiaeth sy'n dod i law yn y naill iaith na'r llall. Mae pob gwrandawriad disgyblu neu apeliadau yn cael eu cynnal yn iaith ddewisol yr aelod o staff dan sylw, ynghyd â phob dogfennaeth a gohebiaeth berthnasol.
- 5.6 Meddalwedd Cyfrifiadurol (Safon 120): Mae meddalwedd Cysgliad wedi ei osod yn safonol ar bob cyfrifiadur a gliniadur staff, er mwyn gwirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg.
- 5.7 Mewnrwyd Staff (Safonau 121-126): Mae'r holl bolisiau a dogfennau sy'n cael eu uwchlwytho ar y fewnrwyd yn ddwyieithog neu gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.8 Asesiad Sgiliau (Safon 127): Ceir data o'r asesiad sgiliau staff yn Atodiad 1.
- 5.9 Hyfforddiant (Safonau 128-133): Darperir cyrsiau hyfforddiant cyffredinol trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser lle bo'n bosibl. Yn ystod 2023-24, mynychodd 25 aelod o staff gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

- 5.10 Rhoddir cymorth i weithwyr nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n llawn yn Gymraeg neu sydd angen gwella eu sgiliau er mwyn bodloni gofynion y swydd i fynychu cyrsiau a hyfforddiant Cymraeg, y gellir eu cyflawni yn ystod amser gwaith. Mynychodd dau aelod o staff gyrsiau Cymraeg/gloywi iaith yn ystod y flwyddyn ac ymgymerodd un arall hyfforddiant ar-lein.
- 5.11 Llofnodion E-byst a Manylion Cyswllt (Safonau 134-135): Mae'r Awdurdod yn defnyddio bathodyn 'Iaith Gwaith' ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'w osod fel rhan o'r llofnod e-bost. Mae'r holl fanylion cyswllt sy'n cael eu darparu fel rhan o'r llofnod yn hollol ddwyieithog, fel sy'n ofynnol yn y daflen 'Cyfathrebu'n Glir', yr arweinlyfr staff ar safonau gwasanaeth cwsmeriaid ac arddull safonol.
- 5.12 Swyddi Gwag a Recriwtio (Safonau 136-140): Yn ystod 2023-24, hysbysebwyd 33 swydd wag. Roedd bob un o'r swyddi yn nodi fod y Gymraeg yn hanfodol.
- 5.13 Datblygwyd fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ar ddechrau 2020, sy'n graddio'r lefel sgil sydd ei hangen ym mhob swydd o 0 hyd at 5+ mewn 4 prif gategori, sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn sgorio bob swydd wag neu newydd gyda'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn cymedroli bob sgôr, cyn iddo fynd i'r Tîm Rheoli am ganiatâd terfynol. Cyn cyflwyno cais, mae ymgeiswyr bellach yn ymwybodol o'r union lefel o sgil sydd ei angen ar gyfer y swydd.
- 5.14 Yn ystod y flwyddyn cynhyrchwyd templed newydd mwy cynhwysfawr ar gyfer asesu lefelau sgiliau pob swydd ynghyd â dogfen ganllaw fanwl. Nod hyn yw rhoi mwy o wybodaeth i benaethiaid gwasanaeth am y gwahanol agweddau i'w hystyried wrth asesu lefel sgil priodol, a chael cyfiawnhad manylach ar gyfer pob sgôr sy'n rhoi trywydd archwilio clir.
- 5.15 Mae pob hysbyseb recriwtio yn cael ei hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol gwahanol. Yn dibynnu ar y sianel, mae'r swyddi naill ai'n ddwyieithog neu'n cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân ond bob amser yn cael eu postio gyda'i gilydd yn ddieithriad. Mae'r Awdurdod yn defnyddio Webrecruits i dderbyn a phrosesu ceisiadau, sy'n caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau ar-lein. Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn ddwyieithog e.e. ffurflen gais, disgrifiad swydd, manyleb person a ffurflen monitro cydraddoldeb. Cynhelir cyfweliadau swyddi yn Gymraeg.
- 5.16 Mae system Webrecruits yn anfon e-bost at ymgeiswyr am swyddi os ydynt wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais ac nad ydynt wedi cael eu dewis ar gyfer cyfweliad. Mae'r e-bost hwn yn Gymraeg a Saesneg. Anfonir llythyrau neu e-byst at ymgeiswyr am swyddi yn eu hysbysu o ganlyniad eu cyfweliad yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

- 5.17 Arwyddion Mewnol ac Anerchiadau (Safonau 141-144): Mae pob arwydd sy'n cael ei osod gan yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Nid oes gan yr Awdurdod system anerchiadau mewnol ar hyn o bryd.
- 5.18 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â Safonau Gweithredu
Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

6. Safonau Hybu

- 6.1. Hybu'r Iaith Gymraeg (Safonau 145-146): Ar yr 22ain o Fawrth 2023 mabwysiadodd Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod Strategaeth newydd ar gyfer Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod nesaf o bum mlynedd.
- 6.2 Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i "o leiaf gynnal y nifer presennol o siaradwyr Cymraeg yn Eryri, ac i weithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus i gynyddu'r niferoedd dros y 5 mlynedd nesaf".
- 6.3 Fel y dangosodd ein Strategaeth flaenorol, er na allwn gysylltu effaith ein gweithgareddau hybu'r Gymraeg yn uniongyrchol gyda nifer y siaradwyr Cymraeg yn Eryri, mae digon o waith cadarnhaol y gallwn ei wneud o hyd a fydd yn dylanwadu ar y nifer cyffredinol. Gyda hyn mewn golwg, rydym hefyd wedi gosod ail darged o gynyddu nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Eryri. Mae'r targed hwn yn ystyrlon ac yn fesuradwy ac o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

7. Safonau Cadw Cofnodion a Safonau Atodol

- 7.1 Cadw Cofnodion am Gydymffurfiaeth gyda'r Safonau (Safonau 147-176): Cynhyrchwyd dogfen o'r enw 'Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri', sydd ar gael yn swyddfeydd yr Awdurdod ac ar y wefan. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r holl Safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod lynu atynt ac mae'n nodi sut y gall aelodau o'r cyhoedd gwyno ynghylch sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau neu unrhyw agwedd o'r gwasanaeth iaith Gymraeg a gynigir gan yr Awdurdod.
- 7.2 Mae'r Awdurdod wedi cadw cofnodion o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r Safonau, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg.
- 7.3 Mae'r Awdurdod bob amser yn ymateb yn brydlon i bob cais gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am dystiolaeth pan gynhelir archwiliadau cydymffurfio.

ATODIAD 1

1. Lefelau Sgiliau Staff - Trosolwg

Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfarwyddiaeth			
	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Corfforaethol	76	74	97%
Cynllunio a Rheoli Tir	73	68	93%

Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl graddfa'r swydd			
	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Tîm Rheoli	3	3	100%
Penaethiaid Gwasanaeth	12	12	100%
Graddfa 7+	77	72	93%
Hyd at Radd 6	57	55	96%

Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gweithle			
	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Pencadlys	98	92	94%
Canolfannau Croeso	11	11	100%
Staff Allanol	30	30	100%
Plas Tan y Bwlch	10	9	90%

2. Lefelau Sgiliau Staff yn ôl Gwasanaeth

Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol

Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg			
Adran	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Tîm Rheoli	3	3	100%
Cyllid	4	4	100%
Adnoddau Dynol	4	4	100%
Gweinyddol & Gofal Cwsmer	9	9	100%
Systemau Gwybodaeth	5	4	80%
Eiddo	7	7	100%
Cyfreithiol	1	1	100%
Communication	6	6	100%
Plas Tan y Bwlch	10	9	90%
Wardeinio	27	27	100%

Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth, yn ôl graddfa'r swydd, sy'n gallu siarad Cymraeg			
Adran	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Prif Weithredwr	1	1	100%
Cyfarwyddwyr	1	1	100%
Penaethiaid Gwasanaeth	7	7	100%
Graddfa 7+	32	31	97%
Hyd at Radd 6	35	34	97%

Cynllunio a Rheoli Tir

Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg			
Adran	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Cyfarwyddwr	1	1	100%
Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth	13	10	77%
Polisi Cynllunio	4	4	100%
Treftadaeth Ddiwylliannol	14	14	100%
Cadwraeth, Coed ac Amaethyddiaeth	22	20	90%
Canolfannau Croeso	11	11	100%
Partneriaethau	8	8	100%

Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth, yn ôl graddfa'r swydd, sy'n gallu siarad Cymraeg			
Adran	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Cyfarwyddwr	1	1	100%
Pennaeth Gwasanaeth	5	5	100%
Graddfa 7+	45	41	91%
Hyd at Radd 6	22	21	95%

3. Lefelau Sgiliau Staff – Derbynfya

Nifer a % y swyddi yn y prif dderbynfeydd sydd wedi'u dynodi'n 'Cymraeg yn hanfodol' ac a gafodd eu llenwi gan staff dwyieithog.			
Adran	Nifer y Staff	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	%
Pencadlys	6	6	100%
Plas Tan y Bwlch	1	1	100%
Canolfannau Croeso	8	8	100%

CYFARFOD	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
DYDDIAD	12fed Mehefin 2024
TEITL	ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN ERYRI 2023
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Partneriaethau
PWRPAS	Adrodd ar y trydydd flwyddyn o weithredu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi cynllun i ddarparu rheolaeth effeithiol sy'n cynnwys pawb sy'n ymwneud â dyfodol Eryri. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i ofalu am Barc Cenedlaethol Eryri.
- 1.2 Er mwyn cynnwys partneriaid allweddol yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun, mae Fforwm Eryri yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n gyfle i bawb sy'n ymwneud â llunio dyfodol Eryri i gadarnhau eu hymagwedd tuag at gydweithio yn y rhanbarth a thu hwnt. Drwy'r diben hwn, mae'r Fforwm yn darparu ffordd newydd o weithio gyda phartneriaid perthnasol i gyflawni dyletswyddau Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995.
- 1.3 Ym mis Hydref 2020 mabwysiadodd yr aelodau Gynllun Eryri fel Cynllun Rheoli (Partneriaeth) newydd y Parc Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 2020-25.
- 1.4 Ers hynny, mae Partneriaid wedi bod yn rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith ac yn adrodd yn ôl i'r Pennaeth Partneriaethau ac yng nghyfarfodydd chwarterol Fforwm Eryri.
- 1.5 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n themâu ac mae'n dair adran - sy'n ymwneud â dau bwrpas statudol a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- 1.6 Yr Adroddiad Monitro Blynyddol amgaeedig (Atodiad 1) yw'r trydydd o'i fath ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng **Ionawr a Rhagfyr 2023**.
- 1.7 Bydd adolygiad o fersiwn gyfredol Cynllun Eryri yn 2025, a bydd Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2025-30 yn cael ei gynhyrchu i'w fabwysiadu gan Bartneriaid ac Aelodau.

2. ADRODDIAD CYNNYDD

- 2.1 Mae'r Adroddiad amgaeedig yn dechrau gyda Chyflwyniad a Chrynodeb Gweithredol.
- 2.2 Mae adroddiad llawn yn dilyn lle mae pob Canlyniad yn cael ei asesu mewn perthynas â'r Mesurau Llwyddiant fel sydd wedi ei gytuno gan yr holl Bartneriaid yng Nghynllun Gweithredu gwreiddiol Cynllun Eryri.
- 2.3 Mae pob Canlyniad yn dechrau gydag asesiad cyffredinol, sydd wedi'i liwio yn ôl system goleuadau traffig. Rhoddir ystyriaeth i ba un a yw'r amserlen wreiddiol yn dal yn berthnasol, a beth (os o gwbl) a allai atal y Cam Gweithredu rhag cael ei gyflawni erbyn 2025.
- 2.5 Isod mae nodyn atgoffa manwl o'r Cynllun Gweithredu sy'n ymwneud â'r Canlyniad hwn a diweddariad ar gynnydd gan yr holl bartneriaid perthnasol.
- 2.6 Yn ei trydydd flwyddyn o weithredu, mae cryn gynnydd wedi ei wneud ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri.
- 2.7 Bydd angen i adroddiad 2024 gynnwys unrhyw Gamau Gweithredu i'w dwyn ymlaen i'r fersiwn newydd o Gynllun Eryri ar gyfer 2025-30.

3. PWYNTIAU ALLWEDDOL I'W NODI

- 3.1 Mae'n deg dod i'r casgliad bod cynnydd wedi'i gyflawni wedi tair mlynedd o weithredu – mewn amgylchiadau heriol - ym mhob Canlyniad ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri.
- 3.2 Serch hynny, bu angen adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau yn rhai o fanylion y Cynllun Gweithredu, sydd hefyd wedi golygu bod amserlenni wedi'u hailasesu.
- 3.3 *Canlyniad 2.1 Cydweithio i gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd a rhywogaethau yw'r unig Ganlyniad nad yw wedi'i ddatblygu'n llawn eto, oherwydd y trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector Amaethyddol ar Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Serch hynny, mae'r geiriad wedi'i ddiwygio a'i gymeradwyo gyda Phartneriaid ym mis Mai 2023 a chynhaliwyd trafodaethau manwl ym mis Rhagfyr 2023 ar y ffyrdd posib ymlaen. Mae hyn yn enghraifft o Ganlyniad y bydd angen ei gynnwys yn y cynllun rheoli newydd, oherwydd blaenoriaethau newidiol yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn wleidyddol.*
- 3.4 *Canlyniad 1.5 Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ynghlwm wrth weithgareddau hamdden, a'r Cam Gweithredu i: Gweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau agwedd gydlynol ar gyfer sicrhau rheolaeth gynaliadwy dros ddigwyddiadau a drefnir – angen arweiniad i yrru'r broses yn ei blaen. Mae partneriaeth gychwynnol wedi'i ffurfio ac mae trafodaethau yn*

cael eu cynnal, ond bydd angen adolygu'r Cam Gweithredu hwn hefyd a'i ddwyn ymlaen i fersiwn newydd y Cynllun Rheoli.

- 3.5 Mae *Canlyniad B1: Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith bositif ar lesiant* yn enghraifft lle mae Partneriaid yn cyflawni y tu hwnt i'r Camau Gweithredu a Mesuriadau Llwyddiant mabwysiedig.
- 3.6 Mae *Canlyniad C1: Iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau*, yn enghraifft bellach o ble mae Partneriaid yn cyflawni y tu hwnt i'r Mesurau Llwyddiant mabwysiedig. Nid yw hynny'n golygu nad oes gwaith pwysig i'w wneud o hyd ar y ddau bwynt blaenorol.
- 3.7 Bydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2024 yn parhau i ystyried unrhyw risgiau a allai ddylanwadu ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu llawn erbyn 2025, a nodi'r Canlyniadau a'r Camau Gweithredu hynny y bydd angen eu cynnwys yn y fersiwn newydd o Gynllun Eryri 2025-30.
- 3.8 Mae'n werth nodi yma y bydd 2025 yn gweld cyfres o weithdai a sesiynau trafod i gytuno ar Gynllun Gweithredu diwygiedig a bydd Aelodau'n gallu bwydo i'r broses hon yn rheolaidd.

ARGYMHELLION

Bod yr aelodau yn:

1. Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflawni Cynllun Eryri; a
2. Darparu argymhellion pellach ynghylch fformat yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2024

Atodiad 1: Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Eryri 2023

CYNLLUN

ERYRI

CYNLLUN PARTNERIAETH PARC CENEDLAETHOL ERYRI

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2023

CYNLLUN ERYRI – ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2023

Mabwysiadwyd Cynllun Eryri gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ei Gynllun Rheoli (Partneriaeth) statudol ym mis Hydref 2020 ac fe'i lansiodd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020. Dyma'r trydydd adroddiad o gynnydd blynyddol yn casglu mewnbwn gan yr holl Bartneriaid o fis Ionawr i Ragfyr 2023. Gellir gweld adroddiadau blynyddol blaenorol ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri [yma](#).

Er bod 2023 yn parhau i fod yn heriol i'r holl Bartneriaid, wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad yma mae'n amlwg bod enghreifftiau rhagorol o waith sy'n cael ei wneud tuag at nodau Cynllun Eryri yn parhau i ddatblygu'n ar draws y rhanbarth. I weld cipolwg o'r rhain, ewch i feicrowefan Cynllun Eryri [yma](#):
Cynllun Eryri

Partneriaethau

Wrth gyflawni Cynllun Eryri, yn ogystal â Fforwm Eryri, mae sawl Partneriaeth arall yn bodoli sy'n gweithio tuag at yr amcanion a osodwyd, megis:




Partneriaeth Yr Wyddfa: Gwirfoddolwyr a Chymdeithas Marchnata Betws y Coed; Cyfoeth Naturiol Cymru; Cymdeithas Eryri; FUW; CLA; Partneriaeth Awyr Agored; Cyngor Gwynedd; Cyngor Conwy; Ymddiriadolaeth Genedlaethol; Cymdeithas Twristiaeth Beddgelert; Eryri Bywiol; Hwb Eryri; Rheilffordd Yr Wyddfa; Tîm Achyb Mynydd; NFU; Bukeley Estates; YHA Pen y Pass.

Partneriaeth Y Carneddau: Prif bartner APCE; Partneriaid craidd: Cadw, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Eryri. Partneriaid cyflawni: Abergwyngregyn Regeneration Company; Prifysgol Bangor; Cyngor Mynydd Prydain; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Canolfan Diwylliant Conwy); Cyngor Gwynedd; Cymdeithas Enwau Lleoedd; Ymddiriodolaeth Archeolegol Gwynedd; Yr Ymddiriadolaeth Genedlaethol; Cyfoeth Naturiol Cymru; Partneriaeth Awyr Agored; Partneriaeth Ogwen; Cymdeithas Hanes ac Amgueddfa Penmaenmawr; Plantlife Cymru; PONT Cymru; RSPB; Eryri Bywiol; Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; Cymdeithas; Eryri; Prifysgol Sheffield; Partneriaid ehangach: Cymdeithas Merlod y Carneddau; Undeb Amaethwyr Cymru; NFU Cymru;

Partneriaeth Cwm Idwal Partnership, Prif bartner YG: SNPA & NRW

UE Prosiect Coedwigoedd Glaw LIFE, Prif bartner APCE: Llywodraeth Cymru, RSPB Cymru a Choed Cadw.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf yn adlewyrchu'r anawsterau symud ymlaen â gwaith ar lawr gwlad oherwydd y cyfyngiadau a gychwynnwyd gan bandemig Covid-19. Ailaseswyd nifer o linellau amser yn unol â hynny a mabwysiadwyd y mesuriadau goleuadau traffig isod i adlewyrchu hyn. Mae'r system hon yn dal yn berthnasol i adlewyrchu a yw pob amcan ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni o fewn amserlen y cynllun cyffredinol h.y. erbyn 2025.

Statws:  Wedi symud ymlaen, o fewn y llinell amser wreiddiol  Wedi symud ymlaen, llinellau amser wedi ei hailasesu  Heb symud ymlaen a/neu mewn perygl

Byrfoddau a ddefnyddir ar gyfer partneriaid cyflawni:

Cadw	Ymddiriedolaeth Genedlaethol: YG
Coleg Glynllifon: CoG	Cyfoeth Naturiol Cymru: CNC
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: CBSC	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru: YNGC
Cymdeithas Tir A Busnes Cefngwlad: CLA	Partneriaeth Awyr Agored: PAA
Cymdeithas Eryri / Snowdonia Society: CESS	Iechyd Cyhoeddus Cymru: ICC
Cyngor Gwynedd: CG	RSPB
Undeb Amaethwyr Cymru: UAC	Eryri Bywiol: SA/EB
Ffederasiwn Busnesau Bach: FSB	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: APCE
Grŵp Cynefin	Special Area of Conservation (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau: PLAS
Ymddiriedolaeth John Muir: JMT	Coed Cadw: WT/CC
Undeb Amaethwyr Cenedlaethol: NFU Cymru	

Crynodeb gweithredol

Yn ei drydydd flwyddyn o weithredu, gwnaed cynnydd sylweddol ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri. Mae'r adroddiad yn manylu ar gynnydd yr holl bartneriaid cyflenwi, ond yn fyr, rhwng Ionawr – Rhagfyr 2023 gellir dod i'r casgliadau canlynol:

Adran A Amgylchedd Eryri: Rydym yn gofalu'n llwyddiannus am ein hasedau naturiol a hanesyddol a'n hamgylchedd trawiadol.

- Canlyniad A1: Cyflawnir egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy - mae 4 cam gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol a osodwyd ac mae 1 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.
- Canlyniad A2 Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cadernid ecosystemau - mae 3 cham gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol ac mae 2 yn cael eu symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.
- Canlyniad A3: Rydym yn barod am effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau ein hól troed carbon – mae'r ddau gam gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac o fewn y llinell amser wreiddiol.
- Canlyniad A4: Mae Eryri ar y blaen yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael â lledaeniad rhywogaethau goresgynnol a phlâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol - mae pob un o'r 3 cham gweithredu wedi'u symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol a osodwyd.
- Canlyniad A5: Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol - mae'r ddau gam gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac o fewn y llinell amser wreiddiol a osodwyd.
- Canlyniad A6: Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw yng Nghymru o sut i ofalu am a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol – mae'r 3 cham gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol.
- Canlyniad A7: Mae ein Rhinweddau Arbennig wedi'u diogelu'n dda - mae 5 cham gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol ac mae un yn mynd rhagddynt gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.

Adran B: Iechyd a Llesiant Eryri: Cyfleoedd i ddysgu a darganfod, ac ar yr un pryd wella ein llesiant.

- Canlyniad B1: Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith bositif ar lesiant - mae 2 gam gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol a osodwyd a chyflawnwyd 1.
- Canlyniad B2: Gall preswylwyr ac ymwelwyr ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol gyda golwg ar wella iechyd y corff a'r meddwl - mae 2 gam gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol a osodwyd ac mae 1 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.
- Canlyniad B3: Mae ein Rhinweddau Arbennig yn cael eu cydnabod a'u deall yn eang - mae'r 3 cham gweithredu yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.
- Canlyniad B4: Cyflawnir opsiynau cynaliadwy ar gyfer parcio a chludiant - mae un cam gweithredu yn cael ei symud ymlaen ac mae o fewn y llinell amser wreiddiol ac mae un yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.
- Canlyniad B5: Mae ein cyfleusterau i ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn sensitif i'r dirwedd - mae 1 cam gweithredu yn cael ei symud ymlaen o fewn y llinell amser wreiddiol, ac mae 2 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.




Adran C: Cymunedau ac Economi Eryri: Lle gwych i ddatblygu, byw a gweithio ynddo

- Canlyniad C1: Mae iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau - mae'r 3 cham gweithredu yn cael eu datblygu ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol a osodwyd.
- Canlyniad C2: Mae swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i aros yn yr ardal - mae 1 cam gweithredu yn cael ei symud ymlaen ac mae o fewn y llinell amser wreiddiol ac mae 2 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.
- Canlyniad C3: Rydym yn gweithredu atebion ar gyfer tai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu - mae 2 gam gweithredu yn cael eu symud ymlaen ac maent o fewn y llinellau amser gwreiddiol a osodwyd ac mae 1 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.
- Canlyniad C4: Cefnogir cymunedau lleol i ffynnu ym mhob agwedd ar lesiant - mae'r 2 gam gweithredu yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hailasesu.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Ganlyniadau sydd wedi'u hasesu fel rhai *Heb eu symud ymlaen a/neu mewn perygl*. Mae'n deg felly dod i'r casgliad y cafwyd cynnydd ym mhob maes o Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri yn y flwyddyn 2023.

Mae adroddiad manwl o gynnydd gan yr holl Bartneriaid yn dilyn gyda throsolwg ac asesiad ar ddechrau pob Canlyniad

Statws:

-  **Wedi symud ymlaen, o fewn y terfynau amser gwreiddiol**
-  **Symud ymlaen gydag amserlenni / llinellau amser wedi'u hail asesu**
-  **Heb ei symud ymlaen a / neu mewn perygl**

CANLYNIAD A1

Cyflawnir egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydym



A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri wedi'i fabwysiadu yn 2023 – Partneriaeth a Chynllun Gweithredu i'w sefydlu: angen ymrwymadau capasiti ac adnoddau sylweddol.
- Bydd angen buddsoddiad parhaus gan LIC/TrC a chytundebau partneriaeth i barhau i gyflwyno'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth – asesiad blynyddol o'r sefyllfa hon.
- Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig wedi'i ariannu tan 2024.
- Mae Mae angen arweinyddiaeth a dull Partneriaeth newydd er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o reoli digwyddiadau a drefnir mewn ffordd gynaliadwy.

Casgliad:

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A1. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
A1.1		<p>Datblygu egwyddorion arweiniol a throthwyon ar gyfer effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r tirwedd. Bydd yr egwyddorion yn dangos lle bydd angen camau pellach ar ffurf cynllun rheoli ardal.</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu map gwres Archwilio ymarfer gorau mewn ardaloedd eraill Diffinio trothwyon ac egwyddorion Dewis ardaloedd treialu er mwyn peilotio'r cynllun Lle bydd yr amgylchedd yn caniatáu ac awydd gan aelodau'r gymdeithas i gynyddu nifer yr ymwelwyr, archwilio dewisiadau ar gyfer ail ddsbarthu ymwelwyr i ffwrdd o ardaloedd sy'n cael eu gorlenwi. 	<p>Erbyn diwedd 2021 caiff map gwres ei gynhyrchu, caiff trothwyon ac egwyddorion eu diffinio. Caiff sail resymegol, methodoleg a chanlyniadau eu cyflwyno mewn adroddiad canfyddiadau. Caiff strategaethau eu sefydlu ar sail egwyddorion arweiniol y cytunir arnynt.</p>	<p>APCE CNC Fforwm Eryri Cyngor Gwynedd CBC Conwy</p>
<p>Adroddiad cynnydd: APCE: Lansiwyd Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy ar gyfer 2035 gan Gyngor Gwynedd ac Eryri ym mis Medi 2023. Mae mesuryddion holistaidd ar gyfer effeithiau twristiaeth yn cael eu datblygu mewn partneriaeth rhwng APCE a CG. Mae egwyddorion ar gyfer yr economi ymweld cynaliadwy wedi cael eu datblygu drwy enghreifftiau arfer da ac ymgynghori helaeth - mabwysiadwyd y rhain yn swyddogol gan CG ac APCE. Mae Partneriaeth yn cael ei datblygu i greu Cynllun Gweithredu blynyddol gyda'r nod o gyflawni'r egwyddorion cyffredinol.</p> <p>CBSC: Lansiwyd y Cynllun Rheoli Cyrchfan diwygiedig ar ddiwedd 2023. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn rhoi mwy o bwyslais ar gydbwysio anghenion y preswlydd ag anghenion yr ymwelydd, a fydd yn ein helpu ni i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy. Rydym bellach yn y broses o ddatblygu Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r strategaeth. Mae APCE yn aelod o'r grŵp sy'n gweithio ar hyn ac maent wedi'u cynnwys ym mhob cyfarfod hyd yma.</p> <p>Bu CNC yn gweithio gyda Natural England ar gyhoeddiadau newydd ac asedau ffilm ynghylch y Cod Cefn Gwlad.</p> <p>Bydd BMC yn rhannu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Arweinlyfr Gwyrdd i'r Ucheldir ac yn parhau i ddatblygu'r gyfres 'parchu'r gwyllt'.</p>				
A1.2		<p>Sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith ar sail nifer y rhai sydd yn defnyddio'r llwybrau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Sefydlu grŵp gweithredol aml-sefydliad i gydlynu rheolaeth Parhau i gyllido ac archwilio ffynonellau newydd (e.e. rhoddion) Cynyddu'r defnydd o wirfoddolwyr ar gyfer gwaith cynnal a chadw Sefydlu perthynas gyda chontractwyr lleol ar gyfer gwaith mwy arbenigol 	<p>Cynhelir asesiadau cynnydd, caiff gwaelodlinau eu sefydlu a chaiff ffynonellau cyllid eu meintoli.</p>	<p>APCE Ymddiriedolaeth Genedlaethol CNC Cymdeithas Eryri Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Gwynedd Grwpiau Gwirfoddol Ramblers Cymru</p>


Adroddiad cynnydd: APCE: Mae'r Gwasanaeth Wardeiniaid yn asesu ac yn archwilio llwybrau gan ddefnyddio'r system rheoli llwybrau. Mae unrhyw waith llwybr, cynnal a chadw, gwelliannau neu brosiectau yn cael eu blaenoriaethu gan grŵp mewnol sydd yn cyfarfod â phartneriaid allanol. Gweithir mewn partneriaeth gyda'r YG i gynnig cwrs hyfforddi pitsio i gontractwyr lleol yn 2024.

CESS: mae 28km o lwybrau troed yn cael eu cynnal (clirio ac atgyweirio arwynebau, clirio ffosydd a draeniau), gan gynnwys Yr Wyddfa gydag APCE. Fe wnaethon ni drefnu 7 digwyddiad gwahanol a chafwyd 226 o oriau gwirfoddolwyr.

CNC: Trafodaethau GNG Cwm Idwal ynghylch y bont dros yr afon i Idwal i gynnal mynediad ar lefel is. Mae hyn yn y cyfnod Cynllunio a Dylunio ar hyn o bryd.

CBSC - Mae Cefn Gwlad wedi cael trafferth ariannu cynnal a chadw llwybrau'r ucheldir y tu allan i CLG presennol PCE. Wedi cael effaith negyddol ar Fynydd Conwy, sy'n warchodfa rhostir iseldir a reolir a chomin sy'n pontio â ffin PCE. Mae angen mwy o gefnogaeth yn y dyfodol os ydym am gynnal a chadw llwybrau o'r fath i'r Carneddau o dref boblogaidd Conwy.

BMC: Wedi lansio Trwsio Ein Mynyddoedd / Mend Our Mountains 3, gyda'r nod o wella llwybrau'r ucheldir. Mae hyn yn cynnwys nifer o ddiwrnodau "Torchi Llewys a Mynd i'r Afael â'r Gwaith" i wirfoddolwyr sy'n helpu i wneud gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau.


<p>A1.3</p>		<p>Cymryd camau pragmatig ac yn rhagweithiol er mwyn lleihau sbwriel Archwilio manteision pecynnu mwy cynaladwy yn ein siopau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio sefydlu 'parthau di-blastig' yn Eryri ac adnabod dewisiadau eraill posibl • Archwilio sefydlu 'parthau di-blastig' yn Eryri ac adnabod dewisiadau eraill posibl • Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu pentref/ardal adlenwi dŵr yn rhad ac am ddim yn y Parc Cenedlaethol • Gweithio gydag ymgyrchwyr lleihau sbwriel presennol a gweithredu ar raddfa leol. • Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda gwirfoddolwyr er mwyn cadw'r Parc Cenedlaethol yn rhydd oddi wrth sbwriel • Gweler hefyd: A1.5 	<p>Bydd astudiaethau ymarferoldeb yn adnabod pa rwystrau a gweithdrefnau fydd eu hangen ar gyfer sefydlu newidiadau pell gyrhaeddol o ran ymddygiad pobl. Gydol cyfnod y Cynllun, caiff ymgyrchoedd lleihau sbwriel eu lansio'n llwyddiannus a chaiff eu heffaith ei fonitro. Cynnal astudiaethau canfyddiad i fesur barn pobl am sbwriel yn yr ardal.</p>	<p>APCE Cymdeithas Eryri Cyngor Gwynedd CBS Conwy CNC Cadw Cymru'n Daclus Ymddiriedolaeth Genedlaethol Plas y Brenin Ymddiriedolaeth John Muir</p>
--------------------	---	---	--	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Bu prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig yn llwyddiannus o ran gyrraedd sawl cynulleidfa newydd. Mae'r prosiectau canlynol ar waith erbyn diwedd tymor y prosiect ym mis Hydref 2024: Cynllun achredu a monitro busnesau di-blastig; gwaith ymchwil a phroffion ymyrraeth ar y cyd gyda'r Ganolfan Newid Ymddygiadol ym Mhrifysgol Bangor; Banancam; ymgyrchoedd newid ymddygiad; cynllun ail-lenwi dŵr; Uwchgynhadledd amgylchedd ieuenticid COPA1 mewn partneriaeth â Chadwch Gymru'n Daclus; safoni casglu data mewn partneriaeth â Llwybrau Heb Sbwriel / Trash Free Trails.

CESS: casglwyd 517 o fagiâu o sbwriel, a oedd yn pwyso 1,282kg. Cafodd y rhain eu didoli ac anfonwyd eitemau ailgylchadwy i gael eu hailgylchu. Fe wnaethom drefnu 63 diwrnod gwaith i wneud hyn a chafwyd 1,476 awr o waith gan wirfoddolwyr. Yn ystod 2023, sicrhodd CESS £249,940 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi ein gwaith Caru Eryri yn ystod 2023/24.

CNC - Cynhaliwyd digwyddiad casglu sbwriel Llwybrau Heb Sbwriel / Trash Free Trails yng Nghoed y Brenin. Cynhelir Patrolau Haf mewn manau poblogaidd i ymwelwyr i hyrwyddo mynediad cyfrifol.

CG: Mae'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd yn parhau i gyd-weithio gyda ystod eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau cymunedau glan a thaclus. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am lanhau strydoedd a gwasanaethau biniau gwastraff ac ailgylchu. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cyd-weithio gyda'r Parc Cenedlaethol i gyflwyno biniau arbenigol sy'n caniatáu i wirfoddolwyr storio cyfarpar codi sbwriel yn Llanberis. Byddwn yn parhau i gryfhau ein cysylltiadau i'r dyfodol.

A1.4		<p>Lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r tirwedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio arolwg o drafnidiaeth cyhoeddus a pharcio yn ardaloedd yr Wyddfa ac Ogwen er mwyn llunio a gweithredu argymhellion • Sefydlu a chytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer gweithgor trafndiaeth a pharcio i Eryri • Gweithio gyda phartneriaid i geisio canfod dulliau teithio mwy gwyrdd. • Gweithio gyda thirfeddianwyr i adnabod meysydd parcio ychwanegol sydd yn gymwys o fewn y tirwedd, yn unol â pholisïau y CDLI ac fel rhan o'r cynlluniau rheoli traffig. • Cynyddu'r wybodaeth am ddewisiadau teithio mwy cynladwy ar gyfer ymwelwyr • Gweler hefyd polisi A3.1 	<p>Bydd gweithgor wedi ei sefydlu erbyn 2022.</p> <p>Bydd argymhellion Adolygiad cynhwysfawr Partneriaeth Yr Wyddfa o Barcio a Thrafnidiaeth yn cael eu hehangu i gwmpasu ardal gyfan y Parc Cenedlaethol..</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</p> <p>Llywodraeth Cymru</p>
------	--	--	---	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Sefydlwyd Grŵp cyflawni rhwng APCE, CG, CSBC a Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r Cynllun Cyflenwi wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae gweithrediad cynyddol Adolygiad cynhwysfawr Partneriaeth Yr Wyddfa o Barcio a Thrafnidiaeth yn parhau yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen. Mae llawer mwy o ffocws ar wybodaeth ynghylch opsiynau trafndiaeth cynaliadwy i ymwelwyr.


CESS: Wedi gwneud cyflwyniad hirfaith i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ar y cyfleoedd i leihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd. Roeddem yn siomedig gyda chyn lleied o hyn a gafodd ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2023, ond byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i chwilio am ddatrysiadau.

CBSC - mae Fflecsi Dyffryn Conwy, sef gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus sy'n ymateb i'r galw, yn parhau ac erbyn hyn mae wedi ei ymestyn i ardal Dolwyddelan yng Nghonwy.

CBSC - Gosodwyd gwefrwyr e-feiciau a standiau cynnal a chadw beiciau ar lan y môr yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr - ychydig y tu allan i ffiniau'r Parc ond sy'n annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio i/o fewn y Parc

CBSC - Mae Môr i'r Mynydd / Coast to Valley yn brosiect Cyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (LUF) a'r weledigaeth yw creu llwybr cerdded a beicio pellter hir, diogel, uniongyrchol a deniadol o Gyffordd Llandudno trwy Ddyffryn Conwy i Fetws y Coed, ochr yn ochr â gwelliannau i ddolenni cysylltedd lleol a'r gallu i wrthsefyll llifogydd. Mae LUF yn ariannu tri phrosiect, gan roi cyfle i hybu rhaglen fuddsoddi ar Lwybr Teithio Llesol o'r Arfordir i'r Dyffryn a gwelliannau i gysylltedd a chadernid cyffredinol ledled Dyffryn Conwy: Glan Conwy i Gyffordd Llandudno; Betws y Coed i Lanrwst; Gwydnwch rhag Llifogydd Trefriw B5106.Gwaith adeiladu i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2026.

CG: Gweler diweddariad B4.1.

A1.5		<p>Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ynghlwm wrth weithgareddau hamdden.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau agwedd gydlynol ar gyfer sicrhau rheolaeth gynladwy dros ddigwyddiadau a drefnir Gweithio o fewn partneriaethau cenedlaethol i rannu arfer da Cynnal a gweithredu Strategaeth Hamdden i reoli mewn ffordd gynaliadwy unrhyw wrthdaro rhwng grwpiau defnyddwyr Mynd i'r afael â gweithgareddau gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon neu niweidiol trwy weithio gyda grwpiau defnyddwyr cyfreithlon ac Uned Troseddau Gwledig Heddlu Gogledd Cymru, i annog defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith Rhoi sylw i fynediad a gweryslla heb awdurdod er mwyn rhwystro ardaloedd a ddiogelir rhag dirywio Hwyluso perthnasoedd gwaith da rhwng defnyddwyr a rheolwyr tir e.e. tanlinellu peryglon cŵn oddi ar dennyn a gweithgareddau amhriodol eraill. Hybu'r Côt Morol, a monitro effeithiolrwydd. Gweler hefyd Canlyniad B5 	<p>Erbyn diwedd 2021 bydd diweddariad o 'Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Cystadleuol, Hamdden ac Elusen a drefnir o fewn y Parc Cenedlaethol' ar gael ar wefan APCE, gyda mewnbwn oddi wrth bartneriaid perthnasol. Mae'r Partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â digwyddiadau anghyfreithlon a bydd prosesau ar y gweill i ystyried opsiynau ar gyfer safleoedd ACA gyda nodweddion penodol yn cael eu cofnodi fel rhai 'anffafriol' oherwydd effaith y gweithgareddau hamdden.</p>	<p>APCE CNC Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymdeithas Eryri ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Conwy a Gwynedd Ymddiriedolaeth John Muir</p>
------	---	--	--	---

Adroddiad cynnydd: APCE: Datganiad Sefyllfa ar Hamdden ym Mharc Cenedlaethol Eryri i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod yn 2024 yn dilyn ymgynghoriad â phartneriaid. Bydd diweddariad o'r 'Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Trefnedig, Cystadleuol, Hamdden ac Elusennol ym Mharc Cenedlaethol Eryri' yn cael ei ddrafftio yn 2024. Lansiwyd bas-data digwyddiadau a rennir ar gyfer ardal Yr Wyddfa ac mae'n cael ei datblygu gyda mewnbwn gan ddefnyddwyr.

CESS: Trefnwyd 63 diwrnod casglu sbwriel drwy Caru Eryri fel uchod.

CNC: yn adolygu ei strategaeth hamdden. Edrych hefyd ar ddatblygu system fflagiau ar gyfer digwyddiadau ar dir sy'n eiddo i CNC a safleoedd dynodedig er mwyn helpu i leihau effaith digwyddiadau trefnedig ar yr amgylchedd a gwneud y broses yn fwy cydgyssylltiedig â phartneriaid eraill. Patrolau Haf mewn manau poblogaidd i Ymwelwyr i orfodi Is-ddeddfau Coedwigoedd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn enwedig ynghylch gweryslla dros nos. Ymgyrch Gyfathrebu i hyrwyddo mynediad cyfrifol a'r Cod Cefn Gwlad. Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw ddigwyddiad yn ystod gwyliau'r haf.

CNC yn gweithio gyda Grŵp Llifo yn nalgylch Conwy - mynediad a hamdden wedi'i gynnwys yn hyn

CNC yn parhau i gydweithio â rhaeadrau Nant Gwynant ac Afon Cwm Llan; cwblhawyd monitro dŵr Afon Cwm Llan yn 2023 a chytunwyd i ailadrodd hyn yn 2024.

CNC, YG ac APCE yn parhau i weithio mewn partneriaeth yn Idwal i hyrwyddo hamdden cyfrifol. Dehongliad newydd, synwryddion offer tywydd ac ati.

CNC yn gweithio gydag APCE ac YG ar god gweryslla cyfun a dynnwyd at ei gilydd gan APCE.

CNC - datblygu polisi caniatâd ar gyfer CNC i ddarparu gwell canllawiau ar y mathau o weithgareddau y gallwn eu caniatáu a'r paramedrau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu digwyddiadau (model parthau cyfeirio) - yn cefnogi nod strategaeth 1 (Hwyluso iechyd, llesiant a chyfluoedd dysgu) a 4 (Cydbwysedd rhwng pobl a natur). Disgwylir i'r polisi drafft fod ar gael ddiwedd mis Mehefin 2024.

CBSC - Bu gweithgor partneriaeth yn trafod yn anffurfiol y ffyrdd o fynd i'r afael ag effeithiau negyddol (diogelwch ac amgylcheddol) beicwyr mynydd lawr allt ar SoDdGA Alltwn a Mynydd Conwy. Mae'r aelodau'n cynnwys staff yr ALI, staff PCE, aelod o staff CNC a heddlu Gogledd Cymru.

Mae BMC yn parhau i ddefnyddio'r Gronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol (CDMRh) i ddiweddarau a monitro ardaloedd dringo ar gyfer cwmp creigiau, camddefnyddio tir a chyfyngiadau adar sy'n nythu. Sefydlwyd y Rhaglen fonitro ar gyfer y gaeaf hefyd er mwyn helpu dringwyr gaeaf i wneud penderfyniadau doeth ynghylch pryd i ddringo yn y gaeaf.

CANLYNIAD A2

Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cadernid ecosystemau.

A ydym o fewn ein llinell amser? Mae'r amseriadau wedi'u hadlinio yn unol â datblygiadau gan Lywodraeth Cymru, effaith Covid-19 ar brosiectau ymarferol a recriwtio Swyddog Bioamrywiaeth newydd.


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Cafodd Cam Gweithredu A2.1 ei ailysgrifennu yn 2023 i adlewyrchu canllawiau yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a luniwyd gan Lywodraeth Cymru
- Gwnaed cynnydd mawr o ran gweithredu prosiectau ac amserlenni newydd yn dilyn effeithiau Covid-19 ar waith ymarferol ar draws y Canlyniad.

Casgliad:

Bu cynnydd yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A2, ond mae A2.1 yn nwylo Llywodraeth Cymru i'w gadarnhau.


Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
A2.1		<p>A2.1. Cydweithio i gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd a rhywogaethau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dod â'r rhanddeiliaid at ei gilydd i ffurfio consensws a diffinio nwyddau cyhoeddus Eryri • Llunio datganiad uchelgais • Defnyddio prosesau mapio tir presennol a newydd i greu darlun presennol o'r holl gynefinoedd o fewn y Parc Cenedlaethol • Ymchwilio defnydd tir a phatrymau newid er mwyn gallu llunio gwell penderfyniadau • Asesu beth sydd wedi llwyddo/ heb fod yn llwyddiant mewn cynlluniau rheoli tir blaenorol • Diffinio rôl partneriaid yn y gwaith o weithredu'r cynllun <p>Uwch sgilio'r gweithlu lleol er mwyn cyflawni'r cynllun yn llwyddiannus (gweler hefyd C2.2)</p>	<p>Erbyn diwedd 2025 rydym yn anelu at sefydlu fforwm a datganiad uchelgais cyffredinol.</p> <p>Byddwn wedi lunio cofrestr asedau o nwyddau cyhoeddus ac yn mapio tir.</p> <p>Byddwn yn ystyried arferion rheoli tir presennol a blaenorol, yn asesu eu cryfderau er mwyn creu a mireinio cynllun nwyddau cyhoeddus y bydd y bartneriaeth yn hyderus i'w gweithredu</p>	<p>Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid</p> <p><i>Yn ddibynnol ar ganlyniadau ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir Ni a thrafodaethau Brexit</i></p>

Adroddiad cynnydd: Cytunodd Fforwm Eryri ym mis Rhagfyr 2022 bod angen ailysgrifennu'r cam hwn i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn 2022/3. Trafodwyd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac mae'r geiriad newydd yn ymwneud â hynny. Gweler: <https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cynigion-bras-ar-gyfer-2025>

APCE: Mae'r Awdurdod wedi arwain ar sawl prosiect sylweddol sy'n cyflenwi'r materion hyn yn uniongyrchol neu fel canlyniadau anuniongyrchol, ac mae wedi rhoi statws rhanddeiliaid i'r grŵp Tirweddau Dynodedig i fod yn rhan o ddatblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Datblygwyd y grŵp rhanddeiliaid yn hwyr yn y dydd a bu'n gyfyngedig o ran mewnbwn a dylunio. Ffurfiwyd grwpiau ffocws allweddol ar gyfer tiroedd Comin, ond bu'r cynnydd/gweithgaredd yn fach iawn/araf. Ymatebodd y grŵp Tirweddau Dynodedig a'r APCE i ymgynghoriad CFfC gan gynnig gwelliannau cadarnhaol i'r cynigion i fod yn fwy effeithiol/deniadol i'w derbyn a'u mabwysiadu yn Eryri.

Bu UAC, NFU a CLA Cymru yn lobbio ac yn ymateb i'r ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal hyd yn hyn.

A2.2		<p>Delio gyda dirywiad mewn bioamrywiaeth trwy gynnal, adfer, ehangu a chysylltu..</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu er mwyn sicrhau bod buddsoddiad yn cyrraedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a thargedau cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7 • Gweithio mewn Partneriaeth i gytuno ar weithdrefnau pori addas lle byddant yn hanfodol ar gyfer cynnal/adfer nodweddion cymwys safleoedd ACA, AADd a Ramsar i statws cadwraeth ffafriol e.e. ACA Eryri fel ardal flaenoriaeth • Bydd gofynion rheoli penodol ar gyfer safleoedd a ddiogelir yn genedlaethol ac ar lefel Ewrop • Cydlynu cynhyrchiad o Cynllun Gweithredu Adferiad Natur (NRAP) ar gyfer Eryri i gynnwys y data mwyaf diweddar a thargedau bioamrywiaeth penodol. • Mae gweithgareddau dehongli yn annog deall a diogelu bioamrywiaeth ymysg cymunedau lleol ac ymwelwyr • Sefydlu Partneriaeth Natur Leol i arwain ar faterion bioamrywiaeth ar gyfer Eryri 	<p>Gydol y Cynllun bydd prosiectau dynodedig yn cael eu dilyn hyd y diwedd a llunir adroddiadau arnynt fel bo'n addas, gan dargedu gofynion rheoli safleoedd a ddiogelir a rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7. Lle bo hynny'n bosibl, bydd Cytundebau Rheoli Tir mewn lle erbyn 2025.</p> <p>Erbyn 2020 bydd Swyddog Bioamrywiaeth wedi ei benodi fel pwynt canolog ar gyfer gweithgareddau dehongli, a chyd-lynnu ac yn gweithio ochr yn ochr gyda swyddogion prosiectau penodol.</p> <p>Erbyn 2022 bydd Partneriaeth Natur Leol wedi'i sefydlu a bydd NRAP wedi'i chynhyrchu drwy bartneriaeth ar draws y Parc.</p>	<p>APCE CNC Llywodraeth Cymru Yr holl bartneriaid perthnasol</p>
------	---	--	--	--

Adroddiad cynnydd APCE: Mae newidiadau pellach i staff wedi achosi oedi mewn cynnydd. Er mwyn goresgyn materion yn ymwneud â swydd y Swyddog Bioamrywiaeth, mae'r tîm Cadwraeth wedi ailstrwythuro'r rôl ac wedi penodi dau swyddog rhan-amser. Y gobaith yw y bydd NRAP drafft yn barod erbyn gwanwyn 2024.

Mae ailsefydlu'r Bartneriaeth Natur Leol (PNLI) yn Eryri hefyd ar y gweill. M Bu'r adran Gadwraeth yn arwain ar ddatblygu Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Eryri, y dylid ei rhyddhau ddiwedd gwanwyn 2024.

Mae CNC yn parhau i reoli GNG yn weithredol

Mae CNC gweithio gyda chynllun y Carneddau (CTPC) yn enwedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gynlluniau i reoli rhostir (amrywiaeth strwythurol, rheoli risg tân) a rheoli rhedyn yn ardaloedd bwydo brain coesgoch (heb ei wneud ar lawr gwlad eto ond disgwylir i hyn gael ei gyflawni yn 2024)

CNC – Yn gweithio gyda CTPC er lles cadwraeth llinosod y mynydd yn Nant Ffrancon – rheoli dolydd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a darparu porthiant a bwydwy fel bwyd atodol i'r adar.

CNC Cefnogaeth i Natur am Byth – e.e. rhoi caniatâd i gasglu deunydd ar gyfer lluosogi ex-situ, ac un treial ailgyflwyno planhigion. Pecyn adnoddau addysg wrthi'n cael ei ddatblygu i annog gwella bioamrywiaeth o fewn tiroedd / lleoliadau ysgolion.

CBSC: Cefnogodd Cynllun Lleodd Lleol i Natur CBSC waith rheoli rhostir ym Mynydd Conwy o fewn cyffiniau Llwybr Ucheldir Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Gogledd Cymru.

CBSC: Mae Tîm Cefn Gwlad CBSC wedi cyflwyno cynnig rhaglen waith 5 mlynedd i CNC ei hystyried ar greu cytundeb a16 i Fynydd Conwy.


CBSC - Fel rhan o'r gwaith Datganiad Ardal a arweinir gan CNC, rydym yn rhan o'r gwaith o ddatblygu dull aml-thematig o ddatblygu prosiectau gan edrych ar Ddyffryn Conwy ac Ynys Môn fel ardaloedd peilot cychwynnol. Teitl y dull hwn yw Llifo (gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gyffredin rhwng Amcanion Llesiant y BGC, blaenoriaethau'r Dalgylch Cyfle a datganiad Ardal y Gogledd Orllewin. Mae swyddogion CBSC perthnasol yn mynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid ynghylch rheolaeth gynaliadwy Dalgylch Conwy yn y dyfodol.

CESS: Trefnwyd 50 digwyddiad ar wahân drwy ein rhaglen Help Llaw / Helping Hands, pob un gyda'r nod o wella a diogelu bioamrywiaeth, yn amrywio o gael gwared â chonwydd ymledol, plannu gwrychoedd, gofalu am yr ardd bywyd gwyllt yn y Tŷ Hyll i lanhau traethau. Yn gyffredinol, cafwyd 1,990 awr o amser gwirfoddolwyr.

YG: Gwaith partneriaeth parhaus i gyflenwi prosiectau adfer ar raddfa tirwedd – Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, Prosiect Dalgylch Uwch Conwy, Partneriaeth Cwm Idwal. Plannu coed a gwrychoedd ar ffermydd yng Nghwm Penmachno ac Ogwen. Ceidwaid a rheolwyr fferm a thenantiaid fferm yn adfer a rheoli dolydd. Ceidwaid, gwirfoddolwyr, contractwyr a phartneriaid yn rheoli rhywogaethau ymledol.

RSPB: Ar hyn o bryd, mae gan brosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd bedwar coetir yn y Fawddach yn cael eu pori gan ddau borwr. Mae gan un porwr rhwng 2-3 o wartheg yr ucheldir ar gynllun pori cylchdro rhwng tri o'r safleoedd trwy gydol y flwyddyn (Coed Garth Gell, Coed y Parc, ac Abergwynant y Waen) tra bod gan y porwr arall 5 Dexter ar Abergwynant y Gribin rhwng mis Ebrill a mis Hydref.

Coed Cadw: Ymgysylltiad a gweithgaredd i warchod, adfer a chynyddu gorchudd coed a choetir priodol o fewn PCE mewn cydweithrediad ag APCE, gan gynnwys ar safleoedd preifat a chefnogi datblygiad Strategaeth Coed a Choetiroedd i PCE gan ddefnyddio cyd-ddylunio i weithio gyda chymunedau a gwahanol sectorau i ddatblygu'r cynnwys a fydd yn parhau i gefnogi'r negeseuon hyn. Cafwyd llwyddiant gyda chyflenwi cronfa Rhwydweithiau Natur ar gyfer gwaith hanfodol ym Meirionnydd, gan wella cyflwr coetiroedd ar ein hystâd ein hunain. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys: Teneuo coed conwydd wedi'u plannu o fewn y coetir hynafol yng Nghoed Oerddwr o fewn ardal Coedydd Derw Meirionnydd. Asesu a rheoli pori gan lysesyddion gwyllt a domestig mewn nifer o goetiroedd. Dechreuwyd ar y broses o adfer ffriddoedd ac ehangu'r gorchudd coed brodorol yng Nghoed Felenrhyd a Llennyrch. Mae YNGC yn parhau i fod yn bartner gweithredol yn y Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd.

A2.3		<p>Sicrhau bod ansawdd dŵr a'r amgylchedd morol yn cael eu cynnal a'u gwella.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwella ansawdd dŵr trwy fonitro, gorfodi, addysgu a gwella arferion rheoli tir Defnyddio'r drefn cynllunio i ddiogelu ansawdd dŵr Cefnogi grwpiau lleol sydd yn gweithio i wella ansawdd dŵr e.e. prosiect Tir Afon a gwaith Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau Parhau i gefnogi chynghori prosiectau LIFE a HLF sydd yn anelu at wella safleoedd dŵr croyw a dŵr morol o fewn y Parc Cenedlaethol 	<p>Caiff ein prosiect Afon Eden ei ddilyn i'r diwedd a chaiff statws y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ei gynnal a'i wella ar draws y Parc. Erbyn diwedd 2020 bydd y CDLI yn cynnwys testun perthnasol i ansawdd dŵr mewn datblygiadau newydd.</p>	<p>CNC Dŵr Cymru ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) APCE Llywodraeth Cymru</p>
------	---	---	--	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Cadarnhawyd estyniad y prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE hyd at 2027 ac maent yn cyflenwi yn unol â'r amserlen. Mae nifer o brosiectau yn cyflenwi ar faterion sydd a wnelo â darnio. Ymatebir i'r holl Gynlluniau Dylunio Coedwigoedd. Mae cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer arolwg AWS a gwaith cyfalaf ategol ar y safleoedd i wella cyflwr coetiroedd. Mae effaith clefyd coed ynn yn parhau i achosi pryder o ran maint ac effaith ar orchudd coed a chysylltedd o fewn y Parc.


Mae APCE wedi dechrau ar ddatblygu strategaeth Coed a Choetiroedd, a disgwylir ei chwblhau yn gynnar yn 2024.

Mae'r feithrinfa goed yn datblygu'n dda, ac mae Coed Cadw wedi cefnogi rôl datblygu un o aelodau'r tîm i gymryd mwy o arweiniad ar waith arolygu meithrinfeydd a choedwigoedd.

CESS: Treuliodd gwirfoddolwyr 381 awr mewn 11 digwyddiad yn plannu coed, casglu hadau neu reoli Rhododendron o fewn coetir. Plannodd ein gwirfoddolwyr 3,215 o goed.

CNC: yn gweithio gyda LIC ar y posibilrwydd o gyflwyno Coedwig Genedlaethol a rhoi lle i swyddogion lleol. Adnoddau addysgiadol ar gael ar y wefan. Cefnogi ymgynghoriad Cynllun Adnoddau Coedwig Gwydir i sicrhau bod addysg ac iechyd yn gynwysedig.

Coed Cadw: Maent yn hyrwyddo coed o darddiad lleol ar gyfer cynnal coetiroedd gwydn a thirweddau ehangach. Darperir rhywogaethau coed brodorol o darddiad Cymreig ar gyfer ein safleoedd ein hunain ac eraill. Anogir mwy o gofnodi a diogelu coed hynafol trwy'r ATI a'n hymgyrch chwedlau byw. Gweithio gyda Llais y Goedwig i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd rhywogaethau coed o darddiad lleol, darparu hyfforddiant a chynghor ar gasglu a thyfu hadau coed. Parheir i fod yn bartner gweithredol ar brosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd a chynnal gweithgareddau ymgysylltu ac arolygon adfer coetir hynafol ar safle preifat.

A2.4		<p>Adfer, ehangu a gwella maint ac amrywiaeth o ran rhywogaethau coed a choedlannau cynhenid</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mapio coed a choedlannau hynafol • Parhau i ddatblygu cynlluniau plannu addas o fewn y Parc • Ailgysylltu ardaloedd coediog sydd wedi eu darnio • Cynyddu nifer y coed brodorol ar dir sydd yn eiddo'r Parc Cenedlaethol • Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu arboretwm brodorol • Annog rheolaeth o'r radd flaenaf dros goetiroedd presennol er mwyn diogelu eu cyflwr ecolegol 	<p>Trwy gyfrwng nifer o brosiectau a gynllunir dros y pum mlynedd nesaf, caiff safleoedd eu harchwilio o safbwynt cymhwyster ac addasrwydd a chyflwynir adroddiadau arnynt.</p> <p>Caiff cynlluniau plannu eu datblygu.</p> <p>Bydd prosiect Fforestydd Glaw Celtaidd LIFE yn arwain ar nifer fawr o'r amcanion hyn hyd 2025.</p> <p>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025.</p>	<p>APCE</p> <p>Coed Cadw</p> <p>Coed Cymru</p> <p>Undebau Amaethyddol</p> <p>CNC</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>RSPB</p> <p>Dŵr Cymru</p> <p>Llywodraeth Cymru</p>
------	---	--	---	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae prosiect Coedwig Law Geltaidd LIFE wedi'i gadarnhau yn estyniad i 2027 ac yn cyflawni i'r amserlen. Mae nifer o brosiectau yn cyflawni ar fater darnio. Ymatebir i'r holl Gynlluniau Dylunio Coedwigoedd. Mae cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer arolwg AWS a gwaith cyfalaf ategol ar y safleoedd i wella cyflwr coetiroedd. Mae effaith marw ynn yn ôl yn parhau i achosi pryder o ran maint ac effaith ar orchudd coed a chysylltedd o fewn y Parc.


Mae'r APCE wedi dechrau ar ddatblygu strategaeth Coed a Choetiroedd, a drefnwyd i'w chwblhau yn gynnar yn 2024.

Mae'r feithrinfa goed yn datblygu'n dda, ac mae Coed Cadw wedi cefnogi rôl datblygu un o aelodau'r tîm i gymryd mwy o arweiniad ar waith arolygu meithrinfeydd a choedwigoedd.

CESS: Treuliodd gwirfoddolwyr 381 awr mewn 11 digwyddiad yn plannu coed, casglu hadau neu reoli Rhododendrens o fewn coetir. Plannodd ein gwirfoddolwyr 3,215 o goed.

CNC yn gweithio gyda LIC ar y posibilrwydd o gyflwyno Coedwig Genedlaethol ac yn hostio swyddogion lleol. Adnoddau addysgiadol ar gael ar y wefan. Cefnogi ymgynghoriad Cynllun Adnoddau Coedwig Gwydir i sicrhau bod addysg ac iechyd yn gynwysedig.

Coed Cadw: hyrwyddo coed o darddiad lleol ar gyfer coetiroedd gwydn a thirweddau ehangach. Darparu rhywogaethau coed brodorol o darddiad Cymreig ar gyfer ein safleoedd ein hunain ac eraill. Annog mwy o gofnodi a diogelu coed hynafol trwy'r ATI a'n hymgyrch chwedlau byw. Gweithio gyda Llais y Goedwig i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rhywogaethau coed o darddiad lleol, darparu hyfforddiant a chyngor ar gasglu a thyfu hadau coed. Parhau i fod yn bartner gweithredol ar brosiect LIFE y Goedwig Law Geltaidd a chynnal gweithgareddau ymgysylltu ac arolygon adfer coetir hynafol ar safle preifat.

A2.5		<p>Sicrhau nad yw unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â rheolaeth yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safle (oedd) Ewropeaidd, SoDdGA, a nodweddion gwarchoddedig ardaloedd eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae pob prosiect - naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill - yn destun asesiad yng ngoleuni'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol sy'n berthnasol. 	<p>Bydd unrhyw botensial ar gyfer effeithiau andwyol ar nodweddion a ardaloedd gwarchoddedig yn y Parc Cenedlaethol o weithgareddau rheoli generig yn destun asesiad llawn unwaith y bydd y manylion ar gael a chyn i unrhyw waith ddechrau.</p>	Pob Partner
<p><i>Adroddiad cynnydd: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd parhaus fel safon ar draws yr holl ardaloedd gwarchoddedig.</i></p>				

CANLYNIAD A3

Rydym wedi paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd ac yn lleihau ein hól troed carbon.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydym - rydym bellach yn ôl o fewn ein llinellau amser gwreiddiol.


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Mae'n hanfodol bod APCE fel corff cyhoeddus wedi cyflawni hyn erbyn 2025.

Casgliad:

Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn erbyn y mesuriadau llwyddiant a amlinellir yng Nghynllun Eryri, a disgwylir cynnydd yn 2024 i sicrhau y cyflawnir y Canlyniad hwn erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws Cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camanu	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
A3.1		<p>Lleihau allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri</p> <p>Cyfrannu'n broactif tuag at gynllun gweithredu lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol o fewn y Parc Cenedlaethol Gweithredu mesurau trafndiaeth a theithio mwy gwyrdd i leihau allyriadau carbon. Annog cymunedau i sefydlu eu cynlluniau hwythau. Hyrwyddo a chefnogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd ynni mewn adeiladau newydd a thraddodiadol yn unol â pholisi cynllunio Partneriaid i asesu cynaladwyedd y prif adeiladau o fewn y Parc Cenedlaethol Parhau i gefnogi cynlluniau ynni gwyrdd sydd yn eiddo'r cymunedau pan fyddant ar raddfa ac mewn lleoliad addas – yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol Sefydlu llinellau sylfaen ar gyfer gosod targedau allyriadau yn y dyfodol 	<p>Bydd llinellau sylfaen ar gyfer mesur allyriadau carbon yn y dyfodol yn cael eu sefydlu erbyn 2023, yn seiliedig ar gyngor gosod targedau gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Erbyn diwedd y Cynllun byddwn wedi cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynllun lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru, wedi gosod rhagor o bwyntiau gwefru cerbydau trydan a - trwy gyfrwng ceisiadau cynllunio - wedi monitro nifer y cartrefi sydd yn uwchraddio i ddulliau ynni adnewyddol newydd.</p> <p>Gweler hefyd bolisi B4.1 ar gyfer dulliau gwella trafndiaeth</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Ynni Cymunedol</p> <p>Cyd Ynni</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cymdeithas Eryri</p> <p>Menter Môn</p> <p>Grŵp Cynefin</p> <p>Adra</p> <p>Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)</p> <p>Canolfan Ecoleg a Heidroleg (CEH)</p> <p>Prifysgol Aberystwyth</p>


Adroddiad cynnydd: : APCE: Mae'r gwaith paratoi Strategaeth Carbon yn parhau – gyda'r bwriad i'w mabwysiadu yn 2024 gan gynnwys set o linellau sylfaen. Bydd hwn yn nodi beth yw'r amcanion ar gyfer Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol. Gweler A1.4 am ddiweddariad trafndiaeth gynaliadwy. Mae Cronfa Cymunedol Eryri wedi cefnogi sawl prosiect cymunedol gyda'r nod o leihau allyriadau carbon.

CESS: Wedi gwneud cyflwyniad hir i Gomisiwn Trafndiaeth Gogledd Cymru ar y cyfleoedd i leihau effeithiau parcio a thrafndiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd.

CNC - Llwybr beicio oddi ar y ffordd Traws Eryri - hyrwyddo mynediad di-allyriadau ar draws y Parc.

CBSC - Mae Môr i'r Mynydd/ Arfordir i'r Dyffryn yn brosiect Cyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (LUF) a'r weledigaeth yw creu llwybr cerdded a beicio pellter hir, diogel, uniongyrchol a deniadol o Gyffordd Llandudno trwy Ddyffryn Conwy i Fetws y Coed, ochr yn ochr â gwelliannau i gysylltedd lleol a gwrthsefyll llifogydd. Mae LUF yn ariannu tri phrosiect, gan roi cyfle i hybu rhaglen fuddsoddi ar Lwybr Teithio Llesol o'r Arfordir i'r Dyffryn a gwelliannau i gysylltedd a gwydnwch cyffredinol ledled Dyffryn Conwy.

CG – Mae Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd yn rhestru'r prosiectau y mae'n gweithredu arnynt, gyda'r rhan fwyaf yn berthnasol i ardal ddaearyddol APCE. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynnyddol ar berfformiad y prosiectau yma ym mis Rhagfyr 2023.

A3.2		<p>Diogelu a chynyddu swm y carbon a gedwir yn Eryri</p> <ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddefnyddio a gwella dalfeydd carbon naturiol o fewn y Parc Cenedlaethol Lleihau a - lle bo'n bosibl – cildroi erydiad a diraddiad mawndiroedd, gan gynnwys cau ffosydd yn yr ucheldiroedd ac adfer mawndir amaethyddol yn yr ardaloedd is Sicrhau ymrwymiad hirdymor i goetiroedd amrywiol a reolir yn dda Ymchwilio i wrthbwyso carbon a chwilio am gefnogaeth ariannol er mwyn gwrthbwyso carbon Annog cynnal tir glas parhaol ac osgoi aflonyddu ar bridd 	<p>Erbyn diwedd 2022, byddwn wedi cynyddu nifer y prosiectau Còd Mawndir a Chôd Coed a Choetiroedd a gefnogir gennym.</p> <p>Gydol cyfnod y Cynllun bydd APCE yn monitro camau adfer mawndir, yn gofalu am blannu coetiroedd mewn safleoedd addas ac hefyd yn monitro cyflwr coetiroedd presennol ac yn gwella cynefinoedd gwrychoedd, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth i gynghori ar ddulliau pori addas.</p>	<p>APCE CNC Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFU) Undeb Amaethwyr Cymru (FUW))</p>
------	---	--	---	---

Adroddiad cynnydd: Mae adfer mawndir yn parhau ar gyflymder o fewn ffin y Parc ac ar ei ymylon gyda dau Brosiect Mawndir Cenedlaethol yn rhedeg yn flynyddol. Mae gallu a sgiliau'r staff wedi'u gwella, a gellir gwneud gwell rhagolygon a chynllunio ariannol o gylchoedd ariannu hirach, gyda 4 swydd bellach yn cyflenwi'n weithredol ar adfer mawndiroedd a staff craidd pellach yn darparu adnoddau ychwanegol.

CESS: Trefnwyd dau ddiwrnod gwirfoddoli yn gweithio ar adfer mawngydd sy'n cynnwys 128 awr o waith gwirfoddol. Adferwyd 200m o dorlan fawn gan ein gwirfoddolwyr.

CLA Cymru: yn parhau â'n polisiau carbon yn genedlaethol.

NFU Cymru: Hyrwyddo amcanion hirdymor 2040 ar gyfer diwydiant amaethyddol a fydd yn cyflenwi Sero Net. Cyfran o'r aelodau yn manteisio ar gyngor ynni adnewyddadwy drwy'r undeb yn ogystal â sicrhau offer arbenigol.

YNGC: Mae'r gwaith o reoli mawndiroedd yng Nghors Bodgynydd ac ehangu gorchudd coetir yng Nghoed Crafnant yn parhau.

CANLYNIAD A4

Mae Eryri ar flaen y gâd yn rhyngwladol o ran mynd i'r afael yn llwyddiannus â rhywogaethau, pla a heintiau ymledol.

A ydym o fewn ein hamserlen?

Ydym – mae llawer iawn o waith wedi cael ei gyflawni ar y Canlyniad hwn.


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Mae adolygiad i ddadansoddi camau gweithredu'r Bartneriaeth i reoli a lleihau maint rhywogaethau ymledol i'w gynnal erbyn diwedd 2025

Casgliad:

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A4. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023


Rhif canlyniad	Statws Cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
A4.1		<p>Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r modd y gallant gymryd camau i rwystro rhywogaethau ymledol rhag sefydlu ac ehangu</p> <ul style="list-style-type: none">Sicrhau bod gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sydd yn mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yn deall natur y problemau ac yn defnyddio dulliau ystyrlonMonitro a chofnodi lleoliad a graddfa rhywogaethau ymledolCodi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o rywogaethau anfrodorol (INNS) ar y tir, mewn dŵr croyw ac yn nŵr y môr a'r effaith a gântSefydlu gwaelodlin ar gyfer gosodiad targed allyriadau'r dyfodol	<p>Cofnodir gostyngiad yn nifer a chwmpas daearyddol rhywogaethau goresgynnol.</p> <p>Bydd digwyddiadau addysgol wedi eu trefnu gyda grwpiau penodol a bydd arolygon adborth yn cael eu monitro ar gyfer gwelliannau yn y ddarpariaeth.</p>	<p>APCE CNC Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymdeithas Eryri Prifysgol Bangor ACA PLAS Coed Cadw Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru Prifysgol Aberystwyth Cofnod Gweithgor Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol Cymru Ymddiriedolaeth John Muir</p>

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae hyn yn cael ei arwain gan y Tîm Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE a chefnogaeth prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri'r Carneddau gyda swyddogion a phrosiectau eraill. Cymerwyd camau gweithredol i ddatblygu rôl cydlynedd Rhywogaethau Ymledol Amrodorol (RhYG) yn y rhanbarth, ond mae argaeledd cyllid yn gyfyngedig.

Coed Cadw: Mae staff craidd yn gweithio fel rhan o dîm y Coediwigoedd Glaw Celtaidd i godi ymwybyddiaeth. Mae gennym hefyd ein ffocws ein hunain i godi ymwybyddiaeth o RhYG a'r effaith ar ecosystemau coetiroedd brodorol. Mae ymgysylltiad a gweithgaredd i ddeall y bygythiadau i goetiroedd o du RhYG o fewn PCE mewn cydweithrediad ag APCE, gan gynnwys cefnogi datblygiad Strategaeth Coed a Choetiroedd i PCE gan ddefnyddio cydgynllunio i weithio gyda chymunedau a sectorau gwahanol i ddatblygu'r cynnwys.

CESS: Trwy brosiect y Carneddau, trefnwyd 11 digwyddiad i reoli Jac y Neidiwr (Himalayan Balsam). Yn gyffredinol, gwnaed 386 awr o waith. Roedd dau o'r diwrnodau hyn yn ddiwrnodau hyfforddi achrededig ar gyfer gwirfoddolwyr. Credwn fod y rhain yn bwysig nid yn unig ar gyfer y gwaith ymarferol y maent yn ei wneud, ond hefyd oherwydd eu heffaith o ran codi ymwybyddiaeth.

CNC: Golchi beiciau am ddim yng Nghoed y Brenin. Ymgyrch gwybodaeth i ymwelwyr.

A4.2		<p>Parhau i ehangu gwaith presennol y Bartneriaeth er mwyn rheoli a lleihau graddfa rhywogaethau ymledol</p> <ul style="list-style-type: none"> Parhau gyda gwaith Partneriaeth <i>Rhododendron ponticum</i> trwy weithredu'r Cynllun Partneriaeth Rhododendron Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag ymlediad Rhododendron, Jac y Neidiwr a Chlymog Japan yn ogystal ag eraill gaiff eu blaenoriaethu neu a ddaw i'r amlwg Sicrhau bod cyfarwyddyd clir a chadarn ar gyfer adrodd am unrhyw fygythiadau posibl 	<p>Gydol cyfnod y Cynllun byddwn yn cefnogi camau'r Bartneriaeth ac yn sicrhau lleihad yn y gorchudd gan rywogaethau ymledol.</p> <p>Caiff y canllawiau ym Mesurau Rheoli ar gyfer Rhywogaethau Ymledol sydd wedi lledaenu'n eang gan DEFRA eu dilyn yn ofalus, a chaiff y cyhoedd eu diweddar trwy gyfrwng y wê ac ymgyrchoedd addysgiadol pan / os bydd angen.</p> <p>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025.</p>	<p>APCE</p> <p>CNC</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cymdeithas Eryri</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>CLA</p> <p>NFU</p> <p>FUW</p> <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Coed Cadw</p>
------	---	---	--	---

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae hyn yn cael ei arwain gan y Tîm Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE a chefnogaeth prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri'r Carneddau gyda swyddogion a phrosiectau eraill. Cymerwyd camau gweithredol i ddatblygu rôl cydlynedd RHYG yn y rhanbarth, ond mae argaeledd cyllid yn gyfyngedig.

CNC: Y tu allan i'r Parc, fodd bynnag, mae'r nod o leihau lledaeniad hadau i ACA/SoDdGA Eryri yn cynnwys gwaith parhaus i reoli Rhododendron yn Llanberis – ar hyn o bryd o fewn ac o gwmpas SoDdGA Coed Dinorwig. Gwaith parhaus i gefnogi Cyngor Gwynedd ym Mhadarn i reoli'r risg o chwyn dyfrol yn ymledu oddi yno i leoliadau eraill gan gynnwys llynnoedd yn y Parc.

CBSC - Cefnogodd Cynllun Lleoedd Lleol i Natur waith rheoli rhostir ym Mynydd Conwy o fewn cyffiniau Llwybr Ucheldir Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Gogledd Cymru.

CBSC – Mae'r Tîm Cefn Gwlad wedi cyflwyno cynnig a rhaglen waith 5 mlynedd i CNC i'w hystyried ar greu cytundeb a16 ar gyfer Mynydd Conwy.

CBSC - Cefnogodd Cynllun Lleoedd Lleol i Natur gael gwared ar rywogaethau amrodorol ymledol dyfrol yng ngwarchodfa a reolir gan Gonwy (Nant y Coed), o fewn PCE.

CBSC – Gweithgareddau cyfyngedig yn ymwneud â 'Garden Escapers Project' (Prifysgol Coventry ac YNGC) a phrosiect WaREN, lle mae'r hyn y gellir ei gyflawni yn effeithio ar Fannau Agored yng Nghonwy.


CLA Cymru: yn gwbl gefnogol i'r polisi hwn lle mae aelodau'n cael eu heffeithio gan Ponticum a rhywogaethau eraill o chwyn ymledol ar eu tir ac yn dymuno eu rheoli, gan weithio gydag APCE a'i sefydliadau partner.

NFU Cymru: Aelodau'n ymuno â chynlluniau gwaredu a gyflawnir drwy PCE.

Coed Cadw: gweithio gydag APCE a rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori syniadau mewn strategaeth coed a choetiroedd. Gwaith parhaus drwy gontractwyr a pherchnogion coetiroedd ar ymwybyddiaeth o RHYG.

YG: Gwaith Rhywogaethau Ymledol / Estron Goresgynnol parhaus gan geidwaid, contractwyr a gwirfoddolwyr ar draws ystâd yr YG.

CESS: Gweler A4.1

A4.3		<p>Ehangu ar y camau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw haint neu bla sydd yn effeithio ar rywogaethau brodorol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi cynllun bioddiogelwch morol Pen Llŷn a'r Sarnau • Cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu gwaith i atal ymlediad a heintiau eraill sydd yn bresennol neu yn dod i'r amlwg 	<p>Trwy weithio mewn Partneriaeth byddwn yn gweld cyhoeddi manylion am leihâd mewn achosion ac am iechyd planhigion.</p> <p>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025.</p>	<p>PLAS CNC Llywodraeth Cymru APCE Coed Cymru Coed Cadw Undebau ffermio</p>
------	---	---	--	---

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae APCE yn parhau i ariannu'r swyddog PLAS ynghyd â chefnogi a chyflenwi prosiectau allweddol sy'n cyflawni yn erbyn y nod hwn.

NFU Cymru: Bu cydweithio rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd yn yr ardal a swyddogion yr Undeb, yn ogystal â sesiwn frifio i aelodau fel y gallant adnabod arwyddion Clefyd Coed Ynn a'r goblygiadau cyfreithiol wrth ei waredu. Mae ffermwyr wedi bod yn gwneud eu gwaith rheoli eu hunain mewn perthynas â hyn yn yr ardaloedd a effeithir.

ACA PLAS: Mae Cynllun Bioddiogelwch ar gyfer PLAS wedi hen ddechrau. Rydym hefyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth am RHYG morol trwy amrywiaeth o ddulliau – gweler y cynnydd o dan A4.1.

Coed Cadw: Ffocws ar ddefnyddio Observatree i ganfod a chofnodi plâu a chlefydau coed yn ogystal â pharhau i reoli effaith clefyd coed ynn a *Phytophthora ramorum* ar ein safleoedd a chynghori perchnogion coetiroedd preifat.

CESS: Gweler A4.1

CANLYNIAD A5

Cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol mewn gwarchod tirweddau, cynefinoedd, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydym


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Mae cyllid ar gyfer Rhaglenni Gwirfoddolwyr yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru / cronfeydd allanol.

Casgliad:

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A5. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
A5.1		<p>Chwilio am gyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anhygyrch a grwpiau difreintiedig ymddiddori a dysgu am amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a'r modd y gallant hwy helpu i ofalu amdanynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwerthuso'r cyfleoedd sydd gennym ar gyfer cymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anhygyrch a difreintiedig ac ehangu ar y cynnig. Codi ymwybyddiaeth ynghylch effeithiau erydu a'r hyn y gall cerddwyr ei wneud i helpu. Ennyn diddordeb busnesau a chymunedau mewn cynorthwyo yn y gwaith o leihau effaith goleuni ar yr awyr dywyll a bioamrywiaeth 	<p>Erbyn diwedd 2021 byddwn wedi sefydlu gwaelodlin perthynas gyda phob grŵp, ac wedi gweithio gyda'n Cydlynnydd gwirfoddoli a'r Swyddog Awyr Dywyll i ehangu gwelededd y Parc Cenedlaethol ym mhob ardal.</p> <p>Bydd adolygiad yn cael ei gynnal cyn 2025 i werthuso llwyddiant.</p>	<p>APCE</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Partneriaeth Awyr Agored</p> <p>CNC</p> <p>Cymdeithas Eryri</p> <p>Ramblers Cymru</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru(CGGC)</p> <p>Cynghorau Gwirfoddol Cymru (CGC)</p> <p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)</p> <p>Ymddiriedolaeth John Muir</p>

Adroddiad cynnydd: APCE: Fel y llynedd ac yn esblygu ymhellach. Gweler adroddiad y Swyddog Strategaeth Gwirfoddoli am adborth manwl. Cyhoeddir canllawiau ar gyfer 'Goleuo Da: Canllawiau ar gyfer Busnesau a Chymunedau' ac maent ar gael fel rhan o Brosiect Nos ochr yn ochr â chynnydd sylweddol mewn cyd-weithio gyda busnesau a chymunedau yn yr ardal ar bwysigrwydd yr Warchodfa Awyr Dywyll.

CESS: Trefnwyd o leiaf bum digwyddiad gwirfoddoli ymarferol gydag ysgolion a cholegau lleol, gan gynnwys glanhau traethau, rheoli Jac y Neidiwr, plannu llafnau o goed a chasglu hadau. Fe wnaethon ni drefnu sesiwn casglu sbwriel lwyddiannus gyda'r grŵp Pobl i Bobl sy'n gweithio gyda ffoaduriaid o bob cwr o'r byd.

CNC: Mae detholiad o'r holl adnoddau addysg ar gael ar y wefan, gan gynnwys rhaglen hyfforddi addysgwyr lle bydd ysgolion o Eryri wedi ymuno â sesiynau wyneb yn wyneb a gweminarau. Cefnogaeth i adnodd Cwm Idwal sy'n annog ymweliadau hunan-dywys.

Prosiect Uwch Conwy yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - partneriaeth â CNC.

PAA: O fewn y rhaglen Datblygiad Cymunedol, mae mwy o glybiau cymunedol sy'n darparu cyfleoedd rheolaidd i gymeryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ardal y Parc wedi ymaelodi gydag YBAA. Yng Ngogledd Orllewin Cymru mae 25 o glybiau sy'n elwa o gefnogaeth gan swyddogion datblygu a chefnogaeth ariannol i wirfoddolwyr wedi mynychu cyrsiau uwchsgilio. Mae fframwaith Addysg Antur YBAA bellach wedi ei gwblhau ac nawr yn cael ei gyflwyno i ysgolion led led Cymru i gyd-fynd â'r cwricwlwm addysg newydd. Mae 6

o ysgolion o fewn dalgylch y parc wedi derbyn hyfforddiant gan gydlynnydd y prosiect, ac yn paratoi ar gyfer cynnal addysg yn yr awyr agored. Mae'r PAA yn parhau i gefnogi Swyddog Pobl Ifanc APCE gyda'r rhaglen Ceidwaid Ifanc ac yn cynnal sesiynau ymarferol gyda'r grŵp. Hyfforddeion Ifanc: Mae'r cynllun wedi parhau yn 2023, gyda nifer o hyfforddeion ifanc yng ngogledd Cymru yn gweithio tuag at gymwysterau o fewn y diwydiant awyr agored. Maentyn derbyn cyngor a sesiynau mentora gyda'n swyddog hyfforddi i'w paratoi ar gyfer cyrsiau a gwaith. Mae dros 50 o bobl ifanc rhwng 18-30 bellach yn rhan o'r rhaglen.


CBSC - rhannodd waith y Pecyn Cymorth Iaith Gymraeg o dan Creu Conwy gyda chi ar gyfer diweddariad y llynedd.

Yn rhedeg i mewn i'r flwyddyn ariannol hon, roedd gennym brosiect Llais y Carneddau yn y Ganolfan Ddiwylliant a oedd yn ymdrech ar y cyd rhwng Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, yr ymarferydd celf Rachel Evans, disgyblion Ysgol Aberconwy, ac Archifau Conwy. Bydd yr archif o'r gwaith prosiect hanes llafar a wnaed yn cael ei gadw yn Archifau Conwy ar ddiwedd y prosiect, gan ei wneud yn hygyrch i gynulleidfa eang.

CBSC - Y flwyddyn ariannol hon, rydym hefyd wedi cyflwyno sesiynau i 400 o ddisgyblion mewn ysgolion o fewn ardal y parc gan gynnwys Adrodd Straeon o'r Archifau, yr Ail Ryfel Byd ac Archwiliwch eich Archif, sydd wedi arwain at gwblhau 60 o Wobrau Celf

CBSC - Mae prosiect Gwirfoddoli Diwyllianol Amdani Conwy yn fyw gyda 50 o wirfoddolwyr ar draws y sir. Mae'r tîm wrthi'n chwilio am gyfleoedd gwledig i wirfoddolwyr ond nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw rai eto yn ardal y parc.

CBSC - Parc Cae Llan, Betws y Coed (sy'n eiddo'n rhannol i PCE). Buom yn gweithio gyda Chydlynnydd Partneriaeth Natur Leol PCE trwy'r gronfa Lleoedd Lleol i Natur i greu cynllun dylunio cytunedig (CBSC ar hyn o bryd yn comisiynu pensaer tirwedd ar gyfer y dasg) i gael mannau gwyrdd mwy bioamrywiol a rhyngweithiol. Mae PCE yn dymuno creu gofod dosbarth tyfu/awyr agored yn y parc fel rhan o hyn. Mae CBSC ar ein lesddaliad yn debygol o edrych ar blannu coed, perllan, gwarchod coed hynafol, dolydd, bonion ac ati.

A5.2		<p>Cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli fydd o gymorth i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a'r dreftadaeth ddiwylliannol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu ac ehangu'r cynllun Parcmyn Ifanc (Young Rangers) Archwilio cysylltiad gydag ysgolion lleol er mwyn cynnig cyfleoedd Bagloriaeth Cymru ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 & 5 ac elfennau gwirfoddoli Cynllun Gwobr Tywysog Cymru Ymchwilio cydweithio gyda chynlluniau dychwelyd i'r gwaith er mwyn cynyddu ymhellach cyfleoedd i breswylwyr ddod i gysylltiad â'r Parc 	<p>Bydd wardeniaid APCE a'r Cydlynnydd Gwirfoddoli yn arwain ar yr elfennau hyn gan adrodd yn ôl i'r Awdurdod yn flynyddol er mwyn mesur cynnydd.</p> <p>Bydd cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr yn cael ei gofnodi.</p>	<p>APCE</p> <p>Partneriaeth Awyr Agored</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>CNC</p> <p>Cymdeithas Eryri</p>
------	---	--	--	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Fel y llynedd ac yn esblygu ymhellach. Gweler adroddiad y Swyddog Strategaeth Gwirfoddoli am adborth manwl.

Wardeniaid Gwirfoddol. Mae'r gwaith gwych yn parhau gyda chriw niferus yn ardal Yr Wyddfa a chriw arferol yn y De. Ardaloedd criw y De wedi ehangu i gynnwys llwybrau'r Fawddach, Cynwch a Phanorama.

Cynllun Ceidwaid ifanc: Tymor llwyddiannus arall gyda nifer o ddigwyddiadau wedi ei cynnal ynghyd â chyfle yn Ngorffennaf i griw fynychu Gwersyll EwroParc yn Nenmarc

CESS: Trwy brosiect y Carneddau, rydym wedi trefnu 14 diwrnod clirio eithin gwirfoddol o amgylch henebion hynafol. At ei gilydd, treuliodd ein gwirfoddolwyr 541 o oriau yn gwneud hyn.

PAA: Parhau i gydgyynnol rhaglen Caru Eryri, sy'n canolbwyntio ar warchod amgylchedd naturiol y parc drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli o safon uchel.

Yn 2023, hyfforddwyd gwirfoddolwyr profiadol ymhellach i fod yn arweinwyr. Cynigiwyd hyfforddiant diogelwch a chymorth cyntaf lefel uchel iddynt. Fel cydnabyddiaeth am waith y gwirfoddolwyr a'r cynllun, enwebodd Llwyodraeth Cymru nhw am Wobr Dydd Gŵyl Dewi..

Mae Caru Eryri bellach wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categori Pencampwyr Amgylcheddol gyda'r noson wobrwyo yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2024. Mae'n codi profffil a chynyddu ymwybyddiaeth am y cynllun yn genedlaethol.

CBSC - Mae prosiect Gwirfoddoli Diwylliannol Amdani Conwy yn fyw gyda 50 o wirfoddolwyr ar draws y sir. Mae'r tîm wrthi'n chwilio am gyfleoedd gwledig i wirfoddolwyr ond nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw rai eto yn ardal y parc.

Bydd y BMC yn rhedeg y rhaglen "Get Stuck In" yn Eryri a chlirio yn ardal Dysgl Glaslyn Uchaf. Rydym ni hefyd yn gobeithio gweithio gyda Chlwb Mynydda Prifysgol Bangor i ymgysylltu mwy â phrosiectau lleol. Mae'r BMC ynghyd â Mountain Training Cymru yn bwriadu cynnig cyrsiau DPP i Arweinwyr Mynydd i ddeall arferion ffermio'r ucheldir yn well.

YG: Rhaglen wirfoddoli amrywiol ar draws Eryri, yn aml yn cael ei darparu gyda phartneriaid (CESS, APCE).

CANLYNIAD A6

Mae Eryri yn enghraifft arweiniol yng Nghymru o'r modd i ofalu am y dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol a'u hyrwyddo.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydym


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Mae rhai o amcanion prosiect y Carneddau wedi'u gohirio gan amrywiol fecanweithiau ariannu - ar hyn o bryd - disgwylir i bob un gael ei gwblhau erbyn 2025

Casgliad:

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A6. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.


Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
A6.1		<p>Cefnogi trwsio ac adfer adeiladau rhestredig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio ffynonellau cyllid sydd ar gael i gefnogi trwsio ac adfer, cymeriad hanesyddol a hanes lleol. • Defnyddio arolwg Cadw (bob 5 mlynedd) o gyflwr adeiladau rhestredig er mwyn darparu cyllid wedi ei dargedu ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl • Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi a datblygu sgiliau traddodiadol yn lleol; bydd hyn yn ei dro o gymorth i wella cyflwr adeiladau hanesyddol • Bydd Partneriaeth y Carneddau yn gweithredu ar y naw prif thema yn ei phrosiect sydd yn cynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol y rhanbarth • Archwilio'r posibilrwydd o weithredu methodoleg Peryglon Hinsawdd ar asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn unol â pholisi A3.2 	<p>Byddwn yn sicrhau lleihâd yn nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl seiliedig ar arolwg Cadw, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu strategaeth ar gyfer gweithdai sgiliau traddodiadol.</p> <p>Bydd prosiectau penodol yn ystyried defnydd a dehongliad addas mewn adrannau dynodedig o'n amgylchedd hanesyddol.</p>	<p>APCE</p> <p>Cadw</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Amgueddfa Lechi Cymru</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg</p> <p>Enwebiad Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru</p> <p>Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a phartneriaid perthnasol</p>

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae gwaith yn parhau yn adeilad Wilkins yn Nolgellau ac yn ardal gadwraeth Harlech. Bydd Cynlluniau Dolgellau a Harlech yn cael eu cwblhau yn 2024. Mae adeilad Rohan ym Metws y Coed wedi derbyn cymorth grant ar gyfer gwelliannau allanol gyda'r nod o wella effeithlonrwydd yr adeilad traddodiadol.

Fel tirwedd ddynodedig, rydym yn parhau i gyfrannu at raglen waith gweithgor Newid yn yr Hinsawdd Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG) Cadw.

Cadw: Cefnogaeth barhaus i arolygon cyflwr adeilad rhestredig. Cyflwyno Rhaglen Grantiau 2022-2023 Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol am gyllid o 50% ar gyfer prosiectau hyd at £250k..


A6.2		<p>Cefnogi perchnogion Henebion Cofrestredig i'w diogelu yn well</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ffynonellau cyllid addas ar gael Defnyddio bas data Cadw ar gyflwr henebion, gweithio gyda phartneriaid i sefydlu rhaglenni gwaith wedi eu blaenoriaethu i wella cyflwr a (lle bo'n addas) mynediad a dehongli mewn henebion cofrestredig. 	<p>Gydol cyfnod y Cynllun byddwn yn sicrhau bod y bas data presennol yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu cyllid a rhaglenni gwaith dynodedig.</p>	<p>APCE Cadw Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cyngor Gwynedd Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg</p>
------	---	---	---	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn gwella rheolaeth henebion yn yr ucheldiroedd trwy gadwraeth a prosiectau rheoli llystyfiant. Rydym yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid a thirfeddianwyr ar gadwraeth Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Safle Treftadaeth y Byd. Mae cynlluniau rheoli a chadwraeth ar gyfer safleoedd yng Nghwmystradllyn a Chwm Pennant yn cael eu datblygu.

Cadw: Cyflenwi Grantiau Henebion ar gyfer gwaith cadwraeth cymwys i Henebion Cofrestredig. Cefnogaeth benodol i APCE / Cyngor Gwynedd i ddatblygu prosiectau cadwraeth o fewn Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru.

YG: Prosiectau amrywiol yn cael eu darparu drwy Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau – cofnodi cyflwr, clirio llystyfiant.

A6.3		<p>Datblygu a gweithredu prosiectau graddfa tirwedd sydd o fantais i'r amgylchedd hanesyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu prosiectau fydd yn gwella mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, teimlad o le ac ardaloedd cadwraeth dynodedig o fewn y Parc Cenedlaethol Parhau i ddatblygu prosiectau fydd yn gwella cymeriad trefol o fewn y Parc Cenedlaethol Cydweithio ar flaenoriaethau allweddol a phrosiectau ar y cyd yn ymwneud â Harlech yng Nghynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd 'Cestyll a Muriau Trefol y Brenin Edward yng Nghymru' Cydweithio ar flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol wrth enwebu 'Diwydiant Llechi Tirwedd Diwylliannol Gogledd Cymru' ar gyfer Rhestr Safleoedd Treftadaeth y Byd 	<p>Erbyn 2021 byddwn wedi sefydlu Fframwaith Monitro Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, ac wedi cwblhau ail gyfnod Menter Treftadaeth Trefwedd Dolgellau.</p> <p>Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn cydweithio ar flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â Threftadaeth Ddiwylliannol o fewn y Parc Cenedlaethol ac ar ei gyrion.</p> <p>Bydd Partneriaeth y Carneddau yn gweithredu ar y naw prif thema yn ei phrosiect sydd yn cynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol y rhanbarth.</p>	<p>APCE</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cadw</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg</p>
------	---	---	--	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Gohiriwyd y dehongliad ym Melin Lechi Ynysypandy a disgwylir ei gwblhau yn ystod 2024. Mae cynlluniau cadwraeth, mynediad a rheoli manwl yn parhau gyda phartneriaid a chontractwyr medrus. Bydd Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau wedi'i gwblhau erbyn mis Mai 2024.

Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau dros hanner ffordd i'w gwblhau a disgwylir iddo gael ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2025.

Cadw: Cefnogaeth i APCE / Cyngor Gwynedd yn symud cadwraeth yn ei flaen gyda phrosiectau o fewn Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru: Safle Treftadaeth y Byd.

Cefnogaeth barhaus i Gynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau gyda chymorth grant i gydweithio gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

CBSC: Arddangosfa gelf wedi'i chyd-greu gan Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau ac ysgol leol a hwyluswyd gan Wasanaeth Archifau Conwy ac sy'n cael ei harddangos ar hyn o bryd yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy. Sesiynau celf pellach yn y ganolfan gydag ysgolion i ddilyn. Roedd prosiect a arweiniwyd gan Casglu a Chreu Conwy yn gwahodd pobl (trwy gyfryngau cymdeithasol a sesiynau personol) i gyd-gynhyrchu map diwylliant o'r sir. Ychwanegwyd 120 o bwyntiau - 12 ohonynt o fewn y Parc Cenedlaethol - mae enghreifftiau'n cynnwys: Bryn Gwyn, cysylltiad Ysbyty Ifan ag Abraham Lincoln a chofeb Taliesin.

CESS: Fel ein cyfraniad i Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau, fe wnaethom gyflwyno sesiynau rheoli llystyfiant gyda gwirfoddolwyr mewn henebion cofrestredig a safleoedd hanesyddol eraill yn y Carneddau.

YG: Cyflenwi prosiectau o fewn Prosiect Tirwedd y Carneddau.

CANLYNIAD A7

Mae ein Rhinweddau Arbennig wedi eu diogelu'n dda.

A ydym o fewn ein llinell amser? Nid yw bellach yn ymarferol penodi Pensaer Tirwedd i Wasanaeth Cynllunio APCE (gweler Adroddiad Blynyddol 2022), ac eto nid yw hyn yn atal y Canlyniad rhag cael ei gyflawni.


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Na

Casgliad:

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri i Ganlyniad A7. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
A7.1		<p>Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, gwella gosodiad a sicrhau lleoliad addas i ddatblygiadau yn y tirwedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod natur, lleoliad a gosodiad, uchder, ffurf a graddfa'r datblygiad yn cydweddu gyda maint a chymeriad y safle a'r ardal y lleolir ef ynddi. Gwarchod Safleoedd Treftadaeth Byd dynodedig a rhai yn yr arfaeth e.e. Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru Defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol: Tirweddau a Morweddau Eryri, Canllawiau Cynllunio Atodol: Asesu Sensitifrwydd a Gallu Tirwedd ac adnodd LANDMAP i asesu effaith ceisiadau cynllunio ar y tirwedd Penodi Pensaer Tirwedd i gynorthwyo swyddogion Rheoli Datblygu i asesu effaith ceisiadau cynllunio ar y tirwedd 	<p>Caiff Pensaer Tirwedd ei benodi cyn diwedd 2020.</p> <p>Bydd canllawiau yn y CDLI – cânt eu monitro yn flynyddol a defnyddir hwy i asesu ceisiadau cynllunio.</p>	APCE

Adroddiad cynnydd: APCE: APCE: Mae Tirwedd a gosodiad datblygiadau yn ystyriaeth barhaus wrth ystyried pob cais cynllunio. Defnyddir yr offeryn LANDMAP a Canllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd a Canllaw Tirweddau a Morluniau Eryri i asesu ceisiadau cynllunio..

A7.2	●	<p>Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod datblygiadau mawr newydd yn diogelu'r golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod unrhyw gynnig am ddatblygiad mawr yn cael ei archwilio yn drwyadl - hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol Ystyried y dirwedd ac effaith weledol cynigion sydd gerllaw ffin y Parc Cenedlaethol a'r modd y gall y rhain effeithio ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono 	Bydd canllawiau yn y CDLI a bydd APCE yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu	APCE
------	---	---	---	------

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae Polisiâu CDLI Eryri yn ystyried datblygiadau mawr a golygfeydd i mewn ac allan o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod hefyd yn derbyn ymgynghoriadau ac yn rhoi sylw ar geisiadau mawr sydd y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol

A7.3	●	<p>Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys canllawiau clir ynghylch seilwaith anaddas ar gyfer datblygiadau mawr, megis ceblau ynni uwchlaw daear o fewn y ffin, ac yn annog - lle bo hynny'n bosibl -tanddaearu ceblau presennol sydd wedi eu lleoli yn anaddas</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r CDLI yn cynnwys polisi sydd yn rhwystro datblygiadau mawr anaddas o fewn y Parc Cenedlaethol Annog tanddaearu llinellau sydd uwchlaw'r ddaear Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Grid Cenedlaethol i leihau effaith weledol llinellau uwchlaw daear o fewn y Parc Cenedlaethol Bydd yr Awdurdod yn caniatáu datblygiadau telegyfathrebu cyn belled na fyddant yn niweidio amwynder gweledol a chymeriad tirwedd yr ardal Annog gweithredwyr telegyfathrebu i liniaru a/neu leihau effeithiau llinellau trosglwyddo presennol - defnyddio seilwaith cyfathrebu sydd yn addas i'r tirwedd Mae'r Awdurdod yn annog: Defnyddio safleoedd sydd yn amgylcheddol dderbyniol, Rhannu safle, mast, tŵr neu unrhyw strwythur sydd yno eisoes a Rhannu sianel tanddaearol sydd yno'n barod neu wedi ei chynllunio gyda darparwr arall Disgwylir bod y mast, antenâu ac unrhyw strwythur arall wedi eu dylunio'n dda ac yn cynrychioli'r opsiwn amgylcheddol gorau, yn ymarferol ac yn amgylcheddol 	Bydd canllawiau yn y CDLI ar gyfer gwell tirlunio mewn datblygiadau presennol a newydd	APCE
------	---	---	--	------

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae'r Gwasnaeth Cynllunio yn parhau i gyd-weithio gyda SPEN a'r National Grid.


A7.4	●	<p>Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod goleuo yn y datblygiadau newydd yn cymryd i ystyriaeth statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Rhyngwladol a Diogelu a Gwella Safleoedd Daearegol a Geomorffig Rhanbarthol Pwysig (RIGS) a geoamrywiaeth yn gyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio Atodol ar oleuadau ymwithiol, sicrhau na fydd y cynigion yn cael effaith niweidiol ar y Warchodfa Awyr Dywyll • Gweithredu'r polisiau hynny yn y CDLI sydd yn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael effaith niweidiol ar nodweddion daearegol o bwys(RIGS) 	Mae'r canllawiau yn y CDLI	APCE
------	---	---	----------------------------	------

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae Polisi yn y CDLI sydd yn cyfeirio at bwysigrwydd 'Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri, yn enwedig ardaloedd Craidd'. Yn ogystal mae Canllaw Cynllunio Atodol a'r oleuadau ymwithiol ar gyfre ystyried ceisiadau cynllunio perthnasol. Mae bwriad i ddiweddar y Canllaw gyda gwybodaeth fwy cyfredol.

A7.5	●	<p>Meithrin gwell dealltwriaeth o Rinwedd Arbennig Llonyddwch ac unigedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwil a chymhwyso methodoleg newydd o fesur Llonyddwch o fewn y Parc Cenedlaethol. • Diffinio Llonyddwch fel y'i cymhwysir i Barc Cenedlaethol Eryri trwy gynnwys yn yr arolwg ymwelwyr a thrigolion i ddarganfod profiad Llonyddwch yn Eryri • Parhau i gysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i annog gostyngiadau yn nifer y gweithgareddau hedfan isel sy'n digwydd dros Eryri 	<p>Bydd methodolegau newydd wedi cael eu hystyried a'u cynnwys ym mhroses fapio'r a diogelu'r rhinwedd arbennig hwn.</p> <p>Cyflawnir diffiniad o dawelwch a dealltwriaeth o brofiad defnyddwyr o'r Rinwedd Arbennig hwn trwy arolwg defnyddwyr.</p> <p>Bydd cyfarfodydd cyswllt wedi digwydd yn rheolaidd.</p>	APCE
------	---	--	---	------

Adroddiad cynnydd: APCE: Mae prosiect mapio Llonyddwch Prifysgol Caerwynt wedi'i gwblhau ac mae'r canlyniadau wedi'u hychwanegu at QGIS. Mae astudiaethau canfyddiad wedi dangos bod Llonyddwch yn Rinwedd Arbennig pwysig Eryri i drigolion ac ymwelwyr. Mae'r canlyniadau wedi'u hychwanegu at raglen Llysgenhadon Eryri ac wedi'u rhannu â Swyddog Awyr Dywyll.

Mae APCE yn gweithio mewn partneriaeth â CNC i gynhyrchu map Llonyddwch i Gymru.

A7.6		<p>Sefydlu cofrestr risg ar gyfer asedau diriaethol ac anghyffyrddadwy'r Parc Cenedlaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal ymarfer o gadw cofrestr risg gan groesgyfeirio â Pholisi A3.3, gan sicrhau y rhagflaenir parodrwydd a mesurau lliniaru. • Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ystyried gwersi o bandemig COFID-19. 	<p>Erbyn 2022 bydd cofrestr risg ar gyfer asedau diriaethol ac anghyffyrddadwy'r Parc Cenedlaethol wedi cael ei chynhyrchu.</p>	<p>APCE</p>
------	---	---	---	-------------

Adroddiad cynnydd: Mae Gwasanaeth Eiddo APCE yn cynhyrchu Cofrestr Asedau ar gyfer asedau diriaethol, sy'n cael ei hymgorffori yn Strategaeth Garbon yr Awdurdod.

Mae casglu data ar gyfer Adroddiad Cyflwr y Parc (2023) wedi dechrau a fydd yn ystyried bygythiadau a chyfleoedd i holl Rinweddau Arbennig Eryri

Iechyd a Llesiant yn Eryri: Mae Eryri yn darparu cyfoeth o gyfleoedd ar gyfer dysgu a darganfod ac yn gwella lles ein cenedl ar yr un pryd

CANLYNIAD B1

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith positif ar lesiant.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydyn


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Mae cynlluniau Presgripsiynu Cymdeithasol yn cael eu harchwilio'n genedlaethol a gallent newid ffocws yn dibynnu ar y canlyniadau, a fyddai'n effeithio ar y camau i ddylunio cynlluniau ffurfiol. Serch hynny, mae egwyddor a gweddill y Canlyniad yn cael ei gyflawni gan lawer o Bartneriaid ar draws y rhanbarth.

Casgliad:

Bu cynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B1, a nifer fawr ohonynt wedi'i cyflawni yn barod. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflenwi erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
B1.1		<p>Cynyddu'r gwaith gyda phartneriaid, gwasanaethau iechyd a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy gynlluniau rhagnodedig sydd o fudd i gymdeithas.</p> <ul style="list-style-type: none"> Adnabod cynulleidfaoedd targed Casglu data ar y rhwystrau y mae'r bobl hyn yn eu wynebu a cheisio cyfleoedd i ddileu'r rhwystrau hyn yn barhaol Adnabod a hyrwyddo cynlluniau sydd eisoes ar y gweill o fewn y Parc Cenedlaethol Sefydlu cynlluniau rhagnodedig newydd (ynghyd â threfn gyfeirio) o fewn ac o amgylch y Parc Cenedlaethol ar gyfer y cynulleidfaoedd targed, yn seiliedig ar ymarfer gorau a chanlyniadau ymchwil 	<p>Erbyn diwedd 2020 byddwn wedi cwblhau'r gwaith ymchwil sydd ei angen ac wedi adnabod cynlluniau i'w hyrwyddo'n eang ar draws y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Erbyn diwedd y Cynllun, ein bwriad yw sefydlu cynlluniau cymdeithasol penodol i'w treialu gyda'r Parc Cenedlaethol yn bartner mewn o leiaf un prif gynllun yn gweithio tuag at strategaeth llesiant ffurfiol.</p>	<p>APCE</p> <p>Let's Get Moving Gogledd Cymru</p> <p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>Ramblers Cymru</p> <p>Partneriaeth Awyr Agored</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>CNC</p> <p>Chwaraeon Cymru</p> <p>Prifysgol Bangor</p>

Adroddiad cynnydd: Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr – Cymuned o Ddiddordeb Natur a Llesiant wedi'i sefydlu. Comisiynwyd adolygiad o Fframwaith Cymru ar gyfer Cynlluniau Presgripsiynu Cymdeithasol a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024. Mae swyddog APCE yn mynychu'r grŵp uchod ac yn gweithio'n agos i hyrwyddo digwyddiadau llesiant a diwrnodau gwirfoddoli gyda'r holl gymunedau o ddiddordeb lleol.

Mae APCE wedi ehangu'r ystod a'r nifer o ddigwyddiadau llesiant a gynigir drwy gydol y flwyddyn ac mae presenoldeb wedi cynyddu ym mhob un o'r digwyddiadau.

CESS: Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein rhwydwaith gwirfoddolwyr, gan drefnu nid yn unig ddiwrnodau gweithredu ymarferol ond hefyd ddigwyddiadau cymdeithasol i ddiolch i wirfoddolwyr. Rydym yn ymdrechu'n gyson i ehangu cwrpas ein cronfa wirfoddoli trwy weithio gyda gwahanol grwpiau.

CNC: Cyfraniadau sylweddol at waith gwella iechyd, ymgyrchoedd cyfathrebu megis Wythnos Ddysgu yn yr Awyr Agored Cymru. Mae CNC yn eistedd ar Fwrdd Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach LIC a Bwrdd Gweithredu Iechyd LIC sy'n goruchwyllo gweithredu'r Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol a Hapus (ymgyrch i helpu i wella iechyd meddwl a llesiant y genedl sy'n cael ei lansio ym mis Mehefin eleni). Yn wreiddiol roedd CNC yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Presgripsiynu Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a chaiff ymyriadau sy'n seiliedig ar natur eu cydnabod drwy'r Fframwaith.


Defnydd o dir CNC gan eraill sy'n darparu ymyriadau seiliedig ar natur.

Mae CNC hefyd yn ymwneud â hyfforddi meddygon teulu a datblygu adnodd e-ddysgu ar gyfer meddygon teulu.

PAA: Mae'r rhaglen 'Amser' wedi bod yn rhedeg yng ngogledd Cymru, yn cynnig cyfleoedd i ofalwyr ifanc di-dâl fanteisio ar seibiannau byr. Mae'n darparu seibiannau sy'n gwella gwytnwch a llesiant gofalwyr a chefnogi cynaliadwyedd perthynas ofalu'r gofalydd. Mae rhain yn gyfleoedd i'r gofalwyr ifanc gael blas ar weithgareddau awyr agored mewn sefyllfa ddiogel a di-gost. Mae'r cynllun wedi cael ei gyd-gysylltu gyda'r awdurdod lleol a thimau bwrdd iechyd yn rhanbarthol.

CBSC: Dros y 12 mis diwethaf, datblygwyd nifer o bartneriaethau gan gynnwys gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Tir Afon) a'r Cynllun Cyfeirio yn fewnol, y tîm datblygu hamdden, Gwasanaethau Cymdeithasol, Coleg Llandrillo a'r Bartneriaeth Awyr Agored. Mae partneriaid eraill yn cynnwys grwpiau ADY er mwyn darparu ystod amrywiol o weithgareddau ar gyfer llawer o wahanol boblogaethau. Bellach cynhelir sesiynau wythnosol mewn partneriaeth. Mae'r cynllun yn parhau i ffynnu a thyfu yn ystod 23/24.

CG: Mae APCE yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn gan fynychu cyfarfodydd chwarterol. Maent wedi cytuno i amcanion llesiant Cynllun Llesiant 2023-28 y Bwrdd, a byddant yn cyfrannu at brosiectau cynlluniau cyflenwi blynyddol.

<p>B1.2</p>		<p>Hyrwyddo a threfnu ystod eang o weithgareddau fydd yn gwella llesiant pobl</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu adnodd ar-lein yn ymwneud â gweithgareddau a llwybrau o fewn y Parc Cenedlaethol, wedi eu targedu a'u teilwrio ar gyfer y cynulleidfaoedd a ganfyddir o dan Bolisi B1.1 • Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran mynediad at ddyfroedd mewndirol ar gyfer gweithgareddau dŵr, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. • Parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol (gweler hefyd bolisi A5.2) • Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl anabl • Ar gyfer pobl anabl a grwpiau difreintiedig, hyrwyddo gweithgareddau o fewn y Parc Cenedlaethol fydd yn gwella'u dealltwriaeth o'r Rhinweddau Arbennig • Annog cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu o fewn yr amgylchedd naturiol 	<p>Erbyn diwedd 2021, bydd adnoddau ar gael trwy wefan y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Erbyn 2025 bydd Cydlynnydd Gwirfoddoli APCE yn adrodd ar y ddarpariaeth gynyddol o gyfleoedd i wirfoddolwyr a bydd tystiolaeth o gynlluniau a phrosiectau perthnasol ar gael.</p>	<p>APCE CNC Ymddiriedolaeth Genedlaethol Partneriaeth Awyr Agored WCVA Iechyd Cyhoeddus Cymru Cyngor Gwynedd Cyngor Celfyddydau Cymru Menter Iaith Amgueddfa Lechi Genedlaethol Ymddiriedolaeth Archeolegol Chwaraeon Cymru Ymddiriedolaeth John Muir</p>
--------------------	---	--	--	---

Adroddiad cynnydd: APCE: Unwaith eto, ehangwyd y sesiynau Gwirfoddoli a Llesiant yn sylweddol – gweler Adroddiad 2023 am amrywiaeth o ystadegau a gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

CESS: Trwy brosiect y Carneddau, trefnwyd 11 digwyddiad i reoli Jac y Neidiwr. Ar y cyfan, rhoddwyd 386 awr o waith i mewn. Roedd dau o'r diwrnodau hyn yn ddiwrnodau hyfforddi achrededig i wirfoddolwyr.

CNC: Arallgyfeirio gweithgareddau mewn 30 o safleoedd hamdden yn y Parc, gan gynnwys llwybrau Tramper a cherbydau wedi'u haddasu. Llwybrau rhedeg gydag arwyddbyst, llwybrau cerdded pos anifeiliaid, a llwybrau sain o ddiorddeb diwylliannol ac amgylcheddol. Darpariaeth gynyddol o seddi clwydo ar lwybrau cerdded. Parcio am ddim i bobl leol yng Nghoed y Brenin.

PAA: Llwyddiant gyda chais grant Ffyniant Bro i drefnu gwithgareddau i wella llesiant pobl yng Ngwynedd drwy weithgarwch awyr agored. Bydd y Cynllun Llysgenhadon Gwirfoddol yn cynnal y gweithgareddau a digwyddiadau yn ystod 2024. Parhau i ymgeisio am grantiau i gynnal rhaglenni iechyd a llesiant a phrosiectau presgripsiynu cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

CBSC: Llwyddwyd i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu nifer o weithgareddau dan do ac awyr agored sy'n cynnwys: Sesiynau Ffitrwydd Cyffredinol mewn canolfannau Hybiau Cymunedol – ffitrwydd carreg drws a chwaraeon Gweithgareddau awyr agored (dringo dan do, gweithgareddau dŵr, Nofio'n Ddiogel RNLI, E-feicio, beicio mynydd, padlfyrddio, gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol).

Mae dros 2000 o bobl yn elwa'n rheolaidd gan fynychu hyd at 3 sesiwn yr wythnos yng Nghonwy wledig gyda dros 50 sesiwn yr wythnos. Cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc - mae cyrsiau Addysg Hyfforddwr wedi cael eu cynnig a'u defnyddio gan dros 100 o bobl leol. Aeth tua 10% ymlaen i ddod o hyd i waith parhaol o fewn y diwydiant.

CBSC: Cynnig hamdden i bobl dros 60 oed. Darperir sesiynau penodol ar gyfer pobl hŷn yn wythnosol. Nod y cynllun yw gwella llesiant pobl dros 60 oed. Mae'r sesiynau nid yn unig ar gael yn y ganolfan ei hun, ond hefyd yn cynnwys cerdded, sgiliau dŵr ac e-feicio.


CBSC- Parc Cae Llan, Betws y Coed (sy'n eiddo'n rhannol i PCE), buom yn gweithio gyda Chydlynedd Partneriaeth Natur Leol PCE trwy'r gronfa Lleoedd Lleol i Natur i greu cynllun dyl-unio cytunedig (CBSC ar hyn o bryd yn comisiynu pensaer tirwedd ar gyfer y dasg) am fwy o wybodaeth i gael manau gwyrdd mwy bioamrywiol a rhyngweithiol. Mae PCE yn dymuno creu gofod dosbarth tyfu/awyr agored yn y parc fel rhan o hyn. Mae CBSC ar ein lesddaliad yn debygol o edrych ar blannu coed, perllan, gwarchod coed hynafol, dolydd, bonion ac ati.

CBSC - Mae Cae Chwarae Capel Curig wedi cael offer cwbl newydd.

Gwynedd Oed Gyfeillgar: Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio i fod yn awdurdod lleol oed gyfeillgar a golyga hyn weithio yn agos gydag amryw o grwpiau i gyrraedd y nod hwn. Bydd cyrraedd y nod yn cyfrannu tuag at lesiant unigolion y Parc ond hefyd yn trefnu digwyddiadau gydag amryw o bartneriaid ar draws y Parc er mwyn hybu llesiant a rhoi cyfleoedd i bobl hŷn gyfrannu.

Dementia Actif Gwynedd: Mae gan Dementia Actif Gwynedd 14 dosbarth wythnosol ar draws Gwynedd gyda rhai ohonynt o fewn ffiniau'r Parc, megis Dolgellau. Mae Dementia Actif Gwynedd hefyd yn cynnal sesiynau Ffrindiau Dementia er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a lleihau stigma.

EB: Prosiect Babi Actif yn parhau, gan gynnwys sesiynau (buggyfit, ysgolion coedwig, teithiau cerdded natur ac ati) i ddarpar-famau a rhieni newydd, i'w hannog i fod yn egniol yn yr awyr agored.

B1.3		<p>Cynllunio prosiect yn seiliedig ar y berthynas hir a chyfatebol rhwng pobl Eryri a'r tir</p> <ul style="list-style-type: none"> • Casglu grŵp o arbenigwyr yn y maes i adnabod ffyrdd posibl o weithredu'r prosiect hwn • Adeiladu ar waith Partneriaeth Tirwedd y Carneddau sef y Prosiect Hanes Llafar • Hyrwyddo gweithdai gyda nifer o gynrychiolwyr cymunedau er mwyn trafod y dulliau gorau o fynegi'r cysylltiadau cynhenid hyn • Cefnogi a chynghori (fel bo angen) datblygiad y prosiect hyd ei ddiwedd, yn unol â phenderfyniad preswylwyr lleol 	<p>Erbyn 2021 byddwn yn sicrhau bod sesiwn mapio meddwl wedi digwydd a bod cysylltiadau wedi eu gwneud gyda chynrychiolwyr perthnasol o'r gymuned.</p> <p>Ar gyfer dathlu 70 mlynedd ers dynodi Parc Cenedlaethol Eryri, bydd gweithdai wedi eu cynnal a bydd y prosiect wedi ei lansio ac yn cael ei gydlynu hyd ei derfyn.</p>	<p>APCE</p> <p>Holl bartneriaid ac aelodau Cymuned perthnasol.</p>
<p><i>Cyflawnwyd y cam hwn trwy ddathliadau Eryri 70 a sefydlodd nifer o brosiectau cymunedol yn dathlu ac yn archwilio beth oedd yn ei olygu i fyw a gweithio yn Eryri. Mae'r wefan www.eryri70.cymru yn dangos sut mae Eryri wedi ysbrydoli artistiaid amrywiol ers canrifoedd drwy ofyn cwestiynau, darganfod ac hel atgofion am orffennol, presennol a dyfodol y parc, gan arddangos gwaith amrywiaeth enfawr o artistiaid a phobl ifanc lleol sy'n cael eu hysbrydoli gan Eryri yn eu gwaith creadigol. Mae gwaith Prosiect Hanes Llafar Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn mynd rhagddo yn ogystal â phrosiect Ardudwy sy'n mynd rhagddo yn cofnodi straeon yn ymwneud ag amrywiol adeiladau ac olion adeiladau ledled yr ardal. Bydd y ffocws ar les cymunedau Eryri yn parhau am weddill y Cynllun a thu hwnt.</i></p>				

CANLYNIAD B2

Gall preswylwyr ac ymwelwyr ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol gyda golwg ar wella iechyd y corff a'r meddwl.

A ydym o fewn ein llinell amser? Mae'r llinellau amser wedi'u diwygio.


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Trafodaethau parhaus gyda Phartneriaid i gytuno ar CLG.

Casgliad:

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B2. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
B2.1		<p>Creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal llwybrau hirion sydd wedi eu diffinio'n glir, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnydd (yn arbennig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a hyrwyddir a llwybrau cyswllt rhwng trefi a phentrefi</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cynulleidfaoedd targed ar gyfer llwybrau yn unol â pholisi B1.1 • Adolygu Strategaeth Hamdden y Parc Cenedlaethol a sicrhau ei bod yn cyflawni Canlyniad B2 ac yn cynnwys safonau cenedlaethol ar gyfer arwyddion, celfi a hygyrchedd • Ymestyn llwybrau hygyrch trwy symud rhwystrau a chaniatáu mynediad i bawb lle bo'n bosibl, a darparu dewisiadau cyfyngol o leiaf o ran celfi • Llunio arolwg ymhlith pobl leol, rhanddeiliaid ac ymwelwyr er mwyn asesu eu hanghenion a'u gofynion o safbwynt mynediad yn eu hardal leol, ac hefyd unrhyw rwystrau y maent yn eu wynebu wrth fynd allan i'r awyr agored • Yn seiliedig ar y canlyniadau creu cynllun map ar gyfer datblygu llwybrau, gan gynnwys archwilio dewisiadau ar draws y Parc Cenedlaethol mewn ardaloedd megis Bala - Traws, Bala - Dolgellau (yn amodol ar gydymffurfio â gweithred A2.5) a chanfod sut y gellir gwella mynediad ar gyfer pobl anabl i'r safleoedd mwyaf poblogaidd yn y Parc Cenedlaethol • Adnabod ffynonellau arian a dilyn ceisiadau am gyllid er mwyn gwireddu'r cynllun • Cefnogwch lwybrau pellter hir sydd eisoes yn bodoli fel Llwybr Llechi Eryri, Ffordd Cambrian, Taith Ardudwy, Ffordd y Pererinion, Cylchdaith yr Wyddfa, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr Arfordir Cymru ayyb. 	<p>Caiff y cynllun gweithredu yn y golofn 'Trosolwg o'r camau' ei weithredu dros y 5 mlynedd nesaf fel bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn 2025.</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>CNC</p> <p>Fforymau Mynediad Lleol</p> <p>Cymdeithas Eryri</p> <p>Llwybr Llechi Eryri</p>

Adroddiad cynnydd: APCE: Strategaeth Hamdden APCE i gael ei mabwysiadu'n swyddogol yn ystod 2024. Mae hyn yn cynnwys cydnabod lledaeniad ac amrywiad gweithgareddau sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol, a nodi lle mae bylchau yn y darpariaethau hynny, megis llwybrau ceffylau.


Gwaith ar lwybrau strategol sy'n cael eu hyrwyddo yn parhau ynghyd â llwybrau eraill pwysig fesul ardaloedd y Wardeniaid. Gwaith cydweithio yn parhau i ddatblygu ffyrdd o gysylltu ardaloedd/pentrefi gan greu llwybrau pellter hir.


Mae gwaith i hyrwyddo llwybrau penodol yn parhau ar wefan yr Awdurdod. Bwriedir parhau â thaith y mis, gyda themâu amrywiol gan ddibynnu ar y Warden sy'n arwain.

CESS: Rydym yn parhau â'n gwaith o drefnu diwrnodau gwirfoddoli ymarferol i gynnal llwybrau troed, gyda rhai o'r rhain yn cynnig hyfforddiant achrededig i wirfoddolwyr. Derbyniodd 16 o bobl yr hyfforddiant achrededig yn ystod 2023.

CNC: Llwybr Beicio Traws Eryri yn cael ei ddatblygu gyda Cycling UK. Cyflwyno Llwybr Arfordir Cymru a rhaglen Llwybrau Cenedlaethol gyda'r Awdurdodau Lleol. Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu llwybrau Teithio Llesol drwy'r cyfan o PCE ac yn cysylltu ag ef, e.e. Llwybr teithio Llesol Dyffryn Conwy.

CBSC: Datblygu'r Llwybr teithio Llesol o'r Arfordir i'r Dyffryn a fydd yn ymgorffori tri phrosiect gan roi hwb i raglen fuddsoddi ar Lwybr Teithio Llesol Arfordir i'r Dyffryn a gwelliannau i gysylltedd a gwydnwch cyffredinol ledled Dyffryn Conwy.

B2.2		<p>Sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gydag APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau'r ucheldir</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu cynllun blaenoriaethau a chynnal llwybrau i sicrhau bod adnoddau yn cael eu rheoli yn effeithiol ac wedi eu targedu • Parhau i weithredu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Conwy a'i adolygu yn rheolaidd. Cytuno ar MD gyda Chyngor Gwynedd a'i weithredu • Sicrhau bod yr holl bartneriaid sydd yn cwblhau gwaith Hawliau Tramwy o fewn y Parc Cenedlaethol yn gweithio i'r safonau a nodir yn y strategaeth mynediad o dan Bolisi B2.1 	<p>Erbyn diwedd 2021, bydd y Cynllun Cynnal wedi ei lunio a'i weithredu. Bydd cytundebau mewn lle gyda Chyngor Gwynedd.</p> <p>Erbyn diwedd 2022, bydd y ddogfen safonau mewn lle ac wedi ei harwyddo gan bartneriaid penodol.</p> <p>Bydd arolygon system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) yn darparu data mesuradwy ar gyfer rhwydwaith llwybrau Conwy</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>CNC</p> <p>Ramblers Cymru</p>
<p>Adroddiad cynnydd: APCE: Mae MOU yn parhau i gael ei drafod gyda CG i amlinellu cyfrifoldebau. System rheoli hawliau tramwy newydd a fydd yn galluogi gwell rheolaeth ar ymholiadau, y rhwydwaith, ac integreiddio mwy effeithiol gyda system reoli Cyngor Gwynedd.</p> <p>Mae gwaith yn parhau yn yr ucheldir megis gwaith ar dirlithiad llwybr y Mwynwyr, Yr Wyddfafa ac ar Mynydd Moel Cadair Idris ble mae gwaith 'pitsio' sylweddol yn digwydd.</p> <p>CNC: Llwybrau ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, yn cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol. Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i wella hawliau tramwy ar ystâd goedwig CNC – parhaus.</p>				

B2.3		<p>Gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi eu heithrio o gymdeithas Gweler hefyd bolisi B2.1</p> <ul style="list-style-type: none"> • O ran mynediad i'r Parc Cenedlaethol, ymchwilio i'r rhwystrau a wynebir gan y cyhoedd, gan gynnwys pobl anabl, rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a grwpiau eraill sydd wedi'u hallgáu • Datblygu camau o dan Bolisi B2.1 i wella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi eu heithrio • Gweithio gyda grwpiau targed ac elusennau penodol yng nghyfnod cynnar dylunio'r prif brosiectau mynediad 	<p>Erbyn diwedd 2025, bydd y gwaith ymchwil wedi ei gwblhau.</p> <p>Byddwn yn sicrhau cynnydd mesuradwy yn y ddarpariaeth fydd ar gael erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.</p>	<p>APCE CNC Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Chwaraeon Cymru</p>
------	---	---	---	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Fideos hyrwyddo ar gyfer pob mynediad i bob llwybr/llwybrau sy'n gyfeillgar i drampwyr wedi'u cwblhau, a byddant ar gael ar wefan APCE. Cynyddodd llogi trampwyr o 20% yn 2023. Mae beic 4 olwyn newydd hefyd ar gael i'w logi am ddim.

Mae'r Strategaeth Hamdden yn canolbwyntio ar yr opsiynau lleiaf cyfyngol ac athroniaeth Milltir heb Gamfeydd/Mile without Stiles.

CNC 'Trwy Bob Dull Rhesymol' - mae hwn yn y broses o gael ei ddiweddarau i gyd-fynd â Chanllawiau Hygyrchedd Awyr Agored y DU a lanswyd ym mis Ebrill 2023.

CNC: Prosiect peilot WCP gyda'r Experience Community. Mae hyn wedi arwain at astudiaeth beilot bellach ar Phototrails a gwybodaeth Google Streetview ar gyfer y rhannau hygyrch a nodwyd ym mhrosiect peilot WCP. Mae profion defnyddwyr ar y gweill. Arweiniodd y prosiect peilot hefyd at welliannau ffisegol ar lawr gwlad. Mae CNC yn cynnal arolwg o rwystrau ar dir hygyrch ar ystad CNC.

Mae BMC wedi sefydlu ymgyrch 'awyr agored i bawb' i geisio sicrhau bod pawb yn cael mynediad i'r awyr agored.

CANLYNIAD B3

Caiff ein Rhinweddau Arbennig eu cydnabod yn eang

A ydym o fewn ein llinell amser? Addaswyd ar ôl Covid ond nawr mae ar y trywydd iawn gyda ffocws newydd ar gynaliadwyedd a budd cymunedol.


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Effeithiwyd ar flaenoriaethau sefydliadau amrywiol – cynhelir adolygiad llawn o'r Amcan hwn yn 2025 i adlewyrchu blaenoriaethau newidiol y sector Twristiaeth a'r amrywiol ymgynghoriadau a strategaethau sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad.

Casgliad

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B3. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.


Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
B3.1		<p>Datblygu strategaeth marchnata brand ar gyfer Eryri yn seiliedig ar y Rhinweddau Arbennig a'i gweithredu yn gyson ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan ddefnyddio dealltwriaeth a gwybodaeth lleol, creu darlun cadarn a chlr o hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol y Parc Cenedlaethol. Yn dilyn datblygu egwyddorion ar gyfer Rheoli Ymwelwyr (gweler Polisi A1.1), datblygu strategaeth marchnata/brand ar gyfer Eryri wedi ei seilio ar hyrwyddo a diogelu ei Rhinweddau Arbennig. Dylai'r strategaeth ystyried: 'Brand Cymru' gan Croeso Cymru; cynulleidfaoedd targed a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg; mynd i'r afael â gorlenwi ac effaith ar yr amgylchedd mewn mannau poblogaidd; pwysleisio elfennau eco a gwyrdd, mwynhâd tawel; manteision yr amgylchedd i lesiant; hyrwyddo diwylliant lleol, yr iaith Gymraeg, bwyd a diod Cymreig Creu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol a Ddehongli ar gyfer y Parc Cenedlaethol ochr yn ochr â'r brand marchnata (uchod) Datblygu cyfleoedd ar gyfer gwella profiadau i ymwelwyr trwy gyswllt gydag agweddau hanesyddol a diwylliannol e.e. safleoedd Treftadaeth y Byd, llwybrau llechi, hanes mynydda a hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg a'r iaith Gymraeg. Datblygu gwybodaeth ac adnoddau fydd yn dathlu safleoedd amlwg mewn llenyddiaeth a diwylliant Cymreig, ac annog parch a dealltwriaeth tuag at yr iaith Gymraeg Archwilio'r posibilrwydd o lansio cystadleuaeth flynyddol ar gyfer 'Prifddinas diwylliant Eryri' (gan ddefnyddio gwersi o'r model Dinas Diwylliant). Bydd y dref/pentref buddugol yn derbyn arian i hyrwyddo a threfnu gweithgareddau diwylliannol am y flwyddyn APCE i wella a moderneiddio ei wefan yn unol â'r strategaeth marchnata a brandio newydd Comisiynu ffotograffau newydd o'r ardal i adlewyrchu egwyddorion y strategaeth marchnata a brandio newydd: fideos cyfryngol; ffilmiau drôn; ffeiliau gpx o lwybrau ayyb 	<p>Erbyn diwedd 2021, byddwn wedi gweithio gyda'n partneriaid i greu strategaeth marchnata a brandio newydd yn seiliedig ar wybodaeth leol, a byddwn wedi datblygu strategaeth ddehongli yn sgil hyn.</p> <p>Gan ddefnyddio gwefan wedi ei dylunio o'r newydd a darluniau, sefydlu nifer o brosiectau i gryfhau agweddau hanesyddol, diwylliannol a llenyddol o fywyd yr ardal.</p> <p>Bydd adolygiad o'r brand newydd yn cael ei gynnal erbyn 2025.</p>	<p>APCE</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cadw</p> <p>Cyngor y Celfyddydau</p> <p>Menter Iaith</p> <p>Amgueddfa Lechi Genedlaethol</p> <p>Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd</p>

Adroddiad cynnydd: APCE: Rhinweddau Arbennig Eryri yw prif thema trydedd gyfres Podlediad Eryri gyda 18 pennod yn cael eu cyhoeddi yn 2023/24. Cefnogwyd ymgyrch ddigidol ar y tymor ymwelwyr yn ystod Haf 2023 sy'n amlgu'r rhinweddau arbennig gan 40 o Lysgenhadon Digidol Eryri i hyrwyddo negeseuon ymhellach. Bydd y strategaeth treftadaeth ddiwylliannol ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r aelodau i'w rhoi ar waith yn ystod 2024. Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc wedi parhau i ddatblygu strwythurau cydweithio yn ystod 2023 gan gynnwys trwy grŵp tasg cyfathrebu a marchnata fel rhan o Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035.

Mae briff wedi ei lunio ar y cyd i gomisiynu gwaith i weithio gyda'r ddau bartner yn ystod 2024 ar frand a negeseuon cyfathrebu wedi eu selio ar egwyddorion Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035.

CBSC: Lansiwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Newydd yn 2023 gyda ffocws ar gynaliadwyedd a budd cymunedol.

<p>B3.2</p>		<p>Annog ymwelwyr i ddod ar wahanol amseroedd o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y cyfnod prysuraf ac er mwyn helpu busnesau i oresgyn anawsterau tymhorol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo tymor y gaeaf a 'llywiau'r hydref'. Defnyddio darluniau tymhorol ar wefannau • Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd yn sgil "Ffordd Cymru" • Defnyddio enghreifftiau sydd gennym ar gyfer ystyried y syniad o deithiau thematig fydd yn hyrwyddo Rhinweddau Arbennig Eryri 	<p>Bydd y syniadau blaengar hyn mewn lle erbyn diwedd 2021</p>	<p>APCE Croeso Cymru Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy CNC Ymddiriedolaeth Genedlaethol Plas y Brenin Eryri-Bywiol</p>
--------------------	---	---	--	--


Adroddiad cynnydd: APCE: Anogwyd cynulleidfaoedd i ymweld yn ystod y tymhorau ysgwydd a thwristiaeth awyr dywyll fel rhan o ymgyrch tymor ymwelwyr APCE 2023.

Ymgyrch ar-lein wedi'i hanelu'n benodol yn ystod gaeaf 2023 (ac ymlaen i ddechrau 2024). 'Mae Eryri yn fwy na mynydd' gan dargedu themâu megis 'pethau i'w gwneud yn y glaw' a 'theithiau cerdded gaeafol hygyrch' er mwyn annog cynulleidfaoedd i ymweld ag ardaloedd llai adnabyddus yn Eryri ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

CNC - Tenantiaid yng Nghoed y Brenin yn gorfod cynnal digwyddiadau yn ystod y tymor ysgwydd. Mae tîm ymwelwyr CNC yn cynnal digwyddiadau yn y Gaeaf.

CG: Lluniwyd briff ar y cyd i gomisiynu gwaith i weithio gyda'r ddau bartner yn ystod 2024 ar frand a negeseuon cyfathrebu wedi eu selio ar egwyddorion Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035. Un o flaenoriaethau'r comisiwn fydd ehangu'r tymor ymwelwyr ac annog pobl i ymweld yn ystod cyfnodau tawelach. Bydd hefyd yn cyfathrebu negeseuon i gefnogi busnesau lleol ac i barchu rhinweddau a nodweddion arbennig yr ardal.

CBSC: Lansiwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Newydd yn 2023 gyda ffocws ar gynaliadwyedd a budd cymunedol.

<p>B3.3</p>		<p>Defnyddio'r strategaeth marchnata fel man cychwyn, datblygu cynllun ar y cyd gyda phartneriaid ynghylch y wybodaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid mewn ymddygiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod y gynulleidfa darged ar gyfer gwybodaeth a newid mewn ymddygiad • Adnabod pa fath a pha fformat gwybodaeth sydd fwyaf effeithiol, a pha ieithoedd y mae mwyaf o alw amdanynt • Datblygu cynllun ar y cyd i gynnwys canllawiau ar sut y byddwn yn darparu gwybodaeth cyn, yn ystod ac yn dilyn ymweliad, yn ogystal â rhesymoli'r gymysgedd a'r defnydd o ddulliau modern a thraddodiadol o ddarparu gwybodaeth • Gwella gwybodaeth ar gyfleoedd hamdden gan dargedu grwpiau penodol yn unol â'r strategaeth brand a'r cynllun gwybodaeth, a llenwi unrhyw fylchau yn y wybodaeth • Gweithio gyda busnesau twristiaeth i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am y Parc yn unol â'r strategaeth brand a'r cynllun gwybodaeth e.e. trwy gynllun llysgennad 	<p>Erbyn diwedd 2020, bydd cynulleidfa oedd targed wedi eu hadnabod fel rhan o gynhyrchu'r wefan newydd.</p> <p>Bydd cynllun llysgennad peilot wedi ei sefydlu a bydd y gwersi gaiff eu dysgu yn cael eu cymhwyso ar draws y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Bydd y strategaeth brandio yn cyfrannu at y Cynllun ar y cyd ac yn ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir erbyn diwedd 2022.</p> <p>Bydd adolygiad o'r brand newydd yn cael ei gynnal erbyn 2025..</p>	<p>APCE</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Croeso Cymru</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Partneriaeth Awyr Agored</p> <p>Chwaraeon Cymru</p> <p>Eryri-Bywiol</p> <p>GAT</p> <p>CNC</p>
--------------------	--	--	---	--

Adroddiad cynnydd: APCE: Lansiyd cynllun strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2025 ym mis Medi 2023 a bydd y ddau Awdurdod yn cydweithio ar gyfathrebu yn 2024. Bellach mae gan Gynllun Llysgenhadon Eryri dros 1000 o gyfranogwyr.

CNC - Yn hyrwyddo Teithiau Tymhorol.

PAA: Parhau i weithio ar a thyfu cynulleidfa cyfryngau cymdeithasol Caru Eryri a chefnogi negeseuon APCE. Targedu cyfleoedd gwirfoddoli Caru Eryri gydag ymwelwyr i'r ardal, ac wedi gweithio gyda Chroeso Cymru i gynhyrchu fideo hyrwyddol i'r cynllun..

CBSC: Rydym yn cynnal sesiynau briffio gyda busnesau a chymunedau yn ardal Conwy ym Mharc Cenedlaethol Eryri i ganfod awydd i gofrestru'n ffurfiol i Strategaeth Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Bydd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth i randdeiliaid am y strategaeth, sut gall partneriaid gymryd rhan a gwybodaeth am newid ymddygiad.

CG: Gweler B3.2

EB: Hyrwyddo strategaeth AdventureSmart yn Eryri yn barhaus i annog mwynhad diogel (yn arbennig o berthnasol gyda'r ymdrech i hybu twristiaeth yn ystod adegau tawel o'r tymor (B5.2).

Gweithio gydag APCE a LLMRT i ddarparu sylfaen dystiolaeth i lywio ymyriadau i wella diogelwch ar Yr Wyddfâ. Gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill i sefydlu Partneriaeth Diogelwch Awyr Agored Gogledd Cymru.

CANLYNIAD B4

Caiff dewisiadau cynaladwy ar gyfer parcio a thrafnidiaeth eu gweithredu.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydym


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Diffyg cyllid / buddsoddiad
- Diffyg ymrwymiad gan y Partneriaid i'r Strategaeth Barcio a Thrafnidiaeth
- Datblygiadau ehangach yn goddiweddyd y weledigaeth a'r strategaeth wreiddiol.

Casgliad:

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B4. Mae'r amcan ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif y canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
B4.1		<p>Gwella cynladwyedd ac argaeledd trafndiaeth ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr a mynd i'r afael â phroblemau parcio</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu systemau trafndiaeth cyhoeddus mewn ardaloedd poblogaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion a gofynion preswylwyr ac ymwelwyr • Sefydlu partneriaethau ymroddgar i sicrhau bod yna reffeniw digonol i gynnal gofynion trafndiaeth cyhoeddus • Defnyddio trafndiaeth cyhoeddus fel modd o drosglwyddo gwybodaeth i ymwelwyr • Gwella perthnasoedd gwaith gyda busnesau, mentrau cymdeithasol, cymunedau a thir feddianwyr, gan annog datrysiadau ar sail cymunedol • Sicrhau bod teithiau trafndiaeth cyhoeddus wedi eu cysylltu'n sicr gyda llwybrau a hyrwyddir gennym • Cefnogi mesurau teithio llesol fel y nodir yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru 	<p>Gweithio gyda'r holl argymhellion yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen 2020 i weithredu mesurau ar draws y Parc Cenedlaethol. Adolygu ac addasu mesurau yn ôl yr angen erbyn 2025.</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Holl dirfeddianwyr sy'n bartneriaid</p> <p>Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru</p> <p>Llywodraeth Cymru</p>


Adroddiad cynnydd: Mewn partneriaeth â TrC, CG a CBSC, mae APCE wedi hyrwyddo sawl elfen o Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen megis: gwelliannau i rwydwaith Sherpa'r Wyddfa; Astudiaeth WelTag Cam 1 a 2 o Lwybrau Teithio Llesol; gosod synwryddion a chyfleu gwybodaeth fyw i ymwelwyr; symud ymlaen gyda'r sustem rhag archebu ar gyfer Pen y Pass; creu Partneriaeth ar gyfer manau cyfyng Ogwen a Nant Gwynant.

CBSC - Rydym wedi gosod gwefrwyr e-feiciau a standiau cynnal a chadw beiciau ar lan y môr yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr – ychydig y tu allan i ffiniau'r Parc ond yn annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio i/o fewn y Parc

CBSC - Mae Môr i'r Mynydd / Coast to Valley yn brosiect Cyllid Lefelu i Fyny Llywodraeth y DU (LUF) a'r weledigaeth yw creu llwybr cerdded a beicio pellter hir, diogel, uniongyrchol a deniadol o Gyffordd Llandudno trwy Ddyffryn Conwy i Fetws y Coed. , ochr yn ochr â gwelliannau i gysylltedd lleol a gwrthsefyll llifogydd. Mae LUF yn ariannu tri phrosiect, gan roi'r cyfle i roi hwb i raglen fuddsoddi ar Lwybr Teithio Llesol o'r Arfordir i'r Dyffryn a gwelliannau i gysylltedd a gwydnwch cyffredinol ledled Dyffryn Conwy: Glan Conwy i Gyffordd Llandudno; Betws y Coed i Lanrwst; Trefriw B5106 Gwydnwch rhag Llifogydd; Gwaith adeiladu i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2026.

CG: Bysiau

- Yn dilyn cwblhau adolygiad rhwydwaith bysiau, gyda mewnbwn gan Trafnidiaeth Cymru, mae sylw penodol i gyflwyno amserlenni gyda chysylltiadau rhwng bysiau a threnau sy'n creu posibiliadau teithio ehangach gan deilwra'r amserlenni i weithredu'n fwy cynaliadwy er mwyn ceisio cynnyddu posibiliadau teithio i ardaloedd gwledig.
- Wedi cyflwyno amserlenni newydd yn Nyffryn Nantlle a Chaernarfon yn 2023. Mae gwaith tendro gwasanaethau ardal Meirionnydd yn mynd rhagddo (gweithredol o 12 Chwefror 2024).
- Rhai gwasanaethau newydd yn weithredol ers Tachwedd 2023 fel gwasanaeth newydd G23 Abermaw – Porthmadog sydd yn cynnig amllder uwch o gyfleoedd teithio ar y trywydd gyda'r nod o wneud y bws yn ddewis fwy atyniadol.
- Gwedd newydd i wasanaethau TrawsCymru T2/T28 a T3/T3C gan sicrhau gwell cydgysylltiad gwasanaethau.
- Trwy gydweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, gwaith paratoi ar gyfer 2 o wasanaethau Fflecsi newydd yn ne Meirionnydd a fydd yn cynnig cyswllt trafndiaeth pwysig yn rhai o ardaloedd gwledig y sir.
- Gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa yn dangos cynnydd sylweddol yn defnydd a wedi ennill canmoliaeth a cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol.

B4.2		<p>Archwilio a sefydlu cyfleoedd i annog trafnidiaeth fwy gwyrdd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon er mwyn annog symudiad tuag at ddefnyddio technolegau mwy gwyrdd ar gyfer teithio megis ceir, bysiau a beiciau trydan • Gwella gwybodaeth a marchnata o safbwynt teithio i'r Parc a theithio o'i gwmpas, gan sicrhau bod y dewisiadau mwyaf cynaladwy yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu • Defnyddio technoleg smart er mwyn annog newid arferion (e.e. Cynllun Menter) • Fel ym Mholisi A3.1 gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn mannau strategol yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr a theithwyr 	<p>Gweithio gyda'r holl argymhellion yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen 2020 i weithredu mesurau ar draws y Parc Cenedlaethol. Adolygu ac addasu mesurau yn ôl yr angen erbyn 2025.</p> <p>Bydd ffordd newydd o fesur cyfraniad ac effaith ymwelwyr ar yr ardal mewn lle erbyn 2021 a bydd yn asesu ffactorau amgylcheddol</p>	<p>APCE CNC Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Croeso Cymru Partneriaeth Ogwen</p>
------	---	--	--	--

Adroddiad Cynnydd: APCE: Fel uchod a thrwy greu Strategaeth Garbon ar gyfer yr Awdurdod. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd mae'r Awdurdod yn gweithredu ffordd newydd o fesur effaith twristiaeth yn Eryri o dan y Cynllun Economi Ymwelwdd Cynaliadwy.

CNC: Yn hyrwyddo cyfleoedd i ymwelwyr ddefnyddio opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn ystod eu teithiau.

CBSC: Llwybr teithio llesol – Arfordir i'r Fali. Llwybr beicio a cherdded yw hwn yn bennaf

CBSC: Cynllun blasu E-BEIC. Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg ar draws ardaloedd Conwy wledig a Chonwy/Bodlondeb i gynnig teithiau e-feic tywys yn rhad ac am ddim, fel ffordd o annog mwy o bobl i roi cynnig ar gludiant gwyrddach amgen. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu haddysgu am ddiogelwch ar y ffordd ac arferion beicio a manteision beicio yn gyffredinol.

Mae'r BMC wedi bod rhedeg safleoedd lift rhannu ar gyfer dringwyr a cherddwyr. Y 'Green Guide' newydd yn annog pobol i geisio anturiaethau gyda trafnidiaeth gyhoeddus.

CG: Teithio Llesol

- Cynlluniau teithio llesol wedi ei rhoi ar waith yn unol a'r rhaglen a ariannir gan Llywodraeth Cymru.
- Bidiau wedi ei cyflwyno i Llywodraeth Cymru am gyllid er mwyn cwblhau camau pellach rhai cynlluniau a cychwyn rhai newydd.
- Cyllid Ffyniant Bro yn ariannu gwelliannau Lon Ogwen rhwng Bangor a Llyn Ogwen.

Mannau Gwefru Cyhoeddus

- Mae rhaglen waith i ddarparu peiriannau gwefru yn meysydd parcio a lleoliadau cyhoeddus arall yn parhau i fynd rhagddo.
- Mae diweddariad ar hyn yn Atodiad 1.

Bysiau Trydan

- Gwaith wedi ei wneud er mwyn sefydlu depo a isadeiledd gwefru fydd yn cefnogi a hwyluso darpariaeth gwasanaeth bws newydd y TrawsCymru T22 rhwng Caernarfon – Porthmadog – Blaenau Ffestiniog.
- Proses pwrcasu wedi ei ymgymryd er mwyn adnabod darparwr.

Amserlen a thocynnau safonol a atyniadol yn cael ei cyflwyno gyda'r bwriad o ddatblygu marchnadoedd a defnydd fydd yn sicrhau cynaladwyedd y gwasanaeth o safbwynt ariannol a amgylcheddol yn ogystal a cefnogi achosion busnes i wella a ddatblygu'r darpariaeth.

CANLYNIAD B5

Mae ein cyfleusterau ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn parchu'r Dirwedd.

A ydym o fewn ein llinell amser?

Mae'r llinellau amser wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith Covid-19 ac maent ar y trywydd iawn nawr.


A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Ddim ar hyn o bryd – mae'r amserlenni wedi'u haddasu i adlewyrchu'r aflonyddwch yn 2020-21 ond mae'r holl elfennau ar fin cael eu cyflawni.

Casgliad:

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B5. Mae'r amcan ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
B5.1		<p>Cyfleusterau ymwelwyr yn derbyn cyllid a buddsoddiad digonol i gyrraedd a gwella ar ddisgwyliadau ymwelwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesu cyfleusterau ymwelwyr (canolfannau, toiledau ayyb) o fewn y Parc Cenedlaethol ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau Trwy gyfrwng arolwg ymwelwyr, monitro'r farn ar gyfleusterau a gweithredu ar unrhyw argymhellion Asesu posibiliadau a chynladwyedd ehangu Canolfannau Gwybodaeth a Chanolfannau Ymwelwyr i fod yn ganolfannau cymunedol / llesiant 	<p>Erbyn diwedd 2021, bydd canlyniadau'r asesiad cyfleusterau wedi eu derbyn, a bydd astudiaeth posibilrwydd ehangu rôl y canolfannau croeso wedi ei chwblhau.</p> <p>Bydd canlyniadau'r arolwg ymwelwyr yn dylanwadu ar flaenoriaethau'r dyfodol.</p>	<p>APCE</p> <p>CNC</p> <p>Ymddiriedolaeth Genedlaethol</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Croeso Cymru</p> <p>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</p> <p>Cymdeithas Eryri</p>

Adroddiad cynnydd: APCE - Agorodd arddangosion rhyngweithiol newydd ym Metws y Coed i'r cyhoedd a chawsant dderbyniad da.


Treialwyd agor Canolfan Ymwelwyr Beddgelert ar benwythnosau drwy'r gaeaf. Roedd adborth gan ymwelwyr a'r gymuned leol yn hynod gadarnhaol. Astudiaeth ddichonoldeb i hyn barhau yn y dyfodol, i'w gynnal yng ngwanwyn 2024.

CNC - Pob un o'r 300 km o lwybrau ag arwyddbyst wedi'u harchwilio a'u cynnal a'u cadw yn unol â'r Canllaw Diogelwch Ymwelwyr.

Mae Cyngor Gwynedd, Awdurdod y Parc a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cydweithio i fabwysiadu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yn ystod 2023 ac fe gafodd ei lansio ym mis Medi 2023 ym Mhlas Tan y Bwlch.

Mae strwythurau gweithredu ar gyfer sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 bellach wedi eu cytuno, a bwriedir gweithredu'r strwythur newydd yn syth. Un o brif amcanion y bartneriaeth fydd cytuno ar gynllun gweithredu newydd fydd yn blaenoriaethu gwelliannau.


CG: Mae Partneriaeth Llechi Cymru wedi sicrhau cyllid sylweddol yn ystod 2023 i ymgymryd â gwelliannau ar draws 6 Chydran safle Treftadaeth y Byd. Mae hyn yn cynnwys £18.8m o gyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a dros £500,000 o gyllideb Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

B5.2		<p>Cefnogi gweithgareddau sydd yn cydfynd â Rhinweddau Arbennig Eryri – yn enwedig tawelwch – a hyn yn annog ymwelwyr i newid amser eu gwyliau a dod yn ystod yr hydref a'r gaeaf er mwyn ysgafnu'r pwysau yn y tymor prysur</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau a mentrau perthnasol i'r statws Awyr Dywyll • Cefnogi a hyrwyddo mentrau perthnasol i dwristiaeth gaeaf • Gwella a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol ehangach 	<p>Bydd ein Swyddog Awyr Dywyll yn gweithio i hyrwyddo dealltwiaeth o'r elfen bwysig hon yn Eryri, gan gyflwyno adroddiad perthnasol yn flynyddol.</p> <p>Erbyn diwedd 2021, bydd ein Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol a Dehongli yn cynnwys hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol yn unol â'r tymhorau (gweler polisi B3.1).</p>	<p>APCE Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Ymddiriedolaeth Genedlaethol Croeso Cymru CNC Cadw Ymddiriedolaeth John Muir</p>
------	---	--	---	---

Adroddiad cynnydd: Mae APCE, CG a CBSC wedi datblygu eu Rhaglenni Llysgenhadon llwyddiannus sy'n ceisio mynd i'r afael â materion tymhorol.

Mae APCE a CG wedi cynhyrchu Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy ar gyfer yr ardal ac yn gweithio mewn partneriaeth â CBSC i'w gyflenwi.

CNC: Partneriaeth Llifo Conwy - dyma'r fan lle gellir cydweithio ar broblemau'n ymwneud â'r hinsawdd, natur, pobl, a diwylliant yn nalgylch afon Conwy.

B5.3		<p>Llety o ansawdd uchel, yn gweddu i'r dirwedd, yn cwrdd â disgwyliadau a gofynion ymwelwyr ac yn helpu i gynyddu gwariant y pen</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio i'r gofynion a'r bylchau o ran llety ymwelwyr o ansawdd uchel gan gynnwys llety fforddiadwy • Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i ddatblygu Cynllun Rheolaeth Cyrchfan y Cyngor • Trwy gyfrwng Cynllun Datblygu Lleol, cefnogi datblygu a hyrwyddo llety ymwelwyr o ansawdd uchel sydd yn addas i'r dirwedd ac yn cwrdd â gofynion y farchnad 	Erbyn diwedd 2020 bydd gwaith ymchwil wedi ei gwblhau a bydd y CDLI yn cynnwys y canllawiau hyn.	APCE Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
------	---	--	--	--

Adroddiad cynnydd: CG: Bydd Cynllun Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn fodd o flaenoriaethu gwelliannau i gyfleusterau ar draws yr ardal trwy'r Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy.

APCE: Mae Pennod 6 y CDLIE ('Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy') yn tynnu sylw at y polisiau a gynlluniwyd i sicrhau bod datblygu economaidd yn cael ei annog ond mewn modd sy'n diogelu'r amgylchedd ac yn unol â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Cynhwyswyd polisiau newydd yn y CDLIE diwygiedig 2016-2031 sef;

Polisi Datblygu 27: Ardal Fenter Eryri

Polisi Datblygu 28: Llety newydd â gwasanaeth

Polisi Datblygu 29: Llety gwyliau amgen

Roedd y polisiau hyn yn hyrwyddo'r potensial ar gyfer datblygiad economaidd yn y Parc Cenedlaethol ac yn rhoi cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau llety newydd addas (ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â'r meini prawf a gynlluniwyd i ddiogelu rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol).

Er mwyn diogelu'r Parc Cenedlaethol, mae polisiau 22 a 23 yn nodi na chaniateir unrhyw safleoedd carafanau sefydlog, safleoedd siale / cabannau, safleoedd teithiol na safleoedd gweryslla newydd. Bydd hwn yn cael ei adolygu pan fyddwn yn adolygu'r CDLI yn 2024-5.

Gweler hefyd B5.1.

Cymunedau ac Economi Eryri: Lle Gwych i ddatblygu, byw a gweithio

CANLYNIAD C1

Iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydym

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Nid oes dim yn effeithio ar gyflawni amcanion ar hyn o bryd.

Casgliad:

Bu cynnydd clir yn erbyn yr holl fesuriadau llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad C1. Mae'r amcan ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
C1.1	●	<p>Hyrwyddo deall, mwynhau a gwarchod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol lleol, grwpiau a phrosiectau creadigol sydd â chysylltiad gyda'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig • Creu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i fod yn llysgenhadon i iaith a diwylliant yr ardal • Arwain trwy esiampl gan sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael eu hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth • Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad yr iaith Gymraeg • Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i wella ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig • Sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw mewn unrhyw brosiectau, gweithgareddau neu gynlluniau sy'n deillio o gamau A5.1, A5.2, A6.1, B1.1 B1.2, B1.3, C4.1 a C4.2, boed hynny trwy addysgu am yr iaith, arwain trwy enghraifft a / neu hyrwyddo'r defnydd trwy ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg. 	<p>Byddwn yn sicrhau bod y grwpiau hyn yn bwydo i mewn i bolisi B3.1 pan gaiff ei sefydlu, bod Cynllun Cyfathrebu yn cael ei weithredu cyn diwedd 2021, bod canllawiau mewn lle yn y CDLI a'u bod yn cael eu monitro yn flynyddol.</p> <p>Bydd y camau hyn yn cael eu gwerthuso erbyn 2025.</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Ymddiriedolaeth John Muir</p>

APCE: Cyfres ar-lein ar sut i ynganu enwau daearyddol Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol. Cynnydd sylweddol mewn ceisiadau am wybodaeth a dealltwriaeth gan gyfryngau allanol ar ddefnyddio'r Wyddfa ac Eryri yn unig mewn cyfathrebu rhyngwladol.

Mynychodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol Eisteddfod Genedlaethol 2023 i hyrwyddo ein gwaith a'n dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig.

Mae prosiectau a mentrau Treftadaeth Ddiwylliannol, gan gynnwys Yr Ysgwrn, Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau a Phrosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn darparu cyfleoedd i gyfranogwyr a gwirfoddolwyr ymgysylltu â threftadaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a darparu cefnogaeth i ddysgwyr Cymraeg / siaradwyr Cymraeg newydd. Mae'r Ysgwrn wedi darparu adnodd Geiriau Diflanedig ychwanegol mewn cydweithrediad â CBS Conwy sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae enwau llynnoedd Eryri bellach wedi eu safoni a byddant yn cael eu mabwysiadu gan yr Arolwg Ordians yn eu gwasanaethau mapio.

CNC - Yr holl hyrwyddo a dehongli yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg. Mae ein holl gynigion yn ddwyieithog – arwyddion, digwyddiadau dehongli ac ati

Cefnogi prosiect Gwreiddiau Gwylt - Gwarchod a hyrwyddo'r defnydd o dermau amgylcheddol Cymraeg. Swyddog prosiect ar gyfer Conwy.

PAA: Wedi sefydlu gweithgor Cymraeg. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i bwysleisio ein bwriad parhaus i weithio drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog pan yn berthnasol. Yn 2023, cwblhaodd 10 aelod o Glwb Mynydda Cymruu gwrs Arweinydd Mynydd drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r cwrs wedi ei drefnu a'i ariannu gan YBAA i gyfoethogi a chryfhau'r clwb ar gyfer y dyfodol. Gall unigolion hefyd fynd ymlaen i weithio yn y maes ac arwain grwpiau yn broffesiynol yn dilyn asesiad llwyddianus.


CBSC - Yn rhedeg i mewn i'r flwyddyn ariannol hon, roedd gennym brosiect Llais y Carneddau yn y Ganolfan Ddiwylliant a oedd yn ymdrech ar y cyd rhwng Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, yr ymarferydd celf Rachel Evans, disgyblion Ysgol Aberconwy, ac Archifau Conwy. Bydd yr archif o'r gwaith prosiect hanes llafar a wnaed yn cael ei gadw yn Archifau Conwy ar ddiwedd y prosiect gan ei wneud yn hygyrch i gynulleidfa eang.

CBSC - Y flwyddyn ariannol hon rydym hefyd wedi cyflwyno sesiynau i 400 o ddisgyblion mewn ysgolion yn ardal y parc gan gynnwys Adrodd Straeon o'r Archifau, yr Ail Ryfel Byd ac Archwiliwch eich Archif, sydd wedi arwain at gwblhau 60 o Wobrau Celf.

Mae BMC Cymru wedi cytuno ar Bolisi Iaith Gymraeg i bob dogfen a gynhyrchir yng Nghymru, a byddant yn ddwyieithog.

CG: Cynhaliwyd gweithgareddau eang gan wasanaethau amrywiol o'r Cyngor gan gynnwys yr Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned a'r Adran Cefnogaeth er mwyn hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

Coed Cadw: wedi ymrwymo i ddefnyddio ein henw Cymraeg yn amlach yn ein gwaith cyffredinol. Sicrhau bod ein dogfennaeth a gynhyrchir yng Nghymru yn ddwyieithog a bod ein gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws ein gwaith ond yn arbennig yn ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu. Parchu'r enwau a lleoedd lleol wrth weithio ar safleoedd preifat ac annog dolen yn ôl i hen enwau lleoedd a chyfeiriadau Cymraeg. Sicrhau bod coed yn cael eu plannu'n briodol gyda'r goeden iawn yn y lle iawn, gan osgoi planhigfeydd coetir ungnwd a gwarchod ein coetiroedd brodorol a choed pwysig sy'n asedau diwylliannol a threftadaeth yr ardal.

C1.2		<p>Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn yr ardal</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo a chefnogi mentrau sydd yn annog ymfudwyr i'r ardal i ddysgu Cymraeg • Creu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl gymdeithasu a defnyddio'r iaith, yn enwedig drwy grwpiau gwirfoddolwyr fel ym Mholisiau A5.2 a B1.2 • Fel rhan o Bolisi B3.1 a B3.3 darparu hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant i fusnesau 	<p>Erbyn diwedd 2020 bydd Cynllun Llysgennad peilot wedi ei sefydlu ar gyfer Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa. Rydym yn anelu at ehangu hyn i gynnwys y cyfan o ardal y Parc Cenedlaethol erbyn 2021.</p> <p>Byddwn yn monitro nifer y dysgwyr Cymraeg a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grwpiau gwirfoddolwyr a gynigir gan yr holl Bartneriaid i fesur cynydd</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>CNC</p> <p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>Partneriaeth Awyr Agored</p> <p>Chwaraeon Cymru</p>
------	---	--	---	---


Adroddiad cynnydd: APCE: Mae gwirfoddolwyr Yr Wyddfa a Chader Idris yn cael eu paru yn ôl gallu ieithyddol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith. Erbyn mis Tachwedd 2023, roedd gan Gynllun Llysgennad Eryri dros 1000 o aelodau.

CESS: Wedi sicrhau bod ein holl staff sy'n wynebu'r cyhoedd yn ddwyieithog, felly ceir cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod ein holl ddigwyddiadau gwirfoddoli.

PAA: Cynlluniau i drefnu sesiynau penodol ar gyfer dysgwyr o fewn rhaglen Caru Eryri. Posibilrwydd o gydweithio gyda Chanolfan Iaith ysgolion Gwynedd a Chanolfan Nant Gwrtheyrn yn y dyfodol.

CG: Mae'r Fenter Iaith wedi cydweithio gyda grwpiau cymunedol a darparwyr cyrsiau dysgu Cymraeg er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dysgwyr Cymraeg yr ardal.

Coed Cadw: Sicrhau bod ein holl weithgareddau yn cael eu hyrwyddo'n ddwyieithog ac yn gallu darparu ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Rydym wedi bod yn recriwtio gan ystyried y ddarpariaeth Gymraeg, ac anogir ein holl staff i ddysgu neu loywi eu Cymraeg gyda'r nod o gynyddu gallu Cymraeg ein staff ein hunain i gefnogi ein hymgysylltiad allanol a'n hymwybyddiaeth fewnol a'n gallu yn y Gymraeg..

C1.3		<p>Diogelu enwau lleoedd Cymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd yn annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer busnesau, datblygiadau, tai a strydoedd Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd yn annog defnyddio arwyddion dwyieithog Dolen i raglen Ieithoedd Brodorol UNESCO er mwyn hyrwyddo enwau lleol y Parc Cenedlaethol a'i asedau mwyaf adnabyddus 	Byddwn yn sicrhau bod canllawiau yn y CDLI a bod Canllawiau Cynllunio Atodol yn bodoli er mwyn hyrwyddo'r elfennau hyn.	<p>Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol</p> <p>Menter Iaith</p> <p>APCE</p> <p>Cadw</p> <p>Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW)</p>
------	---	--	---	--

Adroddiad cynnydd: APCE - Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn parhau i gasglu enwau lleoedd i gyfrannu at y Rhestr o Enwau Hanesyddol Cymraeg. Dehonglir a hyrwyddir yr enwau trwy brosiectau creadigol. Mae enwau llynnoedd Eryri bellach wedi eu safoni a byddant yn cael eu mabwysiadu gan yr Arolwg Ordnans yn eu gwasanaethau mapio.

CNC: Partneriaeth Idwal - modiwl addysgol ar-lein Partneriaeth y Carneddau ar enwau lleoedd Cymru.

Mae'r BMC wedi lansio sawl fideo ar ynganu yn y Gymraeg yn dilyn y newidiadau swyddogol i'r Wyddfa ac Eryri. Byddwn yn ehangu hyn i fwy o leoedd yn Eryri yn y dyfodol.

CG: Mae Prosiect Enwau Lleoedd yn parhau i gael sylw gan ganolbwyntio ar faterion sydd o fewn rheolaeth Cyngor Gwynedd ac sy'n ein cynorthwyo i ddiogelu enwau Cymraeg.

CANLYNIAD C2

Swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i aros yn yr ardal.

A ydym o fewn ein llinell amser? Ydym

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?


Unrhyw ddiffyg buddsoddiad mewn seilwaith digidol yn y rhanbarth.

Canlyniadau penderfyniadau Llywodraeth Cymru i'r Sector Amaethyddol.

Casgliad:


Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad C2. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2023

Rhif canlyniad	Statws cynnydd	Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau	Mesurau llwyddiant	Sefydliad/au'n gyfrifol
C2.1		<p>Gwella seilwaith cyfathrebu yn yr ardal ar gyfer busnesau a chymunedau mewn modd na fydd yn amharu ar y dirwedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Cefnogi partneriaid i gyflawni mentrau blaengar a sensitif i'r tirlun er mwyn gwella seilwaith ar gyfer band eang, data symudol a'r rhyngwrwyd mewn ardaloedd gwledig Cefnogi mentrau o fewn y strategaethau twf rhanbarthol sydd yn gwella cysylltedd digidol ac hefyd yn gwarchod y tirlun Gweithio gyda Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r cynigion ymhellach ar gyfer creu swyddi o werth uchel ar draws ystod o feysydd. 	<p>Cysylltedd digidol ar draws Eryri wedi gwella'n sylweddol.</p> <p>Wi-fi rhad ac am ddim wedi ei gysylltu i ganolfannau cymunedol a hybiau hefyd ar gael.</p>	<p>APCE</p> <p>Cyngor Gwynedd</p> <p>Grwpiau Gweithredu Lleol</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</p> <p>Gogledd Cymru Creadigol</p> <p>Mantell Gwynedd</p> <p>BGC Conwy Sir Ddinbych</p>

Adroddiad cynnydd: CBSC – Fe wnaethom gefnogi Cyngor Cymuned Betws y Coed i geisio cyllid a gosod Wi-Fi am ddim yng nghanol BYC.

CG: Cyngor Gwynedd a) Cydweithio gyda Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu a gwireddu cynlluniau'r Rhaglen Digidol b) Gosod offer Trefi Clyfar ym mhrif ganolfannau'r sir. Annog a hwyluso buddsoddiadau masnachol cwmni Openreach yn y sir.

